

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cynnwys

Rhagair	4
Adran 1: Trosolwg Strategol	6
Cynllunio Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Deddfwriaethol ehangach.....	6
▪ <i>Dyletswyddau statudol sylfaenol sy'n gysylltiedig â chynllunio integredig</i>	6
▪ <i>Deddf y GIG (Cymru) 2006 Ymgysylltu ac Ymgynghori</i>	7
▪ <i>Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009</i>	7
▪ <i>Deddf Cydraddoldeb 2010</i>	7
▪ <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i>	8
▪ <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023</i>	8
▪ <i>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</i>	8
▪ <i>Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020</i>	9
Canllawiau a Gofynion Llywodraeth Cymru 2025/26 – 2027/28.....	9
▪ <i>Disgwyliadau Cyflawni ar gyfer 2025/26</i>	10
▪ <i>Gweithredoedd Galluogi</i>	11
Cyd-destun Strategol.....	12
▪ <i>Cymru Iachach - diweddar</i>	12
▪ <i>Adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd</i>	13
Adran 2: Trosolwg o Sefydliad a Rhanbarth Gogledd Cymru	15
Proffil ac Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru.....	15
▪ <i>Oedran</i>	15
▪ <i>Cyflyrau Hirdymor</i>	16
▪ <i>Deddf Gofal Gwrthgyfartal</i>	17
▪ <i>Atal</i>	17
▪ <i>Penderfynyddion Ehangach Iechyd</i>	17
Proffil Iechyd Meddwl.....	18
▪ <i>Gweithio clwstwr a gwaith traws-glwstwr</i>	19
Partneriaethau - Bwriad Strategol.....	20
▪ <i>Partneriaeth adfywio economaidd – Twf Gogledd Cymru</i>	20
▪ <i>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</i>	20
▪ <i>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</i>	20
▪ <i>Addysg a Gwella Iechyd Cymru</i>	21
▪ <i>Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC)</i>	21
▪ <i>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)</i>	21
▪ <i>Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)</i>	21
Mae DHCW yn gweithio mewn partneriaeth â GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddarparu gwasanaethau digidol a data cenedlaethol, sy'n cefnogi darparu gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru e.e., cofnodion digidol a systemau gwybodaeth ysbytai, sylfaenol a chymunedol.....	21
Amcanion Strategol.....	21
▪ <i>Yr Egwyddorion Dylunio</i>	23
▪ <i>Fframwaith Cynllunio Integredig y Bwrdd Iechyd</i>	24
Diweddariad ar Fesurau Arbennig (Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth Lefel 5).....	24
▪ <i>Trosolwg o'r ffactorau a ysgogodd yr uwchgyfeirio yn 2023</i>	24
▪ <i>Fframwaith Lefel 5 (Mesurau Arbennig) a meini prawf isgyfeirio</i>	24
▪ <i>Adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Lefel 5 (Mesurau Arbennig)</i>	25
Cynnydd Sefydliadol.....	26
▪ <i>Datblygu Sefydliad Effeithiol</i>	26
▪ <i>Datblygu strategaeth a newid hirhoedlog</i>	26

▪ Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol.....	27
▪ Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad.....	27
▪ Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu.....	27
Asesiad a Throsolwg Perfformiad.....	28
▪ Nod Pedwarplyg.....	29
▪ Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GIRFT).....	31
Crynodeb o Flaenoriaethau.....	31
Adran 3: Amcanion a Blaenoriaethau Strategol.....	32
Adran 4: Cyflawni'r Cynllun.....	121
Cyflawni newidiadau'n effeithiol.....	121
Perfformiad ac atebolrwydd.....	122
Rheoli Risg.....	123
Gweithlu.....	123
▪ Sgiliau ac Ymgysylltu.....	124
▪ Recriwtio a Chadw Staff.....	124
▪ Sefyllfa Staffio'r Gweithlu.....	125
Cyllid.....	126
▪ Trosolwg o'r Cynllun Ariannol.....	126
▪ Diffyg Sylfaenol.....	127
▪ Ein Hadnoddau.....	127
▪ Rhaglen Gyfalaf	129
▪ Risgiau Ariannol.....	130
Adran 7: Atodiadau.....	132
Adran 8: Byrfoddau a Geirfa.....	133

Rhagair

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) hwn yn nodi ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i wella iechyd a lles pobl Gogledd Cymru ac i ddarparu neu sicrhau gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel, effeithiol ac effeithlon. Mae'r Cynllun, sy'n cwmpasu tair blynedd o 2025/26, yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn i'r Bwrdd Iechyd ddod yn sefydliad hynod effeithiol, gan ymrwymo i barhau i adeiladu partneriaethau cryf â sefydliadau eraill ac yn bwysicach fyth â phobl a chymunedau ledled y rhanbarth.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi nodi eu disgwyliadau o'r Bwrdd Iechyd wrth gyflawni strategaeth a pholisïau cenedlaethol, ac mae uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2023 i Lefel 5 (Mesurau Arbennig) yn gosod set arall o ddisgwyliadau ar gyfer gwella a chyflawni. Mae'n amlwg bod rhaid gwneud cynnydd ar Flaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet a gofynion Lefel 5. Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r camau a gymerir, gan weithredu fel y map llwybr ar gyfer gwelliant a chyflawniad.

Mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gwneud cynnydd gyda gwelliant wedi'i nodi'n benodol mewn arweinyddiaeth, llywodraethu, diwylliant, ansawdd a diogelwch a llywodraethu a pherfformiad ariannol fel yr amlinellwyd yn Adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Lefel 5 (Mesurau Arbennig) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd cyn y gellir ystyried bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio ar lefel uchel, gyda heriau penodol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau gweithredol yn golygu bod gormod o gleifion yn aros yn rhy hir i gael mynediad at wasanaethau. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn nodi profiad da pan fyddant yn derbyn gofal, mae'r oedi wrth gael mynediad at y gofal hwnnw'n peri pryder go iawn.

Felly rhaid i'r Bwrdd Iechyd wella'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, dod yn fwy effeithlon, cynhyrchiol ac effeithiol, moderneiddio arferion a dysgu gan eraill yn ogystal â rhannu'r arloesedd a'r arferion gorau sy'n amlwg ar draws y bwrdd iechyd. Rhaid iddo wella drwy ddefnyddio adnoddau cyhoeddus yn ddoeth, gan ddarparu gwerth am arian i'r trethdalwr, yn enwedig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol. Bydd dal ati i gryfhau'r perthnasoedd â chymunedau a phartneriaid, a galluogi a chefnogi staff ar draws y sefydliad, yn galluogi gwelliant sylweddol i gael ei gyflawni dros gyfnod y Cynllun hwn.

Mae'r Bwrdd wedi nodi pum Amcan Strategol a fydd yn arwain at welliant:

- Datblygu Sefydliad Effeithiol
- Datblygu Strategaeth a Newid Hirhoedlog
- Creu Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tosturiol
- Gwella Ansawdd, Canlyniadau a Phrofiadau
- Sefydlu Amgylchedd Effeithiol ar gyfer Dysgu

Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ym mis Tachwedd 2024; Fframwaith a ddatblygwyd gyda chyfraniad cannoedd o staff a phartneriaid allanol. Y gwerthoedd o Fod yn Agored, Tosturi a Pharch yw'r rhai y bydd y Bwrdd ei hun yn parhau i ymdrechu i'w dangos trwy ei waith. Bydd y

cynnydd, yn ogystal â heriau'r bwrdd iechyd, yn parhau i gael eu cyflwyno'n gyhoeddus i staff, partneriaid ac yn ehangach i bobl Gogledd Cymru. Rydym am fod yn fwrdd iechyd rhagorol, sy'n darparu'r gwasanaethau gofal iechyd gorau posibl, ac rydym yn deall, er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, y bydd angen i gyd-ymdrechu fod wrth wraidd y gwaith. Edrychwn ymlaen at barhau â'n taith o welliant gyda phobl Gogledd Cymru ac ar eu rhan.



Dyfed Edwards
Cadeirydd



Carol Shillabeer
Prif Weithredwr

Adran 1: Trosolwg Strategol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei bwrpas o wella iechyd a lles a darparu gofal rhagorol i bobl Gogledd Cymru. Yn unol â 'Chymru Iachach', y strategaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda phartneriaid i gyfrannu at ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r sefydliad yn sicrhau ei fod yn ystyried yn ofalus effaith hirdymor penderfyniadau i gefnogi gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn glir ynglŷn â'r disgwyliadau, ynghyd â'r camau gweithredu a fydd yn cefnogi'r ddarpariaeth heb achosi cost ychwanegol. Mae ffocws cryf ar ddatblygu gwasanaethau i gyflawni canlyniadau gwerth uchel i gleifion, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Yn seiliedig ar y rhagamcanion yn adroddiad "Y GIG mewn 10+ mlynedd" y Prif Gynghorydd Gwyddonol, sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy o fewn nifer o gyflyrau hirdymor sy'n gyffredin, mae hyn yn gwbl hanfodol, gan sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i ddarparu'r ansawdd uchaf posibl.

Nid un Cynllun yn unig yw hwn, mae'n rhan o gasgliad o gynlluniau a strategaethau a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd a phartneriaid sy'n cefnogi cyflawni uchelgeisiau a rennir dros system gymhleth.

Cynllunio Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Deddfwriaethol ehangach

▪ *Dyletswyddau statudol sylfaenol sy'n gysylltiedig â chynllunio integredig*

Mae dyletswydd statudol ar bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru i baratoi a chyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) i Lywodraeth Cymru. Diben y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yw darparu map ffordd tuag at gyflawni gwelliannau i anghenion iechyd y boblogaeth, tra hefyd yn cadarnhau cynlluniau ar gyfer cyflawni mantoli ariannol.

Mae'r ddyletswydd statudol i gynllunio wedi'i nodi yn Neddf y GIG (Cymru) 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol baratoi cynllun sy'n nodi strategaeth ar gyfer gwella iechyd y bobl y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt a gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd i'r bobl hynny. Rhaid cadw'r cynllun dan adolygiad a rhaid i'r Bwrdd Iechyd ystyried y cynllun wrth wneud ei swyddogaethau. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynnwys partneriaid yn y broses gynllunio a rhaid iddo ymateb i Gyfarwyddiadau Gweinidogol sy'n ymwneud â chynnwys y cynllun.

Deddfodd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 ar gyfer cynllunio integredig fel sylfaen y system iechyd yng Nghymru a chyflwynodd y gofynion ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i sicrhau cydbwysedd ariannol mewn perthynas â phob cyfnod o dair blynedd.

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, a gyhoeddwyd yn unol â darpariaeth y Deddfau uchod ar gyfer gwneud cyfarwyddiadau, yn cadarnhau bod rhaid i Gynlluniau

- Fodloni'r gofynion statudol i gomisiynu a/neu ddarparu gwasanaethau i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth ac i gyflawni balans ariannol

- Nodi camau gweithredu a cherrig milltir clir sy'n dangos sut y cyflawnir cynlluniau arfaethedig
- Cyflawni'r cerrig milltir allweddol o fewn y Fframwaith Cyflawni
- Triongli cyllid, gweithgarwch a gweithlu yn y cynlluniau

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd nad oedd yn gallu cynhyrchu Cynllun Tair Blynedd sy'n bodloni'r holl ofynion cymhwys. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau sylweddol tuag at gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac eleni mae'n gallu cyflwyno cynllun cytbwys. Fel sy'n ofynnol ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae hyn wedi'i strwythuro yn erbyn gorwel tair blynedd; fodd bynnag, gwneir hyn gyda ffocws penodol ar y flwyddyn nesaf.

▪ ***Deddf y GIG (Cymru) 2006 Ymgysylltu ac Ymgynghori***

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 i gynnwys dinasyddion ac ymgynghori â nhw yn y canlynol:

- Cynllunio i ddarparu gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt
- Datblygu ac ystyried cynigion ar gyfer newidiadau yn y ffordd y darperir y gwasanaethau hynny; a,
- Gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar sut mae'r gwasanaethau hynny'n gweithredu

Mae'r gofyn deddfwriaethol yn cael ei gefnogi gan ganllawiau a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar ymgysylltu ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau. Yn ystod 2024-25 mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu gwaith ymhellach gyda chydweithwyr sy'n mynychu'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Fforwm yr Undebau Llafur, a Fforwm y Gweithwyr Proffesiynol Iechyd i ddylanwadu ar ragdybiaethau a blaenoriaethau Cynllunio a'u profi, ochr yn ochr â chydweithwyr yn y Bartneriaeth ehangach.

▪ ***Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009***

Prif rôl Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n effeithiol i'r bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, o fewn fframwaith llywodraethu cadarn, er mwyn cyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'w ddinasyddion, ac mewn modd sy'n hyrwyddo hawliau dynol.

▪ ***Deddf Cydraddoldeb 2010***

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn nodi'r ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer cyrff rhestredig, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn un ohonynt. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi dyletswyddau penodol ar gyfer cyrff rhestredig yng Nghymru.

Rhaid i gorff rhestredig gynnwys pobl y mae'n eu hystyried yn gynrychioliadol o'r rhai â nodweddion gwarchoddedig gwahanol a'r rhai sydd â diddordeb yn y ffordd y mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. Gall y corff rhestredig hefyd ymgynghori a chynnwys pobl eraill a ystyrir yn briodol.

▪ ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (rhan 9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gydweithredu â Phartneriaid wrth ffurfio Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) i baratoi a chyhoeddi Cynllun Ardal 5 Mlynedd sy'n nodi ystod a lefel y gwasanaethau i'w darparu mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys adnoddau i'w defnyddio. Mae cynllun presennol y RPB yn rhedeg o 2023 i 2028¹. Mae'n ofynnol hefyd i Fyrddau Iechyd nodi camau gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r ddyletswydd i ystyried pwysigrwydd camau ataliol.

▪ ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023***

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Deddf SPPP) yn darparu fframwaith i hyrwyddo lles pobl Cymru drwy wella datblygu cynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol. Diwygiodd Deddf SPPP Adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WCFG) gan roi 'gwaith teilwng' yn lle 'gwaith teg', gan ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth adolygu ei amcanion llesiant, ac asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Gosododd newidiadau i Ddeddf SPPP ddyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol ar Fyrddau Iechyd (a 'chyrff cyhoeddus penodol' eraill) hefyd.

▪ ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***

• Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Cydweithio	Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ystyried effaith hirdymor penderfyniadau, a chyflawni'r saith Nod Llesiant, gan gymhwyso'r '5 Ffordd o Weithio' i wneud hynny.
Integreiddio	
Cynnwys	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwneud hyn ac mae wedi integreiddio ethos y Ddeddf i'r amcanion a'r blaenoriaethau yn y Cynllun hwn.
Hirdymor	
Atal	Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 nifer o ofynion o dan y ddyletswydd llesiant. Fel corff cyhoeddus dynodedig, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni datblygu cynaliadwy, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Uchod: Pum Ffordd at Les

¹ <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/cynllun-rhanbarthol/>

Mae hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd nodi amcanion llesiant a gynlluniwyd i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn adnewyddu'r amcanion llesiant fel rhan o flaenoriaeth 'Strategaeth 10 Mlynedd y Bwrdd Iechyd', a amlinellir yn ddiweddarach yn y cynllun hwn. Yn ystod 2024-25, aeth y Bwrdd Iechyd ati i weithredu canllawiau 'Cyflog Teg' o fewn ei nodau lles.



Mae'n ofynnol i'r Bwrdd hefyd weithio mewn partneriaeth drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol, sy'n nodi amcanion llesiant lleol a'r camau y bwriedir eu cymryd i'w cyflawni. Mewn perthynas â Gogledd Cymru, mae'r Cynlluniau Llesiant canlynol wedi'u cyhoeddi ar gyfer y cyfnod 2023-28:

- BGC Gwynedd ac Ynys Môn².
 - BGC Conwy a Sir Ddinbych³.
 - BGC Sir y Fflint a Wrecsam⁴.
- ***Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020***

Dyletswydd Ansawdd

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn nodi dyletswydd ansawdd. Diben y ddyletswydd ansawdd yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrrff y GIG yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau a ddarparant. Mae'r ddyletswydd yn cynrychioli'r uchelgais o gyflawni safonau uwch fyth o wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ofyniad cyfreithiol i Sefydliadau'r GIG yng Nghymru fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gofal a thriniaeth. Amlinellir hyn yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol os yw'r gofal a ddarparwn wedi, neu y gallai fod wedi cyfrannu at niwed cymedrol neu ddifrifol annisgwyl neu anfwriadol, neu farwolaeth.

Canllawiau a Gofynion Llywodraeth Cymru 2025/26 – 2027/28

² <https://www.llesiantgwyneddaron.org/cy/Cynllun-Llesiant/>

³ <https://conwyanddenbighshiresb.org.uk/cy/cynllun-lles-lleol/>

⁴ <https://www.sirffflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Policy-and-Performance/PSB/Flintshire-and-Wrexham-Public-Services-Board-Well-being-Plan-2023-2028.pdf>

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu blaenoriaethau ar gyfer byrddau iechyd ar 20 Rhagfyr 2024. Nododd eu huchelgais lefel uchel ar gyfer y system iechyd a gofal, gyda phwyslais ar ansawdd, diogelwch a gwelliannau mewn canlyniadau.

Mae pum blaenoriaeth strategol y mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd a sefydliad arall y GIG eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Maent mewn meysydd sydd wedi cael eu codi'n gyson mewn sgysiau gweinidogol ac ymgysylltu â'r cyhoedd a staff:

- 1) **Mynediad Amserol at Ofal**
- 2) **Iechyd y Boblogaeth ac Atal**
- 3) **Meithrin Gallu Cymunedau**
- 4) **Mynediad Iechyd Meddwl**
- 5) **Iechyd Menywod**

Mae Blaenoriaethau, Disgwyliadau Cyflawni a Chamau Galluogi Ysgrifennydd y Cabinet i gyd wedi'u hymgorffori yng nghynllun y Bwrdd Iechyd. Mae adran tri o'r cynllun hwn wedi'i strwythuro o amgylch pum Amcan Strategol y Bwrdd Iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd hyn yn ogystal â blaenoriaethau lleol y Bwrdd Iechyd, ei bartneriaid a'r boblogaeth.

▪ **Disgwyliadau Cyflawni ar gyfer 2025/26**

Yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn mae set o ddisgwyliadau cyflawni clir ar gyfer blwyddyn un y cynlluniau (2025/26). Mae cyflawni'r rhain wrth wraidd sut mae'r sefydliad yn cynllunio ei adnoddau a'i gapasiti, gan sicrhau gwella cyflymder yn y meysydd hyn. Bydd cynnydd yn rhai o'r meysydd yn gofyn am fwy o gydweithio â phartneriaid er mwyn cyflawni newid i'r system gyfan. Er bod y targedau hyn yn canolbwyntio ar flwyddyn un y cynlluniau, bydd angen gwelliant parhaus ar draws blynnyddoedd dau a thri. Gellir dod o hyd i lwybrau sy'n gysylltiedig â'r Disgwyliadau Cyflawni hyn yn Atodiad 3.

Blaenoriaethau ar gyfer 2025-28	Disgwyliadau Cyflawni ar gyfer 2025-26
Mynediad Amserol at Ofal	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Lleihau nifer y trosglwyddiadau cleifion mewn ambiwlansys dros 1 awr – targed cenedlaethol - sero ▪ Lleihau nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach o'u cyrraedd hyd at eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o'i gymharu â'r un mis y flwyddyn flaenorol, gan adeiladu tuag at y targed cenedlaethol o sero. ▪ Dim cleifion yn aros mwy na 104 wythnos i gael eu cyfeirio am driniaeth ▪ Tuedd gwelliant 12 mis yng nghanran y cleifion sy'n dechrau triniaeth canser bendant gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt amheuaeth (waeth beth fo'r llwybr cyfeirio), gan adeiladu tuag at darged cenedlaethol o 80% erbyn 31 Mawrth 2026. ▪ Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnostig penodol - targed sero
Iechyd y Boblogaeth ac Atal	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes a gafodd bob un o'r wyth proses gofal a argymhellir gan NICE ▪ Cyflawni targedau brechu yn y fframwaith perfformiad
Meithrin Gallu Cymunedau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyflawni tueddiad gostyngiad 12 mis yn nifer y bobl sy'n wynebu oedi cyn rhyddhau yn yr ysbyty fel y'i mesurir gan y dangosfwrdd Llwybrau Gofal Gohiriedig

	<ul style="list-style-type: none"> 100% o feddygfeydd teulu yn cyflawni'r holl Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer GMS yn ystod oriau gwaith Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol ar gyfer mân gyflyrau aciwt a gwasanaethau atal cenedlu arferol lle mae'r claf yn adrodd y byddai fel arall, wedi ymweld â'i Feddyg Teulu Cynnydd yng nghanran y boblogaeth oedolion/plant sy'n defnyddio gofal Deintyddol y GIG dros gyfnod o 24 (oedolyn) / 12 (plentyn) mis. Cynyddu capasiti nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau i'r lefelau gofynnol (o leiaf) a osodwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 a mwy lle bo modd Cynyddu capasiti Gofal Cymunedol Uwch i'r lefelau gofynnol (o leiaf) a osodwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 ac yn fwy lle bo modd.
Mynediad Iechyd Meddwl (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc)	<ul style="list-style-type: none"> 80% o asesiadau iechyd meddwl yn cael eu cynnal o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn y cyfeiriad Dechreuodd 80% o ymyriadau therapiwtig o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS)
Iechyd Menywod	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu un Hwb Iechyd Menywod ym mhob ardal bwrdd iechyd erbyn mis Mawrth 2026 (yn unol â'r Cynllun Iechyd Menywod)

O Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-28

▪ **Gweithredoedd Galluogi**

Er mwyn cefnogi cyflawniad yn erbyn y disgwyliadau hyn, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi nifer o gamau galluogi. Mae gan bob un sail dystiolaeth i ddangos effeithlonrwydd a/neu ganlyniadau gwell, heb arwain at gost ychwanegol. Maent yn gynnyrch gwaith sy'n mynd rhagddo drwy'r Rhaglenni Strategol Cenedlaethol, y Rhwydweithiau Clinigol Strategol a'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd. Mae'r rhestr lawn o gamau galluogi i'w gweld yn Atodiad 2, ond mae'r tabl isod yn crynhoi pob maes thematig a'i amcan cysylltiedig.

Maes Thematig	Amcan
Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd Gweithredol - Gofal Brys ac Argyfwng	Gwella mynediad amserol at ofal, gan leihau hyd yr aros mewn meysydd allweddol o'r llif gofal brys ac argyfwng drwy fynd i'r afael ag amrywiad
Cynhyrchiant Gweithredol - Gofal wedi'i Gynllunio	Gwella mynediad amserol at ofal, gan leihau amrywiad diangen mewn cynhyrchiant clinigol
Cynhyrchiant y Gweithlu	Mwyafu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu, gan gryfhau gwerth a defnyddio'r gweithlu'n effeithiol.
Mwyafu Gwerth am Arian	Parhau i wneud y gorau o werth am arian a chyfraniad at effeithlonrwydd cyffredinol drwy feysydd allweddol sy'n gysylltiedig â gwariant, gan sicrhau'r effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gorau posibl.
Gwella Gwerth, Optimeiddio Canlyniadau, a Lleihau Amrywiad	Cefnogi gwelliannau mewn canlyniadau, effeithiolrwydd a gwerth, drwy optimeiddio sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio, a chanolbwyntio ar wella canlyniadau

O Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-28

Cyd-destun Strategol

▪ Cymru Iachach - diweddarau




Mae Cymru Iachach⁵ yn nodi cynllun Llywodraeth Cymru i greu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles ac atal salwch. Mae hyn yn darparu cyfeiriad strategol arweiniol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru.

Mae hyn yn gofyn am fodolau gofal newydd sy'n adeiladu ar arloesedd lleol trwy gydweithio ymysg clystyrau o ddarparwyr gofal sylfaenol a chymunedol. Fel hyn, dim ond pan fo'n hanfodol y byddai pobl yn ceisio gofal Ysbyty Cyffredinol. Byddai mwy o driniaeth a gofal, gan ganolbwyntio ar lesiant, yn cael ei ddarparu'n agosach at adref.

Er y bydd gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn fwy rhwydweithiol, felly hefyd y bydd gwasanaethau ysbytai lle bydd gwasanaethau arbenigol a ddarperir mewn ysbytai mawr yn rhwydweithio i ganiatáu i ganolfannau rhagoriaeth esblygu.

Yn Hydref 2023, cyhoeddodd Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru dros Iechyd adroddiad "Y GIG mewn 10+ mlynedd: Archwiliad o effaith ragweledig Cyflyrau Hirdymor a Ffactorau Risg yng Nghymru" sy'n disgrifio'r heriau y mae'r GIG yng Nghymru yn debygol o'u hwynebu dros y 10 i 25 mlynedd nesaf. Archwilir yr adroddiad yn fanylach yn yr adran nesaf, ond gwnaeth yn glir y bydd yr heriau demograffig, economaidd a chymdeithasol presennol sy'n wynebu ein system iechyd a gofal yng Nghymru yn parhau i osod gofynion anghynladwy ar ein gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r adroddiad, cyhoeddodd y cyn-Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddiweddariad ar y camau gweithredu yng Nghymru Iachach. Mae'r camau gweithredu yn y fersiwn mwyaf diweddar, sydd wedi'u grwpio i mewn i 10 thema allweddol (wedi'u cynhoi isod ac wedi'u cynnwys yn Atodiad 1) yn adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen i ddarparu system iechyd a gofal gynaliadwy a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd barhau i weithio'n agos gyda sectorau a phartneriaid ehangach i fynd i'r afael â materion gan gynnwys y penderfyniadau ehangach sy'n effeithio ar iechyd a lleihau anghydraddoldebau.



Ffigur1: Cymru Iachach: Symud o ddull sy'n canolbwyntio ar ofal mewn Ysbyty i un sy'n canolbwyntio ar Iechyd, Lles ac Atal

⁵ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

Themâu Allweddol - Camau gweithredu Cymru lachach wedi eu diweddarau (2024)


Ataliol	Canolbwyntio ar yr unigolyn	Cynaliadwy	Teg	Ansawdd Uchel a Diogel
Digidol a Data	Gweithlu	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi	Cydgynhyrchu a Phartneriaeth	Integreiddio

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau tuag at gyflawni nodau Cymru lachach ymhellach ond mae'n cydnabod bod mwy o waith i'w wneud. Mae'r Cynllun Tair Blynedd hwn yn ymgorffori gwaith pellach yn hyn o beth.

▪ *Adroddiad y Prif Gyngorydd Gwyddonol dros lechyd*

Wedi'i gyhoeddi ym mis Medi 2023⁶, mae adroddiad "Y GIG mewn 10+ mlynedd" gan y Prif Gyngorydd Gwyddonol dros lechyd yn nodi llawer o anghenion y boblogaeth a ddogfennwyd uchod ac yn mynegi'r angen i wneud penderfyniadau mawr ynghylch sut i ddarparu gofal a dyrannu adnoddau mewn ymateb. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r newidiadau mewn demograffeg y boblogaeth ac anghenion gofal iechyd a ddisgwyli'r dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r negeseuon allweddol yn cynnwys:

- Bydd diagnosisu llawer o gyflyrau hirdymor (LTCs) yn cynyddu, yn rhannol oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd cyfran uwch o'r boblogaeth yn byw gydag eiddilwch, dementia, canser, clefydau'r galon a chlefydau cardiofasgwlaidd eraill, diabetes, ac iechyd meddwl gwael, ac am hirach. Mae llawer o'r cyflyrau hyn yn gysylltiedig â ffactorau risg y gellir eu haddasu a gellid gohirio neu atal eu dechrau trwy fynd i'r afael â ffactorau ffordd o fyw yn gyfannol.
- Ymysg llawer o gyflyrau, mae cyfraddau'n cynyddu ar gyfradd uwch na'r hyn a eglurir gan oedran a ffactorau demograffig eraill yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys diabetes; dementia; afiechydon cardiofasgwlaidd gan gynnwys ffibriliad atriaidd, methiant y galon, pwysedd gwaed uchel, a chlefyd fasgwlaidd ymylol (PVD); afiechydon yr ysgyfaint gan gynnwys clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ac asthma, osteoporosis, clefyd llidiol y coluddyn ac anhwylderau pryder.
- Bydd nifer cynyddol o bobl yng Nghymru yn byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog, gyda chyfran y bobl sy'n byw gyda phedair neu fwy o afiechydon yn dyblu rhwng 2015 a 2035. Ar



⁶ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-09/cyngor-ar-wyddoniaeth-a-thystiolaeth.pdf>

hyn o bryd mae'n ofynnol i bobl sy'n byw gyda chlefydau lluosog fynychu llawer mwy o apwyntiadau cleifion allanol.

- Bydd nifer cynyddol o bobl yng Nghymru yn byw gydag eiddilwch ac angen mwy o fynediad at wasanaethau ysbyty brys ac argyfwng ac yn wynebu oedi wrth ryddhau ar ôl arosiadau yn yr ysbyty.
- Y gweithlu yw'r her unigol fwyaf i'r GIG a gofal cymdeithasol wrth i ni symud ymlaen. Mae technoleg a newid yng nghyfansoddiad cymysgedd sgiliau gweithlu'r GIG yn cynnig y potensial i leihau cyfradd twf gweithlu'r GIG a gofal cymdeithasol ond bydd angen cynyddu capasiti mewn rhai meysydd, gan gynnwys ymarfer cyffredinol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgorffori'r adroddiad hwn yn ei brosesau cynllunio i gefnogi trawsnewid parhaus hirdymor.

Adran 2: Trosolwg o Sefydliad a Rhanbarth Gogledd Cymru

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r sefydliad wedi gosod y sylfeini ar gyfer gwasanaeth iechyd sy'n fwy abl i ddiwallu anghenion pobl Gogledd Cymru. Yn dilyn ei uwchgyfeirio i Lefel 5 (Mesurau Arbennig) ym mis Chwefror 2023, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ailadeiladu ei arweinyddiaeth, ei lywodraethu, ei ddiwylliant a'i brosesau i sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion. Roedd blwyddyn un yn ymwneud yn bennaf ag ailadeiladu a sefydlogi'r sefydliad, gyda blwyddyn dau yn canolbwyntio ar welliannau i wasanaethau allweddol gan fynd i'r afael â'r materion allweddol ar draws y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach mewn llawer gwell sefyllfa i fynd i'r afael â'r materion hyn a chyflymu gwelliannau i wasanaethau wrth ddarparu canlyniadau gwerth uchel i gleifion a gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y tymor hir.


Proffil ac Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Y man cychwyn ar gyfer cynllunio gofal iechyd yw deall anghenion y boblogaeth (y gallu i elwa), y gellir nodi bylchau ac anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth gwasanaethau yn eu herbyn ac yna mynd i'r afael â nhw.

Mae Aseiad o Anghenion Poblogaeth (PNA) Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru⁵, a ddiwygiwyd yn 2022, yn aseiad pwysig y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddefnyddio i ddeall anghenion y boblogaeth, wedi'i ategu gan ystod o ffynonellau gwybodaeth ychwanegol.

Yr hyn sy'n amlwg yw bod demograffeg a statws iechyd poblogaeth Gogledd Cymru yn parhau i newid fel y mae'n ei wneud ar draws gweddill y DU.

Between 2025 and 2040 in North Wales....



▪ Oedran


Mae nifer y trigolion dros 65 oed yn tyfu llawer mwy na'r garfan oedran iau. Erbyn 2034, bydd nifer y trigolion dros 65 oed yn tyfu 16% a nifer y rhai 85 oed a hŷn yn codi 41%, tra bydd nifer y trigolion o dan 65 oed yn lleihau ledled Gogledd Cymru.

Mae llawer o unigolion yn byw mewn iechyd da i oedrannau hŷn, ond disgwylir y bydd y newid ym mhroffil oedran yn gysylltiedig â nifer cynyddol o unigolion yn byw gyda chyflyrau hirdymor (ac i

lawer, gyda chyflyrau hirdymor lluosog), ac yn byw gyda'r cyflyrau hyn am hirach. Am y rhesymau hyn, bydd sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i anghenion sy'n deillio o bobl sy'n byw am flynyddoedd lawer gyda phroblemau iechyd ac yna'n profi eiddilwch yn dod yn fwyfwy pwysig.

Mae'r proffil oedran newidiol hefyd yn llywio cynlluniau gweithlu'r Bwrdd Iechyd er mwyn cefnogi a galluogi unigolion hŷn i aros mewn gwaith ac apelio at boblogaeth sy'n lleihau o bobl iau i ystyried ymuno â'r gweithlu gofal iechyd, ac i ddychwelyd i Ogledd Cymru ar ôl addysg prifysgol yn rhywle arall.

▪ Cyflyrau Hirdymor



Er bod llawer o bobl yn aros yn iach yn hwyrach mewn bywyd, bydd rhai yn wynebu lefelau cynyddol o gyflyrau hirdymor a'r angen dilynol am ofal a chymorth. Mae Asesiad o Anghenion Poblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amcangyfrif y bydd nifer y bobl sy'n cael trafferth cwblhau gweithgareddau bywyd bob dydd (ADLs) o ganlyniad i gyflyrau hirdymor yn cynyddu'n sylweddol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amcangyfrif y bydd nifer y bobl sy'n cael trafferth ymgymryd â gweithgareddau bywyd bob dydd (ADLs) yn cynyddu o draean erbyn 2040.

Mae adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd yng Nghymru ym

Cyflwr	Newid rhagamcanedig ar gyfer Cymru, neu o lenyddiaeth gyhoeddus
Clefyd Coroniadd y galon	Cynyddu
Strôc / TIA	Gostwng
Ffibriliad atriaidd	Cynyddu
Methiant y Galon	Cynyddu
Pwysedd gwaed uchel	Cynyddu
Canser (pob math)	Cynyddu
Canser y Coluddyn	Cynyddu
Canser yr Ysgyfaint	Cynyddu
Canser y Fron	Cynyddu
Canser y Brostad	Cynyddu
Dementia	Cynyddu
Diabetes Math 2	Cynyddu
Iselder	Cynyddu
Gorbryder	Cynyddu
Amlafiachedd	Cynyddu
Asthma	Cynyddu
Arthritis gwynegol	Gostwng ychydig
COPD	Cynyddu
Epilepsi	Gostwng
Clefyd Llidus y Coluddyn	Cynyddu
Clefyd Fasgwlaidd Ymylol	Cynyddu
Clefyd Cronig yr Aren	Gostwng ychydig

Gwrbodaeth o adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros

mis Medi 2023⁷ yn nodi y bydd nifer yr unigolion sy'n byw gydag amlafiachedd cymhleth oherwydd bod ganddynt bedwar cyflwr neu fwy yn dyblu erbyn 2035.

Rhagwelir y bydd nifer yr achosion o ddiabetes yn benodol yn codi 25% erbyn 2035, sy'n golygu y byddai dros 60,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn byw gyda diabetes.

▪ ***Deddf Gofal Gwrthgyfartal***

Disgrifiwyd y Ddeddf Gofal Gwrthdro gyntaf ym 1971⁸ ac mae'n awgrymu mai llawer o'r rhai sydd â'r angen mwyaf sydd leiaf tebygol o dderbyn y gofal sydd ei angen arnynt.

Gan fod y rhai mwyaf agored i niwed yn aml mewn mwy o berygl o brofi iechyd gwael, mae hyn yn gwaethygu effaith cyflyrau hirdymor ar rai cymunedau ymhellach. Bydd effaith nid yn unig ar unigolion sy'n profi lefelau uwch o angen ond hefyd ar y 78,000 o aelodau o'r teulu neu berthnasau sy'n darparu gofal di-dâl.

▪ ***Atal***

Gellir atal, gwella neu drin llawer o'r cyflyrau hirdymor hyn yn fwy effeithiol drwy fabwysiadu egwyddorion iechyd poblogaeth da, dewisiadau ffordd o fyw iach ac ymyrraeth gynnar o ran gofal iechyd gwell. Mae llawer o'r ffactorau risg sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o ddatblygu cyflwr hirdymor, fel ysmegu, maeth gwael ac anweithgarwch corfforol, yn fwy cyffredin yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â Chymru gyfan.

Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth ac atal, er mwyn sicrhau'r iechyd a'r lles gorau posibl, ac i leihau anghydraddoldebau iechyd i bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

▪ ***Penderfynyddion Ehangach Iechyd***

Mae cydnabod y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd (ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) sy'n effeithio ar iechyd yn hanfodol ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio ar y cyd â phartneriaid nad ydynt yn rhan o'r GIG.

Mae lefelau uwch o anfantais yn gysylltiedig ag iechyd gwaeth. Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), sef mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol, wedi'i rannu'n 1,909 o ardaloedd. Yng Ngogledd Cymru mae'r sawl sydd gyntaf, ail a nawfed ymysg y deg cymuned fwyaf difreintiedig. Er ei fod yn cynrychioli 3% o boblogaeth Cymru, mae gan Sir Ddinbych 20% o'r 20 cymuned fwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn safle 1, 2, 11 a 19).

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd barhau i weithio gyda phartneriaid mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys parhau i ddatblygu clystyrau o wasanaethau cymunedol a all fynd i'r afael â'r penderfynyddion ehangach hyn er mwyn mynd i'r afael ag atal yn gyfannol. Mae menter Gogledd Cymru iach yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth ym maes atal gyda'r nod o sicrhau bod pawb yng Ngogledd Cymru yn gallu mwynhau iechyd a lles corfforol da.

⁷ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-09/cyngor-ar-wyddoniaeth-a-thystiolaeth.pdf>

⁸ <https://www.kingsfund.org.uk/publications/articles/inverse-care-law>

Proffil Iechyd Meddwl

The largest health organisation in Wales



c.£2.4bn
budget.



c.20,000
staff members.



c.700,000
population.



6 counties.



83 dental and
orthodontic
practices.



3 main hospital
sites.



147 community
pharmacies.



69 optometry/optician
practices.



16 community
hospitals.



96 medical practices
("GP practices").

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae gan y Bwrdd gyllideb gwerth £2.4 biliwn a gweithlu sy'n cynnwys dros 20,000 aelod o'r staff. Mae'r Bwrdd Iechyd yn system iechyd integredig sy'n ymdrechu i ddarparu gofal tosturiol rhagorol gan gydweithio â'r cyhoedd a sefydliadau eraill yn y sector statudol a'r trydydd sector.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i fwy na 700,000 o bobl ar draws chwe sir (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, yn ogystal â gwasanaethau ysbytai cyffredinol.

Mewn lleoliadau gofal sylfaenol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gofal gan y GIG trwy gyfuniad o gontractwyr annibynnol a gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol ledled Gogledd Cymru. Mae'r rhwydwaith hwn o wasanaethau gofal sylfaenol yn cynnwys 96 o bractisau meddygol ("practisau meddygon teulu"), 83 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 69 o bractisau optometreg/optegydd a 147 o fferyllfeydd cymunedol.

Mewn lleoliadau cymunedol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod eang o wasanaethau cymunedol y GIG gan gynnwys nyrsio yn y gymuned, gwasanaeth ymwelwyr iechyd, ffisiotherapi, a gofal lliniarol, trwy rwydwaith o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau cymunedol ac 16 o ysbytai cymunedol, a chânt eu cydlynu ar sail 14 o 'ardaloedd lleol'.

Caiff gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol eu darparu gan y Bwrdd Iechyd mewn canolfannau ledled Gogledd Cymru, â chymorth unedau iechyd meddwl ar gyfer cleifion preswyl ledled y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl i boblogaeth carchar CEF Berwyn yn Wrecsam.

Darperir gwasanaethau ysbytai cyffredinol gan y Bwrdd Iechyd mewn tri phrif safle, sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam, a chaiff rhai gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol eu darparu yn Abergele a Llandudno hefyd.

Lle na ellir darparu gofal gan y GIG yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, ynghylch rhai cyflyrau prin neu wasanaethau tra arbenigol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio â darparwyr eraill y GIG yng Nghymru a Lloegr, i ddarparu'r gwasanaethau hynny ar ran y Bwrdd Iechyd.

Rydym hefyd yn gyfrifol, mewn partneriaeth, am wella iechyd a lles pobl leol drwy weithgareddau megis ein rhaglenni brechu llwyddiannus a gwasanaethau iechyd ysgolion.

▪ ***Gweithio clwstwr a gwaith traws-glwstwr***

Mae gan Ogledd Cymru 14 Clwstwr Gofal Sylfaenol a thri Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr(GCTG), sy'n chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gofal iechyd integredig sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae clystyrau wedi'u cynllunio i sicrhau gofal iechyd ataliol lleol, gan gefnogi symud o ddibyniaeth ar ysbytai trwy wella mynediad at wasanaethau'n agosach at adref.

Mae clystyrau'n dod â meddygon teulu, timau iechyd cymunedol, gofal cymdeithasol, a phartneriaid yn y sector gwirfoddol ynghyd, gan helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi poblogaethau sy'n agored i niwed.

Mae'r tri GCTG yn cydlynu'r ymdrechion hyn ar lefel ehangach, gan gysylltu clystyrau â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) i sicrhau trawsnewid ar draws y system. Maent yn chwarae rhan bwysig o ran:

- Datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol cynaliadwy.
- Sicrhau bod gwaith clwstwr lleol yn cyd-fynd â strategaethau iechyd rhanbarthol.
- Ehangu gwasanaethau ategol, fel cymorth cartrefi gofal yn seiliedig ar glwstwr

Y meysydd blaenoriaeth allweddol yw:

- Diwygiadau llywodraethu i wella ymreolaeth ac effeithlonrwydd clwstwr.
- Clinigau 'un stop' arloesol ar gyfer rheoli cyflyrau hirdymor fel diabetes.
- Gwella llwybrau rhyddhau o'r ysbyty i alluogi mwy o ofal yn y gymuned.
- Cyflwyno Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan i bob Clwstwr.
- Ehangu gofal dementia yn y gymuned.
- Gwella rhaglenni presgripsiynu cymdeithasol ac ymyrraeth gynnar.

Yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-28, mae gan Glystyrau a Grwpiau Rhaglenni Cymunedol rôl bwysig i'w chwarae mewn cydweithio rhanbarthol a thraws-sector, gan atgyfnerthu integreiddio system gyfan i wella canlyniadau ledled Gogledd Cymru. Mae'r dull integredig hwn yn ffocws allweddol i gynllun 2025-28 sy'n ceisio sicrhau bod clystyrau a Grwpiau Gofal Sylfaenol yn parhau i yrru trawsnewid a chydnerthedd gofal sylfaenol ar draws y rhanbarth.

Partneriaethau - Bwrdd Strategol

▪ *Partneriaeth adfywio economaidd – Twf Gogledd Cymru*

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel 'Uchelgais Gogledd Cymru' i gefnogi cyflawniad y meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Fargen Twf Newydd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft, trwy Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a gweithredu'r Cynllun Ynni Ardal Leol.

Yn ogystal, mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru gan gyfrannu at ddatblygiad yr 'economi Llesiant', er enghraifft, trwy gymryd rhan yn y rhaglen Trafnidiaeth Weithredol, ymchwil iechyd a datblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

▪ *Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru*

Sefydlwyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) i fodloni Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n hwyluso'r trefniadau partneriaeth rhwng pob un o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a phartneriaid eraill wrth fwrw ymlaen â darparu gwasanaethau integredig yn effeithiol yng Ngogledd Cymru.

Cyhoeddodd y NWRPB eu [Cynllun Ardal Ranbarthol](#) ym mis Ebrill 2023. Mae hyn yn nodi sut y bydd partneriaid yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac ymateb i ganfyddiadau'r [Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru](#) a'r [Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad](#).

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar sut mae'r NWRPB yn cyflawni blaenoriaethau ar gyfer gweithio integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar sail ranbarthol ar gyfer y grwpiau poblogaeth canlynol:

- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia
- Pobl ag anabledau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol
- Gofalwyr di-dâl
- Pobl ag anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl

Rhennir cynnydd yn erbyn y Cynllun bob blwyddyn yn [Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol](#).

Mae gwaith yn digwydd i ailosod cynrychiolaeth y Bwrdd Iechyd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan sicrhau bod yr holl fynychwyr yn derbyn briffiau ymlaen llaw cyn pob cyfarfod a sefydlu proses adrodd strwythuredig i wella'r broses o wneud penderfyniadau.

▪ *Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*

Mae'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles eu sir. Mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o sefydliadau partner i sicrhau bod cynlluniau strategol yn cyd-fynd â, ac yn cefnogi cyflawniad, amcanion lles lleol ac i'r

gwrthwyneb; ond hefyd i sicrhau bod cyfraniad y BGC yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i gynlluniau'r sefydliadau statudol eu hunain.

Mae'r tri BGC yng Ngogledd Cymru (Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, a Sir y Fflint a Wrecsam) yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth o'r Aseidiadau Llesiant (a gynhyrchwyd yn 2022 – 2023) i ddatblygu a chyhoeddi eu Cynlluniau Llesiant yn 2023 – 2024. Mae'r Cynlluniau Llesiant yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac maent yn ceisio mynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n peri'r angen neu'r her fwyaf i gymunedau, gan ddisgrifio lle gall y BGCau wneud y cyfraniad mwyaf ac ychwanegu gwerth at bartneriaethau a gwasanaethau craidd presennol:

- [Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam 2023-2028](#)
- [Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2023-2028](#)
- [Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 - 2028](#)

▪ **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Addysg a Gwella Iechyd Cymru yw'r corff gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru. Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, maent yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion strategol ac arbenigol yn ymwneud â'r gweithlu. Mae amcanion cyflawni allweddol ar gyfer 2025 – 26 yn cynnwys darparu rhaglenni hyfforddi sgiliau gwella ansawdd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, datblygu seilwaith i gefnogi lleoliadau dysgu aml-broffesiynol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar ymarfer a chefnogi'r gwaith o ddarparu prentisiaethau o fewn GIG Cymru yn unol â strategaeth y Llywodraeth a gofynion y Bwrdd Iechyd.

▪ **Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC)**

Mae'r NWJCC yn Gydbwyllgor sy'n gweithredu ar y cyd ar ran y saith Bwrdd Iechyd i gomisiynu set benodol o wasanaethau ar lefel genedlaethol, er enghraifft, Gwasanaethau Ambiwlans Brys a Gwasanaethau Arbenigol.

▪ **Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)**

Mae'r NWSSP yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol ar gyfer ac ar ran GIG Cymru, ac mae hefyd yn gweithio gyda'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

▪ **Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)**

Mae DHCW yn gweithio mewn partneriaeth â GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddarparu gwasanaethau digidol a data cenedlaethol, sy'n cefnogi darparu gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru e.e., cofnodion digidol a systemau gwybodaeth ysbytai, sylfaenol a chymunedol.

Amcanion Strategol

Ers eu cyflwyno fel rhan o ymateb y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael ag ymyrraeth Uwchgyfeirio o dan Fframwaith Uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru / GIG Cymru, mae 'Pum Amcan Strategol' y Bwrdd Iechyd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddarparu ffocws a strwythur. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyflawni'r pum amcan strategol ac o'r herwydd, mae Cynlluniau Cyflawni wedi'u strwythuro o'u cwmpas.

Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i sicrhau bod y Cynlluniau Cyflawni yn cynnwys:

- Blaenoriaethau Gweinidogol
- Gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru
- Blaenoriaethau sy'n deillio o Lefel 5 o Fframwaith Uwchgyfeirio LIC/GIG Cymru
- Blaenoriaethau strategol eraill y Bwrdd Iechyd a'r bartneriaeth

1: Adeiladu sefydliad effeithiol
Mae maes amcan 1 yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu a gweithdrefnau effeithiol a gwneud penderfyniadau mewn sefydliadau gofal iechyd gweithredol. Bydd hyn yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd amserol, gan ddefnyddio gwybodaeth briodol, a bod y bobl gywir yn cael eu cynnwys i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud y tro cyntaf.

2: Datblygu strategaeth a newid hirdymor
Mae maes amcan 2 yn tynnu ar yr angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn llwyr ymwybodol o anghenion poblogaeth Gogledd Cymru a bod gwasanaethau'n cael eu cyflunio mewn ffordd i gael y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Yn y modd hwn gall y Bwrdd Iechyd ddarparu gwasanaethau sy'n ddibynadwy, yn fwy cost-effeithiol, ac sy'n gwneud y defnydd gorau o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

3: Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol
Mae maes amcan 3 yn seiliedig ar y dystiolaeth gref sy'n dangos sut mae diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu â phreswylwyr, staff, cymunedau a phartneriaid yn effeithio'n sylweddol ar ansawdd gwasanaethau a phrofiad y claf. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell.

4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiadau
Mae maes amcan 4 yn deillio o faes thematig mawr lle mae angen gwelliannau i wella perfformiad clinigol ar draws nifer o feysydd allweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno adeiladu ar y gwaith da a ddechreuwyd gan ddefnyddio'r dull llwybrau ar gyfer hyn.

5: Sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol
Mae maes amcan 5 yn rhoi cyfle i ni ddysgu pan fydd pethau'n mynd o chwith, i addysgu, ac i ddefnyddio'r ffynonellau gwybodaeth niferus sydd ar gael i ni er mwyn cefnogi penderfyniadau a gwybodaeth.

5

▪ **Yr Egwyddorion Dylunio**

Mae Egwyddorion Dylunio Sefydliadol yn darparu set gyffredin a chyson o ystyriaethau sy'n cynorthwyo dylunio, datblygu a defnyddio gwasanaethau'n effeithiol ac yn cefnogi gwasanaethau effeithiol a gwneud penderfyniadau cydlynol yn unol â phwrpas a strategaeth graidd y Bwrdd Iechyd.

Egwyddor	Trosolwg	Ystyriaethau
1) Pobl yn gyntaf	Blaenoriaethu dull sy'n ystyried pobl er mwyn cynorthwyo i sicrhau deilliannau iechyd a lles gwell.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ A wyf i'n gwella deilliannau i bobl? ▪ Bywyd pwy wyf i'n ei wella? ▪ Amcanion Lles y Bwrdd Iechyd
2) Cynhwysol	Dod â'r bobl briodol ynghyd i gydweithredu a chyd-lunio gwasanaethau.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ A yw'r rhanddeiliaid allweddol wedi'u cynnwys? Er enghraifft, defnyddwyr gwasanaethau, gofalmwyr, teuluoedd, staff, partneriaid eraill a'r sawl sydd â gwybodaeth a medrau technegol berthnasol.
3) Gwario'n ddoeth	Gwerth gorau (deilliannau, profiadau, costau)	<ul style="list-style-type: none"> ▪ A wnaiff y penderfyniad hwn wella gwerth o ran deilliannau a chostau?
4) Symleiddio, safoni a mabwysiadu arferion gorau	Dylech adnabod cymhlethdod, symleiddio a lleihau amrywiant amhriodol.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dysgwch wersi gan eraill a gweithredwch arferion gorau ▪ A oes safonau, prosesau neu bolisiau cydnabyddedig y gellir eu defnyddio at ddibenion meincnodi? ▪ A yw agweddau gwahanol ar y newid neu ganlyniadau'r newid wedi'u hystyried? ▪ Symleiddio pethau er budd y cyhoedd
5) 'Digidol yn Gyntaf'	Mabwysiadwch a hyrwyddwch ddulliau newydd o weithio, gan fanteisio ar botensial arloesi digidol.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ceisiwch gyngor ac arweiniad gan Dîm Digidol, Data a Thechnoleg y Bwrdd Iechyd.
6) Tegwch a Hygyrchedd	Gwasanaethau teg a hygyrch sy'n ystyried anghenion amrywiol i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ A yw'r penderfyniad hwn yn hybu tegwch a mynediad cyfartal? ▪ Ceisiwch gyngor ac arweiniad gan Dîm Cydraddoldebau'r Bwrdd Iechyd ▪ Ystyriwch y Gymraeg.
7) Bod yn gyson â Gwerthoedd y Bwrdd Iechyd.	Mae gwerthoedd y Bwrdd Iechyd yn llywio ein hymddygiadau a'n prosesau gwneud penderfyniadau.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â gwerthoedd ein sefydliad?

▪ Fframwaith Cynllunio Integredig y Bwrdd Iechyd



Mae Fframwaith Cynllunio Integredig y Bwrdd Iechyd yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ledled y sefydliad, gan sicrhau bod egwyddorion cynllunio da yn cael eu dilyn gyda gweithgareddau cynllunio wedi'u halinio â thirwedd strategol ehangach y Bwrdd Iechyd, partneriaid a'r Llywodraeth. Mae Fframwaith Cynllunio'r Bwrdd Iechyd yn cydblethu â Fframweithiau Byrddau Iechyd eraill i ddarparu set o Fframweithiau integredig.

Mae'r Fframwaith yn darparu glasbrint ar gyfer gofynion cynllunio integredig, ac yn cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd i gynllunio integredig o fewn y sefydliad a gyda phartneriaid.

Mae'r Fframwaith Cynllunio Integredig (IPF) yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol, y dull o gynllunio integredig a'r egwyddorion y mae'r sefydliad yn gweithredu gyda nhw.

Mae'r egwyddorion dylunio sefydliadol a nodir yn yr adran uchod yn ategu'r fframwaith hwn ac wedi bod yn offeryn defnyddiol i gefnogi cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Diweddariad ar Fesurau Arbennig (Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth Lefel 5)

▪ Trosolwg o'r ffactorau a ysgogodd yr uwchgyfeirio yn 2023

Ar 27 Chwefror 2023, cafodd y Bwrdd Iechyd ei uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig yn dilyn cyfarfodydd y grŵp tair rhan o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilio Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2022 ac Ionawr 2023. Roedd yr uwchgyfeirio hwnnw i Fesurau Arbennig yn adlewyrchu pryderon difrifol a heb eu datrys ynghylch **effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, ansawdd a chyflunio gwasanaethau, llywodraethu, diogelwch cleifion, darpariaeth weithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol**. Cytunodd Cadeirydd ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd i gamu o'r neilltu, a gwnaed nifer o benodiadau uniongyrchol.

Cyn yr uwchgyfeirio hwn roedd y Bwrdd Iechyd wedi bod mewn Ymyrraeth Dargedig ar gyfer: **Iechyd Meddwl (oedolion a phlant), strategaeth, cynllunio a pherfformiad, arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant), ymgysylltu (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid), Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd, Gwasanaethau Fasgwlaidd, ac Ysbyty Glan Clwyd yn gyffredinol**. Amlygodd yr uwchgyfeirio fod digon o dystiolaeth i ddangos nad oedd gwelliant sylweddol ac amserol yn digwydd o dan Ymyrraeth Dargedig ac ystyriwyd bod uwchgyfeirio pellach yn angenrheidiol ac yn briodol yn yr amgylchiadau hyn. Ystyriaeth bwysig oedd pryder ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd unedol i ddatblygu a gweithredu newid a gwelliant.

▪ Fframwaith Lefel 5 (Mesurau Arbennig) a meini prawf isgyfeirio

Ar draws pob un o 6 pharth y fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn olrhain cynnydd yn erbyn y meini prawf i isgyfeirio o lefel 5 i lefel 4. Wrth wneud hynny, er mwyn ystyried gofynion mwy tymor canolig i hir, byddwn yn edrych ymlaen yn erbyn meini prawf o lefel 4 i lefel 3 hefyd.

Amlinellir rhai penawdau allweddol isod gyda rhestr fwy cyflawn i'w gweld yn Atodiad 4.

Cyllid, Strategaeth a Chynllunio	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Llywodraethu ariannol cadarn ac amgylchedd rheoli ariannol cadarn ▪ Eglurder y Bwrdd ar weledigaeth strategol a map ffordd clir ar gyfer cynllun gwasanaethau clinigol, gyda gwelliannau cynaliadwy yn y ffordd y cyflwynir y cynllun
Perfformiad a Chanlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyflawni blaenoriaethau gweinidogol allweddol o amgylch gofal wedi'i gynllunio 104 wythnos a safonau canser ▪ Gostyngiad parhaus yn nifer yr arosiadau o ran trosglwyddo o ambiwlansys
Gwasanaethau Bregus	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Arweinyddiaeth glinigol gref ar waith gyda chynllun gwella integredig effeithiol ▪ Tystiolaeth o fecanweithiau i ddeall y gyrwyr y tu ôl i wasanaethau bregus trwy driongli materion allweddol
Llywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Goruchwyliaeth a chraffu effeithiol yn cael eu darparu'n gyson gan y Bwrdd ▪ Fframwaith Rheoli Risg Effeithiol
Arweinyddiaeth, galluedd a diwylliant	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynllunio gweithlu strategol gyda chynllun olyniaeth a datblygu ar waith i sicrhau capasiti a gallu digonol ▪ Parhau i wreiddio fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau
Ansawdd Gofal	<ul style="list-style-type: none"> ▪ System Rheoli Ansawdd Integredig sy'n gweithredu ledled y sefydliad ▪ Dangos cynnydd yn erbyn Dyletswydd Gonestrwydd a Dyletswydd Ansawdd

▪ ***Adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Lefel 5 (Mesurau Arbennig)***

Mae cydnabyddiaeth o ffynonellau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, fod y sefydliad wedi gwneud camau breision dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae bellach wedi sefydlogi. Mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau rhoi'r sylfeini ar waith i ddod yn sefydliad effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

Cydnabyddir bod y cyd-destun ariannol y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo yn heriol, fodd bynnag mae'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â rheolaethau a rheolaeth ariannol yn amlwg. Mae'r datblygiadau cadarnhaol mewn trefniadau llywodraethu corfforaethol allweddol wedi'u hamlygu ynghyd â datblygiadau yn ystod y 12 mis diwethaf o ran prosesau Rheoli Ansawdd, sydd eisoes wedi arwain at welliannau sylweddol mewn amseroedd trosiant ar gyfer ymateb i bryderon ac wedi dechrau mynd i'r afael â materion etifeddiaeth difrifol.

Mae ffocws aelodau'r Bwrdd a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar y sefydliad wedi'i fynegi ynghyd â gwaith penodol dan arweiniad aelodau'r Bwrdd i ymgysylltu'n weithredol â chleifion, gofalwyr a dinasyddion fel rhan o ddull diwygiedig sy'n creu deialog ddwyffordd rhwng y Bwrdd lechyd a'r boblogaeth leol.

O ran heriau parhaus a meysydd ffocws, mae angen gwelliannau brys pellach o ran perfformiad a chanlyniadau a mynd i'r afael â meysydd bregus o fewn gwasanaethau clinigol. Mae angen hefyd datblygu strategaeth tymor hwy a chynllun gwasanaethau clinigol ategol er mwyn sicrhau sefydliad cynaliadwy ar gyfer y tymor hir. I grynhoi, mae gwaith sylfaenol wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae angen iddo bellach arwain at ganlyniadau a phrofiad gwell i gleifion.

Cynnydd Sefydliadol

▪ *Datblygu Sefydliad Effeithiol*

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i roi rhai o ofynion sylfaenol sefydliad effeithiol ar waith. Bu gwelliannau i strwythurau llywodraethu'r sefydliad ac mae asesiadau allanol gan Archwilio Cymru wedi cydnabod y datblygiadau a wnaed. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan Fwrdd sydd â pherthnasoedd cryf rhwng aelodau Gweithredol ac Anweithredol, gan alluogi perthnasoedd mwy effeithiol a thryloyw sy'n ymatebol i heriau adeiladol.

Bellach mae dull mwy cydlynol o nodi, rheoli a lliniaru risgiau strategol allweddol ar waith, gyda chefnogaeth gan fframwaith Rheoli Risg cadarn, ochr yn ochr â fframweithiau integredig ar gyfer Cynllunio a Pherfformiad.

Cefnogir y cynnydd hwn i gyd gan gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol wedi'i hail-lunio sydd hefyd wedi gweld y swyddogaeth rheoli risg a'r gwasanaethau cyfreithiol yn trosglwyddo i'w chylch gwaith i ddarparu gwasanaeth mwy cydlynol a chynhwysfawr i'r Bwrdd a'r sefydliad.

▪ *Datblygu strategaeth a newid hirhoedlog*

Bu gwelliant amlwg a thystiolaeth o lywodraethu ariannol cryfach. Roedd cynllun diwygiedig o gadw a dirprwyo a chymeradwyaeth y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn gamau sylfaenol cychwynnol ynghyd â mynd i'r afael â'r materion a arweiniodd at farn ddiamedod ar y cyfrifon blynyddol ac yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen i'r sefydliad.

Mae rheolaethau gwell ar waith i ganfod unrhyw dorri gofynion caffael, a hynny i gyd fel rhan o becyn gwaith ehangach i weithredu argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Reoli Caffael Contractau. Yn ei sgil cafodd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i fwy na 500 o aelodau staff. Ategwyd y gwelliannau hyn mewn llywodraethu ariannol hefyd drwy nodi a chyflawni arbedion gwerth dros £48 miliwn, gan ragori ar y targed cychwynnol.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi dechrau aeddfedu ei ddull o gynllunio, gan esblygu o gynllun blwyddyn yn 2023/24 i ddull tair blynedd am y tro cyntaf o 2024-27, ynghyd â dull cytunedig o ddatblygu'r strategaeth 10 Mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol. Cymeradwywyd a gweithredwyd Fframwaith Cynllunio Integredig, wedi'i lywio gan yr Adolygiad Annibynnol o Gynllunio ac mae prosesau sicrwydd gwell hefyd wedi gweld cyfraddau cyflawniad uwch o fewn y cynllun cyflawni blynyddol.

Mae'r sefydliad wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni balans ariannol a chyflawni'r ddyletswydd ariannol, gan gydnabod y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â rheolaethau ariannol mewnol llawer mwy cadarn.

▪ ***Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol***

Mae creu diwylliant tosturiol yn hanfodol i lwyddiant yn y dyfodol ac mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i arwain trwy esiampl gyda naw ymrwymiad o fwriad strategol ac maent hefyd wedi cymeradwyo Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau a Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig.

Mae'r gwaith ar werthoedd ac ymddygiadau wedi'i gyd-gynhyrchu ag ystod eang o staff ar draws y sefydliad, ac ers hynny mae carfan o 100 o arweinwyr newid diwylliant wedi eu penodi i yrru'r dull diwylliannol newydd ymlaen. Mae'r Fframwaith Arweinyddiaeth yn darparu cynnig i staff ar bob lefel o'r sefydliad, gan greu llwybr clir i'n pobl ddatblygu o fewn Gogledd Cymru, a sicrhau cynllunio olyniaeth hirdymor.

Mae rhaglen Sylfeini'r Dyfodol ar y gweill yn dda, ar ôl cwblhau'r cyfnod darganfod, ac yn awr yn canolbwyntio ar ddylunio ac yna arwain tuag at y cam cyflawni. Y rhaglen hon yw conglaen gwelliannau'r sefydliad yn y dyfodol ac yn bwysig mae'n mynd i'r afael â chyfyngiadau newidiadau blaenorol i'r model gweithredu yn 2022 a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar strwythurau. Mae'r rhaglen hon bellach yn ymgorffori strwythurau, pobl, prosesau a diwylliant i ddarparu dull mwy cyfannol ac, yn bwysicach fyth, sicrhau cysylltiad cryf yn ôl at strategaeth.

▪ ***Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad***

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau'r arosiadau mwyaf eithafol o 5 i 6 mlynedd o fewn gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio gyda'r ffocws nawr ar y nifer fwy o gleifion sy'n wynebu arosiadau estynedig o fwy na 2 flynedd. Mae hwn yn faes y mae'r tîm gweithredol yn canolbwyntio arno'n wythnosol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cynhyrchiant, tra hefyd yn sicrhau adnoddau ychwanegol trwy gontractio mewnlol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys capasiti ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau gydag amseroedd aros cleifion y gwasanaethau canser a sicrhau bod gan gleifion fynediad mwy amserol at ofal.

Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion wedi parhau i berfformio uwchlaw'r safon genedlaethol, gan ddarparu asesiad, ymyrraeth a chynllun triniaeth yn gyson o fewn 28 diwrnod i dros 80% o gleifion. Mae gwasanaethau CAMHS hefyd wedi bod yn darparu asesiad cychwynnol o fewn 28 diwrnod dros 75% o'r amser, gyda'r ffocws bellach yn ymestyn i gyflawni'r safonau hyn ar gyfer asesiadau therapiwtig hefyd.

Mae cynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â phroblemau gyda nifer o wasanaethau sy'n wynebu heriau yn y sefydliad, ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw wasanaethau sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen gwelliant sylweddol gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) mwyach. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd yn hyn o beth i fynd i'r afael yn llawn â'r ystod o faterion ar draws pob un o'r gwasanaethau. Yn ogystal â mynd i'r afael â heriau o fewn y sector aciwt, bydd blaenoriaethau'r dyfodol yn canolbwyntio ar wireddu potensial llawn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a meithrin capasiti yn y maes hwn.

▪ ***Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu***

Mae Fforwm Dysgu Sefydliadol wedi'i sefydlu i oruchwylio'r dull o ymgorffori dysgu parhaus. Mae storfa ddysgu wedi'i datblygu, gan sicrhau pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le mewn un maes o'r sefydliad y gellir rhannu'r dysgu dilynol yn eang. Mae hyn yr un mor berthnasol i adegau pan fydd

pethau wedi mynd yn dda a meithrin amgylchedd lle mae rhannu'r llwyddiant hwn yn cael ei wneud yn rheolaidd. Mae hyn hefyd yn cael ei ategu gan y symud oddi wrth wasanaethau gwybodaeth traddodiadol i un sy'n canolbwyntio ar ddeallusrwydd a mewnwelediad a sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan ddata yn ein dysgu a'n bod yn defnyddio sylfaen dystiolaeth gadarn i'n prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae'r prif ffocws o fewn y dull hwn wedi bod mewn perthynas ag ansawdd gofal a dysgu o ddigwyddiadau, a phob un wedi'i alinio â'n dull newydd o Reoli Ansawdd. Cynhelir adolygiadau dysgu atal heintiau yn rheolaidd, gyda datblygu cynlluniau gwella i fynd i'r afael â phroblemau ac adolygiadau ôl-haint yn digwydd ar gyfer pob Haint sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd. Mae'r rhain wedi arwain at gyflwyno ymgyrchoedd fel HABITs (Hylendid, Asepsis, Breichiau'n noeth o dan y penelinoedd, I sicrhau diogelwch - Ynysu, Triniaeth a Sicrhau Rhagofalon Safonol) sy'n cael ei ymestyn i gynnwys cleifion a'r cyhoedd.




Aseiad a Throsolwg Perfformiad

Mae gan y Bwrdd Iechyd heriau perfformiad sylweddol mewn nifer o wasanaethau sy'n cyfrannu at statws uwchgyfeirio cyffredinol Mesurau Arbennig. Mae amseroedd ymateb ar gyfer gofal brys ac argyfwng, gofal wedi'i gynllunio, diagnosteg a gwasanaethau canser yn benodol yn is na'r safonau mynediad gweithredol y mae'n ofynnol i'r GIG eu cyflawni. Nid yw mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol fel gofal deintyddol yn diwallu anghenion lleol y boblogaeth. Mae methu â chyflawni yn erbyn targedau mynediad sy'n deillio'n glinigol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn aml yn arwain at ganlyniadau gwaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r diffygion perfformiad ac mae'n gweithio i'w datrys. Er bod gwelliannau wedi'u sicrhau mewn nifer o feysydd gan gynnwys lleihau arosiadau eithafol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, ar gyfer rhai mesurau gofal brys ac argyfwng a chyda gwaith gwella capasiti a llwybrau ychwanegol mewn canser a diagnosteg yn darparu'r sylfeini ar gyfer perfformiad gwell, mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella perfformiad, amseroedd mynediad ac amseroedd ymateb i wasanaethau, a manylir arnynt yn adran 3 o'r cynllun.

▪ Nod Pedwarplyg



Mae Cymru Iachach⁹ yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd y mae'r GIG yng Nghymru yn ei roi ar y 'Nod Pedwarplyg' a gydnabyddir yn rhyngwladol i ysgogi gwelliannau i wasanaethau gofal iechyd sy'n addas ac yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Yn hyn o beth, mae iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy yn parhau i fod yn her fyd-eang. Pedair thema'r Nod Pedwarplyg, wedi'u dehongli ar gyfer ein cyd-destun yng Nghymru yw:

- **Gwella iechyd a lles y boblogaeth;**
- **Gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;**
- **Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol; a**
- **Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ysgogol a chynaliadwy.**

Mae penawdau perfformiad allweddol, a gymerwyd o ffurflenni monitro Fframwaith Perfformiad GIG Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, yn cynnwys:

Nod Pedwarplyg 1: Mae pobl yng Nghymru wedi gwella eu hiechyd a'u lles drwy ddulliau atal a hunanreolaeth gwell

- Mae gan y Bwrdd Iechyd berfformiad cymharol gryf o ran cyfraddau brechu. Mae lefelau targed wedi'u gosod yn uchel i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer 'imiwnedd torfol'. Roedd y Bwrdd Iechyd tua dau bwynt canran ar ei hôl hi o'r targed o 75% ar gyfer brechu rhag y fflw ymhlith oedolion hŷn na 65 oed. Er ei fod bum pwynt canran yn is na'r targed, y Bwrdd Iechyd oedd â'r ail gyfraddau brechu uchaf ar gyfer brechu plant yng Nghymru.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i dargedu cyfraddau brechu Covid-19, gyda pherfformiad cyfartalog o'i gymharu â gweddill Cymru.
- Mae cyfraddau ymdrechion i roi'r gorau i ysmegu gan ddefnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi parhau i gynyddu.

⁹ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

- Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar raglenni sgrinio babanod newydd-anedig wedi aros yn uchel ac yn gyson uwchlaw'r targed o 90%
- Mae'r defnydd o sgrinio colonosgopi wedi lleihau yn ystod y flwyddyn felly mae lle i wella.

Nod Pedwarplyg 2: Mae gan bobl yng Nghymru wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch, wedi'u galluogi gan dechnolegau digidol a'u cefnogi gan ymgysylltiad

- Mae mynediad at ddeintyddiaeth wedi bod yn gwella gyda chynnydd o fis i fis mewn perfformiad, fodd bynnag mae angen gwelliant sylweddol o hyd.
- Mae nifer yr ymgynghoriadau a ddarparwyd drwy'r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol i Fferyllwyr (PIPS) wedi parhau i gynyddu gyda'r Bwrdd Iechyd y cyntaf yng Nghymru ar ddiwedd mis Ionawr 2025.
- Er bod angen cynnydd pellach, mae'r sefydliad wedi gweld gwelliant cyson yng nghanran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes a dderbyniodd yr holl wyth pecyn gofal a argymhellwyd gan NICE.
- Mae cyfraddau mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pob oedran yn parhau i fod yn gymysg. Er bod rhai metrigau wedi cyrraedd y targed yn gyson, mae perfformiad ar eraill wedi amrywio gyda ffocws ar arosiadau hir yn effeithio ar berfformiadau misol. Mae cyflawni'r gyfradd mynediad darged o ran niwroamrywiaeth yn her ledled Cymru ac mae perfformiad presennol y Bwrdd Iechyd yn is na'r gofynion a'r disgwyliadau.
- Mae perfformiad ym maes canser wedi dirywio yn ystod y flwyddyn ac ni fydd yn cyflawni'r targed cenedlaethol diwedd blwyddyn o 80%.
- Er bod perfformiad gofal wedi'i gynllunio wedi parhau i fod yn heriol, mae cynnydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn gan leihau nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos am driniaeth yn unol â blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd i ddileu arosiadau dros 2 flynedd.
- Er eu bod yn parhau i fod ar ei hôl hi ar y targed, gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn ystod y flwyddyn gyda gostyngiad o tua thraean yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapi penodol.
- Mae perfformiad gofal brys ac argyfwng wedi parhau i fod yn heriol iawn. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gweld gwelliant tuedd 12 mis mewn perfformiad o ran amseroedd brysbennu ac amser i asesu gan benderfynydd clinigol, mae'r amser a dreulir mewn Adrannau Achosion Brys yn parhau i fod yn her sylweddol.

(Detholiadau o lefelau perfformiad fel y'u hadroddwyd yn ffurflenni monitro Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2024-25)

Nod Pedwarplyg 3: Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy

- Yn ystod 2024/25, mae'r ffocws wedi parhau ar leihau gwariant ar staff asiantaeth oddi ar gontract fel canran o gyfanswm y bil cyflog yn unol â gofyniad Cylchlythyr Iechyd Cymru ar gyfer lleihau gwariant asiantaeth a rhaglen y gweithlu Gwerth a Chynaliadwyedd.
- Mae cyfradd salwch staff wedi aros o fewn lefelau amrywiol arferol.
- Bu gostyngiad treigl o 12 mis yng nghyfradd trosiant staff sy'n nyrsys a bydwreigiaid cofrestredig sy'n gadael GIG Cymru

(Detholiadau o lefelau perfformiad fel y'u hadroddwyd yn ffurflenni monitro Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2024-25)

Nod Pedwarplyg 4: Mae gan Gymru system iechyd a gofal cymdeithasol o werth uwch sydd wedi dangos gwelliant ac arloesedd cyflym, wedi'i alluogi gan ddata ac wedi'i ffocysu ar ganlyniadau

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella amseroldeb ymchwilio i 'ddigwyddiadau adroddadwy'
- Mae oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys sy'n cyrraedd Adrannau Aachosion Brys y Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn heriol iawn, gan adlewyrchu cyd-destun system gofal brys o dan bwysau mawr drwy gydol y flwyddyn.
- Ar ddiwedd mis Chwefror 2025, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r targed tueddiad gostyngiad 12 mis ar gyfer nifer y llwybrau gofal lle'r oedd gohirio cyn rhyddhau cleifion.
- Mae canran yr apwyntiadau offthalmoleg R1 o fewn y dyddiad targed clinigol wedi parhau i fod yn heriol gyda chyfradd sy'n dirywio yn ystod y flwyddyn.
- Yn unol â byrddau iechyd eraill, mae perfformiad yn erbyn targed cronus Heintiau a Gaffaelir mewn Gofal Iechyd (HCAI) yn heriol ac nid yw'n cyflawni'r targed cronus o Fawrth 25 ar hyn o bryd. Yr unig eithriad i'r targed ar gyfer y Bwrdd Iechyd yw Aeruginosa.
- Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld tuedd o welliant yn nifer y trosglwyddiadau cleifion o ambiwlansys dros 1 awr.

(Detholiadau o lefelau perfformiad fel y'u hadroddir yn ffurflenni monitro Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2024-25).

▪ **Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT)**



Mae Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf, GIRFT, wedi'i chynllunio i wella gofal cleifion trwy adolygu gwasanaethau, ac yna defnyddio meincnodi a'r sail dystiolaeth i gefnogi newid lleol.

Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu harwain yn glinigol ac yn dod â chlinigwyr y Bwrdd Iechyd a chlinigwyr o fannau eraill ynghyd i archwilio ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau yn seiliedig ar brofiadau eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn adroddiadau ar gyfer adolygiadau a gynhaliwyd mewn nifer o feysydd clinigol, gan gynnwys orthopedeg, wroleg, llawfeddygaeth gyffredinol, gynaeoleg ac offthalmoleg. Mae'r adolygiadau hyn wedi nodi cyfleoedd i wella cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell drwy ailgyflunio ac arweinyddiaeth glinigol gryfach. Er bod nifer o welliannau eisoes wedi'u gwneud, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo yn ystod 2025 i gyflawni'r newid gwasanaeth angenrheidiol yn ogystal â gwreiddio'r newidiadau cychwynnol hyn mewn 'busnes fel arfer' yn ogystal â mwy o waith gan ddefnyddio methodoleg ac argymhellion GIRFT. Trafodir meysydd gweithredu adolygiad GIRFT o fewn blaenoriaethau'r Cynllun ar gyfer 2025/26 yn nes ymlaen.

Crynodeb o Flaenoriaethau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o gynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ond mae rhai heriau ar raddfa fawr yn parhau:

- Mae angen alinio a gwella strwythur, prosesau, systemau, diwylliant a strategaeth y sefydliad, a dyna pam mae'r rhaglen Sylfeini'r Dyfodol yn un o Raglenni Newid Mawr y sefydliad.
- Mae llawer o adolygiadau Annibynnol, Coleg Brenhinol a GIRFT wedi cael eu cynnal o fewn y sefydliad sy'n tynnu sylw at yr angen i wneud pethau'n gyson ar draws y sefydliad, o ran cymhwyso arfer gorau yn gyson, ond hefyd lefelau cynhyrchiant, effeithlonrwydd a defnydd.
- Mynediad at wasanaethau yw'r effaith fwyaf ar y boblogaeth o hyd, ar draws Gofal Wedi'i Gynllunio a Gofal Heb ei Drefnu a lleoliadau Gofal Sylfaenol ac Eilaidd. Mae elfennau o hyn, yn enwedig mynediad at Adrannau Achosion Brys, yn cael eu heffeithio gan faterion system gyfan y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Bwrdd Iechyd, er bod llawer o welliannau i'w gwneud o hyd o fewn y sefydliad.
- Cydweithio'n fwy effeithiol â phartneriaid i ddefnyddio a datblygu gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn well, fel y gall dinasyddion gael mynediad at ystod o wasanaethau iechyd corfforol a meddyliol a lles yn agosach at adref. Ffocws ar integreiddio atal ac ymyrraeth gynnar i ddylunio gwasanaethau i gefnogi pobl i aros yn iach.
- Sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir o'r ansawdd gorau posibl ac yn deg yn ddaearyddol ac ar draws pob grŵp economaidd-gymdeithasol.
- Mynd i'r afael â thanfuddsoddi hirdymor yn yr ystâd a'r seilwaith digidol ar draws y sefydliad, gan archwilio opsiynau mwy arloesol ym maes adnoddau cyfalaf.

Adran 3: Amcanion a Blaenoriaethau Strategol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r blaenoriaethau cyflawni allweddol ar gyfer y sefydliad sydd wedi'u strwythuro o amgylch ei bum Amcan Strategol (a nodir yn Adran 2). Esblygodd yr amcanion hyn o gynllun ymateb i Fesurau Arbennig cychwynnol y Bwrdd Iechyd ac maent yn llinyn cyson o gynllun tair blynedd y llynedd a'r un hwn.

Mae'r meysydd blaenoriaeth o fewn pob Amcan Strategol wedi'u cydgrynhoi i ystyried y cynnydd a wnaed ac i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Amcan 1: Adeiladau sefydliad effeithiol		Amcan 4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad	
1A	Systemau llywodraethu effeithiol	4A	Atal ac Ymyrryd yn Gynnar
1B	Sefydlu Sylfeini'r Dyfodol	4B	Gofal Sylfaenol gan gynnwys Clystyrau
1C	Ymateb i Ofynion Deddfwriaethol	4C	Gofal Cymunedol
1D	Gweithredu'r System Rheoli Ansawdd	4D	Gofal wedi'i Gynllunio, Canser a Diagnosteg
Amcan 2: Datblygu Strategaeth a newid hirhoedlog		4E	Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
2A	Datblygu a darparu Strategaeth a Chynllun Gwasanaethau Clinigol ar gyfer y Bwrdd Iechyd	4F	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Oedolion
2B	Atgyfnerthu Cynllunio a Chomisiynu	4G	CAMHS
2C	Gwella'r Amgylchedd, yr Ystad a Chyfleusterau	4H	Niwroddatblygiad
2D	Gwella digidol, data a dulliau technoleg	4I	Dementia
2E	Datblygu a sicrhau gwerth a chynaliadwyedd	4J	'Gwasanaethau sy'n wynebu Heriau' ar hyn o bryd
2F	Gwella dulliau cynllunio a datblygu'r gweithlu	4K	Gwasanaethau Merched
2G	Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol	4L	Plant a Phobl Ifanc
Amcan 3: Diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol		4M	Gwasanaethau Fferyllol
3A	Datblygu Diwylliant	4N	Gofal Lliniarol, Diwedd Oes a Phrofedigaeth
3B	Datblygu Arweinyddiaeth	4O	Gwasanaethau deintyddol
3C	Ymgysylltu â dinasyddion a gweithio mewn partneriaeth	4P	Diabetes
3D	Y Gymraeg a diwylliant Cymru	Amcan 5: Amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau	

5A	Partneriaethau Prifysgol ac Addysg Bellach
5B	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
5C	Gyrfaedd Academiaidd
5D	Seiliedig ar Wybodaeth
5E	Sefydliad sy'n Dysgu

Mae pob un o'r Amcanion Strategol yn dechrau gyda throsolwg o'r amcan a chrynodeb o'r cynnydd a wnaed yn 2024/25.

Amcan 1: Adeiladau sefydliad effeithiol

1A	Systemau llywodraethu effeithiol
1B	Sefydlu Sylfeini'r Dyfodol
1C	Ymateb i Ofynion Deddfwriaethol
1D	Gweithredu'r System Rheoli Ansawdd

Trosolwg

Mae cynnydd wedi'i wneud ar draws 2024/25 i greu sefydliad effeithiol. Mae'r blaenoriaethau sy'n weddill a restrir uchod yn cynrychioli'r pethau hynny sy'n cymryd nifer o flynyddoedd i'w datblygu a'u cyflawni. Bydd datblygu systemau llywodraethu effeithiol ledled y sefydliad, i efelychu'r gwelliannau a wnaed mewn llywodraethu corfforaethol, yn allweddol ac yn gysylltiedig yn agos ag elfennau 'proses' a 'system' rhaglen waith Sylfeini'r Dyfodol. Bydd sicrhau bod y sefydliad yn bodloni'r holl ofynion deddfwriaethol angenrheidiol yn briodol, yn ogystal â chymhwyso rheoli ansawdd i bopeth y mae'n ei wneud, yn cefnogi gwelliant hirdymor.

Cynnydd ar gyfer yr Amcan Strategol hwn yn ystod 2024/25

Sylwch fod rhai blaenoriaethau wedi'u crynhoi ar draws gwahanol Amcanion Strategol yn y cynllun hwn

- **Effeithiolrwydd y Bwrdd:** Strwythurau llywodraethu a Phwyllgorau wedi'u gweithredu'n llawn; Cynllun Datblygu'r Bwrdd wedi'i gyhoeddi; Grŵp Ymgynghorol Cadeiryddion (pwyllgorau) wedi'i sefydlu i hyrwyddo croesgyfeirio; recriwtio Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn mynd rhagddo; Pwyllgor Archwilio yn goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.
- **Rheoli Risg:** Mae adolygiadau o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) a Fframweithiau Rheoli Risg wedi'u cwblhau a'u halinio â'r parodrwydd i dderbyn risg, y Cynllun 3 Blynedd ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd; mae dangosfwrdd Rheoli Risg wedi'i greu a'i gyflwyno ynghyd â hyfforddiant rheoli risg.
- **Model Gweithredu:** a elwir bellach yn Sylfeini'r Dyfodol i adlewyrchu'r model ehangach – Cyfnod Darganfod wedi'i gwblhau, Cyfnod Dylunio wedi cychwyn. Cyflawni o fewn 2025/26.
- **Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd:** Yn cael ei ddefnyddio i amlygu materion i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau; adolygu/diwygio fel rhan o Sylfeini'r Dyfodol; mae Adolygiadau Cyfarwyddiaethau Corfforaethol ac Adolygiadau Atebolrwydd Gwasanaeth bellach wedi'u gweithredu'n llawn.
- **Gwerth a Chynaliadwyedd:** Mae rhaglen waith (yn seiliedig ar y pum thema Gwerth a Chynaliadwyedd craidd cenedlaethol) wedi'i chynllunio a'i chyflwyno sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau a phrofiad cleifion ac wedi darparu'r llwyfan ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen Gwella Costau (CIP) gan y sefydliad ar gyfer 2024/25.
- **Gwelliannau Deddfwriaethol:** *Iechyd a Diogelwch* – dull o safonau/asesiadau deddfwriaethol ar y gweill. *Parodrwydd am Argyfwng, Gwytnwch ac Ymateb (EPRR)* - yn dilyn penodi Pennaeth Parodrwydd am Argyfwng, Gwytnwch ac Ymateb (EPRR), mae'r Grŵp Cynghori ar Argyfyngau Sifil a'r Grŵp Gwaith Parhad Busnes yn cael eu hailsefydlu
- **System Rheoli Ansawdd (QMS):** Wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd, mae 'gweithredwyr cynnar' wedi cwblhau asesuadau sylfaenol ac yn gweithio ar welliannau; Integreiddio â'r dull Cynllunio Gwasanaethau Clinigol.
- **Cynllunio'r Gweithlu:** Dull Cynllunio Gweithlu Sefydliadol a swyddogaeth newydd yn cael ei sefydlu; ffocws ar 'wasanaethau bregus' a mabwysiadwyr cynnar 'QMS'; Mae rhaglenni hyfforddi wedi'u datblygu a'u cyflwyno i aelodau staff hanfodol i wella cefnogaeth cynllunio gweithlu ar gyfer

gwasanaethau allweddol. Cydweithio â HEIW i gyflwyno eu plattform Comisiynu Addysg newydd ledled y sefydliad.

- **Y Gymraeg:** Mwy o gyfleoedd dysgu Cymraeg i staff, gan gynnwys defnyddio'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg o dan y 'Cynllun Cymraeg Gwaith'; Datblygwyd dull safonol ar gyfer cyflawni Safonau'r Iaith Gymraeg.
- **Datgarboneiddio:** Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau wedi'i benodi; Cynnydd yn erbyn cyflawni cyfraniad y Bwrdd Iechyd at Gynllun Cyflawni Datgarboneiddio Strategol Llywodraeth Cymru.

1A: Systemau llywodraethu effeithiol

Trosolwg

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ailsefydlu ac ailosod y Bwrdd yn dilyn newidiadau sylweddol yn yr aelodaeth ddechrau 2023. Yn ystod 2024/25 roedd ffocws ar lywodraethu yn cael ei "sefydlu" gyda phenodiadau aelodau parhaol i'r Bwrdd. Yn 2025/26, bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud gwelliannau pellach a'u hymgorffori.

Mae Bwrdd effeithiol ac effeithlon yn hanfodol wrth lywio'r sefydliad drwy'r heriau o ran perfformiad a gwneud penderfyniadau sydd wedi arwain at uwchgyfeirio i Fesurau Arbennig.

Mae'r gwaith ar gyfer 2025/26 yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2024/25 a rhagwelir y bydd hyn yn bodloni'r gofynion a amlinellir yn y Meini Prawf Isgyfeirio o Fesurau Arbennig ar gyfer Llywodraethu, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2024.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu o fewn set gytunedig o Reolau Sefydlog (SOs), Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) a Chynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD). Mae cynllun y penderfyniadau wedi'i gadw i'r Bwrdd, gan gynnwys cynllun dirprwyo pwerau i Bwyllgorau a Swyddogion y Bwrdd Iechyd. Mae amrywiaeth o ddogfennau fframwaith cenedlaethol yn nodi'r trefniadau y mae'r Bwrdd Iechyd, ei Bwyllgorau, ei Grwpiau Cyngori a staff y GIG yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni eu gweithgareddau oddi mewn iddynt.

Bydd Fframwaith y Cytundeb Atebolrwydd yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio ag ymrwymïadau gwariant o fewn eu hawdurdod cyllidebol dirprwyedig, gan alluogi rheolaeth ariannol effeithiol ar gyllidebau, gan sicrhau bod lefelau digonol o arbedion y gellir eu cyflawni ar waith, a bod cynlluniau y cytunwyd arnynt ar gyfer dadfuddsoddi neu fesurau eraill i leihau costau yn cael eu cyflawni.

Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd Iechyd ddull rheoli risg a threfniadau llywodraethu cryfach i gefnogi holl amcanion a blaenoriaethau BIPBC er mwyn creu amgylchedd mwy diogel a gwydn i ddinasyddion a staff.

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg a ddiwygiwyd yn ddiweddar wedi gosod y sylfeini i greu pensaernïaeth rheoli risg fwy integredig, addasol ac effeithiol sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, yn cefnogi gwydnwch gweithredol, ac yn gwella



diogelwch cleifion ac ansawdd gofal. Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod hyn wedi'i ymgorffori'n llawn a bod y Bwrdd Iechyd yn symud tuag at aeddfedrwydd o ran rheoli risg a bod yr amcanion yn cefnogi'r ymdrech hon.

Dyma'r meysydd ffocws:

- Monitro a gwerthuso risg strategol
- Y Fframwaith Rheoli Risg Integredig
- Hyfforddiant rheoli risg gwell
- Aeddfedrwydd rheoli risg

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 1A.1 – Datblygu a symud ymlaen â Chynllun Gwella Llywodraethu i wella trefniadau llywodraethu yn barhaus, gan ymgorffori argymhellion o'r Aseiad Strwythuredig 2024/25. Bydd y cynllun yn cynnwys camau mesuradwy i wella trefniadau llywodraethu, gan sicrhau bod effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael ei adolygu'n barhaus a'i wella yn unol â hynny.
- 1A.2 - Cynnal hunanasesiad ffurfiol blynyddol o effeithiolrwydd y bwrdd yn unol ag arfer da.
- 1A.3 - Datblygu Hwb Llywodraethu, Pecyn Cymorth Llywodraethu a llawlyfr, a sicrhau bod hyfforddiant a chymorth ar gael i reolwyr er mwyn iddynt ddeall y trefniadau llywodraethu ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 1A.4 - Gwella trefniadau llywodraethu fel eu bod yn alinio ag amcanion strategol y sefydliad ac yn ategu at eu cyflawni a chaniatáu penderfyniadau ar sail ansawdd yn y system gyfan.
- 1A.5 - Cynnal archwiliadau aeddfedrwydd risg i fesur a chryfhau rheoli risg a llywodraethu risg er mwyn sicrhau cysondeb mewn arferion rheoli risg ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 1A.6 - Cwblhau'r broses o gyflwyno tair lefel yr hyfforddiant rheoli risg y cytunwyd arno.
- 1A.7 - Darparu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth i reolwyr wrth gymhwyso'r SOs, SFIs a SoRD, gyda ffocws penodol ar gaffael wrth sicrhau gwerth am arian ac ymgysylltu â'r farchnad ehangach wrth osod archebion am nwyddau a gwasanaethau.
- 1A.8 - Gwella'r Fframwaith Cytundebau Atebolrwydd gyda'r holl staff sydd â chyfrifoldeb am reoli gwariant o fewn y gyllideb a gyhoeddwyd, at y dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer a chydymffurfiaeth â SOs, SFIs a SoRD a gymeradwywyd gan y Byrddau Iechyd, yn benodol o ran recriwtio a chomisiynu nwyddau a gwasanaethau.
- 1A.9 - Cyflwyno cynllun adfer i ddileu'r ôl-groniad o Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau (LFERs - sy'n rhan o'r broses hawlio ac iawndal gyda Chronfa Risg Cymru), a sefydlu proses newydd i sicrhau cyflwyniad amserol yn y dyfodol a hefyd gostyngiad yn nifer yr achosion LFER sydd wedi'u "nodi'n goch" (sy'n golygu bod angen adolygiad ac ailgyflwyniad sylweddol)

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Bydd gan y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol sefydledig sy'n gweithredu'n dda a fydd yn gallu:

- Ymgorffori arfer gorau ledled y sefydliad.
- Gwella'r dystiolaeth o ddysgu o achosion cyfreithiol.
- Datblygu'r gallu i gyflawni effeithlonrwydd sefydliadol ac arbedion ariannol o gostau cyfreithiol.
- Datblygu mecanwaith adborth i sicrhau bod adborth cwsmeriaid yn llywio gwella gwasanaethau.
- Adeiladu ar y fframweithiau, yr archwiliadau aeddfedrwydd a'r hyfforddiant a gynhaliwyd o fewn 2025/26, gan sicrhau bod y dull rheoli risg yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i wella'n barhaus i gefnogi cyflawni cysondeb yn ansawdd rheoli risg ar draws y sefydliad a gwelliannau mewn dangosyddion perfformiad allweddol rheoli risg.
- Gwella ac ehangu ar y blaenoriaethau o 2025/26, gan barhau i fod yn hyblyg i gyflawni yn erbyn heriau a datblygiadau newydd.


- Sicrhau bod y SoRD yn cael ei ddiweddarau'n barhaus i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn strwythur y sefydliad a'i fod yn cefnogi cyflawni llywodraethu ariannol cadarn.
- Derbyn barn ddiamed ar gynhyrchiad ar ddatganiadau ariannol diwedd blwyddyn gan Archwilio Cymru, ochr yn ochr ag alldro ariannol sy'n gwella.

1B: Sefydlu Sylfeini'r Dyfodol


Trosolwg

Mae gan sefydliad hynod effeithiol ddull cydlynol o ymdrin â strategaeth, diwylliant, pobl, proses a strwythur a bydd cael model gweithredu (ffordd o weithio) effeithiol yn gwella gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru.

Mae gwaith ar werthuso'r Model Gweithredu y cytunwyd arno yn 2022 wedi'i wneud (mae Adroddiad Darganfod wedi'i gyhoeddi). Roedd ffocws ar strwythurau, gyda'r elfennau eraill o fodel gweithredu (strategaeth, diwylliant, pobl a phroses) yn cael eu hanwybyddu. Yn y cyfamser, mae wedi dod yn amlwg nad yw elfennau o'r model hwn yn gweithio cystal ag y rhagwelwyd. Yn benodol, mae'r cyfluniad presennol yn brin o'r gallu i fod yn hyblyg fel sefydliad mawr i ddarparu gwasanaethau gwell fel un Bwrdd Iechyd. Mae hon yn her ledled y DU ac yn un lle gallai'r Bwrdd Iechyd wneud gwell defnydd o'i faint. Mae heriau eraill gyda'r model presennol yn cynnwys gwneud penderfyniadau, llywodraethu, dyblygu, cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau, a'r gallu i wneud penderfyniadau amserol.



Mae 'Sylfeini'r Dyfodol' (Adolygiad o'r Model Gweithredu) yn un o Bedair Rhaglen Newid Mawr BIPBC ac mae'n defnyddio model sy'n seiliedig ar 'Arwain Newid Sefydliadol ac Adnewyddu' gan Tushman ac O'Reilly. Bydd y gwaith hwn yn rhoi gwell eglurder ynghylch sut y gall y sefydliad fod yn fwy effeithiol, gan alluogi gwneud penderfyniadau i fod yn fwy ystyrydd, gyda mwy o atebolrwydd, cefnogi cyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd ac yn y pen draw sicrhau gwell ansawdd gofal a gwell canlyniadau iechyd.



Mae'r amcan hwn yn cysylltu'n gryf ag Amcan Strategol 3.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 1B.1 - Cwblhau'r Cyfnod Dylunio, ar ôl bod trwy broses o gyd-ddylunio, profi ac ymgynghori, gan gael cymeradwyaeth ffurfiol i symud ymlaen i'r cyfnod cyflawni a'r gweithredu trwy'r llywodraethu angenrheidiol.
- 1B.2 - Gweithredu cam cyntaf y model gweithredu newydd, gan gwblhau cynllun gwaith 2025/26 ar draws strwythurau, strategaeth, pobl, prosesau a diwylliant.
- 1B.3 - Datblygu cynllun gwaith y model gweithredu ar gyfer 2026/27, gan gynnwys gweithredu'r ail a'r trydydd cam a mecanweithiau i barhau i fonitro sut mae'n cael ei ymgorffori a'i gynnal ar draws pob agwedd ar strwythurau, strategaeth, pobl, diwylliant a phrosesau.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Rhoi proses ar waith ar gyfer adborth ac asesu gwireddu buddion e.e. pa mor llwyddiannus yw gweithrediad y model gweithredu, rhoi cynlluniau ar waith i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn barhaus.
- Cwblhau cynllun gwaith y model gweithredu ar gyfer 2026/27, gan barhau i fonitro sut mae'n cael ei ymgorffori a'i gynnal ar draws pob agwedd ar strwythurau, strategaeth, pobl, prosesau a diwylliant a rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

1C: Ymateb i Ofynion Deddfwriaethol

Trosolwg

Mae cydymffurfiaeth deddfwriaethol yn hollbwysig i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn gweithredu'n gyfreithiol, yn foesegol, ac mewn ffordd sy'n blaenoriaethu diogelwch a lles cleifion. Mae sawl maes allweddol lle mae cydymffurfio â deddfwriaeth yn hanfodol i'r GIG:

- Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Gofal
- Diogelu Hawliau Cleifion
- Atebolrwydd Cyfreithiol ac Ariannol
- Ymddiriedaeth Gyhoeddus ac Enw Da
- Diogelwch a Llesiant Gweithwyr
- Addasu i Newid ac Arloesi
- Diogelu Data a Chyfrinachedd

Yn gryno, cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yw'r sylfaen y mae'r GIG ac felly'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ymddiriedaeth cleifion, statws cyfreithiol, a'r safonau gofal iechyd uchaf arni.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd parhau i wneud gwelliannau o ran cydymffurfiaeth deddfwriaethol, a dau faes yn benodol, sef cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth Argyfyngau Sifil.

Mae deddfwriaeth Argyfyngau Sifil yn ymwneud â Pharodrwydd am Argyfwng, Gwynwch ac Ymateb (EPRR). Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud gwelliannau yn seiliedig ar ddysgu o bandemig Covid-19 a digwyddiadau mawr eraill i sicrhau bod parodrwydd ar gyfer argyfyngau yn gadarn ac yn briodol.

Mae'r maes hwn yn flaenoriaeth i'r sefydliad oherwydd:

- Roedd y Bwrdd Iechyd yn destun erlyniad gan yr HSE yn 2023 ynghylch methiant i reoli risgiau clymu mewn unedau Iechyd Meddwl.
- Yn fwy diweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn destun erlyniad gan yr HSE mewn perthynas â methiant i reoli risgiau o ran codymau cleifion mewnol ar draws ysbytai cyffredinol, gyda dyddiadau llys wedi'u trefnu ar gyfer gwanwyn 2025.
- Mae'r ddau achos hyn yn tynnu sylw at yr angen i wella cydymffurfiaeth statudol â deddfwriaeth Iechyd a diogelwch, fel bod problemau a risgiau'n cael eu nodi a'u datrys yn rhagweithiol cyn i ddigwyddiadau a niwed ddigwydd.
- Mae dyletswydd statudol ar y Bwrdd Iechyd i ymateb i geisiadau gan Ymchwiliad Covid-19 y DU, ac Ymchwiliad Thirlwall.
- Y gofyniad i fodloni a mynd i'r afael â meini prawf Mesurau Arbennig ar gyfer Llywodraethu.
- Risg fyd-eang gynyddol o ymosodiadau seiber ar ddarparwyr gofal Iechyd.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 1C.1 - Cwblhau adolygiad o'r trefniadau presennol mewn perthynas â Sicrwydd Rheoleiddiol i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gadarn ac yn dangos gwelliannau o ran cydymffurfiaeth.
- 1C.2 - Ailsefydlu'r llyfrgell deddfwriaeth, prosesau i gasglu deddfwriaeth newydd, lledaenu'r deddfwriaeth honno i feysydd perthnasol y Bwrdd Iechyd a datblygu cynlluniau i gyflawni unrhyw newidiadau angenrheidiol.
- 1C.3 – Gwella prosesau i baratoi ar gyfer, ymateb i ac ymgorffori gwersi o unrhyw geisiadau a wneir gan Ymchwiliadau cenedlaethol.

- 1C.4 - Gweithredu Cynllun Tair Blynedd y Bwrdd lechyd yn seiliedig ar fethodoleg proses Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu HSG65 yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch (HSE).
- 1C.5 – Datblygu opsiynau ar gyfer cyflwyno system ledled y sefydliad ar gyfer monitro argymhellion archwilio.
- 1C.6 - Fel Gweithredwr Gwasanaethau Hanfodol, gweithredu unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol yn sgil y Bil Seiberddiogelwch a Chydnherthedd sydd ar ddod.
- 1C.7 - Datblygu Cynllun Gwella lechyd a Diogelwch gan sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn unol â Pholisi, canllawiau ac arferion lechyd a Diogelwch cyfredol y Bwrdd lechyd.
- 1C.8 - Datblygu system gadarn o archwilio a gweithredu sy'n llywio parodrydd a gweithrediad y Bwrdd lechyd o'r Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol a Chaffael diweddaraf.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Asesu cydymffurfiaeth flynyddol yn erbyn deddfwriaeth a pharatoi cynlluniau gwella i gryfhau meysydd allweddol yn ôl yr angen.
- Nodi unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y Bwrdd lechyd, cynnal asesiad o unrhyw newidiadau angenrheidiol a chynhyrchu cynllun gweithredu arfaethedig.
- Bydd y Bwrdd lechyd yn parhau i ddatblygu ei waith o amgylch y llyfrgell deddfwriaeth drwy weithredu datrysiadau digidol.

Fel rhan o'r gwelliannau llywodraethu a sicrwydd, disgwylir bod sicrwydd cadarnhaol ar bob cydymffurfiaeth deddfwriaethol ar waith a bod adroddiad yn cael ei roi ar waith drwy'r pwyllgor perthnasol o'r Bwrdd a thrwy'r BAF.

1D: Gweithredu'r System Rheoli Ansawdd

Trosolwg

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym yn 2023, gan roi cyfrifoldeb cyfreithiol ar sefydliadau o fewn GIG Cymru i weithio i wella safon gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ansawdd yn fwy na dim ond bodloni safonau gwasanaeth; er mwyn bod yn llwyddiannus, bydd rheoli ansawdd yn gofyn am ffordd o weithio ar draws y system i ddiwallu anghenion y boblogaeth y mae'r Bwrdd lechyd yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy. Er mwyn gwneud hyn yn dda, bydd angen i'r Bwrdd lechyd wneud newidiadau sylfaenol yn y ffordd y mae ystyriaethau Ansawdd yn cael eu plethu i mewn i systemau rheoli a gwneud penderfyniadau.

Mae diwylliant o onestrwydd, dysgu parhaus a gwelliant yn hanfodol wrth geisio cael System Rheoli Ansawdd effeithiol. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod y gwaith sylweddol sydd ei angen o hyd i feithrin y diwylliant hwn ac i staff fod yn hyderus y byddant yn cael cefnogaeth. Am y rheswm hwn, mae gwaith i ymgorffori diwyllianau priodol wedi'i flaenoriaethu o fewn Amcan Strategol 3 ar ddiwylliant, arweinyddiaeth, ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth, ac o fewn Amcan Strategol 5 gan sicrhau dysgu o bob cyfle.



System Rheoli Ansawdd Betsi

Mae System Rheoli Ansawdd (QMS) effeithiol yn ymwneud â llawer mwy na Gwella Ansawdd. Mae'n dod ag elfennau cydgyssylltiedig o gynllunio ansawdd, gwella ansawdd, rheoli ansawdd, a sicrhau ansawdd at ei gilydd i greu system ansawdd sy'n cynnwys popeth a wneir yn y sefydliad. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae angen i'r elfennau hyn, wedi'u cefnogi gan ethos o ddysgu parhaus, weithio gyda'i gilydd yn ddi-dor a chael eu hymgorffori ym mhroses gwneud penderfyniadau a monitro perfformiad y Bwrdd Iechyd.

Digwyddodd datblygiad System Rheoli Ansawdd y Bwrdd Iechyd gyda chefnogaeth cydweithwyr o'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI) uchel ei barch ac mae'n ymgorffori egwyddorion dull 'Ansawdd System Gyfan' yr IHI. Fel y disgrifiwyd gan IHI, *"Mae Ansawdd System Gyfan yn symud sefydliad gofal iechyd o sefyllfa lle mae'r adran ansawdd yn dod i'r "achubiaeth" pan fydd digwyddiad yn digwydd, i un sy'n nodi pwyntiau risg yn rhagweithiol mewn amser real ac yn eu lliniaru cyn i ddigwyddiad ddigwydd."*

Disgrifir pedwar parth er mwyn darparu gwelededd a phersbectif i'r system gyfan.

- **Cynllunio Ansawdd** – deall anghenion y boblogaeth, safonau ac arferion gorau, yr heriau a'r llwyddiannau cyfredol, a sut y dylid llunio cynlluniau i ddiwallu'r anghenion a'r safonau hynny.
- **Rheoli Ansawdd** - Mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau ar "reng flaen" y gwasanaeth i ddeall ansawdd ar lefel weithredol fel bod y gwasanaeth yn bodloni'r anghenion a'r safonau (fel uchod) gyda chywiriadau o ddydd i ddydd lle bo angen.
- **Gwella Ansawdd** – gwella ansawdd yn systematig lle nad yw gwasanaethau presennol yn bodloni anghenion a safonau ar hyn o bryd, ac mae hefyd yn cynnwys ymdrechion i ragori ar yr anghenion a'r safonau hynny er mwyn cyflawni rhagoriaeth a gwella'n barhaus.
- **Sicrwydd Ansawdd** - Dyma'r ddealltwriaeth annibynnol o ansawdd ac mae'n cynnwys yr ail a'r drydedd linell amddiffyn, gyda'r nod o sicrhau bod safonau gofynnol yn cael eu cyflawni neu fod cynlluniau a strwythurau rheoli ansawdd da ar waith.

Mae System Rheoli Ansawdd (QMS) weithredol sy'n gysylltiedig â mentrau trawsnewid a gwella a dysgu cysylltiedig yn creu dull cynaliadwy o wella a chynnal ansawdd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ysbryd staff a gallu staff i ddylanwadu ar welliant gwasanaeth a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion.

Diben y flaenoriaeth allweddol hon yw ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ddyfnach yn systemau a phrosesau'r Bwrdd Iechyd. Yn ystod 2025-28 bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn monitro effaith y System Rheoli Ansawdd yn barhaus gan sicrhau bod gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno parhau i ddefnyddio arbenigedd a chefnogaeth a ddarperir gan Gwelliant Cymru a'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd wrth symud y gwaith hwn ymlaen. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda Gweithrediaeth y GIG a chyd-ddylunio Partneriaeth Gofal

Diogel Cymru Gyfan ar gyfer y System Rheoli Ansawdd a bydd yn parhau i ymgorffori dysgu gan sefydliadau eraill.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 1D.1 - Cadarnhau Asesiad Aeddfedrwydd System Rheoli Ansawdd safonol ar gyfer gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd a datblygu fframwaith llywodraethu i alluogi gweithrediad a chytuno ar gynllun cyflwyno cysylltiedig.
- 1D.2 - Cwblhau cyfres o ymarferion cyfathrebu a sesiynau briffio i roi gwybodaeth i weithlu BIPBC am QMS gan ddefnyddio dull addysgol a chwalu chwedlau a gynlluniwyd i gryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth o QMS.
- 1D.3 - Integreiddio dull Rheoli Ansawdd i'r dull o Gynllunio Gwasanaethau Clinigol ac adnabod gwasanaethau heriol yn gynnar.
- 1D.4 – Gwerthuso dyluniad a gweithrediad y Bwrdd Iechyd o'r System Rheoli Ansawdd.
- 1D.5 - Gwella ansawdd seilwaith ac adeiladau ystadau drwy - (2C.5) - Fanteisio i'r eithaf ar botensial gwerthiannau strategol, gwaith mewn partneriaeth a derbyniadau cyfalaf canlyniadol i ailfuddsoddi mewn ystad a seilwaith sy'n fodern ac yn addas at eu diben.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Cyflwyno Asesiad Aeddfedrwydd QMS yn llawn a Llawlyfr QMS cysylltiedig yn unol â'r cynllun diffiniedig.
- Asesiad o wasanaethau sydd wedi gweithredu System Rheoli Ansawdd i ddeall sut mae'n llywio gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd mewn amser real.

Amcan 2: Datblygu Strategaeth a newid hirhoedlog

2A	Datblygu a darparu Strategaeth a Chynllun Gwasanaethau Clinigol ar gyfer y Bwrdd Iechyd
2B	Atgyfnerthu Cynllunio a Chomisiynu
2C	Gwella'r Amgylchedd, yr Ystad a Chyfleusterau
2D	Gwella dulliau digidol, data a thechnoleg
2E	Datblygu a sicrhau gwerth a chynaliadwyedd
2F	Gwella dulliau cynllunio a datblygu'r gweithlu
2G	Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol

Trosolwg

Mae datblygu strategaeth a newid hirhoedlog yn hollbwysig i greu gwasanaethau cynaliadwy sy'n arwain at ganlyniadau gwell i boblogaeth Gogledd Cymru. Bydd gweithio gyda phartneriaid i alinio ar gyfnodau 10 mlynedd, tair blynedd a blwyddyn ar draws strategaeth, cynllunio a chomisiynu'n elfen sylfaenol bwysig i'r maes hwn. Fel rhan o hyn, bydd bod yn glir ar y model gwasanaethau clinigol yn caniatáu cynllunio ar gyfer amgylchedd mwy modern; digidol; technoleg; a'r gweithlu i gynorthwyo cynlluniau gwasanaeth mwy cyfannol yn y tymor hirach.

Cynnydd o ran yr Amcan Strategol hwn yn ystod 2024/25

Sylwch fod rhai blaenoriaethau wedi cael eu cyfuno ar draws Amcanion Strategol gwahanol yn y cynllun hwn

- **Strategaeth 10 Mlynedd:** Dechreuodd y gwaith a bydd yn parhau yn ystod 2025/26. Datblygwyd Egwyddorion Dylunio a gwnaed gwaith ymgysylltu arnynt; gwnaeth y Bwrdd lechyd adnewyddu ei amcanion Llesiant gyda ffocws penodol ar 'Waith Teg'.
- **Cynllun Gwasanaethau Clinigol (CGC):** Datblygwyd map ffordd ar gyfer creu'r CGC, i'w gwblhau fesul dau gam, a bydd y cam cyntaf yn canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Dysgu gwersi o brofiadau Hywel Dda o ddylunio a gweithredu eu CGC.
- **Comisiynu:** Penodwyd Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu ac mae wedi dechrau yn ei swydd. Mae dylunio dull sefydliadol newydd ar gyfer comisiynu ar y gweill.
- **Blaenoriaethau cyfalaf - rhoi cymorth er mwyn i newid ddigwydd:** Penodwyd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau; nodwyd 32 o gynlluniau cyfalaf yn y Bwrdd lechyd i'w cynnwys mewn ymarfer blaenoriaethu. Sicrhawyd cyllid cyfalaf ar gyfer Hwb Orthopedig Llandudno a diweddarau offer a seilwaith hanfodol i ategu at leihau peryglon seiber.
- **Digidol, Data a Thechnoleg:** Sicrhawyd cyllid cychwynnol i ddatblygu achosion busnes amlinellol Cofnod Gofal lechyd Electronig (EHR) ac EHR ar gyfer lechyd Meddwl; mae dau o'r contractau gweithredu cyntaf wedi cael eu dyfarnu i ategu at ddull 'datblygu annibynnol' o ran trawsnewid y model gweithredu DDaT.
- **Blaenoriaethu:** Mae'r Fframwaith Blaenoriaethu wedi cael ei adnewyddu i gynnwys dysgu newydd ac mae wedi cael ei gynllunio i alinio ag arferion cyfredol o ran cynllunio, risg, a pherfformiad.
- **Sicrhau Newid Mawr yn Effeithiol:** Sefydlwyd Pedair Rhaglen Newid Mawr ar draws Strategaeth, Sylfeini'r Dyfodol, Gofal wedi'i Gynllunio a Gofal Brys ac Argyfwng; cafodd adnoddau arfer gorau rheoli prosiectau a rhaglenni eu datblygu a'u rhannu; cafodd tair lefel o hyfforddiant gwella #DullBetsi eu datblygu ac maent ar y gweill.
- **Atgyfnerthu Cynllunio:** Gwnaed cynnydd o ran y cynllun gweithredu Adolygu Cynlluniau; Cafodd proses cynllunio wedi'i thargedu fwyfwy ei hadnewyddu a'i chefnogi gan y Bwrdd a'i lansio ym mis Hydref; ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynt ac yn ehangach wrth ddatblygu'r cynllun.
- **Amgylchedd Llywodraethu Ariannol:** Gwell gafael a rheolaeth ariannol yn cael eu cynnal. Monitro a mireinio elfennau allweddol ar yr Amgylchedd Llywodraethu Ariannol yn barhaus.
- **Canfod gwasanaethau sy'n wynebu heriau'n gynnar a'u cefnogi:** Mae strwythur llywodraethu ar waith i ddarparu dull triongli wedi'i ategu gan yr Adroddiad Perfformiad Integredig, gan gynnwys adran yn crynhoi meysydd sydd angen eu huwchgwyfeirio at y Pwyllgor.

Mae datblygu Hwb Orthopedig Llandudno ar y gweill.

2A: Datblygu a darparu Strategaeth a Chynllun Gwasanaethau Clinigol (CGC) ar gyfer y Bwrdd lechyd

Trosolwg

'Byw'n Iach, Aros yn Iach' (LHSW - a gyhoeddwyd yn 2018) yw strategaeth ddeng mlynedd bresennol y Bwrdd lechyd ond mae rhoi LHSW ar waith wedi bod yn heriol, ac mae'r adborth yn awgrymu ei fod yn rhoi cyfeiriad annigonol er mwyn galluogi'r Bwrdd lechyd i gynllunio'n effeithiol dros y blynyddoedd sydd i ddod.

- 2A.1 - Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Bwriad Strategol lefel uchel ar gyfer Gogledd Cymru a fydd yn rhoi amlinelliad o'r blaenoriaethau ar y cyd a meysydd ar gyfer cydweithio dros y ddeng mlynedd nesaf.
- 2A.2 – Cwblhau cam diagnosis gwaith datblygu'r Strategaeth Ddeng Mlynedd gan gynnwys cytuno ar gwmpas a datblygiad asesiad sylfaenol yn amlinellu crynodeb o anghenion iechyd y boblogaeth; perfformiad; ysgogwyr dros newid; canlyniadau a safonau ansawdd.
- 2A.3 - Fel rhan o ddulliau ymgysylltu ehangach ar ddatblygu strategaeth, adolygu amcanion Llesiant y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau aliniad parhaus â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.
- 2A.4 - Cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i fod yn sail i ddatblygu strategaeth trwy fyrddau partneriaeth a grwpiau rhanddeiliaid.
- 2A.5 – Cwblhau cam 1 y CGC yn canolbwyntio ar wasanaethau sydd wedi'u hasesu fel y rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf ar hyn o bryd. Bydd hyn yn datblygu cynlluniau cynhwysfawr yn seiliedig ar ddull System Rheoli Ansawdd (QMS), gan flaenoriaethu gwelliannau gwasanaeth y gellir eu gwneud yn y tymor byr i'r tymor canolig er mwyn sefydlogi'r gwasanaethau hyn.
- 2A.6 (2D.2) - Datblygu Map Ffordd Digidol a Data i fod yn sail i'r broses o drawsnewid y Bwrdd Iechyd ar sail glinigol a sefydliadol.

Mae'r blaenoriaethau a amlinellir uchod yn dibynnu ar flaenoriaethu adnoddau ar gyfer y Strategaeth Ddeng Mlynedd a'r CGC.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

- Cwblhau a chyhoeddi Strategaeth Ddeng Mlynedd y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu a'i hymgorffori'n llawn ar draws y sefydliad.
- Cwblhau cwmpas llawn y CGC, gan gynnwys dilyn y dulliau llywodraethu priodol mewn perthynas ag unrhyw ad-drefnu i wasanaethau fel rhan o'r ddarpariaeth.
- Sicrhau bod gweithgareddau yn y tymor byr ac yn y tymor hwy yn y Bwrdd Iechyd yn alinio'n gadarn â'r Strategaeth Ddeng Mlynedd wedi'i hadnewyddu. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, flaenoriaethu newid mawr, y CGC, a rôl gynyddol clystyrau, y gymuned a gwasanaethau gofal sylfaenol.
- Gan symud ymlaen at Flwyddyn 3, bydd y Bwrdd Iechyd yn mireinio ac yn aeddfedu'r CGC er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth a dirnadaethau, yn ogystal â dysgu o'r broses weithredu.

2B: Atgyfnerthu Cynllunio a Chomisiynu

Trosolwg

Yn 2023, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o brosesau cynllunio'r Bwrdd Iechyd fel rhan o uwchgyfeirio at Fesurau Arbennig. Roedd yr argymhellion terfynol, a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2024, yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Dylunio system gynllunio effeithiol
- Datblygu map ffordd sefydliadol
- Deall capasiti a gallu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wella ei alluoedd cynllunio, gan ganolbwyntio ar strategaeth a dylunio gwasanaethau cynaliadwy er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel.

Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn atgyfnerthu ei swyddogaeth comisiynu mewnol er mwyn gwella gwasanaethau sy'n cael eu contractio gan sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr gofal

iechyd a phartneriaid trydydd sector. Bydd hyn yn ategu at 'newid i'r chwith' a dad-feddygoli rhai gwasanaethau yn unol â "Cymru Iachach."

Yn dilyn y pandemig yn ddiweddar, cafodd llawer o wasanaethau eu contractio fesul bloc, gan gyfyngu ar y gallu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau. Bydd symud at ddull comisiynu sy'n well o ran ystyried anghenion y boblogaeth, blaenoriaethau, a monitro ansawdd yn gwella gwerth y gwasanaethau hyn ac yn cefnogi cynnwys y sector lleol a'r trydydd sector.

Bydd fframwaith comisiynu amserol a systematig hefyd yn helpu partneriaid i gynllunio a hybu gofal integredig ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael anhawster i adfer a gwella effeithlonrwydd gofal wedi'i gynllunio ar ôl y pandemig. Bydd atgyfnerthu cynllunio gweithredol a chymhwyso egwyddorion comisiynu yn helpu i wella'r broses hon.

Bydd blaenoriaethu'r ymdrechion hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd edrych o'r newydd ar gontractau am werth ac ansawdd, gan wella galw a chynllunio capasiti er mwyn sicrhau bod modd caffael gwasanaethau'n well.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 2B.1 - Datblygu cynigion i wella capasiti a galluoedd ar gyfer cynllunio ar draws y sefydliad cyfan, gan adeiladu ar y cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn yr Adolygiad Annibynnol o Gynllunio yn 2024/25.
- 2B.2 - Cynnal adolygiad o ddysgu gyda rhanddeiliaid o'r cylch cynllunio diweddaraf, gan ddiweddarau'r Fframwaith Cynllunio Integredig gydag unrhyw welliannau cysylltiedig a'u rhoi ar waith yn y cylch cynllunio nesaf.
- 2B.3 - Cwblhau asesiad matrices Aeddfedrwydd Cynllunio Cenedlaethol ac ymgorffori'r allbynnau i'r cynlluniau er mwyn gwella system a galluoedd cynllunio yn y sefydliad cyfan.
- 2B.4 - Cynnal adolygiad o ymrwymadau comisiynu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan fanteisio ar y capasiti sydd ei angen. Bydd hyn yn sail i asesu dichonoldeb, risg a rhyngddibyniaethau.
- 2B.5 - Cynnal adolygiad Trydydd Sector, cynnal adolygiad o bris unedau ac arian cyfred contract mewn contractau a chwblhau ymarfer i sicrhau bod safon a chysondeb dogfennau a phrosesau sydd wedi'u comisiynu yn cyrraedd y safonau disgwylidig.
- 2B.6 - Bydd adolygiad o gontractio trwy ffynonellau mewnol/allanol yn cael ei gynnal gan arwain at gynllun ar gyfer gwella a datblygu.

Blaenoriaethau disgwylidig yn 2026/27 a 2027/28

- Asesu cynnydd yn erbyn y matrices Aeddfedrwydd Cynllunio Cenedlaethol, gan ddefnyddio mesurau allweddol i fapio a monitro cynnydd o alluoedd cynllunio'r sefydliad.
- Adolygu Fframwaith Cynllunio Integredig y Bwrdd Iechyd, gan gymhwyso dysgu o adborth rhanddeiliaid yn ymwneud â phob iteriad o'r cylch cynllunio.
- A yw'r holl gontractau wedi'u rhoi ar waith i'r safonau disgwylidig, gan gynnwys y Trydydd Sector (yn dilyn cwblhau'r adolygiad Trydydd Sector yn 2025/26).
- O safbwynt cynllunio gweithredol, sicrhau bod yr holl gontractau ar waith ar gyfer darpariaeth gan gyflenwyr mewnol ac allanol cyn dechrau blwyddyn ariannol 2026/27. Bydd hyn yn caniatáu blwyddyn lawn o ddarpariaeth weithredol heb gollu amseroedd arwain o ran rhoi contractau ar waith yn ystod y flwyddyn.
- Rhoi adolygiad 'comisiynu system gyfan' ar waith ar draws yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu a'u comisiynu a lle bo'n briodol, meithrin cydberthnasau yn y tymor hwy gyda darparwyr sydd wedi'u comisiynu i sicrhau darpariaeth gynaliadwy.

2C: Gwella'r Amgylchedd, Ystad a Chyfleusterau

Trosolwg

Blaenoriaethau cyfalaf

Mae nifer o welliannau gwasanaeth yn dibynnu ar gymorth gyda chyllid cyfalaf. Mae cyllid cyfalaf yn dal i fod yn brin ac felly mae'r Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu cynlluniau'n ofalus er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cynnig y gwerth uchaf i boblogaeth Gogledd Cymru yn cael eu cyflwyno ar gyfer cymorth cynllunio a chyllid ychwanegol, gan Raglen Gyfalaf GIG Cymru Gyfan a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF).

Mae cyfle i wella cyllid cyfalaf trwy waredu ystad sydd o ansawdd gwael, lle y gellid darparu gwasanaethau'n well trwy eu had-drefnu, neu lle nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu mwyach. Mae angen rhagor o waith hefyd i ad-drefnu ôl troed yr ystad mewn partneriaeth ag eraill er mwyn rhannu gofod gan arwain at welliannau ychwanegol i ffyrdd o gydweithio.

Datgarboneiddio a Gwydnwch o ran yr Hinsawdd

Ym mis Ebrill 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru lansio Cynllun Datblygu Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030, sef cynllun i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd yn 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio (DAP) 2022-2026 gyda chymorth gan yr Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'r cynllun yn ystyried adeiladau ac ynni, caffael, trafniadaeth, teithio, gofal iechyd a dulliau rheoli carbon corfforaethol, a daw gwelededd yn gliriach gan yr adroddir ar hyn i'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.



Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ymrwymo i gyflawni'r rhaglenni gwaith cymhleth lle bo angen cymorth cyllid cyfalaf yn llwyddiannus, er mwyn eu cyflawni ar amser ac yn unol â'u cwmpas. Bydd gwelliannau i ystadau'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gallu i gyflawni Blaenoriaethau Gweinidogol yn well, yn enwedig ym maes Orthopedeg, ac i ddarparu gwasanaethau sy'n cynnig ansawdd a phrofiad gwell. Bydd cyflawni prosiectau cyfalaf allweddol yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio meysydd clinigol newydd er budd gofal cleifion.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 2C.1 - Adolygu'r amserlen o achosion busnes wedi'u blaenoriaethu yng ngoleuni canlyniad ymarfer blaenoriaethu cyfalaf Cymru Gyfan.
- 2C.2 - Datblygu gwaith mewn perthynas â chynlluniau cyfalaf gan gynnwys blaenoriaethu: Hwb Orthopedig yn Llandudno, Seilwaith Trydanol yn Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Brenhinol Alexandra yn Y Rhyl, Uned Iechyd Meddwl Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd, cyfuno Meddygaeth Niwclear, hybiau Iechyd a Lles, datgarboneiddio a gwaith gwrthglymu.
- 2C.3 - Alinio uchelgeisiau'n ymwneud â Hybiau Iechyd a Lles â chyllid cyfalaf sydd ar gael. Mae'r rhain yn cyflawni rôl bwysig yng nghynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â gofal sylfaenol, yr ysgol feddygol, gweithio mewn partneriaeth a dulliau 'symud i'r chwith'.

- 2C.4 - Datblygu a dechrau rhoi strategaeth ystadau sy'n addas at ei diben ar waith i gynnwys rhesymoli ystadau, datgarboneiddio a gwydnwch o ran yr hinsawdd, yn ogystal â manteisio ar botensial a defnydd yr ystad bresennol a chyfleoedd gyda phartneriaid. Cydnabod y caiff y strategaeth ystadau ei harwain a'i hysbysu gan Strategaeth Ddeng Mlynedd a Chynllun Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd.
- 2C.5 - Manteisio i'r eithaf ar botensial gwerthiannau strategol, gwaith mewn partneriaeth a derbyniadau cyfalaf canlyniadol i ailfuddsoddi mewn ystad a seilwaith sy'n fodern ac yn addas at eu diben.
- 2C.6 - Cefnogi parhad busnes y sefydliad trwy'r broses gyfalaf, gan gynnwys achosion parhad busnes Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd.
- 2C.7 – Gweithio gyda Phrifysgol Cymru Bangor i roi cymorth gyda datblygiad a thwf Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.
- 2C.8 - Rhoi arweinyddiaeth o ran canfod, blaenoriaethu a chyflawni cynlluniau trwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu (IRCF), gan gynnwys cymryd rhan yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB).
- 2C.9 - Cynnal asesiad cynhwysfawr o safonau a pherfformiad cyfleusterau, i fod yn sail i gynllun gwella a datblygu.
- 2C.10 - Cwblhau Asesiad Risg Addasu i Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru, datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau a ganfyddir, gan ddefnyddio'r pecyn offer addasu ac ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid allweddol eraill.
- 2C.11 - Meithrin perthnasau strategol gyda phartneriaid gan gynnwys Awdurdodau Lleol a sefydliadau Trydydd Sector i ddeall y cyfleoedd i gydweithio a llwybrau gweithredu.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

- Mabwysiadu ymagwedd wedi'i blaenoriaethu tuag at gyllid buddsoddi cyfalaf sy'n datblygu bob blwyddyn.
- Canfod a chyflawni cynlluniau cyfalaf gan gynnwys prosiectau cyfalaf.
- Rhoi strategaeth ystadau gytunedig ar waith ynghyd â chylch adolygu parhaus i adlewyrchu ystyriaethau newydd.
- Manteisio i'r eithaf ar fudd economaidd o ystad ddiangen neu ddarfodedig (gan gynnwys tir, asedau ac ati), yn cynnwys partneriaid lle bo'n briodol.

2D: Gwella dulliau digidol, data a thechnoleg

Trosolwg

Mae'r tîm Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) yn datblygu cynlluniau dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir i ategu at gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad a sicrhau bod digidol a data wrth wraidd trawsnewid ar lefel glinigol a sefydliadol.

Mae "Digidol yn Gyntaf", sy'n uchelgais gan y Bwrdd Iechyd, yn golygu dylunio, cyflwyno a phrofi gwasanaethau iechyd a gofal sy'n cofleidio cyfleoedd DDaT yn llawn. Nid yw gwerth gwirioneddol technoleg ddigidol yn deillio o ddigideiddio, ond yn hytrach, mae'n dod o'i defnyddio i'w hadlunio'n gyfan gwbl er mwyn sicrhau buddion cynhyrchiant ac ansawdd, gan wella recriwtio a chadw staff.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod yr hybrid presennol sy'n cynnwys systemau digidol tameidiog ynghyd â chofnodion papur yn peri niwed i gleifion. Ein ffocws yn y tymor byr i'r tymor canolig yw sicrhau bod gennym systemau digidol craidd ar waith sy'n golygu bod gan staff fynediad i'r data sydd ei angen arnynt, pan fo'i angen, a bod gan y Bwrdd Iechyd sail gadarn ar gyfer datblygu ffyrdd mwy digidol o weithio.

Mae DDaT yn graidd i fusnes y Bwrdd Iechyd a'i strategaeth glinigol a'i drawsnewidiad.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 2D.1 - Sicrhau buddsoddiad gwerth sawl miliwn o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Trawsnewid EHR a fydd yn cael gwared ar gofnodion papur a bydd yn alluogydd allweddol i drawsnewid gwasanaethau.
- 2D.2 - Datblygu Map Ffordd Digidol a Data i ategu at y gwaith o drawsnewid y Bwrdd Iechyd ar lefel glinigol a sefydliadol.
- 2D.3 - Cyflwyno EHR digidol ar gyfer mamolaeth ac ap ar gyfer cleifion, a fydd yn cymryd lle cofnodion papur.
- 2D.4 - Cwblhau'r broses o roi'r systemau diagnosteg newydd ar waith, RISP a LIMS.
- 2D.5 - Caffael a chyflwyno Cam 1 rhaglen EHR Iechyd Meddwl fel sail i'r agenda trawsnewid EHR ehangach.
- 2D.6 - Cwblhau datblygiadau system Therapies Manager a gwella cyfraddau boddhad defnyddwyr trwy Dimau Goruchwylio ac Ymgysylltu.
- 2D.7 - Cwblhau recriwtio arbenigedd i'r lefel hyfyrw ofynnol er mwyn cyflwyno gwasanaethau sylfaenol DDaT 2020, gan benodi i'r holl swyddi allweddol a ariennir o fewn 25/26.
- 2D.8 - Trwy flaenoriaethu llym a rheoli adnoddau'n effeithiol, cyflwyno'r portffolio o brosiectau a rhaglenni DDaT yn effeithiol, gyda ffocws penodol ar wireddu buddion. Bydd yr ymarfer hwn yn cynnwys oedi neu ohirio rhai prosiectau lle bo angen oherwydd pwysau ariannol.
- 2D.9 - Cwblhau'r broses o gyflwyno cam 5 System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS), gan gynnwys codau swyddogaeth triniaeth, offer olrhain canser, copïo gohebiaeth a rhifo cleifion.
- 2D.10 - Rhoi Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA) ar waith ar draws safleoedd aciwt.
- 2D.11 - Datblygu rhaglen hyfforddiant Academi Ddigidol a lansio ymgyrch gyfathrebu fel bod staff yn teimlo eu bod nhw wedi'u grymuso i ddefnyddio technolegau.
- 2D.12 - Rhoi cymorth o ran gweithredu a chyflwyno Ap GIG Cymru i gael yr effaith a'r budd mwyaf posibl i gynnwys gwella defnydd ohono ar gyfer presgripsiynau rheolaidd.
- 2D.13 - Gwaredu systemau a dyfeisiau nas cynhelir mwyach yn unol â'r adnoddau sydd ar gael.
- 2D.14 - Datblygu cynllun ymateb seiber clir ar gyfer y sefydliad.

Blaenoriaethau disgwylidig yn 2026/27 a 2027/28

- Yn amodol ar gyllid, rhoi camau cyntaf rhaglen EHR system gyfan ar waith.
- Parhau i gyflwyno'r System Iechyd Meddwl gan sicrhau bod y buddion clinigol a fwriedir yn cael eu gwireddu.
- Optimeiddio integreiddio rhwng systemau a dirwyn llawer o systemau i ben sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ers cryn amser.
- Meddu ar strwythur sefydlog ar draws DDaT, gyda'r sgiliau gofynnol ar waith a bod yn fwy effeithiol o ran defnyddio sgiliau arbenigol allanol.
- Datblygu ymhellach raglen hyfforddiant yr Academi Ddigidol i wella llythrennedd digidol y gweithlu, wedi'i ategu trwy ddigideiddio gwasanaethau ymhellach fel Iechyd Meddwl a Mamolaeth.

- Cyflwyno datrysiadau arloesol newydd a fydd yn gwella gofal cleifion a darparu dewisiadau neu welliannau digidol i ddulliau therapiwtig traddodiadol. e.e. MedTech, Therapiwteg Ddigidol (DTX), a Deallusrwydd Artiffisial (AI).
- Grymuso cleifion i fod yn weithgar o ran rheoli eu hiechyd a'u lles trwy fynediad at eu gwybodaeth a dirnadaethau personol, addysg ac apiau i gleifion.

2E: Datblygu a sicrhau gwerth a chynaliadwyedd

Trosolwg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r ffocws cenedlaethol ar Werth a Chynaliadwyedd (V&S) a bydd yn rhoi mentrau V&S ar waith yn fewnol, gan Fyrddau Iechyd eraill, neu drwy'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol.

Mae canolbwyntio ar werth gofal yn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n gwella'r canlyniadau sydd bwysicaf i unigolion. Trwy bwysu'r costau yn erbyn y canlyniadau hyn, gall y Bwrdd Iechyd wneud penderfyniadau sy'n sicrhau'r effaith fwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae cynaliadwyedd yn rhan allweddol o Gynllunio Ansawdd. Mae gwasanaethau sy'n cael anhawster yn aml hefyd yn wynebu heriau o ran Rheoli Ansawdd a'r capasiti dilynol i wella ansawdd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu ymagwedd ffurfiol tuag at ei nodau V&S, gan gynnwys ymgorffori egwyddorion Gofal Iechyd yn seiliedig ar Werth ar draws y sefydliad. Mae'r ymagwedd hon yn canolbwyntio ar ffrydiau gwaith sy'n arwain at well canlyniadau o ran ansawdd, profiadau, a defnydd o adnoddau, gan gyfrannu at waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol ac yn sicrhau bod modd elwa ohoni.

Mae i'r gwaith cenedlaethol hwn bum ffrwd waith:

Programme	1. Clinical Value		2. Workforce	3. Continuing Health Care	4. Medicines Management	5. Non-Pay & Procurement
Initial Focus for 25/26	Demand Management – Prevention, INNs, Reduced Follow Ups	HVHI Pathway Redesign (Incl Arthroplasty, Bone Health, Diabetes, Heart Failure)	Insourcing Medical Bank	Learning Disability – ECRS	Biosimilar Intervention	Utilities
	Flow & Bed Utilisation – BADs Performance, DTOCs	Health Pathways	Medical Workforce Sustainability	Repeat of OOA Low Secure	Hospital NWSSP Contract Savings	Stock Control
	Facilities Utilisation – Theatre Productivity, Outpatients	PROMs	Challenged Services Sustainability	OPMH O-B Commissioning	Medical Reviews	Standardisation
	Better Use of Estates	Ministerial Advisory Group (MAG) Specialties – T&O, Ophthalmology, Dermatology	Non-Medical Agency Spend Reduction	Complex Care Co-ordination	Medicines Optimisation	Medical
				Complex/VFM Panel	Welsh Govt V&S Programme	Provisions
				Prioritisation of Efficiencies	Stability Project - Diabetes	
Additional National V&S Focus	Estates Rationalisation	Diabetes x8 metrics	Nursing Headroom Review			Standardisation
	Virtual Wards	Bone Health x8 metrics	Corporate Benchmarking			Product Rationalisation
	Fragile Services	Optimised Cancer Pathway				
	Diagnostic Volumes					

SYLWER: Mae chweched ffrwd waith yn cael ei datblygu, yn canolbwyntio ar fwy o arbedion trafodaethol mewn uwch adrannau

O fewn y fframwaith hwn, erys disgwyliad gan weinidogion y dylai Gwerth a Chynaliadwyedd ystyried y themâu allweddol a ganlyn:-

- Bod lleihad o ran dibynnu ar wariant cost fawr am asiantaethau
- Atgyfnerthu trefniadau 'Unwaith i Gymru' ar gyfer galluogwyr yn y gweithlu,
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwaith rhanbarthol,
- Bod Byrddau Iechyd yn cefnogi ailddosbarthu adnoddau tuag at wasanaethau gofal cymunedol a gofal sylfaenol
- Bod amrywiadau ac ymyriadau gwerth isel direswm yn cael eu cydnabod a bod camau'n cael eu cymryd i'r fynd i'r afael â nhw a
- Bod gwell effeithlonrwydd gweinyddol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 2E.1 - Dylunio a chyflwyno rhaglen gwerth a chynaliadwyedd newydd ar gyfer 2025/26, sydd â chanlyniadau clir yn seiliedig ar fesurau ehangach o werth, i sicrhau gwelliant o ran ansawdd, perfformiad a materion ariannol. Mae hyn yn cynnwys cyflawni mentrau sydd wedi'u halinio'n genedlaethol o dan bum ffrwd waith: Gwerth Clinigol, Gweithlu, Gofal Iechyd Parhaus, Rheoli Meddyginiaethau a Chostau Gwariant a Chaffael.
- 2E.2 - Ffocws ar Amrywiadau Clinigol i fanteisio ar gyfleoedd a ganfyddir yn genedlaethol i hwyluso lleihad mewn gwastraff, niwed ac amrywiadau direswm.
- 2E.3 - Adeiladu ar waith i ymgorffori egwyddorion gwerth i'r fframweithiau sefydliadol ehangach: cynllunio, comisiynu, modelu gweithlu amlbroffesiynol, perfformiad, arweinyddiaeth ac ansawdd.
- 2E.4 - Dylunio rhaglen hyfforddiant o werth fel rhan o'r daith tuag at Academi Werth ar gyfer Gogledd Cymru ac ymrwymiad yn y tymor hwy i wella gwybodaeth a chapasiti o ran sicrhau gwelliant dan arweiniad gwerth.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

- Dylunio a chyflawni rhaglenni gwerth a chynaliadwyedd newydd ar gyfer 2026-28, a fydd yn cynnwys prosiectau trawsnewid yn y tymor hwy yn bennaf sy'n alinio ag unrhyw dystiolaeth genedlaethol newydd ac sy'n cydblethu â Strategaeth Ddeng Mlynedd a Chynlluniau Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd.
- Cyfrannu at ddatblygu Academi Werth a sicrhau gwelededd o ran prosiectau gwella dan arweiniad gwerth, yn fewnol ac ar lefel genedlaethol.
- Caiff gwerth fel cydsyniad ei ymgorffori i ddiwylliant ac iaith y Bwrdd Iechyd. Bydd yr Academi Werth yn weithredol ac felly bydd gwybodaeth a galluoedd o ran gwelliant dan arweiniad gwerth yn cynyddu o ganlyniad.

2F: Gwella dulliau cynllunio a datblygu'r gweithlu

Trosolwg

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu mewn amgylchedd cynllunio'r gweithlu sy'n heriol. Mae ymagwedd gynllunio'r gweithlu wedi cael ei datblygu ar draws 2024-25 yn seiliedig ar broses chwe cham Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Bydd gwaith yn parhau dros y ddwy flynedd nesaf yn creu platfform cadarn ar gyfer cynllunio'r gweithlu ar draws y sefydliad, gan alluogi gwasanaethau i ddarparu gofal o ansawdd uchel ar gyfer pobl Gogledd Cymru.



Mae gwaith a wnaed gyda gwasanaethau blaenoriaeth wedi ategu ymagwedd gyfannol at gynllunio'r gweithlu fel rhan o ail-ddylunio gwasanaethau. Mae hyn wedi newid y ffocws o recriwtio tebyg am debyg i ymagweddau mwy cydategol fel defnyddio rolau a modelau gweithlu newydd i ddiwallu anghenion gwasanaethau nawr a thros y 2-3 mlynedd nesaf.

Bydd cynllunio cadarn ar gyfer y gweithlu yn sefydlu datrysiadau ar gyfer y gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hir sy'n mynd i'r afael ag anghenion cleifion nawr ac yn y dyfodol. Caiff swyddi fel Cymdeithion Meddygol, Cymdeithion Anestheteg, Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig a rolau amlbroffesiynol Uwch Ymarferydd Clinigol a Meddyg Ymgynghorol eu hintegreiddio'n strategol i gynlluniau gwasanaeth dros y blynyddoedd sydd i ddod, gan bwysleisio dull ar sail sgiliau i ddarparu gwasanaethau yn hytrach nag un sy'n seiliedig ar rôl.

Bydd dod â chysondeb i gynllunio'r gweithlu o ran dull a sgiliau'n galluogi'r sefydliad i gael gweithlu mwy sefydlog lle caiff bylchau allweddol eu canfod yn brydlon, gyda'r datrysiad mwyaf priodol ar gyfer y gwasanaeth. Bydd y dull hwn yn fodd gwell o ategu at gynnig gwell ansawdd gofal ar draws rhai o'n gwasanaethau sy'n wynebu'r heriau mwyaf ac yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl Gogledd Cymru.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 2F.1 - Ymgorffori'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn llawn ar draws y sefydliad gyda chanllawiau mynediad hwylus a chymorth i dimau ddatblygu eu cynlluniau.
- 2F.2 - Dylai cynlluniau gweithlu manwl fod ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau allweddol ar draws y sefydliad.
- 2F.3 - Datblygu cyfres o offer cynllunio'r gweithlu i gynorthwyo timau a gwasanaethau i ddatblygu eu cynlluniau gweithlu a'u cynnal.
- 2F.4 - Datblygu fframwaith cynllunio gweithlu strategol ar gyfer y sefydliad, gan gynnwys integreiddio â fframweithiau sefydliadol perthnasol eraill fel Cynllunio ac Ansawdd.
- 2F.5 - Cynnal dadansoddiad gweithlu cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau therapi mewn ffordd sydd wedi'i blaenoriaethu.
- 2F.6 - Datblygu cynllun gwasanaethau therapi, gan gyfrannu at fodelau gwasanaeth clinigol newydd er mwyn cynorthwyo lleihad mewn amseroedd aros.
- 2F.8 - Datblygu Fframwaith Llywodraethu i fod yn sail i'r broses o roi Fframwaith Proffesiynol AaGIC ar gyfer Arfer Clinigol Uwch, Ychwanegol ac Ymgynghorol yng Nghymru (ar gyfer gweithwyr proffesiynol HCPC cofrestredig).

- 2F.9 - Rhoi Tâl Amrywiadwy a fframwaith rheoli asiantaethau ar waith a sicrhau lleihad o 30% mewn gwariant asiantaethau yn ystod 2025/26. Caiff hyn ei ategu gan wariant heb fod oddi ar y contract a lleihad o ran gwariant sero ar gyfer grwpiau staff penodol.
- 2F.10 - Sicrhau bod modd rhoi polisi cynllunio swyddi ar waith yn effeithiol i gynnwys bod >90% o'r holl Feddygon Ymgynghorol yn meddu ar gynllun swydd cytunedig bob amser.
- 2F.11 - Sicrhau lleihad mewn lefelau absenoldeb salwch trwy gadw at bolisiau allweddol fel Presenoldeb yn y Gwaith.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

- Integreiddio'n llawn â metrigau gweithlu wedi'u halinio â metrigau perfformiad er mwyn sicrhau gwelededd a mesuradwyedd effaith cynlluniau gweithlu ar draws y sefydliad.
- Cynlluniau hirdymor ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau ar draws y sefydliad wedi'u halinio â strategaeth y Bwrdd Iechyd.
- Adolygiad o gapasiti'r swyddogaeth gynllunio gweithlu canolog er mwyn sicrhau bod adnoddau arbenigol digonol ar gael i'r sefydliad.

2G: Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol

Trosolwg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni megis awdurdodau lleol a'r trydydd sector i drafod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â hwy, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio. Mae partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw'n cynnwys:

Cydbwyllgor Canolbarth Cymru

Ar gyfer 2025/26, bydd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio ar draws Canolbarth Cymru yn ategu at ddisgwyliad Llywodraeth Cymru, fel y'i hamlinellir yng Nghannllawiau Cynllunio Technegol GIG Cymru 2025 - 2028 ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio i gynllunio a chyflawni datrysiadau rhanbarthol ar draws ffiniau sefydliadol. Bydd y ffocws yn parhau i fod ar ddull llwybr cyfan yn cynnwys cysylltiadau rhanbarthol rhwng gofal sylfaenol, eilaidd, cymunedol a chymdeithasol.

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST)

Uchelgais WAST yw esblygu o fod yn wasanaeth ambiwlans a chludiant traddodiadol i fod yn wasanaeth clinigol integredig sy'n cydweithio â'r system iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n cysylltu â nhw yn y ffordd orau bosibl trwy 111, 999 a'r gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB)

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (RIF) yn gronfa bum mlynedd (Ebrill 2022 - Mawrth 2027) i gynorthwyo integreiddio a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn arwain ar ddatblygu a gweithredu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF).

Cyfanswm yr arian RIF a ddyrannwyd i'r RPB gan Lywodraeth Cymru yn 2025 - 2026 (blwyddyn 4 o 5) yw £32,886,831. Mae meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer RIF yn cynnwys y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, Dementia, Gofalwyr Di-dâl ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty a seibiant byr i ofalwyr. Caiff cyllid RIF ei frigidori ar gyfer y rhaglen Trawsnewid

Anabledau Dysgu rhanbarthol, y Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Plant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Oedolion rhanbarthol ac ar gyfer Fedra' i. Caiff gweddill y cyllid ei ddyrannu i bob is-ranbarth yn seiliedig ar fformiwlâu poblogaeth siroedd. Yn nodweddiadol, mae'r Awdurdod Lleol a BIPBC yn cymryd 50% o ddyraniad pob sir.

Cyfanswm yr arian Ymhellach, Yn Gyflymach a ddyrannwyd i'r RPB gan Lywodraeth Cymru yn 2025 - 2026 yw £2,654,000. Caiff cyllid Ymhellach, Yn Gyflymach ei ddyrannu ar yr un sail â RIF. Mae'r RPB yn disgwyl i LIC gadarnhau trydedd flwyddyn o gyllid ar gyfer y Cynllun Gwella Niwrowahaniaeth.

Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC)

Mae BGCau yn cyhoeddi cynlluniau bob pum mlynedd. Cyhoeddwyd y cynlluniau llesiant cyntaf yn 2018 a chafodd y cynlluniau diweddaraf eu cyhoeddi yn haf 2023. Roedd cynlluniau llesiant lleol yn amlinellu amcanion a chamau a oedd â'r bwriad o wella pedwar dimensiwn llesiant - cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, ar gyfer eu hardal.

Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA)

Cafodd BCAau eu sefydlu i ategu at gyflwyno Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'. Mae BCAau yn darparu fframwaith rhanbarthol i wneud y canlynol:

- Atgyfnerthu gwaith mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth strategol i gyflwyno strategaeth camddefnyddio sylweddau; a,
- Datblygu a gwella swyddogaethau allweddol cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad.

Y Trydydd Sector

Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng y trydydd sector a'r GIG wedi dod yn fwyfwy pwysig o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r trydydd sector yn cynnwys sefydliadau anllywodraethol, elusennau, a mentrau cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer cymunedau. O ystyried y pwysau cynyddol, a'r galw uwch am wasanaethau, mae cydweithio â'r trydydd sector yn cynnig datrysiadau arloesol i wella darpariaeth gofal iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu contractau gwariant gyda sefydliadau trydydd sector sy'n werth tua £9.869 miliwn ar hyn o bryd yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Mae 42 o gytundebau grant hanesyddol sy'n cyfrif am oddeutu £1.648 miliwn, yn cynnwys 62 sy'n gcontractau ffurfiol yn cynnwys cyfanswm gwariant o £8.221 miliwn.

Mae adolygiad helaeth o drefniadau comisiynu'r trydydd sector a ddechreuodd ar ddiwedd 2022/23 ar y gweill i bennu i ba raddau y mae mentrau a ariennir gan grantiau a chontractau trydydd sector yn sicrhau'r canlyniadau dymunol a'u bod yn parhau i fod yn berthnasol ar lefel strategol i anghenion cyfnewidiol poblogaeth Gogledd Cymru.

Partneriaid rhanbarthol eraill

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda'r sefydliadau canlynol - Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), y Cydbwyllgor Comisiynu (JCC), Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

(NWSSP) ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau perthnasol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Cydbwyllgor Canolbarth Cymru:

- 2G.1 - Datblygu rhaglen adnewyddu ar gyfer llwybrau wroleg ar draws y rhanbarth a fydd yn ategu at waith y llwybr cenedlaethol ac yn cysylltu ag ef.
- 2G.2 - Gwella capasiti a mynediad i wasanaethau offthalmoleg trwy ddatblygu dull llwybr system rhanbarthol a chyfan wedi'u hategu gan gysylltiadau rhwng Byrddau Iechyd.
- 2G.3 - Canfod gwelliannau y gellir eu gwneud i ddarpariaeth gwasanaethau Deintyddol y GIG yn gyffredinol ar draws Canolbarth Cymru.
- 2G.4 - Canfod cyfleoedd i wella darpariaeth a gwella mynediad i wasanaethau canser ar draws Canolbarth Cymru.
- 2G.5 - Datblygu datrysiadau i sefydlu trefniadau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol trawsffiniol.
- 2G.6 - Canfod effaith newidiadau i lwybrau a gynigir mewn rhaglenni newid strategol sefydliadau (megis rhaglen Ysbyty Cymuned Tywyn a De Meirionnydd).

Mae blaenoriaethau clinigol yn cynnwys: wroleg, rheumatoleg a dermatoleg.

Mae blaenoriaethau a ganfuwyd gan bartneriaid gofal cymdeithasol yn cynnwys y canlynol: Oedi o ran llwybrau gofal ac Aseswyr Dibynadwy, Llety Preswyl i Blant a System Wybodaeth Gofal Cymunedol (WCCIS).

WAST

- 2G.7 - Gwneud gwelliannau i wefan 111.
- 2G.8 - Mwy o glinigwyr i sgrinio galwadau 999 er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol ar gyfer anghenion unigol.
- 2G.9 - Mwy o glinigwyr yn 111 a 999 i helpu i ddelio ag anghenion dros y ffôn neu gyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol yn y gymuned.
- 2G.10 - Ymateb i adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r targed ymateb coch.
- 2G.11 - Cydweithio â Byrddau Iechyd i sicrhau bod llwybrau ar gael i ddiwallu anghenion yn y gymuned lle bo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.
- 2G.12 - Cynnal adolygiad strategol o wasanaethau cludiant nad ydynt yn frys er mwyn sicrhau eu bod yn addas at eu diben.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae rhaglen RIF Gogledd Cymru 2025 - 2026 yn cael ei chymeradwyo ar hyn o bryd. Mae'r buddsoddiad dangosol ar raglen RIF 25/26 o dan y chwe model gofal cenedlaethol wedi'u dangos isod:

- 2G.13 - Gofal yn y Gymuned: atal a chydlynu (£9.6M).
- 2G.14 - Gofal yn y Gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref (£20.9M).
- 2G.15 - Gartref o'r Ysbyty: (£4.1M).
- 2G.16 - Rhoi cymorth i deuluoedd aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o gael gofal: (£15.8M).
- 2G.17 – Datrysiadau'n seiliedig ar lety: (£836k).
- 2G.18 - Hybu iechyd da a llesiant: (£2.1M).

Mae rhaglen Ymhellach, Yn Gyflymach (FF) Gogledd Cymru 2025 - 2026 yn cael ei chymeradwyo ar hyn o bryd. Dangosir y buddsoddiad dangosol ar raglen FF 25/26 isod:

- 2G.19 - Y Dwyrain a'r Canol: Darpariaeth cartrefi gofal ychwanegol a chapasiti gofal cartref: (£699k).
- 2G.20 - Y Canol: Ehangu presgripsiynu cymdeithasol: (£97k).
- 2G.21 - Y Canol (i'w gadarnhau): Rhag-gynllunio, gofal lliniarol a gofal cam i fyny / cam i lawr i gynorthwyo cleifion yn eu cartrefi eu hunain: (£455k).
- 2G.22 - Y Canol: Gwasanaeth gofal cartref gwledig uwch: (£43k).
- 2G.23 - Y Canol: Mwy o wasanaethau seibiant i ofalwyr yn achos pobl hŷn: (£60k).
- 2G.24 - Y Dwyrain (i'w gadarnhau): Gofal Cymunedol Uwch - rhag-gynllunio a darparu gofal i gynorthwyo cleifion yn eu cartrefi eu hunain: (£494k).
- 2G.25 - Y Gorllewin: Rhaglen Eiddilwch Cymunedol - Gofal Cymunedol Uwch, Rhag-gynllunio Gofal a Hyfforddiant Meddyginiaeth i Ofalwyr: (£754k).
- 2G.26 - Y Canol: Gwasanaeth Independent Me: cynorthwyo pobl sydd ag anabledd i barhau i fod yn annibynnol: (£49k).

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)

- 2G.27 - Cynorthwyo proses asesu risg newid yn yr hinsawdd.
- 2G.28 - Cynorthwyo'r gwaith o gyflwyno'r Siarter Teithio Iach.
- 2G.29 - Mynd ati'n rhagweithiol i hwyluso ehangu'r bartneriaeth rhwng Sefydliadau'r Trydydd Sector a Gwasanaethau Statudol.
- 2G.30 - Sefydliadau BGC i ymrwymo i fod yn ystyriol o drawma.

Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA)

- 2G.31 - Integreiddio Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Cyfiawnder Troseddol (a ddarparwyd yn flaenorol gan y Trydydd Sector â Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau'r Bwrdd Iechyd (SMS).
- 2G.32 - Datblygu Roslin, yn Llandudno, yn Hwb Camddefnyddio Sylweddau amlasiantaethol.
- 2G.33 - Cyflwyno Cynllun Gwaredu Hepatitis B a C yn barhaus.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

Cydbwyllgor Canolbarth Cymru:

- Cytunir ar flaenoriaethau bob blwyddyn, ond bydd nifer o flaenoriaethau ar gyfer 2025/26 yn parhau yn 2026/27.

WAST

- Rhoi Cynllun ar Waith ar gyfer gwasanaethau Trosglwyddo a Rhyddhau gan gynnwys Hwb Clinigol Trosglwyddo (yn amodol ar gyllid allanol).
- Gweithio'n barhaus gyda Byrddau Iechyd i wella cyfleoedd i integreiddio Gwasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) ac amserlennu gan y Bwrdd Iechyd.
- Rhoi offer dadansoddi data ar waith i fonitro a gwerthuso perfformiad NEPTS yn barhaus.
- Dadansoddeg ragfynegol i ragweld galw a dyrannu adnoddau'n effeithlon.

Amcan 3: Diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol

3A

Datblygu Diwylliant

3B	Datblygu Arweinyddiaeth
3C	Ymgysylltu â dinasyddion a gweithio mewn partneriaeth
3D	Y Gymraeg a diwylliant Cymru

Trosolwg

Bydd datblygu a meithrin diwylliant tosturiol, wedi'i ategu gan arweinyddiaeth effeithiol sy'n ymgysylltu'n dda â chydweithwyr ar draws y sefydliad, yn gonglfaen i sefydliad iach a chynaliadwy. Felly mae'r amcan strategol hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at raglen Sylfeini'r Dyfodol (1B). Mae gwrando ar safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion a chymunedau Gogledd Cymru i fod yn sail i ddatblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol gyda phartneriaid yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau sy'n addas at eu diben ar gyfer y boblogaeth. Bydd sicrhau bod y sefydliad yn ystyried y cysylltiad cryf a balch â'r Gymraeg a diwylliant Cymru o ran popeth y mae'n ei wneud, yn fewnol ac yn allanol, yn golygu bod gwasanaethau'n gweithredu mewn ffordd y gall pawb o'r rhanbarth gymryd rhan ynddi.

Cynnydd o ran yr Amcan Strategol hwn yn ystod 2025/25

Sylwch fod rhai blaenoriaethau wedi cael eu cyfuno ar draws Amcanion Strategol gwahanol yn y cynllun hwn

Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol Tosturiol:

- Sefydlwyd Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig, ymgynghorwyd arno ac mae'n cael ei roi ar waith. Mae cyfres o gynadleddau arweinyddiaeth wedi'u rhoi ar waith - Cynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol ym mis Tachwedd 2024.
- Datblygwyd Rhaglen Newid Diwylliant ac mae'n cael ei rhoi ar waith - Arweinwyr Newid Diwylliant; sefydlwyd Fforwm Rheolwyr Pobl.
- Cymeradwywyd dull Straeon Staff, gan ddechrau yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn ystod Chwarter 4.
- Sefydlwyd Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn llawn.
- Adnewyddwyd y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad - mae gwaith ymgysylltu helaeth wedi cael ei wneud gyda staff a phartneriaid allanol i gyd-gynllunio Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad.
- Datblygwyd Dangosfwrdd Diwylliant i olrhain metrigau allweddol sy'n gysylltiedig â gwella diwylliant sefydliad.
- Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch (ACLP) yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac mae 26 o arweinwyr clinigol iechyd ynghlwm wrth y rhaglen sy'n cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag AaGIC.

Ymgysylltu â Dinasyddion:

- Gwnaed cynnydd o ran ymgysylltu â chymunedau trwy weithgareddau fel digwyddiadau gwrando gan y Bwrdd a rhaglen eang o ymgysylltu â'r cyhoedd. Presenoldeb mewn digwyddiadau megis Sioe Dinbych a Fflint, Sioe Môn, Gwyliau Bwyd Yr Wyddgrug a Llangollen - mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i hybu iechyd a lles a gwella gwelededd y Bwrdd Iechyd.
- Gwella cynnwys partneriaid a chydweithio â nhw, er enghraifft creu "Pentref Lles" BIPBC/Trydydd Sector yn Sioe Dinbych a Fflint, ac ail-lansio rhaglen Cnoi Cil ar Iechyd yn y gweithle.
- Ymgymerwyd ag ymgysylltu penodol hefyd ar faterion megis gofal wedi'i gynllunio, megis archwilio profiadau pobl sy'n aros am lawdriniaethau ar y glun a'r ben-glin sydd yn ei dro wedi helpu i ategu at gynlluniau ar gyfer Hwb Orthopedig Llandudno.

- Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu wedi cael ei sefydlu'n cynnwys gwasanaethau allweddol, Llais Gogledd Cymru a Chynghorydd Annibynnol Mesurau Arbennig, Cath Broderick. Mae'r Grŵp wedi datblygu rhaglen waith a fydd yn helpu i barhau gyda'r dull mwy cadarn a chyson yma o ymgysylltu.
- Dysgu cynyddol trwy ymgysylltu â theuluoedd yn ogystal â chleifion eu hunain, gan sicrhau bod modd eu cynnwys gymaint â phosibl a meithrin dull corfforedig, wedi'i amlygu yn enwedig mewn perthynas ag Iechyd Meddwl.

Bod yn Bartner Da:

- Mae cyfres o gyfarfodydd un i un rheolaidd gyda gwleidyddion wedi parhau. Mae'r rhain wedi cael eu hategu gan gyfarfodydd ar-lein gyda grwpiau o Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.
- Mae rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys prif weithredwyr a chadeiryddion awdurdodau lleol, cynrychiolwyr cymdeithasau tai a'r Trydydd Sector wedi cael cyfarfodydd gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr newydd.
- Dechreuodd gwaith ar arolwg yn yr hydref i glywed sut mae rhanddeiliaid yn gweld eu perthynas â'r Bwrdd Iechyd, a chaiff y canfyddiadau eu hymgorffori i gynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Mae adolygiad o bresenoldeb a threfniadau llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael ei gynnal ac mae cymorth i gydweithwyr sy'n cymryd rhan yn cael ei roi ar waith.
- Mae cynnydd yn parhau o ran sicrhau bod y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) yn cael eu cynnwys yn gynt yng ngwaith y Bwrdd Iechyd e.e. gwerthoedd ac ymddygiad, rhaglenni Newid Mawr (UEC) a strategaeth.

3A: Datblygu Diwylliant

Trosolwg

Ar gyfer ffrwd waith "Diwylliant" o dan raglen Sylfeini'r Dyfodol (1B), mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth y GIG ar sail tystiolaeth. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar yr elfennau a'r ymddygiad a nodir fel rhai angenrheidiol ar gyfer diwylliant sy'n cynnal gofal teg o ansawdd uchel sy'n dosturiol ac yn effeithlon yn gyson. Y Bwrdd Iechyd yw'r cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r model hwn ar raddfa sefydliad cyfan. Mae'r rhaglen wedi'i sefydlu ar egwyddor 'arweinyddiaeth dosturiol, amrywiol a chynhwysfawr', sy'n grymuso staff ar bob lefel, fel unigolion ac mewn timau, i gymryd camau i wella gofal mewn sefydliadau ac ar eu traws - 'arwain pawb, gan bawb ac i bawb'.

Mae cynlluniau gweithredu ar waith i sicrhau bod Amcan 3 yn cael ei gyflawni ym meysydd diwylliant, ymgysylltu ac arweinyddiaeth.

Gweler hefyd 1B - Sefydlu Sylfeini'r Dyfodol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 3A.1 - Gweithredu ac ymgorffori Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad i'n polisiau, prosesau ac arferion sefydliadol fel bod staff yn byw yn unol â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- 3A.2 - Dirwyn cam Darganfod y Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth i ben trwy Adroddiad Synthesis a fydd yn sail i'n dulliau diwylliant ac arweinyddiaeth yn y dyfodol.

- 3A.3 – Cyd-lunio blaenoriaethau ar gyfer y cam dylunio drafft i'w datblygu ymhellach yn 2026/27 sy'n sail i'n dulliau tosturiol, amrywiol a chynhwysol, canfod yr hyn sy'n mynd yn dda a pha feysydd y mae angen eu hatgyfnerthu.
- 3A.4 - Cwblhau'r broses o gyflwyno rhaglen Arweinydd Newid Diwylliant (CCL). Mae rôl CCL wedi cael ei sefydlu i ategu'r Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth. Daw arweinwyr o groestoriad o staff ar draws y sefydliad sy'n dod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth trwy edrych ar ddiwylliant presennol y Bwrdd lechyd a helpu i lunio diwylliant ar gyfer y dyfodol.
- 3A.5 (1B.2) - Gwella dulliau ymgysylltu â staff trwy roi cynllun ymgysylltu â staff ar waith (gan gynnwys camau gweithredu o arolygon staff, straeon staff, amcanion PADR cyffredin (edefyn aur) a digwyddiadau/gweithgareddau ymgysylltu), gwreiddio dulliau ymgysylltu trwy strwythurau arwain a rheoli ar y rheng flaen.
- 3A.6 (1A.4 & 1B.2) - Gwella trefniadau llywodraethu fel eu bod yn alinio ag amcanion strategol y sefydliad ac yn ategu at eu cyflawni a chaniatáu penderfyniadau ar sail ansawdd yn y system gyfan. Bydd hyn, ochr yn ochr â defnyddio model RACI (Arwyddion, Geiriau, Gweithredu ac Anghenion) mewn proffiliau rôl i ddisgrifio rolau a chyfrifoldebau unigolion ar gyfer gweithgareddau a deilliannau yn ategu at greu annibyniaeth ac atebolrwydd mawr ar draws yr holl rolau.
- 3A.7 (5E.2 & 1B.2) - Bydd y Bwrdd lechyd yn gwella ei system a'i brosesau i sicrhau bod trosglwyddo dysgu fel Sefydliad Dysgu yn gwella'r cyfle i rannu dysgu ac i wella gofal cleifion.

Blaenoriaethau disgwylidig yn 2026/27 a 2027/28

- Cymeradwyo ein meysydd blaenoriaeth allweddol i'w cyflawni o dan bob un o'r pum elfen ddiwylliannol. Y rhain yw: nodau a pherfformiad; dysgu ac arloesi; cymorth a thrugaredd; tegwch a chynhwysiant; a gwaith tîm.
- Cyflawni meysydd blaenoriaeth allweddol o dan bob un o'r pum elfen ddiwylliannol gan ddefnyddio dull ar sail cryfderau, adeiladu ar lwyddiant a nodi meysydd ar gyfer gwella pellach.

3B: Datblygu Arweinyddiaeth

Trosolwg

Un o flaenoriaethau sylfaenol hirdymor allweddol y Bwrdd lechyd yw datblygu capasiti diwylliant ac arweinyddiaeth ymhellach. Gan gysylltu'n uniongyrchol â ffrwd waith "Pobl" yn rhaglen Sylfeini'r Dyfodol (1B), mae'r gwaith hwn wedi dechrau gyda chefnogaeth yr Athro Michael West a Chronfa'r Brenin, i gwmpasu ffocws cryf ar 'arweinyddiaeth dosturiol'. Mae arweinyddiaeth dosturiol yn cynnwys canolbwyntio ar gydbertnasau trwy wrando'n ofalus, deall, cydymdeimlo a chefnogi pobl eraill, gan alluogi'r holl staff i deimlo eu bod yn werthfawr, eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn bwysig i eraill fel y gallant gyrraedd eu potensial a gwneud eu gwaith yn y ffordd orau bosibl. Mae hwn yn ddull ar sail tystiolaeth sy'n arwain at dimau cryf a gwydn sy'n fwy abl i lywio'r Bwrdd lechyd trwy gyfnod heriol. Mae'n bwysig nodi nad yw arweinyddiaeth dosturiol yn ddiben ynddi ei hun; mae tystiolaeth gref sy'n dangos bod diwylliant arweinyddiaeth dosturiol yn arwain at ganlyniadau gwell gan staff ar draws y sefydliad.

Bydd arweinyddiaeth dosturiol yn edefyn cyffredin trwy waith datblygu'r sefydliad ehangach sydd eisoes ar y gweill yn y Bwrdd lechyd. Bydd y Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol yn parhau i lywio a gweithredu blaenoriaethau allweddol y cynllun Datblygu Sefydliadol, gan adolygu cynnydd ac adrodd arno trwy'r Tîm Gweithredol ac ymlaen at y Pwyllgor Bwrdd Pobl a Diwylliant.

Arweinyddiaeth Dosturiol



Mynychu

Deall

Empatheiddio

Helpu

Arweinyddiaeth Effeithiol

- *Cyfeiriad:* Pwrpas neu weledigaeth ysbrydoledig glir a rennir
- *Aliniad:* nodau clir i bobl a thimau, wedi'u halinio ac yn tarddu o'r weledigaeth.
- *Ymrwymiad:* Datblygu ymddiriedaeth a chymhelliant

Arweinyddiaeth Gynhwysol

- Pwrpas neu weledigaeth ysbrydoledig glir, a rennir
- Gwerthfawrogi gwahaniaeth yn gadarnhaol
- Cyswllt wyneb yn wyneb aml
- Ymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a chynhwysiant
- Rolau clir a thim cryf

Arweinyddiaeth ar y Cyd

- Mae gan bawb gyfrifoldeb arwain
- Rhannu arweinyddiaeth mewn timau
- Arweinyddiaeth gyd-dalbynnol ar draws ffiniau
- Arddulliau arweinyddiaeth gyson ar draws y sefydliad

Arweinyddiaeth Systemau

- Gweledigaeth a gwerthoedd a rennir
- Amcanion tymor hir
- Cyswllt wyneb yn wyneb aml
- Rheoli gwrthdaro adeiladol a moesegol
- Cyd-gefnogaeth ac allgaredd ar draws ffiniau

Bydd gwelliannau o ran arweinyddiaeth dosturiol a datblygu sefydliadol yn caniatáu gwelliant cyflymach ar draws y sefydliad, a mwy o foddhad gan staff, gan arwain at welliannau o ran profiad a chanlyniadau cleifion.

Bydd rhoi llwybr a fframwaith datblygu arweinyddiaeth glir ar waith yn cynorthwyo'r gweithlu, gan roi cyfleoedd i weithwyr nad ydynt yn cyflawni rôl arwain ffurfiol, yn cynnwys y rhai sy'n uwch arweinwyr a'r rhai sy'n cyflawni swyddi gweithredol.

Mae'r Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig (ILDF) yn amlinellu'r cynnig mewnol craidd ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth amlddisgyblaeth ac mae'n cynnwys gwybodaeth am ddatblygu arweinyddiaeth allanol y gall gweithwyr ei chyrru. Caiff yr ILDF ei gynnal ar Hwb Arweinyddiaeth BIPBC, trwy Borth Arweinyddiaeth 'Gwella'.

Bydd yr ILDF yn ategu at ddilyniant gyrfa, rheoli talentau ac uwchlaw popeth, bydd yn ategu at yr uchelgais o greu ymagwedd gyson tuag at ddiwylliant tosturiol, cyfunol, diddorol, a chynhwysol ar gyfer y sefydliad. Mae'r ILDF wedi cael ei gyd-lunio yn dilyn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr, partneriaid academaidd ac ochr yn ochr ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Fframwaith Arwain a Datblygu Integredig:

EXPLORING LEADERSHIP AND MANAGEMENT

MENTRO VENTURE

ARCHWILLIO ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH





Moel Famau
Rhaglen ar gyfer meithrin sgiliau arwain sylfaenol ar gyfer y sawl sy'n dymuno bod yn Rheolwyr Pobl



Mynydd Mawr
Rhaglen hyfforddiant sylfaenol ar Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Wedi'i chynllunio ar gyfer staff sy'n newydd i rôl reoli neu reolwr newydd yn y sefydliad. Bydd y rhaglen hon yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol mewn arweinyddiaeth a rheolaeth.



Cadair Idris
Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth lefel ganol ar gyfer rheolwyr Gweithredol, lefel ganolig sefydledig sy'n arwain timau drwy newid ac ansicrwydd.



Tryfan
Rhaglen sy'n pontio'r newid i uwch arweinyddiaeth, wedi'i chynllunio ar gyfer y rhai sy'n trosglwyddo o rolau gweithredol i rolau uwch reoli.



Glyder Fawr
Uwch Raglen Arweinyddiaeth, a ddatblygwyd i ddysgu sut i symud y tu hwnt i arweinyddiaeth o fewn maes arbenigedd proffesiynol, i rolau gweithredol sy'n croesi ffiniau sefydliadol.



Yr Wyddfa
Rhaglen Datblygu Gweithredol sy'n rhoi'r pwyslais ar Arweinyddiaeth Systemau Strategol a strategaethau o ran sut y gall y Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd weithio fel tîm effeithiol.

Gweler hefyd 1B Sefydlu Sylfeini'r Dyfodol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 3B.1 - Dylunio cyfres o weithdai i atgyfnerthu meysydd allweddol yr ILDF, gyda ffocws ar ddatblygu sgiliau arwain mewn meysydd penodol er enghraifft, gweithdai i ymgorffori egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol er mwyn galluogi arweinwyr a rheolwyr i ddeall buddion dull tosturiol a sut i gymhwyso ymddygiad tosturiol yn y gweithle ac i gynorthwyo arweinwyr a rheolwyr i gael sgysiaau â'u staff trwy lens dosturiol, i fagu hyder a sgiliau o ran rheoli sefyllfaoedd anodd neu heriol.

- 3B.2 - Datblygu rhaglen/cynnig craidd ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr canol ar draws y sefydliad. I gael ei alinio â'r strategaeth genedlaethol barhaus gan adeiladu fframwaith cymwyseddau rheoli craidd ar draws GIG Cymru gan weithio gydag AaGIC ac ystod o bartneriaid academaidd.
- 3B.3 - Adolygu a gwerthuso'r rhaglen lefel uwch gyntaf - Glyder Fawr (Rhaglen Uwch Arweinyddiaeth Glinigol) a gyflwynwyd yn 24/25 yn barod ar gyfer yr ail garfan o'r rhaglen genedlaethol hon dan arweiniad AaGIC yn dechrau ar ddiwedd Chwarter 1 25/26.
- 3B.4 - Cynnal adolygiad o Rwydwaith Hyfforddi a Mentora BIPBC a fydd yn cynnwys:
 - Adolygiad o effeithiolrwydd y rhwydwaith hyfforddi i sicrhau bod digon o hyfforddwyr i ddelio â galw, bod hyfforddwyr sy'n rhan o'r rhwydwaith yn hyfforddi'n rhagweithiol, bod adnoddau a chymorth / goruchwyliaeth priodol ar waith.
 - Caiff pecyn offer ei ddatblygu i gynorthwyo mentoriaid ar draws y sefydliad ynghyd â chynnig rhwydwaith mentora wedi'i gyd-ddylunio.
- 3B.5 - Gwerthuso'r canlyniadau o garfanau blaenorol Rhaglen Mynydd Mawr - Sylfeini Arwain a Rheoli (a gyflwynwyd yn 24/25) er mwyn canfod canlyniadau dysgu a'r effaith yn y gweithle.
- 3B.6 - Lansio rhaglen newydd 'Arweinyddiaeth i Bawb - 'Moel Famau', yn rhoi cyflwyniad i arweinyddiaeth i'r holl staff ar draws y sefydliad waeth a ydynt yn cyflawni rôl arwain ffurfiol.
- 3B.7 - Datblygu cyfres o fetrigau ac adroddiadau gan yr hwb Arweinyddiaeth i'w dadansoddi: ymgysylltu â defnyddwyr, themâu, cyfraddau gadael cyn gorffen.

Blaenoriaethau disgwylidig yn 2026/27 a 2027/28

- Rhoi'r ILDF ar waith yn barhaus er mwyn sicrhau bod Datblygu Arweinyddiaeth ar gael ac yn hygyrch i'r holl staff. Yn cynnwys gwerthuso ac adolygu parhaus er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn cynorthwyo pobl, nid yn unig gydag addysg a dysgu, ond gydag arweinyddiaeth yn ymarferol hefyd.
- Gwerthuso ac adolygu ail flwyddyn / trydedd flwyddyn yr ILDF yn dilyn ei roi ar waith ymhellach yn ystod 25/26 er mwyn canfod tueddiadau, dadansoddi adborth ac asesu'r effaith yn y gweithle. Bydd hyn yn sail i welliant parhaus a chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.
- Diwygio'r ILDF yn barhaus yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol GIG Cymru a rhoi fframwaith cymwyseddau rheoli a chwricwlwm ategol newydd ar waith.

3C: Ymgysylltu â dinasyddion a gweithio mewn partneriaeth

Trosolwg

Ymgysylltu â Dinasyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau. Mae hyn yn golygu nid yn unig ymgysylltu'n gynnar, ond yn barhaus er mwyn caniatáu gwrandao ar brofiadau ac arbenigedd pobl eraill a dysgu oddi wrthynt. Ymrwymiad clir yw hwn a wnaed gan wybod nad yw'r Bwrdd Iechyd bob amser wedi rheoli hyn yn dda yn y gorffennol. Bydd yn helpu i sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau'n cael eu llunio yn ôl yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion, a bod pobl yn meddu ar y wybodaeth a'r cymorth i'w galluogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles ac i wneud dewisiadau da. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da, fel y dangoswyd yn ystod adolygiad annibynnol dilynol yn ymwneud ag ymgysylltu â dinasyddion yn ystod mis Chwefror 2025, o ran gwrandao ar gymunedau'n ymwneud â sut i wella gwasanaethau a ddarperir gan y



Bwrdd Iechyd, ac i gael sgwrs ddyfnach â chymunedau'n ymwneud ag adolygu hunangymorth, atal salwch, a hybu iechyd.

Bydd gwella safonau clinigol, darpariaeth gofal o ansawdd a phrofiad cyffredinol wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd oll yn arwain at roi gwerth mawr ar ddysgu o brofiad dinasyddion. Mae'r Polisi Pryderon Integredig newydd yn gam positif o ran newidiadau sy'n cael eu llywio gan gleifion ac mae ymgysylltu'n ehangach â dinasyddion yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r Bwrdd Iechyd er mwyn llywio gwelliannau i wasanaethau a chanlyniadau iechyd gwell i'r boblogaeth.

Bod yn bartner da

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ar draws amgylchedd sy'n gymhleth ac yn amlweddol. Mae rhai o'r cyfleoedd partneriaeth hyn yn cynnig mwy o botensial i wella iechyd a lles pobl Gogledd Cymru nac sydd wedi bod yn bosibl yn hanesyddol ac mae o fudd i'r Bwrdd Iechyd ac i randdeiliaid i'r cysylltiadau hyn gael eu hatgyfnerthu.

Mae heriau sylweddol o'n blaenau, sydd i'w cael nid yn unig ar draws Cymru ond y DU a Gorllewin Ewrop hefyd, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaus ar les y boblogaeth a darpariaeth iechyd a gofal. Mae'r cynnydd yng nghostau byw a sefyllfa economaidd heriol yn ychwanegu at y darlun ac yn creu amgylchedd cymhleth i'r holl bartneriaid. Gellir mynd i'r afael â'r lefel o gymhlethdod hon trwy ddull system gyfan yn unig; gydag Awdurdodau Lleol, sefydliadau Trydydd Sector ac Elusennol, Cymdeithasau Tai, Prifysgolion a phartneriaid Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Byrddau Iechyd cyfagos a'r GIG yn Lloegr. At hynny, mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod y datrysiadau i'r heriau hyn yn well o lawer o'u deall ar draws partneriaethau system.

Mae meysydd cydweithio penodol dros y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys datblygu ac adeiladu ar gydberthnasau strategol i wella'r potensial i gydleoli gwasanaethau er mwyn delio ag anghenion gwasanaeth a llygredd, cyd-ddylunio fframweithiau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a chydgyhyrchu mewn fforymau ar y cyd.

Ffordd bwysig i'r Bwrdd Iechyd gael effaith well o ran partneriaethau yng Ngogledd Cymru yw trwy gydnabod ei rôl fel 'sefydliad angori'. Mae'r term sefydliad angori fel arfer yn cyfeirio at sefydliadau sector cyhoeddus mawr y mae eu cynaliadwyedd hirdymor ynghlwm wrth y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Fel partner i sefydliadau eraill, ac i drigolion Gogledd Cymru gyfan, gall y Bwrdd Iechyd wneud gwahaniaeth yn y gymuned trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau'n lleol, y ffordd y mae'n defnyddio ei ystad ffisegol, a'r ffordd y mae'n cynorthwyo cyflogaeth leol, o ran lleihau effaith ar yr amgylchedd ac o ran cydweithio i fodelu cyfrifoldeb dinesig. Yn ogystal, fel sefydliad angori gydag 20,000 o weithwyr, bydd annog gweithwyr a'u teuluoedd i fyw bywydau iach yn cael effaith fawr ar iechyd poblogaeth Gogledd Cymru.

Fel rhan o fod yn bartner da, bydd sicrhau bod prosesau strategol a phenderfynu yn y Bwrdd Iechyd yn integreiddio'n dda yn amgylchedd y system ehangach a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn haws i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n gwella cyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i drigolion yng Ngogledd Cymru.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn ffordd agored a thryloyw gyda'i bartneriaid ac mae'n awyddus i'w cynnwys er mwyn helpu i gydgyhyrchu datblygiadau newydd. Dyna pam mae

gweithio mewn partneriaeth yn faes y mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno ei wella, gan nodi nas rhoddwyd blaenoriaeth i weithio mewn gwir bartneriaeth bob tro yn y gorffennol. Mae'r Bwrdd Iechyd am ddatblygu perthnasau newydd a rhai presennol a'u cynnal fel bod partneriaid yn cymryd rhan ac yn cynnig datrysiadau i'r materion cymhleth ac anodd a rennir ac yn cydnabod pwysigrwydd gwneud penderfyniadau mewn ffordd ystyrlt.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 3C.1 - Cwblhau'r broses o roi argymhellion ar waith yn yr adolygiad annibynnol o ymgysylltu'n benodol:
 - Cymeradwyo a gweithredu fframwaith ymgysylltu 'Dull Betsi', gan sicrhau ei fod wedi'i lywio gan dystiolaeth, ei fod o ansawdd uchel, a'i fod yn cael ei ddatblygu ar y cyd yn cynnwys egwyddorion ymgysylltu cytunedig.
 - Rhoi system adrodd strwythuredig ar waith i olrhain a rhannu o leiaf dair enghraifft gadarn yn gyhoeddus yn ymwneud â sut mae adborth gan y gymuned wedi dylanwadu ar gynlluniau, gwasanaethau a gwelliannau corfforaethol.
 - Sefydlu cymuned o arfer ymgysylltu yn y Bwrdd Iechyd, gan ddarparu o leiaf ddwy sesiwn hyfforddiant a datblygu pecyn offer i gynorthwyo staff gydag arferion gorau a dulliau ar sail tystiolaeth.
- 3C.2 - Gwella cyrhaeddiad ymgysylltu o 30% trwy ryngweithiadau cymunedol ar-lein wedi'u targedu, gan gynnwys o leiaf bedair ymgyrch ddigidol a defnydd ehangach o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.
- 3C.3 - Ehangu'r rhaglen ymgysylltu ar draws o leiaf bum cymuned yng Ngogledd Cymru, gan gydweithio â phartneriaid allweddol i sicrhau gwerth ychwanegol i drigolion, rhanddeiliaid a'r Bwrdd Iechyd.
- 3C.4 - Adolygu'r ymagwedd strategol tuag at ymgysylltu â chymunedau, gan fapio'r ddwy flynedd nesaf yn benodol.
- 3C.5 - Cynnal o leiaf dri digwyddiad gwranddo ar y gymuned mewn ardaloedd gwledig, gan sicrhau cyfranogiad gan o leiaf 50 o drigolion lleol, er mwyn casglu adborth ar anghenion gofal iechyd a gwelliannau gwasanaeth.
- 3C.6 - Ailbennu cynrychiolaeth y Bwrdd Iechyd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; gan sefydlu proses adrodd strwythuredig er mwyn gwella penderfyniadau.
- 3C.7 - Treialu dull ar ffurf cymhorthfa gyda chynghorwyr lleol mewn dau awdurdod lleol i gynorthwyo gyda chanfod problemau, gan werthuso ei effeithiolrwydd o ran gwella cyfathrebu ac ymgysylltu, gyda'r bwriad o ehangu'r dull ar draws yr holl awdurdodau lleol.
- 3C.8 - Ehangu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i blant a phobl ifanc trwy ddatblygu dull er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n dylanwadu ar benderfyniadau (dull lleisiau'r leuenctid).
- 3C.9 - Gweithio gyda phartneriaid i gyd-ddylunio a chyhoeddi Egwyddorion a Siarter Sefydliad Angori gydag egwyddorion sydd wedi'u diffinio'n glir gan alinio ag anghenion y gymuned a blaenoriaethau sefydliadol.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

- Gwella ein dull ymgysylltu â'r gymuned yn cynnwys mwy o ffocws ar ddarparu ar y cyd gyda phartneriaid, gan ddysgu o'n profiadau yn 2025 - 26 i fireinio a gwella.
- Trwy wrando ar ganlyniadau'r arolwg blynyddol i randdeiliaid a gweithredu arnynt, byddwn yn parhau i wella ein rhyngweithiadau gyda'r holl randdeiliaid presennol ac i wella cydberthnasau gwaith gyda'r holl bartneriaid.

Atgyfnerthu ymagwedd ymgysylltu dull Betsi gyda digwyddiad blynyddol i arddangos arfer da a rhannu dysgu.

3D: Y Gymraeg a diwylliant Cymru

Trosolwg

Mae cyflawni Safonau'r Gymraeg yn dal i fod ar flaen y gad o ran cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn ogystal ag ymrwymiad llawn i gyflawni cynllun pum mlynedd 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru. Yn dilyn ymarfer mapio mewnol, roedd yn galonogol nodi, o blith 16 o'r camau gweithredu a aseiniwyd i Fyrddau Iechyd, fod BIPBC ar lefel ffafriol, gan fod chwe cham gweithredu wedi'u cyflawni, ac mae wyth ar y gweill. Mae camau gweithredu y tu hwnt i gylch gwaith y Bwrdd Iechyd wedi'u nodi hefyd, gan mai gweithgareddau a gafodd eu mabwysiadu fel rhan o'r rhaglen waith ehangach yw'r rhain. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi canmol gwaith y Bwrdd Iechyd yn y maes hwn, mae wedi gweld arfer da yn uniongyrchol, ac mae hyn yn gadarnhad pwysig o'r ffordd y mae'r Gymraeg wedi'i chydblethu i ddiwylliant y sefydliad.



Mae blaenoriaethau ychwanegol wedi cael eu halinio â phrif themâu 'Mwy na geiriau', megis:

- Ymgorffori cynllunio ar gyfer y Gymraeg i arweiniad a pholisi, gan gynnwys cryfhau EQIA a'r Offeryn Sgrinio Asesiadau Integredig (IAST).
- Rhoi strategaeth hyfforddiant a gweithlu Cymraeg wedi'i thargedu ar waith i gynorthwyo'r staff presennol trwy adolygu a mabwysiadu'r Polisi a'r Weithdrefn Sgiliau Dwyieithog.
- Gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision sgiliau iaith Gymraeg wrth ystyried y sector iechyd fel gyrfa, gan gynorthwyo creu Gweithlu dwyieithog ar gyfer y dyfodol. Mae addysgu'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cael eu hymgorffori i gwricwlwm Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, yn cynnwys cyfraniad gan Dîm Cymraeg y Bwrdd.

Bydd cleifion a'r cyhoedd yn profi gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion Cymraeg oherwydd bod yr anghenion a'r dewisiadau hynny wedi dylanwadu ar gynllunio gwasanaethau'n gynnar, ac oherwydd y bydd gweledd ymrwymiad y Bwrdd Iechyd ar lefel arweinyddiaeth yn parhau i gynorthwyo staff o ran eu huchelgeisiau a'u nodau i ddatblygu eu sgiliau iaith.

Fel sefydliad sector cyhoeddus sy'n gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyrchu gwasanaethau gofal iechyd.

Ategir hyn gan gynllun Pum Mlynedd Llywodraeth Cymru, 'Mwy na geiriau', sy'n canolbwyntio ar grwpiau cleifion sy'n agored i niwed. I'r perwyl hwn, nod y gwasanaeth yw cydnabod iaith fel angen yn hytrach na dewis, yn enwedig wrth drin y cleifion hynny mewn grwpiau sy'n agored i niwed.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 3D.1 - Adeiladu ar y gwaith cynllunio a gwblhawyd yn ystod 2024/25 a'r cyfnod o newid rhwng cynllunio a chyflawni'r Safonau a 'Mwy na geiriau' ar lefel weithredol, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar leoliadau aciwt.
- 3D.2 - Mabwysiadu'r Cynllun Dewis laith ar gyfer grŵp cleifion sy'n agored i niwed penodol.
- 3D.3 - Ystyried y potensial o fabwysiadu 'Rhaglen Pencampwyr y Gymraeg' er mwyn annog a dathlu llwyddiant datblygu'r Gymraeg yn y gweithlu.
- 3D.4 - Ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cyflwyno rhaglen hyfforddiant wedi'i theilwra mewn Gwasanaethau Therapi laith a Lleferydd, sydd wedi cael ei nodi fel grŵp gweithlu sy'n flaenoriaeth.
- 3D.5 – Hybu defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu cyflawni'r Safonau yn erbyn fframwaith cydymffurfio.
- Ymgwymerodd y Bwrdd Iechyd ag ymarfer ymgysylltu yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd yn 2023, yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig i bobl o ran cyrchu gwasanaethau dwyieithog mewn lleoliadau gofal iechyd a'u profiadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl ailadrodd hynny yn 2026/27 (pan fydd Eisteddfod yr Urdd ym Môn) i asesu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r gwaith a amlinellir uchod.
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio nid yn unig ar y Safonau ond hefyd ar gyflwyno 'Cynnig Rhagweithiol' sy'n effeithiol.

Amcan 4: Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad

Templedi Gweinidogol sydd hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn:

4A	Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	<i>Templed Gweinidogol 2</i>
4B	Gofal Sylfaenol gan gynnwys Clystyrau	<i>Templed Gweinidogol 2 a 3</i>
4C	Gofal Cymunedol	<i>Templed Gweinidogol 3</i>
4D	Gofal wedi'i Gynllunio, Canser a Diagnosteg	<i>Templed Gweinidogol 1</i>
4E	Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng	<i>Templed Gweinidogol 1</i>
4F	Iechyd Meddwl / Anableddau Dysgu Oedolion	<i>Templed Gweinidogol 4</i>
4G	CAMHS	<i>Templed Gweinidogol 4</i>
4H	Niwroddatblygiad	
4I	Gwasanaethau Dementia	
4J	'Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau' ar hyn o bryd	<i>Templed Gweinidogol 1</i>
4K	Gwasanaethau Merched	<i>Templed Gweinidogol 5</i>
4L	Plant a Phobl Ifanc	
4M	Gwasanaethau Fferyllol	<i>Templed Gweinidogol 3</i>
4N	Gofal Lliniarol, Diwedd Oes a Phrofedigaeth	<i>Templed Gweinidogol 1</i>
4O	Gwasanaethau deintyddol	<i>Templed Gweinidogol 3</i>
4P	Diabetes	<i>Templed Gweinidogol 2</i>

Trosolwg

Mae'r pedwar amcan strategol arall yn y cynllun hwn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar greu sefydliad effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Trwy'r amcan hwn caiff y gwelliannau uniongyrchol i brofiad a chanlyniadau poblogaeth Gogledd Cymru eu gwireddu. Yn bwysig, mae'n cynnwys croestoriad eang o feysydd ar hyd taith feddyliol a chorfforol y claf o'r un pen i'r llall: cadw'n iach a chanfod yn gynnar ac yn rhagweithiol; hyd at gyflwyniadau cynnar mewn ystod o leoliadau sylfaenol a chymunedol; cyfeirio at ofal eilaidd a rhyddhau'n ôl at y gymuned.

Cynnydd o ran yr Amcan Strategol hwn yn ystod 2025/25

Sylwch fod rhai blaenoriaethau wedi cael eu cyfuno ar draws Amcanion Strategol gwahanol yn y cynllun hwn

- **Profiad Cleifion:** caiff ystod o ymagweddau eu defnyddio i ehangu'r cynnig i gleifion gan gynnwys defnyddio ciosgau sefydlog; Nodwyd defnydd o Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) fel enghraifft o arfer da yn Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd; Cyflwynir Adroddiad y Dinasyddion i'r Bwrdd bob chwarter a chyflwyno'r Adroddiad Ansawdd Blyneddol sydd ar gael ar safle mewnwyd y Bwrdd Iechyd.

- **Atal:** Canolbwyntio ar ymgyrchoedd parhaus sydd â'r nod o annog pobl i fanteisio ar y brechlyn gymaint â phosibl; Mae model Gogledd Cymru lach yn sefydlu fframwaith ar gyfer hybu iechyd cymunedol, gan gynnwys integreiddio argymhellion Deddf Gofal Gwrthgyfartal a Chynllun Strategol Celfyddydau mewn Iechyd wedi'i gymeradwyo; Datblygu achos dros newid ar gyfer modelau gofal newydd Diabetes; Datblygu dull partneriaeth ar gyfer cyflwyno presgripsiynu cymdeithasol ac ymyriadau cymdeithasol teg ac effeithiol; Mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys Gogledd Cymru Actif.
- **Gofal Sylfaenol ac Ymyrraeth Gynnar:** Mae trefniadau Llywodraethu, Sicrwydd ac Atebolrwydd wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer practisau a reolir gan y Bwrdd Iechyd; cynhaliwyd sesiwn ymwybyddiaeth i staff i roi cymorth o ran rhoi'r Fframwaith Sicrwydd Contractau newydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar waith; mae cynnydd yn cael ei wneud i wella'r ystad gofal sylfaenol; mae Asesu a Thrin Clinigol Integredig Unigol (SICAT) wedi'i ymestyn i saith niwrnod (9:00 - 21:00) yn cynnwys arolygu gan feddygon teulu ac wedi ymgorffori gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ar gyfer cymorth 24 awr; mae 53 o bractisau'n cymryd rhan yn her 50 diwrnod Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng i dargedu cymorth ar gyfer y garfan o gleifion risg uchel; Dull cydweithredol gydag Ysgol Feddygol Gogledd Cymru i ehangu argaeledd amgylcheddau hyfforddiant Gofal Sylfaenol; Datblygu gwelliannau o ran mynediad at ddeintyddiaeth gofal sylfaenol gyda chynnydd sylweddol mewn prydlondeb o ran ail-gaffael gweithgarwch coll; Ehangu cynnig yr Academi Gofal Sylfaenol yn barhaus, yn cynnwys tystiolaeth bod hyn yn cyfrannu at gadw a chynorthwyo mwy o weithwyr arfer proffesiynol uwch yn gweithio ym maes Gofal Sylfaenol
- **Gofal Cymunedol a Chlystyrau:** Mae cymorth ac ymgysylltu yn y gymuned wedi'u sefydlu ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u Gofalwyr. Mae'r broses o roi'r model Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) wedi'i datblygu yn unol â'r cynlluniau. Mae casglu data a dirnadaethau wedi'i gwblhau i ategu at roi darpariaeth gwasanaethau cymunedol ychwanegol ar waith.
- **Gofal wedi'i Gynllunio:** Mae cyfarfodydd wythnosol dan arweiniad y Prif Weithredwr gyda Gofal wedi'i Gynllunio wedi dangos gwelliant mesuradwy o ran y cleifion sydd â'r arosiadau hiraf, ac mae cynlluniau ar waith i ymgorffori argymhellion GIRFT. Mae modelu Galw a Chapasiti'n parhau i fod yn her ond disgwylir iddo ddod i ben yn ystod Ch-4. Mae 'Lansiad Tawel' yn ymwneud â Theledermosgopi wedi cael ei gynnal.
- **Gofal Canser:** Gwelliannau i'r llwybrau cleifion er mwyn sicrhau mynediad mwy prydlon at ddiagnosteg gan gynnwys cyflwyno teledermosgopi a gwaith i wella mynediad at endosgopi; Datblygu achos gweithlu parhaol ar gyfer Oncoleg; Cyflwyno llwybr prawf yn syth ar gyfer canser y brostad tybiedig er mwyn lleihau amseroedd aros; Ehangu'r clinig lymphiau gwddf un-stop er mwyn sicrhau mynediad teg ar gyfer cleifion ar draws Gogledd Cymru a lleihau amseroedd aros.
- **Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng:** Darparwyd 45,000 o apwyntiadau gofal sylfaenol brys rhwng Awst 2024 ac Ionawr 2025; Profwyd gwasanaeth cymunedol cofleidiol yn ystod Ch-3 trwy gydweithio â thimau nyrsio cymunedol WAST a PBC, i leihau trosglwyddiadau ambiwlans ar gyfer arosiadau hir; Profwyd Gwasanaethau Eiddilwch Acíwt yn llwyddiannus yn Ysbyty Gwynedd yn ystod Ch-4 a bydd yn sail i waith ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan yn y maes hwn yn ystod 2025/26; Cafwyd rhywfaint o welliant o ran diogelu capasiti Gofal Brys ar yr un Diwrnod (SDEC), gan gydnabod bod llawer iawn mwy i'w wneud i sicrhau ein bod mewn sefyllfa 'busnes fel arfer'; Sefydlwyd Hwb Gwydnwch y System bum niwrnod yr wythnos gan sicrhau bod modd arolygu llifoedd cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd yn cynnwys monitro agos a chynllunio ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau; Cafwyd lleihad o 16% mewn diwrnodau gwelyau ar gyfer Oedi o ran y Llwybr Gofal, trwy weithio'n integredig gyda phartneriaid trwy gyfarfodydd dyddiol yn adolygu rhyddhau cleifion a gweithio ar drosglwyddo a rhyddhau cleifion yn ymwneud â Chartrefi Gofal.
- **Diagnosteg:** Datblygwyd cynigion cyfalaf i wella darpariaeth meddygaeth niwclear yng Ngogledd Cymru, ac i gynnis sganiau Tomograffeg Allyrru Positronau (PET) yng Ngogledd Cymru; Ym maes teledermosgopi, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol trwy ddefnyddio ffotograffiaeth feddygol i ategu at frysbenneu cyflyrau dermatolegol o bell; Gwnaeth

cyflwyno endosgopi trwy ffynonellau mewnol o Ch-3 gyfrannu at leihad mewn amseroedd aros elfennau canser; Cafwyd canlyniadau da trwy roi nifer o fentrau 'prawf yn syth' ar waith, fel yn y lleihad amllwg o ran amser i roi diagnosis canser y brostad.

- **Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu:** Cwblhawyd 99% o'r camau gweithredu o Gydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (WJCC)/Adolygiad Diogelwch Cleifion Mewnol NHSE; Cydymffurfiaeth o 100% â therfynau amser ymateb i gwynion; Cymeradwywyd Achos Busnes Galluogi Digidol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu o bob oed gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau £12 miliwn i gaffael EHR; Cytunwyd ar achos busnes Anableddau Dysgu – Gwasanaethau Adsefydlu Gofal Ychwanegol (ECRS); Anableddau Dysgu – mae menter gymunedol Lab mewn Bag wedi cael ei lansio'n llawn a'i hymgorffori i arfer erbyn hyn, gan gynorthwyo a hybu iechyd corfforol gwell i gleifion; Gwnaeth y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol gyflawni 97% o gydymffurfiaeth yn erbyn targed Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCPsych) o 100% ar gyfer safonau math 1, cydymffurfiaeth o 96% yn erbyn y targed o 80% ar gyfer safonau math 2 a chydymffurfiaeth o 88% yn erbyn y targed o 60% ar gyfer math 3; Mae ymarferwyr Llesiant Iechyd Meddwl wedi cael eu cyflwyno at draws Timau Iechyd Meddwl Cymunedol i gynorthwyo'r swyddog ar ddyletswydd fel rhan o'r ddarpariaeth well ar gyfer gofal argyfwng; Mae Technegwyr Fferyllfa a Fferyllwyr yn rhan annatod o staff cymorth Timau Iechyd Meddwl Cymunedol ac yn gwella dulliau rheoli meddyginiaethau. Cyflwynwyd nifer o gynlluniau hirdymor i wella ein cyfleusterau a'r amgylchedd i gleifion.
- **CAMHS:** Datblygwyd Model Cymorth Cynnar ac ymgynghorwyd arno i gyflwyno cynigion canfod cynnar, ymyrraeth ac atal ar draws y Rhanbarth; Mabwysiadwyd egwyddorion allweddol fframwaith NYTH/NEST a chynhaliwyd hunanasesiad NYTH/NEST gyda phartneriaid fel sylfaen i waith ar wella; Integreiddiwyd ein gwasanaethau Mewngymorth Ysgolion i ardaloedd IHC; Dechreuwyd rhoi cynlluniau ar waith i gyflwyno'r Fanyleb Wasanaeth Genedlaethol newydd ar gyfer CAMHS Cynradd ac Uwchradd; Datblygwyd Model gwell Gofal Argyfwng a Gofal heb ei Drefnu CAMHS, gan ymestyn oriau gweithredu i wasanaeth 12 awr ar draws y rhan fwyaf o Ardaloedd; Datblygwyd llwybr hunan-niwed ar ei newydd wedd gydag asiantaethau partner. Mae llwybrau 111, pwysu 2 CAMHS wedi cynnig gwell fynediad i gymorth iechyd meddwl brys 24 awr y dydd/saith niwrnod o'r wythnos.
- **Niwroddatblygiad:** Ymgwymerwyd â chynlluniau peilot yn cynnwys Ymarferwyr Drws Ffrynt, ffyrdd o weithio newydd ar gyfer ADHD a Gweithiwr Cyswllt Addysg, gan arwain at leihad o 10% mewn cyfeiriadau a dderbyniwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; Darparwyd hyfforddiant proffilio Niwroddatblygiad ar gyfer timau a phartneriaid; Dechreuwyd haenu'r rhestr aros; Cynhaliwyd dau weithdy rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid yn cynnwys cynllunio pellach i wneud gwaith cyd-ddylunio; Ymgysylltwyd â chydweithwyr ym maes Iechyd Meddwl Oedolion i ddatblygu achos busnes ar gyfer y cyfnod o newid.
- **Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau ar hyn o Bryd:** Penodwyd Arweinydd Clinigol Dermatoleg a rhoddwyd Teledermosgopi ar waith. Dechreuwyd hyfforddi a thrin ym maes Offthalmoleg. Cafodd adolygiad rhestr aros o Blastigau ei flaenoriaethu gyda ffocws arbennig ar gleifion y mae eu hapwyntiadau clinigol yn hwyr a chleifion sydd mewn perygl. Mae argymhellion o adolygiad y Coleg Brenhinol yn cael sylw trwy Gynllun Gwella Wroleg. Mae dangosfyrddau fasgwlaidd wedi cael eu creu a'u lansio er mwyn bod yn sail i ddatblygu gwasanaethau.
- **Gwasanaethau Merched:** Rhoi argymhellion Blwyddyn 1 Rhaglen Cymorth Diogelwch MatNeo ar waith; Rhoi'r Argymhellion Cenedlaethol (e.e. MBRRACE) ar waith; Datblygu Cynlluniau Adfer Canser Gynecolleg a Gofal wedi'i Gynllunio; Hyrwyddwyd yr Hwb Cychwyn Iach i godi ymwybyddiaeth a lleihau anghydraddoldeb yn ystod beichiogrwydd; Cyflwyno cynllun gweithredu Blwyddyn 2 'Helpa Fi i Stopio ar gyfer fy Mabi' GIG Cymru; Wedi cefnogi Strategaeth Rheoli Pwysau Iach yn ystod Beichiogrwydd a Strategaeth Leol Bwydo Babanod.

- **Plant:** Cafodd Siarter y Plant, a gyflwynwyd gan ddau unigolyn ifanc, gefnogaeth lawn gan y Bwrdd Iechyd. Mae cynlluniau manwl ar y gweill ar gyfer dull Llais Ieuencid; Gwnaeth y Gwasanaeth Ymweliadau Iechyd a'r Gwasanaeth Newyddenedigol rhanbarthol lwyddo i gael eu hail-achredu ym Menter Cyfeillgar i Fabanod (BFI) UNICEF ochr yn ochr â'n Gwasanaethau Mamolaeth; ac roedd y gwasanaeth Ymweliadau Iechyd wedi derbyn clod arbennig yng Nghynhadledd Flynyddol BFI UNICEF; Mae lefelau imiwneiddio plant wedi cael eu cynnal yn cynnwys rhai o'r cyfraddau derbyn uchaf yng Nghymru, yn enwedig gyda'r brechlyn MMR.



- **Gwasanaethau Fferyllol:** Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol: Cytunwyd ar gynllun sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws Cymru ar gyfer y 1-3 blynedd nesaf; Grŵp Gwerth Meddyginiaethau: Sicrhawyd cyfleoedd gwerth trwy raglen Rheoli Meddyginiaethau Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru, gan arbed tua £13m trwy flaenoriaethu cynhyrchion gwerth gorau; Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMs): Datblygwyd cynnyrch fferyllol Triniaeth Gwrthfotigau Parenterol i Gleifion Allanol (OPAT) yn BIPBC er mwyn caniatáu triniaeth gwrthfotigau mewnwythiennol yn agos i'r cartref neu yn y cartref; Gwella Defnydd Fferyllfeydd Cymunedol a Chynllun Peilot Dosbarthu Robotig ar gyfer meddyginiaethau brys: Cyflawnwyd targedau ar; Profi a thrin ar gyfer dolur gwddf, Presgripsiynu Annibynnol gan Fferyllwyr, Heintiau i'r Llwybr Wrinol a gosodwyd peiriannau dosbarthu robotig mewn un Ysbyty Cymunedol, mae gwerthuso trwy astudiaeth ymchwil ar y gweill; Datblygu uchelgeisiau ar y cyd i sefydlu Ysgol Fferylliaeth Gogledd Cymru (gyda Phrifysgol Bangor): Mae gwell cwricwlwm ac achredu rheoliadol ar waith, agorwyd cwrs ar gyfer ceisiadau.

4A: Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Sylwch fod templedi Blaenoriaeth Weinidogol 2 – Iechyd y Boblogaeth ac Atal (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Iechyd y Boblogaeth ac Atal:

- Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes a gafodd bob un o'r wyth proses gofal a argymhellir gan NICE
- Cyflawni targedau brechu yn y fframwaith perfformiad

Trosolwg

Mae gwelliannau i ddisgwyliad oes yn y DU, gan gynnwys Gogledd Cymru, wedi arafu ac mae hyd yr amser y bydd pobl yn ei dreulio mewn iechyd da wedi bod yn gostwng i rai cymunedau/grwpiau, gan amlygu bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gam allweddol o ran atal salwch y gellid ei osgoi. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu blaenoriaethu'r newid i atal ac ymyrryd yn gynnar trwy ddulliau cynaliadwy ar draws y system gyfan sy'n rhyddhau cyfleoedd am fuddsoddi yn y tymor hwy ac mae'n cydnabod y bydd hyn yn gofyn am newid tebyg o ran gofal sylfaenol a chymunedol er mwyn gwireddu buddion y newid tuag at atal.

Mae dros 60% o weithgarwch y GIG yn gysylltiedig â chyflyrau hirdymor cronig sy'n cael effaith sylweddol ar wasanaethau gofal. Mae llawer o'r cyflyrau hyn, megis diabetes math 2, clefydau anadlol, rhai mathau o ganser, a chlefydau cardiofasgwlaidd, yn rhai y gellid eu hatal. Trwy

gydweithio â phartneriaid, bydd y Bwrdd Iechyd yn anelu at atal a lleihau salwch y gellid ei osgoi a dirywiad pellach o ran iechyd a lles er mwyn gwella canlyniadau i Ogledd Cymru.

Mae gwella a chynnal iechyd y boblogaeth yn hollbwysig i wydnwch economaidd-gymdeithasol Gogledd Cymru. Nid yn unig y mae iechyd gwael yn effeithio ar y gweithlu ond mae hefyd yn effeithio ar nerth a gwydnwch ein cymunedau. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio ac amllder a chyfran cynyddol gofal iechyd sy'n gysylltiedig â chyflyrau cronig, bydd y newid ffocws ar atal, ymyrryd yn gynnar ac anghydraddoldeb iechyd yn bosibl trwy ddefnydd ehangach o ddeallusrwydd y boblogaeth a deallusrwydd clinigol. Bydd hyn yn cynnwys dod â thystiolaeth academaidd, data lleol a thystiolaeth sydd ar gael at ei gilydd (e.e. adborth profiad cleifion) a chynnwys rhanddeiliaid i wella gwasanaethau a chanlyniadau.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Ar lefel strategol, mae **dau faes mawr o ran darpariaeth**.

- Cysylltu data clinigol a data ar lefel y boblogaeth a datblygu adnoddau sy'n gyfoethog mewn deallusrwydd i greu gwell dealltwriaeth am effaith modelau atal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol (rheoli iechyd y boblogaeth).
- Cydgynhyrchu'r sail dros y canlynol:
Datblygu modelau cyfannol sy'n ategu at iechyd a lles
Lleihau amrywiadau ac ymateb i anghenion iechyd y boblogaeth

Caiff y ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar ei ddatblygu trwy bedair rhaglen allweddol sy'n cynnwys Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd; Gwella Iechyd; Anghydraddoldebau Iechyd; a Diogelu Iechyd.

Yn ystod 2025/26, bydd Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd, rhaglenni Gwella Iechyd ac Anghydraddoldeb Iechyd 2025/26, trwy ddull matrices, yn cynorthwyo'r ddau faes strategol mawr i'w cyflawni trwy ganfod cyfleoedd sy'n gallu gwella effaith atal ac ymyrryd yn gynnar. Bydd y gwaith a wneir yn cynnwys y canlynol:

- 4A.1 - Adeiladu ar ein gwaith presennol i ddeall anghenion grwpiau iechyd cynhwysiant (e.e. - y rhai sy'n profi digartrefedd, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr) i dargedu adnoddau at y rhai sydd fwyaf agored i niwed a fydd yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach.
- 4A.2 - Creu sylfeini newid, gan alluogi'r Bwrdd Iechyd i ddangos effaith gweithgarwch presennol atal ac ymyrryd yn gynnar ar draws meysydd blaenoriaeth penodol a phennu lle y gellid gwella hyn.

Bydd y rhaglen Diogelu Iechyd yn gwneud y canlynol:

- 4A.3 - Datblygu cynigion ar gyfer capasiti'r Bwrdd Iechyd i baratoi ac ymateb i fygythiadau diogelu iechyd, gan wella'r broses o ddarparu gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd er mwyn amddiffyn pobl yng Ngogledd Cymru yn erbyn bygythiadau a pheryglon sy'n bodoli eisoes, rhai newydd a rhai a allai godi yn y dyfodol yn ymwneud â diogelu iechyd.

Cyflawni blaenoriaethau atal y gweinidogion:

- 4A.4 - Bydd ein gwasanaeth brechu ac imiwneiddio yn rhoi'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol (NIF) i Gymru ar waith yn lleol a bydd yn parhau i gynnig gwell gwydnwch ac amrywio.
- 4A.5 - Cyfeiriwch at adran '4P - Diabetes' i weld blaenoriaethau cyflawni 2025/26.

Blaenoriaethau disgwyliedig yn 2026/27 a 2027/28

Yn ystod 26/27, y nod fydd:

- Parhau gyda phrosiectau pellach sy'n canolbwyntio ar atal sy'n cael eu nodi fel rhan o weithgarwch 25/26.
- Ymgorffori data am ddysgu ac iechyd y boblogaeth ar draws gwasanaethau clinigol.
- Rhoi sicrwydd ynghylch ffocws atal y Bwrdd Iechyd mewn cynlluniau blaenoriaeth ac yn benodol, y cynllun gwasanaethau clinigol a Strategaeth y bwrdd iechyd, parhau i gyflwyno'r Gwasanaeth Brechu Integredig.

Yn ystod 27/28, bydd y ffocws ar y canlynol:

- Ymgorffori dull iechyd y boblogaeth a Thîm Iechyd Cyhoeddus fel un o swyddogaethau craidd y Bwrdd Iechyd gan fod yn sail i ddarpariaeth.
- Galluogi'r newid at atal trwy sefydlu'r data sylfaenol; monitro ac atgyfnerthu'r gallu i fesur effaith.
- Creu perchnogaeth ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan o risgiau iechyd y boblogaeth a rhoi newidiadau ar waith, trwy'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, Strategaeth ac ymgorffori i raglenni blaenoriaeth.
- Dangos effaith modelau atal i ategu at Iechyd yn Seiliedig ar Werth.
- Creu mwy o gydweithio â phartneriaid a phrifysgolion trwy ehangu ymchwil yn ymwneud â modelau anghlinigol/integredig, i greu cynnig gwella iechyd cydlynol a theg ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

4B: Gofal Sylfaenol gan gynnwys Clystyrau

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 3 y Gweinidog – Meithrin Gallu Cymunedau (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Meithrin Gallu Cymunedau:

- 100% o bractisau meddygon teulu yn cyflawni'r holl Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) yn ystod oriau gwaith

Trosolwg

Yn y GIG, bydd y rhan fwyaf o gysylltiadau â chleifion yn digwydd yn y sector gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod gwasanaethau gofal sylfaenol sefydlog a chydnerth yn bwysig er mwyn sicrhau bod trigolion Gogledd Cymru yn cael gofal ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn, ac yn cael gofal meddygol pan fo angen hynny yn unig. Darperir gwasanaethau Gofal Sylfaenol drwy fodel cymysg o wasanaethau a ddarperir gan gontractwyr a gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd.

Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn cynnwys GMS, gwasanaethau deintyddol y stryd fawr a chymunedol (GDS a CDS), fferylliaeth gymunedol, gan gynnwys Rhagnodwyr Annibynnol Fferylliaeth (PIPs), ac optometreg. Mae awdioleg hefyd yn dod yn fwy integredig â gofal sylfaenol, ac mae'r cyswllt cyntaf a gwasanaethau cwyr clust yn gam cyntaf hollbwysig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth gyflwyno'r gwasanaeth hwn ac wrth arwain gwaith datblygu a phrofi cysyniadau fel prawf o gysyniad.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau gofal meddygol sylfaenol a reolir yn uniongyrchol i 106,000 o gleifion ledled Gogledd Cymru trwy law 12 practis. Bydd strategaeth gydlynol yn cael ei datblygu i bennu sut y bydd yr arferion hyn yn cael eu rheoli yn y dyfodol; opsiynau cwmpasu gan gynnwys y potensial ar gyfer swyddogaeth integredig a chaffael ar gyfer GMS. Gan ddefnyddio dull tebyg, bydd adolygiad o wasanaethau deintyddol cymunedol a reolir gan y Bwrdd Iechyd yn cael ei archwilio i ddeall a oes unrhyw gyfleoedd cadernid ac arloesi a all gynorthwyo i reoli'r swyddogaeth hon yn uniongyrchol yn y tymor hwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd optimeiddio adnoddau rheng flaen ym meysydd gofal cymunedol a sylfaenol a manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir gan bolisiau allweddol megis 'Ymhellach, yn Gyflymach'. Mae heriau o ran y gweithlu ym maes gofal sylfaenol wedi bod yn sylweddol yn y cyd-destun wedi Covid-19, ac yn y Bwrdd Iechyd yn ehangach. Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio cyfleoedd gan gynnwys Gofal sy'n Seiliedig ar Werth (1E), Comisiynu (2C), Blaenoriaethu (2E), a'r strategaeth 10 mlynedd sy'n cael ei datblygu (2A) a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol (2B) i fwrw ymlaen â'r gofyniad hwn.

Er bod y rhan fwyaf o gysylltiadau gofal iechyd yn digwydd ym maes gofal sylfaenol, ceir llawer o wasanaethau mewn ysbytai y gellid eu darparu'n effeithiol yn y gymuned. I wneud hyn, rhaid i dimau gofal sylfaenol gynyddu cadernid drwy fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran capasiti a chynaliadwyedd. Gall anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol achosi i unigolion ddefnyddio rhannau eraill o'r gwasanaeth gofal iechyd yn ddiangen neu fyw gydag anghenion gofal iechyd heb eu diwallu. Mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau â chleifion yn digwydd mewn lleoliadau gofal sylfaenol, felly gall hyn achosi effeithiau sylweddol. Bydd gwella mynediad at ofal sylfaenol yn helpu i leihau nifer yr ymweliadau ag Adrannau Achosion Brys ysbytai y gellir eu hosgoi a'r defnydd o ambiwlansys. Bydd parhau i flaenoriaethu rheoli clefydau cronig ym maes gofal sylfaenol yn helpu i leihau'r nifer a gaiff eu cyfeirio at wasanaethau cleifion allanol ysbytai, a phan wneir hyn gan gydweithredu â phartneriaid trwy ein timau lleol/clystyrau, bydd hyn yn lleihau meddygoleiddio gormodol.

Ceir 14 clwstwr yng Ngogledd Cymru, ac mae gan bob un broffil unigryw, yn amrywio o'r ardaloedd gwledig iawn i rai o'r ardaloedd trefol mwyaf poblog yng Nghymru. Mae gan bob clwstwr set wahanol o anghenion a heriau o ran eu poblogaeth. Dros dreigl amser, mae clystyrau wedi datblygu yn unol â Model Gofal Sylfaenol Cymru, gan symud y tu hwnt i ffocws sylfaenol ar gynorthwyo Practisau Meddygon Teulu i gydweithio â'i gilydd, i gynorthwyo i ddiwallu anghenion eu poblogaethau yn lle hynny trwy gydweithio ehangach sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol, gofal cymunedol y GIG, ac yn bwysig iawn, partneriaid eraill, gan gynnwys cydweithwyr yn yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae'r newid pwyslais hwn yn cydnabod y rôl bwysig y gall eraill ei chyflawni ym maes iechyd a lles cymunedau, ac yn lleihau'r risg o ganolbwyntio ar ddefnyddio dulliau wedi'u meddygoleiddio i gyflawni pethau y gellid eu cyflawni'n well mewn ffyrdd eraill.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod clystyrau'n gallu mwyaflu eu heffaith bosibl. Yn union fel sy'n digwydd yng ngweddill Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn goruchwylio gweinyddiaeth a llywodraethu clystyrau yn ei ardal. Yn ystod 2024-2025, gweithredodd y Bwrdd Iechyd fodolau llywodraethu diwygiedig a chynorthwyodd glystyrau i ymateb i ofynion Rhaglen Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol (SPPC) i ddatblygu a gwella gofal yn y gymuned er mwyn lleihau'r pwysau ar ysbytai. Ynghyd â hyn, mae pob clwstwr wedi gweithio i gryfhau eu partneriaethau



cydweithredol, ac wedi gweithredu blaenoriaethau a nodwyd ym mhob clwstwr ar gyfer eu hardal leol.

Mae clystyrau yn ddull pwysig y gellir ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol gwell. Maent yn cynnig y potensial i ddarparu gofal gan osgoi defnyddio dull meddygol trwy fanteisio ar arbenigedd partneriaid yng nghydweithfa eu clwstwr, a thrwy hynny, cynyddu gwerth ac effaith. Mae gan glystyrau sydd wedi'u hymgorffori'n dda y potensial i wella iechyd y cyhoedd, lleihau'r galw am ofal iechyd y gellir ei osgoi, a gwella cynaliadwyedd gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill nad ydynt yn wasanaethau iechyd.

Mae blaenoriaethau clystyrau yn cynnwys ystod o ymyriadau a nodwyd i wella canlyniadau iechyd y cyhoedd ac yn benodol o ran diabetes math 2. Bwriad cefnogi gwaith 'Ymhellach, yn Gyflymach' drwy glystyrau yw lleihau'r pwysau ar wasanaethau ysbytai. Disgwylir y bydd cynorthwyo darparwyr gofal sylfaenol i gydweithio yn eu clystyrau yn gwella cynaliadwyedd a chadernid gofal sylfaenol.

Gall parhau i ddefnyddio gwasanaethau cymorth yn y cartref sy'n seiliedig ar glystyrau ddarparu asesiadau ar adegau priodol sy'n lleihau nifer yr ymweliadau ag ysbytai y gellir eu hosgoi ac yn gwella canlyniadau i breswylwyr sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal. Gallai datblygu modelau gofal 'un stop' ymhellach wella'r gofal a ddarperir i bobl â diabetes a chyflyrau cronig.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4B.1 - Ymgysylltu'n llawn â gweithredu'r 'Model Gofal Sylfaenol' cenedlaethol ar gyfer Cymru a chanolbwyntio ar gyflawni'r Rhaglen Gofal Sylfaenol genedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynigion i gwblhau sefydlu cyswllt cyntaf awdioleg a gwasanaeth tynnu cwyr clust (gweler hefyd Diagnosteg). 4D.c.11)
- 4B.2 - Datblygu'r cynnig Gofal Sylfaenol 'ar yr un diwrnod' i sicrhau mynediad tecach at ofal sylfaenol fel dewisiadau yn lle ymweld ag Adrannau Achosion Brys. Mae hyn yn ymwneud â mynediad at ofal sylfaenol yn ystod oriau gwaith a hefyd â darparu gofal sylfaenol y tu allan i oriau gwaith, 111 ac Unedau Mân Anafiadau.
- 4B.3 - Bydd dull llwybrau gofal yn cael ei fabwysiadu i sicrhau bod gan weithwyr gofal sylfaenol fynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt, gan sicrhau na chaiff cleifion eu cyfeirio at wasanaethau gofal eilaidd oni bydd hynny'n ychwanegu gwerth iddynt.
- 4B.4 - Bydd defnyddio dull yr 'Academi Gofal Sylfaenol' yn cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddatblygu uwch sgiliau gofal sylfaenol a wnaiff ganiatáu newidiadau yn y gymysgedd sgiliau a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu.
- 4B.5 - Mae mynediad at ddeintyddiaeth gofal sylfaenol yn flaenoriaeth allweddol a byddir yn bwrw ymlaen â phroses gaffael Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ynghyd ag ystyried syniadau newydd ac arloesol i gynyddu mynediad i gleifion.
- 4B.6 - Bydd cymorth i sicrhau cynaliadwyedd yn cael ei adolygu er mwyn cryfhau cymorth i gontractwyr sy'n wynebu anawsterau. Pan fo hynny'n briodol, cynhelir trafodaethau â phartneriaid cenedlaethol.
- 4B.7 - Datblygu'r dull strategol o fodel cymysg o ofal sylfaenol sy'n cynorthwyo contractwyr i barhau i fod yn gontractwyr annibynnol ac yn nodi sut y gall practisau a reolir yn uniongyrchol arloesi, cynorthwyo 'cymdogion' sy'n gontractwyr annibynnol, profi ffyrdd newydd o weithio, a chynyddu cyfranogiad maes gofal sylfaenol mewn gwaith ymchwil.
- 4B.8 - Gweithredu Fframwaith newydd Sicrwydd ynghylch Contractau GMS.
- 4B.9 - Sicrhau bod y Bwrdd yn fwy ymwybodol o ddata ynghylch perfformiad ym maes gofal sylfaenol.

4B.10 - Datblygu cynigion sy'n mynd i'r afael â meysydd diffygiol yn yr ystâd gofal sylfaenol sy'n effeithio ar ddarparu gofal, gan gynnwys y cynigion sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ym Mhenygroes, yn ardal Gorllewin Conwy, ym Mangor, yn Ninbych ac yng Nghaerdybi.

4B.11 - Cydweithio â darparwyr Gofal Sylfaenol yng Ngogledd Cymru i baratoi ac ehangu amgylcheddau hyfforddi addas ar gyfer Myfyrwyr Meddygaeth o Ysgol Feddygaeth Gogledd Cymru.

4B.12 - Cwmpasu a phrofi model ar gyfer gwasanaethau fferylliaeth gymunedol a gomisiynir, sy'n canolbwyntio ar reoli cyflyrau hirdymor, gan ddechrau â gorbwysedd. (Cysylltiedig â 4O.4)

Penodol i glystyrau

4B.13 - Datblygu cynigion i ehangu'r defnydd o wasanaethau cymorth i Gartrefi Gofal sy'n seiliedig ar glystyrau a all gynnig asesiadau ar adegau priodol er mwyn lleihau nifer yr achosion o gludo cleifion i ysbytai y gellid eu hosgoi fel arall a gwella canlyniadau i Breswylwyr Cartrefi Gofal, gan gynnwys cymorth i ofalwyr.

4B.14 - Bydd modelau gofal 'un stop' sy'n gwella'r gofal a ddarperir i bobl â diabetes a chyflyrau cysylltiedig yn dal i gael eu profi, ac os byddant yn llwyddiannus, cânt eu hehangu.

4B.15 - Bydd trafodaethau (yn fewnol ac â phartneriaid) yn cael eu cwblhau er mwyn canfod a yw patrymau'r 14 clwstwr presennol yn ddefnyddol neu a fyddai newid ffocws i batrymau traws-glwstwr yn well.

4B.16 - Llunio cynnig i ddatblygu model cydweithredol cymunedol fel darpariaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol integredig ar gyfer Gogledd Cymru, gan sicrhau adnoddau 'cyfun' ar gyfer darpariaeth 7 diwrnod fel cydweithfa trwy ddefnyddio arferion sydd wedi ennill eu plwyf megis Aseswyr Dibynadwy.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Parhau i weithredu'r 'Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol' pum mlynedd cenedlaethol (2024-2029) a 'Model Gofal Sylfaenol i Gymru', a chyfranogi'n llawn yn y 'Rhaglen Gofal Sylfaenol'.

Parhau i ddatblygu gwelliannau i'r ystâd trwy wariant cyfalaf.

Parhau i ddatblygu Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) gan sicrhau lefel gyson o aeddfedrwydd ledled ardaloedd clystyrau yn y rhanbarth.

Datblygu proses sy'n caniatáu i gynlluniau peilot llwyddiannus clystyrau gael eu hystyried ar gyfer cyllid craidd.

4C: Gofal yn y Gymuned

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 3 y Gweinidog – Meithrin Gallu Cymunedau (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Meithrin Gallu Cymunedau:

- Cynyddu capasiti nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau gan sicrhau'r lefelau gofynnol a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 o leiaf a mwy os gellir.
- Cynyddu capasiti Gofal Cymunedol Uwch gan sicrhau'r lefelau gofynnol a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 o leiaf a mwy os gellir.

Trosolwg

Bydd y Bwrdd lechyd yn ceisio darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion, gan geisio gwella canlyniadau drwy atal, ymyrraeth gynnar a hunanreoli â chymorth. Mae mynediad haws at ofal

yn gwella profiad defnyddwyr a gall helpu i leihau anghydraddoldeb drwy gael gwared ar rwystrau a allai atal pobl rhag cael gofal. Mae Model Gofal Sylfaenol Cymru yn cynorthwyo i sicrhau darpariaeth leol trwy ddarparu gofal o amgylch cymunedau lleol (gweithio mewn clystyrau) ac mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn cydnabod y bydd darparu 'gofal iechyd nad yw'n aciwt' yn gofyn am fwy o ddefnydd o dechnoleg i alluogi monitro cyflyrau iechyd yn y cartref a mwy o ddefnydd o wasanaethau allgymorth yn y gymuned trwy ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol mewn lleoliadau hybiau yn nes at gartrefi cleifion. Ni ddylid defnyddio gofal mewn ysbytai oni bydd hynny'n ofynnol yn sgil anghenion clinigol sy'n fwy clinigol neu'n dwysáu.

Mae gweithio integredig ar y cyd â'n partneriaid a pharhau i ddatblygu aeddfedrwydd clystyrau yn alluogwyr allweddol o ran darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi cleifion. Mae gwaith cwmpasu wedi dechrau i adolygu'r gofal cymunedol uwch a ddarperir er mwyn nodi'r llwybrau hynny a all, trwy ailgynllunio, symud gweithgarwch i leoliadau mewn cymunedau.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Gofal Cymunedol Uwch

- 4C.1 - Llunio opsiynau i gynyddu'r Gofal Cymunedol Uwch (ECC) a ddarperir
- 4C.2 - Datblygu achos busnes i gyfiawnhau cynyddu ECC gan amlinellu opsiynau, costau, manteision, risgiau a ffrydiau ariannu posibl.
- 4C.3 - Ymdrin â'r achos busnes drwy drefn lywodraethu'r Bwrdd Iechyd i geisio sicrhau cefnogaeth i'r opsiwn a ffafrir.
- 4C.4 - Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael, cynnal unrhyw ymgynghoriad angenrheidiol ynghylch staffio, dechrau recriwtio i sicrhau'r lefel staffio gytunedig, gweithredu newidiadau i lwybrau, dechrau cyflawni mwy o ddarpariaeth ECC.

Nyrsio Cymunedol ar Benwythnosau

- 4C.5 - Adolygu opsiynau i gynyddu darpariaeth Nyrsio Ardal ar benwythnosau gan gynnwys natur a lefel y galw ar benwythnosau.
- 4C.6 - Datblygu achos busnes i gyfiawnhau cynyddu capasiti nyrsio cymunedol ar benwythnosau, gan amlinellu opsiynau, costau, manteision, risgiau a ffrydiau ariannu posibl.
- 4C.7 - Ymdrin â'r achos busnes drwy drefn lywodraethu'r Bwrdd Iechyd i geisio sicrhau cefnogaeth i'r opsiwn a ffafrir.
- 4C.8 - Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael, recriwtio llwyddiannus a chanlyniad yr ymgynghori â staff, gweithio i gytuno ar gynlluniau gweithredu, dechrau recriwtio a dechrau cynyddu darpariaeth nyrsio cymunedol ar benwythnosau

Gofal Lliniarol Arbenigol ar Benwythnosau

- 4C.9 - Adolygu cyfleoedd i gynyddu capasiti gofal lliniarol arbenigol yn y Dwyrain i sicrhau bod y gwasanaeth ar yr un lefel â rhannau eraill o PBC h.y., 2 Nyrs Glinigol Arbenigol ar ddyletswydd ar y penwythnos
- 4C.10 - Chwilio am opsiynau i nodi a sicrhau cyllid oriau CNS Gofal Lliniarol ychwanegol ar benwythnosau.
- 4C.11 - Dechrau recriwtio ar gyfer oriau CNS SPC cytunedig a chynnal ymgynghoriad â staff presennol ynghylch newid patrymau gwaith; yn amodol ar gyllid sydd ar gael,
- 4C.12 - Datblygu cynlluniau gweithredu i gychwyn cynyddu capasiti CNS SPC ar benwythnosau a gwyliau banc; yn dibynnu ar ymgynghori â staff, recriwtio a blaenoriaethu adnoddau.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Parhau i weithredu modelau gwasanaethau ar gyfer darparu Gofal Cymunedol Gwell a chynyddu capasiti ar benwythnosau ym maes nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol.

4D: Gofal wedi'i Gynllunio, Canser a Diagnosteg

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 1 y Gweinidog – Mynediad amserol at ofal (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Mynediad Amserol at Ofal:

- Dim cleifion yn aros mwy na 104 wythnos i gael eu cyfeirio am driniaeth
- Cyflawni gwelliant ar y cyfan dros 12 mis yng nghanran y cleifion sy'n dechrau triniaeth gyntaf am ganser pendant o fewn 62 diwrnod ar ôl amau'r cyflwr am y tro cyntaf (waeth beth fo'r llwybr cyfeirio), gan weithio i gyfrannu at darged cenedlaethol o 80% erbyn 31 Mawrth 2026.
- Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnostig penodol - targed: sero

Trosolwg

Mae'r adran hon yn cyfuno meysydd cydberthynol Gofal Wedi'i Gynllunio, Canser a Diagnosteg. Er bod ganddynt is-adrannau unigol isod, mae'r gwaith i wella pob maes yn cyfrannu at y rhestr gyfan o Ddisgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet a amlinellir uchod.

4D.a: Gofal wedi'i Gynllunio

Trosolwg

Mae mynediad amserol at ofal wedi'i gynllunio a llwybrau canser yn agwedd sylfaenol ar ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau er budd pobl Gogledd Cymru. Un thema allweddol yn deillio o'r ystod eang o adborth a gafwyd gan bobl, cymunedau a rhanddeiliaid ehangach yw'r amser y mae'n ei gymryd i gael mynediad at ofal; nodwyd yn aml hefyd fod safon y gofal yn rhywbeth cadarnhaol dros ben. Mae ffocws sylweddol wedi digwydd yn 2024/25 ac mae'r ymdrechion hynny wedi sicrhau gwelliant amlwg yn nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiadau cleifion allanol, profion ac ymyriadau (llawdriniaethau yn aml) dros 2 flynedd. Fodd bynnag, mae niferoedd uchel o bobl yn dal i ddisgwyl mwy na dwy flynedd, neu byddant wedi bod yn disgwyl) dros 2 flynedd os na weithredir rhagor o gamau gwella.

Er bod meysydd gofal wedi'i gynllunio a llwybrau canser yn heriol i lawer o systemau iechyd ledled y DU, mae'r Bwrdd Iechyd yn eithriad sylweddol o ran nifer y bobl sy'n profi oedi hir. Yn ogystal, mae mabwysiadu gwahanol ddulliau sy'n galluogi gwelliannau wedi digwydd yn arafach na'r angen. Mae sefydlu'r Rhaglen Fawr ynghylch Gofal wedi'i Gynllunio, un o bedair rhaglen newid mawr, yn pwysleisio ymrwymiad y Bwrdd i sicrhau gwelliannau sylweddol a chyflym yn y maes hwn.

Mae'r cyd-destun cenedlaethol a'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio, sy'n sbarduno amrywiaeth o ddatblygiadau gan gynnwys y Fframwaith Optimeiddio yn y Rhwydweithiau Gweithredu Clinigol, yn adnodd sylfaenol i helpu i lywio gwelliannau'r sefydliadau. Mae'r ystod eang o adolygiadau Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ofal o ansawdd uchel, effeithlon ac effeithiol, yn cynnig argymhellion manwl i sicrhau gwelliannau. Mae rhai o'r gwelliannau hyn yn ymwneud â sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio, ac

yn benodol, y seilwaith craidd a'r dull sefydliadol o ddatblygu a darparu gwasanaethau, a bydd yr agweddau sylfaenol hyn yn cael eu datblygu ar y cyd â'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio.

Felly, mae'r dull o wella Gofal wedi'i Gynllunio yn canolbwyntio ar:

- 1) Dulliau da o arwain darpariaeth gofal wedi'i gynllunio yn glinigol ac yn weithredol yn feunyddiol ledled y sefydliad, wedi'u hategu gan arbenigedd o ystod o swyddogaethau gan gynnwys perfformiad.
- 2) Dull rhaglen i sicrhau newidiadau mawr, gan adeiladu ar GIRFT a Fframweithiau Optimeiddio, Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werth, ac amrywio clinigol yn benodol, fel rhan o'r Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd, gan alluogi dull systematig o wella.
- 3) Cynllunio galw a chapasiti ar lefel gwasanaethau i benderfynu ar yr ymateb y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ei ddarparu i sicrhau amseroedd mynediad cynaliadwy ac ymatebol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Ffrwd Waith 1 – Rheoli Rhestrau Aros: Dilysu

4D.a.1 - Datblygu a gweithredu cam nesaf y Dull Dilysu yn y Bwrdd Iechyd; gan ganolbwyntio ar gyflawni safonau rhagorol o ran ansawdd data, rhestrau aros diweddarau a gweithredu polisiau ynghylch rhestrau aros.

4D.a.2 - Gweithredu'n lleol yr 8 o Ymyriad Nas Cyflawnir Fel Arfer (INNU), a'r gyfres o INNUs sy'n dilyn.

Ffrwd Waith 2 – Cyngor ac Arweiniad ynghylch Cyfeirio a Brysbennu Cyfeiriadau/Llwybrau Amgen

4D.a.3 - Datblygu a gweithredu safonau arfer gorau (GIRFT/Fframwaith Optimeiddio) ar gyfer cyngor ac arweiniad ynghylch cyfeirio (cyn cyfeirio) gan ganolbwyntio ar arbenigeddau sy'n trin nifer fawr o gleifion ac sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol fel blaenoriaeth ac ymdrin ag arbenigeddau eraill wedi hynny.

4D.a.4 - Asesu'r cyfleoedd ar gyfer Brysbennu Cyfeiriadau a Llwybrau Amgen mewn arbenigeddau cyfaint uchel fel blaenoriaeth; llunio a dechrau gweithredu cynigion ynghylch ailgynllunio gwasanaethau, dysgu gwarsi gan sefydliadau eraill

4D.a.5 - Gweithredu'r Llwybrau Iechyd (gan gynnwys Rhaglen Pathway Alliance) mewn arbenigeddau blaenoriaethol.

4D.a.6 -Gweithredu 'rhestru uniongyrchol' yn achos arbenigeddau penodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar offthalmoleg fel blaenoriaeth

Ffrwd Waith 3 – Trefnu Apwyntiadau

4D.a.7 - Mynd ati i weithredu'r Gwasanaeth Trefnu Apwyntiadau newydd, gan alluogi dull cyson ledled y sefydliad.

4D.a.8 - Adolygu a diweddarau templedi clinigau cleifion allanol, gan ymgorffori safonau GIRFT/Fframwaith Optimeiddio, ledled arbenigeddau sy'n flaenoriaethau sylweddol

4D.a.9 - Gweithredu dull DNA/CNA diwygiedig, gan gynnwys dulliau gordrefnu os bydd cyfraddau DNA/CNA yn fwy na 5%.

Ffrwd Waith 4 – Effeithiolrwydd Cyn ac Yn Ystod Llawdriniaethau (gan gynnwys defnyddio theatrau)

4D.a.10 - Datblygu a gweithredu'r model diwygiedig ar gyfer Asesiadau Cyn Llawdriniaethau

4D.a.11 - Nodi cyfleoedd defnydd uchel fesul arbenigedd i alluogi dull wedi'i dargedu â ffocws pendant i gyflawni'r trothwy defnydd o 85%.

4D.a.12 - Adolygu pob arbenigedd i nodi cyfleoedd ar gyfer mwy o achosion dydd, a'r dull ystafelloedd mân lawdriniaethau/gweithdrefnau (y Claf Priodol yn y Lle Priodol). Gweithredu gwelliannau i arbenigeddau sy'n flaenoriaethau.

Ffrwd Waith 5 – Apwyntiadau Dilynol

4D.a.13 -Ymgymryd â dull systematig o ddilysu a glanhau data pob rhestr Apwyntiadau Dilynol.

4D.a.14 - Gweithredu Sylw yn Ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiad Dilydol ar Gais y Claf (PIFU) yn achos pob arbenigedd blaenoriaethol (wedi'i gysylltu â Fframweithiau Optimeiddio/GIRFT)

4D.a.15 - Ailddefnyddio capasiti yn deillio o apwyntiadau dilydol i gynnal apwyntiadau newydd mewn arbenigeddau blaenoriaethol, ar ôl asesu'r cyfleoedd

Ffrwd Waith 6 - Cynllunio integredig ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, canser a diagnosteg

4D.a.16 - Cyflwyno dull modelu galw a chapasiti gwell sy'n ystyried pob agwedd ar ofal wedi'i gynllunio a llwybrau canser.

4D.a.17 - Gweithredu rhaglen capasiti a gomisiynir yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo i gyflawni yn 2025/26

4D.a.18 - Datblygu cynlluniau arbenigeddau integredig ar gyfer 2026/27 ar sail y cynnydd a wneir ledled arbenigeddau yn 2025, gan gynnwys agweddau ar y gweithlu, cyllid a chomisiynu.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Datblygu gwasanaethau yn unol â'r Strategaeth 10 Mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol llawn pan fyddant ar gael i gyfrannu at ddarparu model gofal cynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

Gweithredu model gweithlu wedi'i foderneiddio fel rhan o'r ateb i fynd i'r afael â heriau recriwtio hanesyddol ac fel rhan o gyflawni'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

Manteisio ar fanteision adnoddau newydd sydd ar gael yn sgil gwelliannau o ran cynhyrchiant, effeithlonrwydd a defnydd yn 2025/26 i ddatblygu gwasanaethau atal, ymyriadau cynnar, gofal sylfaenol a chymunedol yn nes at gartrefi cleifion.

4D.b: Canser

Trosolwg

Mae bron i 5,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn cael diagnosis o ganser bob blwyddyn, sy'n gyfystyr â chynnydd o 20% dros yr 20 mlynedd diwethaf. Disgwylir i nifer yr achosion o ganser barhau i gynyddu oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio yn y rhanbarth. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau adroddiad "Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy" gan Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru dros lechyd .

Caiff dros hanner yr achosion o ganser eu diagnosisio yn dilyn cyfeiriad yn sgil amheumon o ganser ym maes gofal sylfaenol, a cheir dros 40,000 o gyfeiriadau o'r fath bob blwyddyn. Mae'r nifer hon wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yn unol â chanllawiau ac arferion gorau a'r nod yw cynyddu cyfraddau diagnosisio'n gynnar. Cyfyd y gweddill yn sgil cyfeiriadau nad ydynt yn ymwneud â chanser (~30%), fel rhan o raglen sgrinio (8%) neu yn sgil derbyniadau brys (7%).

Mae cyfraddau goroesi canser yng Ngogledd Cymru yn cyd-fynd yn ystadegol â chyfraddau cyfartalog Cymru.

Mae gofal canser yn gymhleth ac mae'n gofyn am gyfraniadau amlddisgyblaethol sy'n cynnwys ystod eang o weithwyr proffesiynol a gwasanaethau gofal iechyd. Mae opsiynau newydd o ran diagnosis a thriniaethau yn gwella cyfraddau goroesi ac yn troi canser yn glefyd cronig i lawer. Mae'r Map Ffordd ar gyfer Gwasanaethau Canser yn cydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer cyflwyno technegau diagnostig, technegau llawfeddygol a chyfundrefnau oncolegol newydd yn rheolaidd, a bydd pob un ohonynt yn gofyn am gynnydd yn y gweithlu a gwasanaethau cymorth i ddiwallu anghenion ein cleifion canser.

Mae cancer yn un o brif achosion afiachedd a marwolaethau ledled y byd ac yn brif achos marwolaethau cynamserol yng Ngogledd Cymru. Felly, mae gwella canlyniadau gwasanaethau cancer yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu gwella'r amser rhwng atgyfeiriadau a thriniaethau drwy fynd i'r afael â'r agweddau hynny ar faes gofal cancer sy'n dal yn heriol ledled gofal sylfaenol ac eilaidd ac ym maes diagnosis cancer. Mae recriwtio a chadw staff arbenigol wedi bod yn broblemus yn ystod blynyddoedd diweddar, ond mae gwelliannau wedi digwydd yn ddiweddar a byddant yn cael eu gwreiddio. Ceir cyfleoedd i wella profiad cleifion â rhai mathau o ganser lle darperir triniaethau y tu allan i Ogledd Cymru ar hyn o bryd.

Mae Rhaglen Cancer y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghylch Gofal wedi'i Gynllunio a Chanser. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i weithio i weithredu'r 'Map Ffordd ar gyfer Gwasanaethau Cancer yng Ngogledd Cymru', a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cancer Gogledd Cymru yn 2023/24. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a nodir yn y Map Ffordd yn cynnwys atal; canfod a diagnosis cynnar; mae triniaeth a chymorth amserol ac effeithiol yn galluogi ôl-ofal hunangyfeiriedig. Mae gwaith i ddatblygu cynlluniau gweithredu seiliedig ar leoliadau tiwmorau ar y gweill e.e., y Cynllun Gwaith Strategol ynghylch Cancer y Fron.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4D.b.1 - Adfer sefyllfa gwasanaethau cancer y Bwrdd Iechyd a sicrhau perfformiad gwell o gymharu â'r targed ynghylch y cyfnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn y Llwybr Cancer a Amheuir, gan geisio cyflawni 80% o gleifion cancer yn cael eu trin cyn pen 62 diwrnod ar ôl amau cancer am y tro cyntaf erbyn mis Mawrth 2026.
- 4D.b.2 - Mae diddymu rhestrau o bobl sy'n aros mwy na 62 diwrnod yn flaenoriaeth ym mhob llwybr. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried y gwaith clirio ôl-groniad dros y 6 mis cyntaf tuag at gyflawni'r safon o 80% yn cael triniaeth o fewn 62 diwrnod erbyn mis Mawrth 2026.
- 4D.b.3 - Comisiynu adnoddau allanol ychwanegol ym meysydd endosgopi a dermatoleg wrth geisio datblygu a recriwtio i fodolau gofal mwy cynaliadwy i ddiwallu anghenion ein poblogaeth ledled Gogledd Cymru.
- 4D.b.4 - Gweithio i wella llwybrau atgyfeirio drwy gyflwyno'r offeryn Llwybrau Iechyd Cymunedol.
- 4D.b.5 - Cyflwyno model brysbennu dan arweiniad nyrsys ar gyfer cleifion yr amheuir bod cancer y colon a'r rhefr arnynt er mwyn cynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu cyfeirio'n syth i gael prawf a lleihau amseroedd aros cyffredinol.
- 4D.b.6 - Optimeiddio'r gwasanaeth teledermosgopi cytunedig a datblygu tystiolaeth yr achos i gyfiawnhau ei ehangu.
- 4D.b.7 - Ymchwilio i'r ddadl dros fodolau newydd ar gyfer asesu merched sy'n profi gwaedu ar ôl y menopos i leihau'r amser sydd ei angen i ddiagnosis canserau gynaeolegol.
- 4D.b.8 - Datblygu cynnig ar gyfer ehangu llawdriniaethau cancer â chymorth robot.
- 4D.b.9 - Ystyriwch gynnig i symud rhai gwasanaethau o Loegr yn ôl i Ogledd Cymru; e.e., rhai llawdriniaethau cosmetig a gweithdrefnau radiotherapi arbenigol.
- 4D.b.10 - Cydweithio ag elusen Maggie's a Sefydliad Steve Morgan i agor Canolfan Cymorth Cancer Maggie's newydd ar dir Ysbyty Glan Clwyd yn 2025.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Adeiladu ar y gwelliannau i wasanaethau cancer a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26 a fydd yn cynnwys canolbwyntio ar weithredu modelau gofal cynaliadwy ym meysydd dermatoleg ac endosgopi i leihau'r ddibyniaeth ar gymorth allanol.


Optimeiddio llwybrau cleifion gan fanteisio ar gyfleoedd i gynyddu modelau diagnostig Prawf yn Syth a modelau diagnostig un stop lle bo modd.

Erbyn 2027/28, mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at symud ein gwasanaeth cancer wroleg yn ôl i Ogledd Cymru.

4D.c: Diagnosteg

Trosolwg

Mae gwasanaethau diagnostig effeithiol ac amserol yn cyfrannu'n hanfodol at lawer o lwybrau gofal ym meysydd Gofal Wedi'i Gynllunio a Gofal Brys/Mewn Argyfwng, gan gynnwys ym maes Gofal Sylfaenol. Parhaodd y galw am weithdrefnau gwasanaethau diagnostig i gynyddu yn 2024/25, ac fe wnaeth amseroedd aros gynyddu er gwaethaf cyflawni lefelau gweithgarwch mwy nag erioed. Disgwylir i'r twf hwn gynyddu ymhellach ymhllith yr holl wasanaethau diagnostig mewn ymateb i ddatblygiadau ym meysydd triniaethau cancer, adfer gofal wedi'i gynllunio, gofal heb ei drefnu a chyflyrau hirdymor cynyddol. Mae angen sicrhau mwy o ystyriaeth i ddatblygiadau technolegol megis Deallusrwydd Artiffisial (AI), a thwf meddygaeth enomig yn y cynllunio strategol ym maes diagnosteg dros y 10 mlynedd nesaf. Felly, mae cynyddu capasiti yn rhagofyniad ar gyfer 2025-26 i wrthdroi'r duedd a bodloni disgwyliadau cleifion.



Bydd y Bwrdd Iechyd yn dilyn naw thema ffocws 'Strategaeth Adfer a Thrawsnewid Gwasanaethau Diagnosteg 2023-2025' Llywodraeth Cymru fel canllaw i gynorthwyo i gyflawni'r nod hwn.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun gwasanaethau diagnostig, wedi'i rannu'n dair prif thema dros gyfnod cyfeirio 2025-28 (darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau, a llywodraethu gwasanaethau), ag amcanion CAMPUS ar gyfer 2025-26.

Mae profion diagnostig yn hanfodol i bron pob llwybr clinigol, gan gynnwys cancer. Mae capasiti digonol yn hanfodol i gynnal amseroedd aros o fewn targedau cenedlaethol. Ledled gwasanaethau radioleg ac endosgopi, roedd lefelau contractio mewnol yn 2024-25 yn sicrhau gweithgarwch ychwanegol sylweddol ond nid oeddent yn ddigonol i gynnal amseroedd aros drwy gydol y flwyddyn. Mae angen rhagor o gapasiti mewnol ym maes radioleg i reoli'r ôl-groniad a'r cynnydd disgwylidig yn y galw, ac mae angen blwyddyn gyfan o gymorth ar gyfer endosgopi mewnol i sicrhau gwelliannau o ran yr ôl-groniad yn y rhestrau aros am driniaethau arferol. Mae angen capasiti mewnol ychwanegol ar wasanaethau mesur ffisiolegol e.e., gwasanaethau diagnosteg ym meysydd cardioleg, niwroffisioleg ac wroleg yn 2025-26 hefyd i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniadau di-baid ar restrau aros 8 wythnos.

Digidol

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4D.c.1 - Cwblhau adolygiadau o'r galw a'r capasiti ar gyfer pob gwasanaeth diagnostig, gan weithredu cynlluniau gwella a nodir i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac i gyflawni o gymharu â thargedau o ran y trywydd rhagamcanedig ar gyfer gwasanaethau diagnostig adroddadwy.
- 4D.c.2 - Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn deg i gleifion ac yn cynnig profiad rhagorol iddynt
- 4D.c.3 - Cynnal adolygiad cyflym o alluoedd a chymysgedd sgiliau'r gweithlu i lywio strategaeth recriwtio a chadw staff
- 4D.c.4 - Cyflawni'r prif brosiectau technoleg gwybodaeth cenedlaethol sydd ar y gweill ar hyn o bryd ym maes Radioleg a Phatholeg; yn amodol ar flaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael.
- 4D.c.5 - Bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu gwasanaeth darlunio meddygol i gynorthwyo'r gwasanaeth teledermosgopi.
- 4D.c.6 - Cwblhau adolygiadau o ystadau ar gyfer yr holl wasanaethau diagnostig, gan flaenoriaethu a datblygu prosiectau gwella a nodir
- 4D.c.7 - Bwrw ymlaen â phrosiect yr Hwb Diagnosteg Rhanbarthol yn y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio
- 4D.c.8 - Datblygu achosion busnes Endosgopi, Meddygaeth Niwclear/PET-CT a Phatholeg Gellog Ddigidol.
- 4D.c.9 - Cynnal capasiti ar gyfer ffrwd waith i ganolbwyntio ar newid trawsnewidiol, gan gynnwys deallusrwydd artifisial.
- 4D.c.10 - Integreiddio dulliau sicrhau ansawdd gwasanaethau diagnosteg â System Rheoli Ansawdd y Bwrdd Iechyd.
- 4D.c.11 - Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynigion i gwblhau sefydlu cyswllt cyntaf awdioleg a gwasanaeth tynnu cwyr clust (gweler hefyd Gofal Sylfaenol 4B.1)

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Cwblhau'r blaenoriaethau uchod, y mae llawer ohonynt yn brosiectau gwaith aml-flwyddyn, gan gynnig tystiolaeth/enghreifftiau sylweddol o gynnydd a thueddiadau dangosyddion perfformiad allweddol cadarnhaol yn cadarnhau cynnydd tuag at sicrhau cynaliadwyedd.

4E: Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 1 y Gweinidog – Mynediad amserol at ofal (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Mynediad Amserol at Ofal:

- Lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu trosglwyddo o ambiwlansys wedi mwy nag 1 awr – targed cenedlaethol: sero
- Lleihau nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a bach o'r adeg pan fyddant yn cyrraedd hyd at eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o'i gymharu â'r un mis yn ystod flwyddyn flaenorol, gan weithio i gyflawni'r targed cenedlaethol, sef sero.

Meithrin Gallu Cymunedau:

- Cyflawni gostyngiad ar y cyfan dros 12 mis yn nifer y bobl sy'n wynebu oedi yn yr ysbyty yn unol â'r hyn a fesurir gan y dangosfwrdd Oedi o ran Llwybrau Gofal.

Trosolwg

Mae gwasanaethau Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng (UEC) yn gwneud cyfraniad allweddol at gynorthwyo poblogaeth Gogledd Cymru i barhau i fod yn annibynnol ac yn iach. Mae pwysau cynyddol yn yr UEC yn ei gwneud hi'n fwyfwy anodd rheoli'r galw yn amser, effeithiol a diogel, gan achosi profiadau gwael i gleifion. Gall hyn achosi sgil effaith ar wasanaethau gofal wedi'i


gynllunio, â manau gofal cynlluniedig ac achosion dydd yn cael eu defnyddio i ddarparu ar gyfer derbyniadau gofal brys yn enwedig y tu allan i oriau.

Ceir heriau sylweddol a hirhoedlog o ran perfformiad ar draws gwasanaethau UEC ac adlewyrchir hynny yn y targedau cenedlaethol allweddol a nodir uchod. Mae'n amlwg o'r holl ddadansoddiadau lleol a chenedlaethol nad yw'r prif broblemau yn digwydd yn bennaf yn yr Adran Achosion Brys ei hun ond maent yn faterion system gyfan trwy gydol taith y claf; gan gynnwys cymorth yn y gymuned i fod yn iach yn y cartref.

Mae'r dull system gyfan yn gofyn am gydweithio trwy bartneriaethau cryf ledled y maes iechyd (gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru), Awdurdodau Lleol a'r Sector Gwirfoddol. Er bod angen i'r system ystyried llwybrau gofal sy'n canolbwyntio ar atal ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysbyty er mwyn rheoli'r galw am wasanaethau brys yn well, y ddau faes sy'n effeithio fwyaf yw'r diffyg llif mewn ysbytai (gan gynnwys mynd ati'n gynnar i nodi'r cymorth a allai fod yn ofynnol ar adeg rhyddhau cleifion) a rhyddhau cleifion ar adegau priodol i'r gymuned. Er bod angen sicrhau atebion system gyfan yn gyflymach, ceir hefyd ymyriadau sydd angen eu cynnal y gall y Bwrdd Iechyd ei hun eu rheoli, o ran prosesau'r Bwrdd Iechyd ac argaeledd gwasanaethau ehangach. Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â'r ddwy elfen.

Mae rhaglen Gwella Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng y Bwrdd Iechyd wedi'i strwythuro ar draws pedair ffrwd waith i gynorthwyo i gyflawni amcanion y Rhaglen genedlaethol y 6 Nod, yr her 50 diwrnod a darparu gofal gwell yn y gymuned ledled rhanbarth Gogledd Cymru i hwyluso'r gwelliannau trwy gydol taith y claf;

Dyma un o Raglenni Newid Mawr y sefydliad, ac mae'n sicrhau ei fod yn cynyddu proffil y gwaith i'r eithaf ac yn cael yr oruchwyliaeth a'r cymorth angenrheidiol. Nod y rhaglen yw datblygu gwasanaeth gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n cynorthwyo pobl i gyrchu'r gofal priodol, yn y lle priodol, ar yr adeg briodol ac mor agos â phosibl at gartref y claf.



Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar ysgogi newid i'r system gyfan, a bydd hynny'n fuddiol o ran yr holl fetrigau a restrir yn y diagram uchod, sef Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet a metrigau ategol eraill. Gan ystyried y problemau perfformiad hirhoedlog yn y maes hwn a natur nifer o'r atebion allweddol sy'n gofyn am gydweithredu rhwng partneriaid, er y bydd pob un o dri Disgwyliad Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau gwelliannau yn y flwyddyn gyntaf a thargedau'n cael eu cyflawni dros gyfnod tair blynedd y cynllun hwn, disgwyliar na fydd yn realistig rhagweld y gellir sicrhau na fydd unrhyw gleifion yn treulio mwy nag awr cyn cael eu trosglwyddo o ambiwlansys a chynnal hynny yn 2025/26.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i brofi heriau aruthrol â phwysau sylweddol wrth ddrws ffrynt y safleoedd aciwt a nifer uchel o gleifion mewn wardiau cleifion mewnol ynghyd ag oedi o ran llwybrau gofal ar draws yr ysbytai aciwt a chymunedol. Er bod nifer y cleifion sy'n cyrraedd Adrannau Achosion Bryn mewn ambiwlans wedi bod yn is yn ystod 2024/25 nag yn y flwyddyn flaenorol, mae'r cyfanswm sy'n ymweld ag adrannau achosion bryn yn dal yn sylweddol. Mae mesurau perfformiad 2024/25 wedi amlygu rhywfaint o welliannau ond erys heriau sylweddol o ran cyflawni'r safonau y dyhëir amdanynt ac i liniaru niwed i gleifion wrth iddynt aros.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Ffrwd Waith 1 - Cymorth wrth Ddrws Ffrynt yr Unigolyn

4E.1 - Gweithredu'r fframwaith gwasanaethau asesu clinigol o bell - Gweithredu hwb 'Un Pwynt Mynediad' (SPOA) ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n symleiddio mynediad at wasanaethau drwy gynnig cyngor ac arweiniad i glinigwyr i'w cynorthwyo i gyfeirio cleifion at wasanaethau eraill, gan sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sy'n briodol o ran eu hanghenion yn

gyflym ac yn ddiogel, er mwyn gwella canlyniadau cleifion, ni waeth ble gwelir hwy. Bydd y gwaith yn cynnwys asesu'r llwybrau presennol, eu heffeithiolrwydd, cysondeb eu defnydd a gweithredu llwybrau amgen sy'n lleihau nifer yr ymweliadau ag Adrannau Achosion Brys ac yn cynnig dewis arall addas yn lle derbyn cleifion i glinigwyr Adran Achosion Brys pan ddaw cleifion i'r ysbyty yn sgil argyfwng. Bydd hyn yn cynnwys treialu apwyntiadau mewn meysydd megis Offthalmoleg, SDEC, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a Deintyddiaeth.

4E.2 - Gweithredu [Gwasanaeth Ymateb i Godymau yn y Gymuned](#) i wella canlyniadau a phrofiad y sawl sy'n cael codymau drwy wella amseroedd ymateb cychwynnol, lleihau'r risg yn sgil gorwedd am gyfnod hir a sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael mynediad at lwybrau ymateb i godymau yn y gymuned pan fo'n briodol. Bydd y Gwasanaeth Cymunedol hwn yn rhanddeiliad yn hwb SPOA yn ogystal â llwybr allan ohono. Bydd y ddau ymyriad hyn yn sicrhau bod grwpiau cleifion sydd mewn perygl sylweddol (megis rhai sy'n cael codymau a rhai byr eu gwynt sy'n cyfrannu'n sylweddol at y galw ar yr Adrannau Achosion Brys) yn cael eu cynorthwyo yn y ffordd fwyaf effeithiol.

4E.3 - Sicrhau y gweithredir y [Model Gofal Sylfaenol](#), gan gynnwys cyflwyno Rhaglen Gofal Sylfaenol genedlaethol, a datblygu Cynnig Gofal Sylfaenol ar yr Un Diwrnod (4B.1 a 4B.2) wedi'i integreiddio'n llawn i'r ffrwd waith hon ac yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig o ran presenoldeb mewn gwasanaethau Gofal Eilaidd.

Ffrwd Waith 2 – Drws Ffrynt Ysbytai

4E.4 - Gweithredu [Gwasanaeth Eiddilwch Acíwt ger y Drws Ffrynt](#) ym mhob ysbyty aciwt – wedi'i integreiddio â gwasanaethau eiddilwch yn y gymuned - sy'n sicrhau bod pobl oedrannus eiddil yn dibynnu ar flaenoriaethu adnoddau sydd ar gael yn cael eu ffrydio cyn gynted â phosibl i'r gwasanaethau mwyaf priodol yn yr ysbyty pan fo angen hynny, ac os bydd hynny'n bosibl, yn cael eu rhyddhau i fynd adref ar yr un diwrnod. Bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad o'r gwahanol ddulliau o gynnal gwasanaethau eiddilwch aciwt ger y drws ffrynt sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd ac oddi allan iddo.

4E.5 - Gweithredu gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru - [Canllawiau ynghylch Trosglwyddo Cleifion o Ambiwlansys](#) i sicrhau y caiff cleifion eu trosglwyddo'n brydlon o ofal criwiau ambiwlansys i ofal staff adrannau achosion brys.

Ffrwd Waith 3 – Llif Ysbytai

4E.6 - Gweithredu'r camau a ddisgrifir yn y [Fframwaith Llif Optimaidd mewn Ysbytai](#) er mwyn sicrhau bod pobl sydd ag angen clinigol i gael eu derbyn i'r ysbyty yn cael eu rhyddhau i fynd adref pan fyddant yn barod yn glinigol, a'u bod yn cael y cymorth priodol ac y gwneir hynny heb oedi. Bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau gostyngiad yn nifer yr achosion o ddatgyflyru, a nodi'n gynnar o fewn yr 24 awr gyntaf ar ôl derbyn a chyfathrebu unrhyw ofynion cymorth ar adeg rhyddhau, a dylai gynorthwyo i sicrhau gostyngiad mewn oedi o ran llwybrau gofal pan fydd wedi'i wreiddio ym meysydd cleifion mewnol mewn ysbytai aciwt ac yn y gymuned. Bydd dau Hwylusydd Llif Optimaidd Ysbytai yn cynorthwyo â hyn i ddechrau a byddant yn llunio ac yn cyflwyno adnoddau hyfforddi – blaengaredd cenedlaethol sy'n cael ei brofi yn BIPBC er mwyn asesu ei effaith. Mae'r gwaith hwn i leihau oedi o ran llwybrau yn allweddol sicrhau na ddefnyddir y capasiti i ymateb i ymchwydd yn niferoedd achosion at ddefnydd gwaith arferol.

Ffrwd Waith 4 – Rhyddhau Cleifion o Ysbytai

4E.7 -Sefydlu camau i wella [oedi o ran llwybrau gofal](#) a chynllunio i ryddhau cleifion: a) un dull yng Ngogledd Cymru i ddilysu oedi i gynorthwyo i sicrhau adolygiadau mwy effeithiol ar y cyd ag Awdurdodau Lleol, b) cynyddu nifer yr asesiadau a gynhelir gan 'aseswyr dibynadwy' gan gynnwys sicrhau bod asesiadau yn digwydd yn yr amgylchedd priodol, lleihau'r ddibyniaeth ar adnoddau gofal cymdeithasol dadleuol, a lleihau nifer yr achosion o oedi cyn cael asesiadau, c) archwilio opsiynau o ran sicrhau priodoldeb capasiti i ddarparu gwasanaethau cam i fyny a cham i lawr yn y gymuned, yn dibynnu ar flaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael.

Cynorthwyr ymhellach â'r holl feysydd uchod drwy gynnal y camau gweithredu yn yr Her 50 Diwrnod, gan gydweithio â phartneriaid ledled y rhanbarth.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Fel rhan o'r gwaith Cynllunio Gwasanaethau Clinigol ehangach, datblygu ymhellach y dull system gyfan integredig drwy symud y tu hwnt i fireinio'r gwasanaethau presennol i greu gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth. Un elfen bwysig o hyn fydd gwella darpariaeth gofal iechyd yn y gymuned a chydweithio â phartneriaid ym meysydd Gofal Sylfaenol, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector i sicrhau bod gwasanaethau cofleidiol yn cael eu darparu mor agos at ddrws ffrynt yr unigolyn â phosibl.

Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y llwybrau gofal newydd, yn ogystal â chynyddu amlygrwydd gwaith atal ym meysydd gofal brys a gofal mewn argyfwng,

4F: Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Oedolion

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 4 y Gweinidog – Iechyd Meddwl (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Cyflawni Disgwyliadau Ysgrifennydd y Cabinet

Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

- 80% o asesiadau iechyd meddwl yn cael eu cynnal o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod ar ôl dyddiad derbyn y cyfeiriad.
- 80% o ymyriadau therapiwtig yn dechrau o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod wedi asesiad gan y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS)

Trosolwg

Mae Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHL) BIPBC yn darparu ac yn comisiynu ystod eang a chymhleth o wasanaethau triniaethau, cymorth a chynghor i gleifion mewnol ac yn y gymuned i ddinasyddion 18 oed a hŷn ledled Gogledd Cymru ac i rai dinasyddion Gogledd Powys. Bydd 1 o bob 4 oedolyn yn profi problemau iechyd meddwl rywbryd yn ystod eu hoes, felly mae darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu o safon yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles cyffredinol ein Poblogaeth.

Mae gwasanaethau MHL wedi ehangu i gynnwys darparu gwasanaethau 111, pwysu 2 GIG Cymru sy'n darparu cymorth Iechyd Meddwl i bobl o bob oedran, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r adran hefyd yn cynnal y llinellau cymorth cenedlaethol ar gyfer Cymru; Linell Gyngor a Gwrando'r Gymuned (CALL), Linell Gymorth Dementia a Rhwydwaith Cyffuriau ac Alcohol (DAN).



Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu PBC wedi profi craffu sylweddol drwy adolygiadau annibynnol ac arolygiadau'r Coleg Brenhinol ac mae'r cyfle i adolygu gwasanaethau PBC yn wrthrychol yn cael ei groesawu. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i ansawdd, ystod ac

argaeledd gwasanaethau gan gynnwys yr amgylchedd y cânt eu darparu ynddo a gwybodaeth a sgiliau'r staff ynddynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen mwy o waith i ddatblygu a chynnal cynnydd ymhellach, â ffocws penodol ar wasanaethau a systemau cymunedol gan gydweithio â phartneriaid allweddol. Cydnabyddir hefyd bod angen ymgysylltu'n agosach â theuluoedd a gofalwyr, sy'n cynnwys cymryd rhan fel rhan o grŵp cynghori arbenigol. Bydd gwelliannau'n parhau, gan ddatblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer profiad bywyd i lunio'r gwasanaethau gan gyflawni canlyniadau rhagorol yn gyson.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4F.1 - Cydweithio â Gweithrediaeth y GIG i gyflawni rhaglen gwella strategol Gwasanaethau Iechyd Meddwl sy'n cael ei datblygu, gan gynnwys diogelwch sy'n canolbwyntio ar y claf, gofal mewn argyfwng a mynediad at wasanaethau cymunedol.
- 4F.2 - Parhau i wella ansawdd a diogelwch gofal, gan gynnwys cwblhau Adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl y gwahoddwyd y Coleg Brenhinol Seiciatreg (RCPsych) i'w gyflawni.
- 4F.3 - Parhau i wella mynediad a chwtogi amseroedd aros i ddinasyddion Gogledd Cymru y mae arnynt angen cymorth gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol.
- 4F.4 - Datblygu model cyffredinol cydlynol ar gyfer darparu gofal i bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl.
- 4F.5 (2D.5) - Cyflawni cam 1 rhaglen Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) Iechyd Meddwl fel templed datblygu ar gyfer y trawsnewid ehangach uchod.
- 4F.6 - Cyflawni cynnydd ar draws prosiectau gwella gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau Amenedigol ac Anhwylderau Bwyta.
- 4F.7 - Cyflawni, ar y cyd â chydweithwyr ym maes Ystadau Cyfalaf,, rhaglen 2025/2026 ar gyfer gwaith Atal Clymu yn yr ystadau.
- 4F.8 - (Cyfrannu at 2B.5, â ffocws ar Fedra'i, Parabl (Therapiau Siarad) a Gwasanaeth Eirioli Cymunedol) 2B.5 Cynnal adolygiad 3ydd Sector, gan ymgymryd ag adolygiad o brisiau unedau ac arian cyfred contractau o fewn contractau a chwblhau ymarfer i sicrhau bod safon a chysondeb dogfennau a phrosesau a gomisiynir yn bodloni'r safonau disgwylidig.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Achredu gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol PBC yn unol â safonau Coleg Brenhinol Seiciatreg (RCPsych).
- Cytuno ar fodelau gofal ar gyfer Cleifion Mewnol Anabledd Dysgu, gwasanaethau Cymunedol ac ECRS.
- Achredu gwasanaeth Anhwylderau Bwyta Gogledd Cymru yn unol â safonau RCPsych.
- Cyflawni Fframwaith y Dull Ystyriol o Drawma ledled Gwasanaethau Fforensig ac Adsefydlu.
- Gweithio i gynyddu mynediad at Therapiau Seicolegol.
- Datblygu cymorth i unigolion yr effeithir arnynt gan Ddifrod i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol (ARBD).
- Parhau i weithredu system Iechyd Electronig (EHR) ar draws pob gwasanaeth MHLD oedrannus mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar gyfer pob oedran
- Parhau i gyflawni adolygiad o gontractau'r trydydd sector a blaenoriaethu ail-gomisiynu a sicrhau bod y gwasanaethau y byddwn yn eu comisiynu yn diwallu anghenion yn effeithiol ac yn darparu'r lefel uchaf o ofal o ansawdd sy'n cyd-fynd â'n cynnig gwasanaeth craidd.
- Gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd i adolygu cwmpas a phwrpas cynllun ailddatblygu Ablett.

4G: CAMHS

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 4 y Gweinidog – Iechyd Meddwl (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

- 80% o asesiadau iechyd meddwl yn cael eu cynnal o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod ar ôl dyddiad derbyn y cyfeiriad.
- 80% o ymyriadau therapiwtig yn dechrau o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod wedi asesiad gan y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS)

Trosolwg

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn darparu asesiadau, gofal a thriniaethau hanfodol i blant a phobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl difrifol a'u teuluoedd/gofalwyr, ac fe'u darperir gan dimau amlddisgyblaethol, gan gynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, ymarferwyr plant a phobl ifanc, therapyddion seicolegol, gweithwyr yn y proffesiynau perthynol i iechyd ac eraill. Mae ganddynt rôl bwysig hefyd o ran cynorthwyo â galluoedd iechyd meddwl rhwydwaith ehangach o wasanaethau plant ymhlith asiantaethau sy'n bartneriaid i'r Bwrdd.

Fel rhan o ddull systemau cyfan, bydd cydweithio agos yn parhau â phartneriaid drwy'r RPB Plant i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael ymateb amlddisgyblaethol sy'n diwallu eu holl anghenion. Bydd y dull hwn yn lleihau dyblygu posibl ymhlith gwasanaethau ehangach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn galluogi dysgu gwersi ar y cyd ac yn sicrhau y ceir dirnadaeth o ryng-ddibyniaethau rhwng gwasanaethau.

Bydd cyflawni trawsnewid a gwella gwasanaethau CAMHS yn llwyddiannus yn gofyn am gydweithio cryf ymhlith yr holl wasanaethau statudol a gwirfoddol, oll yn cydweithredu a chyd-gynhyrchu â'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Mae holl gynlluniau gwella gwasanaethau CAMHS yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Rhaglen Iechyd Meddwl Strategol Genedlaethol i sicrhau canlyniadau, mynediad a phrofiad gwell a mwy cyfartal ac i lunio'r llwybrau gwerth uchel gorau posibl ar gyfer CAMHS, o ofal cymunedol i ofal ar gyfer cleifion mewnol. Bydd gweithredu'r amcanion hyn yn gwella diogelwch a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd drwy uno gweithwyr proffesiynol CAMHS a phartneriaid aml-asiantaeth i lunio a gwella gwasanaethau yng Ngogledd Cymru ar y cyd, yn cael arweiniad gan eu lleisiau i sicrhau mynediad, effeithiolrwydd ac ansawdd gwell. Bydd ein cynlluniau'n galluogi plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru i gael mynediad prydlon at y gwasanaeth priodol, boed yn arbenigol neu'n gyffredinol, ac i'w helpu i ddatblygu cryfder a chadernid a diogelu eu hiechyd meddwl.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4G.1 - Datblygu Cynllun Gweithlu Strategol CAMHS a Strategaeth Hyfforddiant CAMHS ar ei newydd wedd a gânt eu llywio gan y Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant a gynhaliwyd ledled gwasanaethau CAMHS.
- 4G.2 - Cydymffurfiaeth a Rhan 1a y Mesur Iechyd Meddwl yn unol â'r targed ar gyfer asesu a chyflawni targed Rhan 1b ar gyfer ymyriadau gan bob tîm.
- 4G.3 - Ymgorffori dysgu gwersi drwy rannu arferion gorau ledled Cymru at ddibenion darparu gwasanaeth cynaliadwy wrth i'r gwasanaeth ddileu arosiadau hir.

4G.4 - Datblygu cynigion ar gyfer Dewisiadau yn lle Derbyn ar y cyd â'n partneriaid i sicrhau bod darpariaeth gyfannol gan CAMHS yn hygyrch i bob plentyn ac unigolyn ifanc gan gynnwys y bobl ifanc hynny sydd â bywydau anhrefnus heb fynediad at lety diogel.

4G.5 - Gwerthuso gweithredu'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion yn arlwy craidd CAMHS yn y Cymunedau Iechyd Integredig i sicrhau dull ysgol gyfan cynaliadwy ar gyfer iechyd a lles emosiynol - gan fod yn yr amgylchedd mwyaf hygyrch a chyson ym mywydau pobl ifanc ym mhob ysgol ledled Gogledd Cymru.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Byddwn yn adnewyddu cynllun Trawsnewid a Gwella CAMHS yn unol â'r Rhaglen Iechyd Meddwl Strategol Genedlaethol a blaenoriaethau'r Gweinidog ac yn datblygu cynllun tair blynedd ar gyfer 2026 - 2029.

Byddwn yn parhau i gyflawni targedau'r Mesur Iechyd Meddwl.

Byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddarparu ymyriadau cynnar a gwaith atal trwy gynigion Cymorth Cynnar a Gofal mewn Argyfwng a Gofal Heb ei Drefnu trwy ddarparu hyfforddiant ac ymgynghori i bartneriaid ac oedolion dibynadwy.

Byddwn yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw amrywio diangen yn y gwasanaethau rydym yn eu darparu yng Ngogledd Cymru.

4H: Niwroddatblygiad

Trosolwg

Mae'r gwasanaeth Niwroddatblygiad (ND) yn cynnig asesiadau i blant a phobl ifanc ynghylch Anhwylderau Sbectwm Awtistiaeth (ASD) ac Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADHD). Mae asesiadau'n cynnwys sawl elfen ac fe'u cynhelir o bell ac wyneb yn wyneb gan dimau amlddisgyblaethol gan gynnwys staff meddygol, Seicolegwyr, Ymarferwyr Niwroddatblygiad a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig. Ceir amseroedd aros sylweddol i gael asesiad ledled y timau, ac mae mwy na 6,500 o enwau ar y rhestrau aros ar hyn o bryd. Bydd cymorth i blant a phobl ifanc tra byddant ar y rhestr aros ac ar ôl cael diagnosis yn dibynnu ar ddull system gyfan gan gydweithio'n agos â phartneriaid ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol â chymorth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (RPB) Plant. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau presennol ar y gwasanaethau, mae angen datblygu model gwasanaeth newydd ar y cyd â phartneriaid, ac mae hyn wedi'i nodi fel y brif flaenoriaeth i'r RPB Plant ei hwyluso yn 2025/26. Bydd cyflawni'r model newydd yn llwyddiannus a mynd i'r afael â'r pwysau presennol ar y gwasanaethau yn dibynnu'n llwyr ar ddull partneriaeth gref a pharhau â'r rhaglen Gwella ND sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen genedlaethol.

Bydd rhai plant a phobl ifanc yn aros mwy na phedair blynedd i gael asesiad ND, a gall yr oedi cyn cael diagnosis olygu eu bod yn colli cyfle i gael cymorth hanfodol sy'n effeithio ar eu haddysg a'u datblygiad personol, a gallai hynny effeithio'n barhaol ar gwrs eu bywyd. Mae'r amseroedd aros hir yn y gwasanaeth yn effeithio ymhellach ar y galw am wasanaethau eraill gan gynnwys CAMHS oherwydd caiff iechyd meddwl plant gael ei niweidio. Mae plant difreintiedig yn profi effeithiau anghymesur oherwydd nid yw eu teuluoedd yn gallu cael mynediad at asesiadau a chymorth preifat. Mae'r arosiadau hir iawn hefyd yn effeithio ar gydweithwyr yn y timau ND oherwydd cynnydd mewn cwynion ac ymholiadau ac mae hynny'n eu gwangalonni. Mae angen cymorth i ddatblygu system gymorth sy'n cael ei llywio gan anghenion a phontio o'r model presennol sy'n cael ei lywio gan ddiagnosis.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

4H.1 - Cwblhau'r ymarfer haenu Rhestrau Aros ac ystyried y meini prawf blaenoriaethu.

4H.2 - Lansio proses asesu ddarbodus ymhlith yr holl dimau.

4H.3 - Ymgorffori dysgu gwersi drwy rannu arferion gorau ledled Cymru at ddibenion darparu gwasanaeth cynaliadwy wrth i'r gwasanaeth ddileu arosiadau hir.

4H.4 - Sicrhau cymeradwyaeth i Brotocol Rhannu Gwybodaeth ar y cyd â phartneriaid.

4H.5 - Ymgysylltu'n llawn â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant i ddatblygu model gwasanaeth sy'n cael ei lywio gan anghenion.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Mynd i'r afael â gweddill y rhestr aros

Cyflwyno'r model gwasanaeth newydd ar y cyd â phartneriaid

4I: Gwasanaethau Dementia

Trosolwg

Mae gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia yn gymhleth ac mae angen staff medrus a gwybodus iawn yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid. Mae angen asesiad prydlon ar bobl a allai fod â dementia, er mwyn sicrhau, os cadarnheir dementia, y gellir teilwra gofal a chymorth i ddiwallu eu hanghenion. P'un a ydynt mewn ysbyty ai peidio, mae cleifion â dementia yn defnyddio ein holl wasanaethau i oedolion ac mae angen gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn arnynt i'w cynorthwyo yn ystod eu taith gofal. Mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud y defnydd gorau o adnoddau megis y defnydd o welyau a darpariaeth Adrannau Achosion Brys a gall gofal dementia rhagorol gynorthwyo â hyn.

Cydnabyddir yn eang bod cleifion â dementia fel arfer yn meddiannu chwarter o welyau ysbyty. Er nad dementia yw'r cyflwr sydd wedi dod i'r amlwg na'r rheswm dros dderbyn, gall ychwanegu'n sylweddol at heriau darparu gofal mewn sawl ffordd. Bydd cleifion â dementia yn ymateb i'w cyflwr, cyflyrau hirdymor eraill, eu hanghenion presennol megis deliriwm a'u hamgylchedd. Gall amgylcheddau gofal brys a gofal mewn argyfwng fod yn neilltuol o heriol i unigolyn â dementia ac mae amgylcheddau arafach e.e. ysbytai cymunedol, yn peri gwahanol heriau gan gynnwys ymgyfeirio, dod o hyd i'r ffordd, rheoli risg a galwedigaethau ystyrion. Nid yw un ddarpariaeth yn addas i bawb ac os na fydd gofal dementia yn ddigon da, bydd yn effeithio'n sylweddol ac yn negyddol ar brofiad y claf a'r teulu, hyd yr arhosiad a chanlyniadau iechyd. Ar ben hynny, gall gofal annigonol ysgogi symud i leoliad gofal newydd megis cartref gofal yn hytrach na dychwelyd i breswylfa flaenorol y claf.

Er bod dementia yn gyflwr sy'n gwaethygu ac na ellir ei atal, gellir gwneud llawer i fynd i'r afael â ffactorau y gwyddys eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddatblygu dementia a helpu i arafu datblygiad y cyflwr. Yn gyffredinol, ceir uchelgais a rennir i helpu'r sawl sy'n byw gyda dementia i 'fyw cystal â phosibl' yn hytrach na 'byw'n dda' gyda'u dementia. Cydnabyddir yn eang bod gan ofalwyr sy'n berthnasau/gofalwyr di-dâl y sawl sy'n byw gyda dementia eu hanghenion eu hunain o ran gwybodaeth, cymorth a gorffwys, a'u bod yn llywio ystod o heriau sy'n deillio o'u rôl ofalu gan gynnwys effaith ariannol, pwysau o ran cyflogaeth ac iechyd gwael.

Er mwyn cyflawni gofynion nifer o ddogfennau polisi a chanllawiau dementia Cymru gyfan, mae dull partneriaeth ranbarthol cadarn ar gyfer y Gogledd-orllewin wedi'i hen sefydlu ac mae'n llywio rhaglen wella sylweddol yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bartner allweddol yn y gwaith hwn. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys gwasanaethau a chynlluniau i wella cyfraddau diagnosis a chynorthwyo pobl drwy gydol y llwybr diagnostig, hyd at fyw'n well gyda'r cyflwr a gofal diwedd oes.

Mae nifer y bobl y disgwylir iddynt fod â dementia wedi bod yn cynyddu yn y DU yn llawer cyflymach nag a ragwelid yn flaenorol. Mae ffigurau diweddar yn awgrymu bod tua 982,000 o bobl yn byw gyda dementia yn y DU a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 1.4 miliwn yn 2040.

Mae angen dybryd i gryfhau trefniadau i ddiwallu anghenion cleifion â dementia a'u teuluoedd ledled y Bwrdd Iechyd. Yn hanesyddol, mae safonau gofal dementia ar adegau wedi bod yn salach na'r hyn sy'n ofynnol i sicrhau gofal da. Felly, rhoddwyd sylw sylweddol i ddeall arferion a llwybrau gofal dementia cyfredol a cheisio lleihau amrywio mewn arferion. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd, yn draddodiadol, mae llawer wedi ystyried bod dementia yn rhywbeth penodol i faes Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, ond mae cleifion dementia yn defnyddio ein holl wasanaethau. Nid yw modelau ariannu bob amser wedi'u sefydlu i adlewyrchu'r ffaith bod 'dementia yn fusnes i bawb', ac roedd gwasanaethau dementia nad ydynt yn wasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cael llai o gydnabyddiaeth ym Model Gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

Mae Nyrs Ymgynghorol Dementia'r Bwrdd Iechyd, sy'n cydweithio â Thîm Gwella Gwasanaethau Dementia bychan, wedi nodi'r angen i wella ac mae naill ai wedi mynd i'r afael â'r materion hynny neu wedi cytuno ar gynlluniau i fynd i'r afael â hwy. Er enghraifft, mae'r angen am hyfforddiant ynghylch dementia wedi'i uwchgyfeirio fel risg ac mae'n cael ei lliniaru'n llwyddiannus. Mae canolbwyntio ar flaenoriaethau addysg ac asesu'r cof yn 2024-5 wedi helpu i sicrhau cynnydd rhagorol o ran cyflawni gofynion Llywodraeth Cymru gan gynnwys polisi, canllawiau cenedlaethol a chanllawiau gan gyrrff proffesiynol. Er enghraifft:

- Fframwaith Dysgu a Datblygu Gwaith Da ar gyfer Dementia
- Cynllun Gweithredu Dementia Cymru 2018-22
- Safonau Dementia Cymru
- Canllawiau Dementia NICE 2019
- Siarter Ysbytai sy'n Ystyriol o Dementia 2022
- Rhaglen Achredu Genedlaethol Gwasanaethau Cof MSNAP

Mae sbardunau eraill yn cynnwys gofynion mewnol BIPBC gan gynnwys polisiau, targedau, canfyddiadau gwaith achredu ac ati, ynghyd â barn broffesiynol staff gofal dementia ar ynghylch anghenion y gweithlu clinigol, yn ogystal â nodi gwersi yn sgil cwynion, ymholiadau, adolygiadau, casglu dirnadaethau ynghylch data ac ati, a gweithredu mewn ymateb i hynny.

Drwy'r Tîm Gwella Gwasanaethau Dementia a chynrychiolaeth eang o blith timau amlddisgyblaethol o'r bob cwr o'r Bwrdd Iechyd, mae anghenion BIPBC yn cael eu diwallu i raddau helaeth gan y cynlluniau gwella cynhwysfawr y cytunwyd arnynt yn y Bwrdd Iechyd ac â chyfraniadau partneriaethau rhanbarthol. Mae angen buddsoddiad diddiwedd i barhau i ddiwallu anghenion cleifion a theuluoedd, ac mae angen rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol i gynnal

rhywfaint o weithgarwch a pharhau i'w wella (e.e. hyfforddiant dementia) er mwyn sicrhau gweithlu sy'n addas at ei ddiben. Mae hyn yn hanfodol gan ystyried y nifer llawer uwch o bobl y disgwylir iddynt fod â dementia erbyn 2040 a'r effaith anochel ar wasanaethau.

O ran gwerth ychwanegol ac enillion ar fuddsoddiadau, mae agweddau ar y gweithgareddau gwella hyn hefyd wedi cynorthwyo i gyflawni dyheadau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran llunio ar y cyd, atal datgyflyru, y gweithlu (cadw staff, DPP), ymgysylltu, profiad cleifion, codymau, atal briwiau pwysu, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/cynllunio gofal wedi'i deilwra, ymgorffori gwersi a ddysgwyd ac ati.

Fel defnyddwyr sylweddol gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal wedi'i gynllunio, lleoedd mewn cartrefi gofal a gwasanaethau ac adnoddau eraill, mae pobl â dementia yn "uwch-ddefnyddwyr" a bydd sicrhau'r gofal priodol i'r boblogaeth hon yn cynnig manteision pendant o ran defnyddio adnoddau'r Bwrdd Iechyd (a'r gymuned).

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Profiad Adrannau Achosion Brys:

- 4I.1 - Ymgorffori gwaith gwella gwasanaethau dementia mewn Adrannau Achosion Brys yn y Cymunedau Iechyd Integredig
- 4I.2 - Nodi arferion da mewn manau eraill
- 4I.3 - Nodi arferion presennol Adrannau Achosion Brys BIPBC

Addysg a hyfforddiant:

- 4I.4 - Ehangu ystod a nifer y cyfleoedd i gael addysg a hyfforddiant ynghylch dementia
- 4I.5 - Gwerthuso hyfforddiant

Amgylcheddau sy'n briodol i Gleifion sydd â Dementia:

- 4I.6 - Hwyluso asesiad helaeth o amgylcheddau
- 4I.7 - Datblygu cynlluniau gweithredu lleol a'u monitro
- 4I.8 - Neilltuo adnoddau gwella

Atal:

- 4I.9 - Creu/cydgasglu/rhannu adnoddau atal
- 4I.10 - Nodi cyfleoedd i hyrwyddo gwaith atal
- 4I.11 - Cydweithio ag arbenigeddau cysylltiedig e.e., gwasanaethau strôc

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Yn 2026/27:

- Bydd angen i flaengareddau addysg ac Adrannau Achosion Brys barhau (fel rhaglenni gwella mawr) a bydd angen asesu gwelliannau i amgylcheddau i nodi a ydynt wedi cynnal.
- Bydd ffocws posibl ychwanegol ar ofal diwedd oes a chymhwysedd diwylliannol/cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Datblygu gwaith ailgynllunio'r llwybr dementia a'i lansio, gan ganolbwyntio ar adrannau achosion brys/gofal brys i bobl sydd â dementia
- Asesu/atgyfnerthu gwelliannau drwy gyfranogi yn yr Archwiliad Cenedlaethol blynyddol ar gyfer Dementia sy'n ailgychwyn yn 2026

Yn 2027/28:

- Cynnal gwelliannau yn ymwneud ag Addysg ac arferion Adrannau Achosion Brys a pharhau i'w datblygu
- Canolbwyntio ar ymgorffori llwybr gofal dementia
- Ymateb i ganfyddiadau Archwiliad Cenedlaethol Dementia 2026

4J: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 1 y Gweinidog – Mynediad amserol at ofal (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Mynediad Amserol at Ofal:

- Dim cleifion yn aros mwy na 104 wythnos i gael eu cyfeirio am driniaeth
- Cyflawni gwelliant ar y cyfan dros 12 mis yng nghanran y cleifion sy'n dechrau triniaeth gyntaf am ganser pendant o fewn 62 diwrnod ar ôl amau'r cyflwr am y tro cyntaf (waeth beth fo'r llwybr cyfeirio), gan weithio i gyfrannu at darged cenedlaethol o 80% erbyn 31 Mawrth 2026.
- Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am ddiagnostig penodol - targed: sero

Trosolwg

Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o wasanaethau clinigol y mae'n heriol iddynt gynnal gwasanaeth dibynadwy a chyson, sef Wroleg, Fasgwlaidd, Offthalmoleg, Dermatoleg, Llawfeddygaeth Gosmetig, Oncoleg, ac Orthodonteg. Mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn cael trafferth datrys eu hôl-groniad o weithgarwch gofal wedi'i gynllunio, ac mae hefyd yn effeithio ar berfformiad gwasanaethau diagnosio a mynediad at wasanaethau canser. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y themâu cyffredin ymhlith y gwasanaethau hyn – mae cynlluniau gwasanaethau unigol mwy manwl hefyd wedi'u llunio.

Mae'r gwasanaethau hyn sy'n wynebu heriau wrth wraidd rhai o broblemau perfformiad allweddol y Bwrdd Iechyd – yn enwedig arosiadau hir ym meysydd Gofal Wedi'i Gynllunio, Diagnosteg a Gwasanaethau Canser. Er y gellir datrys rhai o'r problemau yn y tymor byr, mae llawer yn dibynnu ar gynllunio gwasanaethau clinigol mwy cyfannol a wnaiff lywio sut y gellir trefnu gwasanaethau yn y tymor hwy i sicrhau eu bod yn gynaliadwy.

Mae'r is-adrannau isod yn archwilio pob 'gwasanaeth sy'n wynebu heriau' yn ei dro, ond dyma'r themâu cyffredin:

Y Gweithlu: Gweithredu Cynllunio Gweithlu strategol a gweithredol i fynd ati'n systematig i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio capasiti a galw'r gweithlu yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Nodi bylchau allweddol a datblygu strategaethau recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu wedi'u targedu, gan gynnwys defnyddio rolau amgen a rolau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cynnal gweithlu sy'n fedrus iawn, yn hyblyg, ac wedi'i staffio'n briodol. Mae'r dull hwn yn cynorthwyo i gyflawni amcanion strategol a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

Ansawdd / safon / arfer / trefn: Gweithredu safonau ac argymhellion Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GIRFT), argymhellion ynghylch arferion gorau gan y Coleg Brenhinol a'r Rhaglen Genedlaethol, ac argymhellion Grŵp Cynghori'r Gweinidog (MAG), gan eu defnyddio i lywio cam cychwynnol gwaith cynllunio gwasanaethau clinigol ar gyfer y gwasanaethau hyn a fydd hefyd yn gwneud defnydd o asesiadau QMS.

Capasiti ychwanegol: Parhau i wneud y defnydd gorau o gyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n wynebu'r heriau mwyaf a lleihau'r ôl-groniadau a chwtogi'r arosiadau hiraf. Sicrhau bod gwasanaethau yn gwybod beth yn union y dylent ei wneud i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Profiad Cleifion: Gweithredu ar sail y dirnadaethau a geir, gan wella profiad cleifion, er enghraifft, darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion pan fo'n ymarferol – yn enwedig yn achos contractau allanol.

4J.a: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Wroleg

Trosolwg

Mae'r gwasanaeth Wroleg yn wasanaeth rhwydwaith yn BIPBC, ac mae pob Cymuned Iechyd Integredig yn rheoli ei thîm Wroleg ei hun, gan gynnwys ei threfniadau ynghylch y ddarpariaeth ar alwad. Ceir amrywio ledled BIPBC o ran staffio'r gweithlu, opsiynau triniaethau, a mynediad at wasanaethau diagnostig wrolegol. Mae perfformiad o gymharu â safonau'r Llwybr Canser a Amheuir yn salach na'r targed cenedlaethol, a darperir y rhan fwyaf o driniaethau canser wrolegol trwy gontract allanol â chanolfannau trydyddol ledled y DU. Mae un darparwr bellach wedi cael ei gymeradwyo at ddibenion allanoli gwasanaethau, gan gynorthwyo i sicrhau profiad gwell i gleifion.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Y Gweithlu:

4L.a.1: Adolygiad manwl i gwmpasu cyfleoedd o ran y gweithlu anfeddygol, gan sicrhau y manteisir yn llawn ar eu cyfraniadau at ddarparu gwasanaethau. Llenwi gweddill y bylchau yn y rolau arweinwyr clinigol a rheolwyr os oes cyllid i ariannu hynny ac os ceir cymorth gan arweinwyr effeithiol presennol y Cymunedau Iechyd Integredig

Ansawdd / safon / arfer / trefn:

4J.a.2: Sefydlu model gwasanaethau ar alwad cynaliadwy o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael drwy adolygu'r trefniadau presennol ynghylch gwasanaethau ar alwad ar lefel ranbarthol, gan ddarparu gwasanaeth gofal heb ei drefnu cydnerth i gleifion.

4J.a.3: Datblygu cynlluniau i ddarparu gwasanaethau arbenigol ar lefel ranbarthol sy'n cyd-fynd ag argymhellion GIRFT a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid os bydd angen hynny.

4J.a.4: Gwellu canlyniadau cleifion, sicrhau arbedion effeithlonrwydd cynyddol mewn gwasanaethau, a chwtogi amseroedd aros.

4J.a.5: Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau Radioleg Ymyriadol ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith (pan fo hynny'n briodol). Bydd hyn yn lleihau'r angen i staff a chleifion deithio yn ogystal â chynyddu'r opsiynau o ran y triniaethau sydd ar gael.

4J.a.6: Datblygu cynllun hirdymor ynghylch llawdriniaeth wrolegol â chymorth robot ar gyfer cleifion Gogledd Cymru, a fydd hefyd o fudd o ran recriwtio a chadw staff yn ogystal â datblygu model gwasanaeth sy'n addas at y dyfodol.

Capasiti ychwanegol:

4J.a.7: Gwella ymchwiliadau a gaiff cleifion ymlaen llaw drwy lwybrau Prawf yn Syth (STT) â ffocws ar lwybrau canser a amheuir. Sicrhau bod dulliau dan arweiniad nyrsys yn cael eu hoptimeiddio i greu capasiti gan feddygon ymgynghorol pan ellir gwneud hynny.

4J.a.8: Monitro cyfraddau Heb Fynychu (DNA) a Methu â Mynychu (CNA) a gweithredu dulliau i liniaru llai o weithgarwch pan fydd y gyfradd gyfunol yn fwy na 5%, gan leiafu colledion o ran capasiti clinigol.

4J.a.9: Manteisio'n llawn ar drefniadau wroleg achosion dydd a chleifion allanol, gan ddefnyddio hynny yn lle gwasanaethau cleifion mewnol lle bo'n briodol, i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau o ran hyd cyfartalog arosiadau cleifion mewnol.

4J.a.10: Adolygu'r defnydd o Dimau Amlddisgyblaethol (TA): TA rhanbarthol cymhleth a TA lleol â'r bwriad o leihau dyblygu ac adfer capasiti clinigol sydd wedi'i golli.

Profiad Cleifion:

4J.a.11: Defnyddio data ynghylch profiad cleifion i lywio darparu gwasanaethau drwy ofal yn nes at gartref cleifion, comisiynu llawdriniaethau mawr, a mynediad mwy prydlon at ddiagnosteg a thriniaethau.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28


- Gan adeiladu ar gam cychwynnol cynllunio gwasanaethau clinigol yn 2025/26 a gweithio yn unol â'r fframwaith a bennwyd yn Strategaeth 10 Mlynedd newydd y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2026-28, canolbwyntir ar gynllunio gwasanaethau clinigol ar lefel ranbarthol yn ogystal â datrys materion mwy cymhleth yn ymwneud â threfniadau gwasanaethau.
- Sefydlu model cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau rhanbarthol gan gynnwys trefniadau gwasanaethau ar alwad, yn ogystal â darparu gwasanaethau arbenigol.

4J.b: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Gwasanaethau Fasgwlaidd

Trosolwg

Mae'r gwasanaeth Fasgwlaidd yn wasanaeth rhwydwaith ar draws BIPBC sy'n gweithredu model 'prif ganolfannau a chanolfannau atebol' a cheir mynediad i'r gwasanaeth trwy ysbyty aciwt lleol y claf, ble gallant weld arbenigwyr fasgwlaidd a chael gofal mewn adrannau cleifion allanol a delweddu yn ogystal â chael mân driniaethau (canolfannau ategol). Darperir gofal i gleifion mewnol sy'n gofyn am TA fasgwlaidd a gofal brys gan y Ganolfan Prif Redwelïau (y brif ganolfan) yn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae canllawiau'r Gymdeithas Fasgwlaidd yn nodi y dylai unedau gynnal 40 o driniaethau agored dewisol i gyweirio Anewrysmau Aortig yn yr Abdomen (AAA) dros gyfnod o 2 flynedd. Mae gweithgarwch BIPBC wedi gostwng ymhell islaw'r lefel argymelledig honno yn gyson yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, sydd wedi golygu nad yw llawfeddygon wedi gallu cynnal cymwyseddau digonol. Er mwyn cynnal gwasanaeth diogel ar gyfer thriniaethau cymhleth llai niferus yn ymwneud â rhydweiliau, mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn cydweithio â chanolfannau tiriogaethol cyfagos, Ysbyty Prifysgol Brenhinol Lerpwl (RLUH) ac Ysbyty Prifysgol Gogledd Canolbarth Lloegr (UHNM), at ddibenion darparu triniaethau i gyweirio AAA cymhleth, a thriniaethau agored dewisol i gyweirio AAA nad ydynt yn gymhleth, yn y drefn honno.



Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Y Gweithlu:

4J.b.1: Cytuno ar fodel gweithlu cynaliadwy sy'n:

- sicrhau y caiff cleifion eu gweld gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, gan gynyddu capasiti a sicrhau bod meddygon ymgynghorol yn cael eu rhyddhau i gynorthwyo â'r achosion mwyaf cymhleth.
- sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cynorthwyo i gynnal cymwyseddau rhagorol, trwy hyfforddiant a dysgu gweithredol.

Datblygu cynlluniau swyddi ar draws y rhydwraith i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei ddefnyddio ble ceir y galw mwyaf.

4J.b.2: Datblygu cynllun gweithlu integredig i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw staff yn y gwasanaeth a chynorthwyo i weithredu diwylliant gwaith cadarnhaol, sy'n meithrin cynhwysiant a pharch ymhlith staff ar bob lefel.

Ansawdd / safon / arfer / trefn:

4J.b.3: Sefydlu model cynaliadwy tymor canolig a thymor hir ar gyfer gwasanaethau AAA (o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael) sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.

4J.b.4: Dechrau gwaith ynghylch gweithredu'r llwybrau a'r protocolau trosglwyddo, rhyddhau a dychwelyd diwygiedig sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn gwella profiad cleifion, lleihau nifer yr achosion o ail-dderbyniad a/neu 'ryddhau aflwyddiannus'; a sicrhau bod trefniadau dilynol priodol ar waith pan fydd cleifion wedi dychwelyd i'r gymuned.

4J.b.5: Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella ansawdd sy'n cyd-fynd â system Rheoli Ansawdd y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gwella ansawdd yn sail i holl weithgarwch y gwasanaeth, gan gynnwys dogfennu strwythurau arwain a phrosesau uwchgyfeirio yn eglur (gan gynnwys prosesau ar gyfer rheoli risg).

Capasiti ychwanegol:

4J.b.6: Sefydlu rhaglen wella ar gyfer triniaethau Isgemia Cronig sy'n Bygwth Aelodau â'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu hail-fasgwlaiddio o fewn pum niwrnod ar ôl eu derbyn.

Technoleg:

4J.b.7: Datblygu cynnig ar gyfer system gwybodaeth cleifion a fydd yn galluogi olrhain cleifion fasgwlaidd trwy gydol eu llwybr, nodi rhwystrau a sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei gyflymu pan fo angen hynny.

Profiad Cleifion:

4J.b.8: Cydweithio â phartneriaid cyflawni (e.e., Gofal yr Henoed (COTE), strôc, gofal lliniarol, seicoleg, rheoli poen, microbioleg) i gryfhau a meithrin cyfleoedd i ddatblygu cynigion ar gyfer dull tîm aml-ddisgyblaethol o amgylch y claf sy'n ehangach ac yn fwy integredig, er mwyn sicrhau bod holl anghenion y claf yn cael eu diwallu.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Datblygu a chytuno ar gynllun strategol integredig ar gyfer y gweithlu i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw sy'n wynebu'r gwasanaeth a chynnal ymgyrch recriwtio gadarn i wella cyfraddau swyddi gwag a lleihau gwariant ar staff asiantaethau.

Gweithredu amrywiaeth o gamau gwella i geisio cryfhau arweinyddiaeth, hyfforddiant ac addysg yn y gwasanaeth er mwyn cynorthwyo â datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu presennol.

Datblygu a gweithredu cynllun clir i alluogi meddygon preswyl gradd hyfforddiant ffurfiol i ddychwelyd i'r gwasanaeth.

Cryfhau'r cysylltiadau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn rheoli cyflyrau fasgwlaidd yn well yn y gymuned a gwella iechyd fasgwlaidd poblogaeth Gogledd Cymru.

4J.c: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Dermatoleg

Trosolwg

Fel un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros weld meddyg teulu, gall clefydau'r croen (gan gynnwys ewinedd a gwallt) amrywio o ran difrifoldeb ac mae oddeutu hanner yr holl ganserau yn y DU yn ganserau'r croen. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth Gofal Eilaidd yn bennaf yn ymwneud â Chanserau a Amheuir, ynghyd â gweithgarwch brys ac arferol ynghylch cyflyrau croen cronig, sy'n aml yn gofyn am ragnodi meddyginiaethau cymhleth. Mae cynnydd sylweddol wedi'i nodi yn nifer y cyfeiriadau ynghylch canser y croen dros y 10 mlynedd ddiwethaf yn sgil addysg ar gyfer cleifion ac ymwybyddiaeth yn y gymdeithas. Mae nifer o bractisau ym maes Gofal Sylfaenol yn elwa o fod â Meddygon Teulu sydd â Diddordeb Arbenigol ym maes Dermatoleg, sy'n galluogi trin briwiau nad ydynt yn ganseraidd mewn lleoliad gofal sylfaenol, gan leihau'r galw cyffredinol am wasanaethau Gofal Eilaidd.

Ar hyn o bryd, mae maes dermatoleg yn wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu, yn benodol mewn perthynas ag Uwch Glinigwyr Meddygol yng Nghymuned Iechyd Integredig y Gorllewin. Mae anallu i recriwtio i lenwi swyddi yn yr Uwch Weithlu Meddygol wedi cyfrannu at arosiadau hir cyn i gleifion gael eu gweld mewn adrannau cleifion allanol ynghylch achosion brys o ganser a amheuir, cyflyrau croen sydd angen sylw brys a chyflyrau croen arferol. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati i weithredu Teledermosgopi â dull wedi'i dargedu tuag at friwiau canser a amheuir sy'n gofyn am sylw brys. Y nod yw gwella a lleihau hyd y daith yn llwybr y claf ac ailgyfeirio cleifion pan fo angen hynny i allu parhau â'u triniaeth e.e., Llawfeddygaeth Gosmetig / Llawfeddygaeth y Geg a'r Wyneb a'r Ên / Gofal Sylfaenol. Mae Dermatoleg yn darparu gwasanaethau is-arbenigol mewn Profion Clytiau, Ffototherapi (unedau trin cleifion ledled Gogledd Cymru yn y Gymuned Iechyd Integredig), Gwasanaeth Wigiau, Dermatoleg Pediatrig, Gwasanaeth Nyrs Arbenigol Canser y Croen..

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Y Gweithlu:

4J.c.1. Gweithredu Cynllunio Gweithlu strategol a gweithredol i fynd ati'n systematig i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio capasiti a galw'r gweithlu. Nodi bylchau allweddol a datblygu strategaethau recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu wedi'u targedu, gan gynnwys defnyddio rolau amgen a rolau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cynnal gweithlu sy'n fedrus iawn, yn hyblyg, ac wedi'i staffio'n briodol. Mae'r dull hwn yn cynorthwyo i gyflawni amcanion strategol a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

4J.c.2. Cynllunio swyddi i adlewyrchu'n briodol yr holl ddyletswyddau a gyflawnir er mwyn deall capasiti'r gweithlu yn well a'i baru ag anghenion cleifion

Ansawdd / safon / arfer / trefn:

4J.c.3. Sefydlu Llwybrau Iechyd Cymunedol dermatoleg i gynorthwyo â phrosesau rheoli cyfeiriadau effeithiol, gan leihau nifer y cyfeiriadau at wasanaethau eilaidd trwy adnoddau sy'n seiliedig ar wybodaeth well ym maes Gofal Sylfaenol i ddarparu rhywfaint o wasanaethau Dermatoleg.

Capasiti ychwanegol:

4J.c.4. Sicrhau bod y capasiti i ymgymryd â Mân Lawdriniaethau (MOPs) yn cael ei optimeiddio o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael, i gynorthwyo i ehangu Teledermosgopi h.y., darparu gwasanaethau dermatoleg o bell, gan ddefnyddio technoleg.

4J.c.5. Cynyddu cymorth gan feddygon ymgynghorol pan fo adnoddau'n caniatáu i alluogi maes gofal sylfaenol i gynorthwyo â gweithio integredig a rolau estynedig, gan gynnig cyfleoedd addysgol i wella gwybodaeth a hyder ynghylch cyflyrau croen, a wnaiff sicrhau llai o gyfeiriadau at wasanaethau gofal eilaidd gan leihau'r galw ar y gwasanaeth a chwtogi amseroedd aros i gleifion.

4J.c.6. Agor cyfleuster Cei Connah i sicrhau mwy o le i gynnal clinigau a llawdriniaethau gan gynnwys clinigau trin gorchuddion. Yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael, bydd cyfleuster Cei Connah yn rhyddhau 10 sesiwn Mân Lawdriniaethau bob wythnos, ynghyd â chyfle i gynnal sesiynau un stop..

Technoleg:

4J.c.7. Cyflwyno gwasanaeth Teledermosgopi ledled Cymuned Iechyd Integredig y Gorllewin IHC i fwyafu'r buddion ledled BIPBC

4J.c.8. Optimeiddio prosesau cyfeirio a brysbennu i gynorthwyo i sefydlu e-gyfeirio (Porth Gweinyddol Cymru)

4J.c.9. Datblygu achosion busnes i gyfiawnhau atebion technolegol i leihau nifer yr apwyntiadau dilynol, nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu canslo'n hwyr a nifer y cleifion sydd ddim yn dod i'w hapwyntiadau (DNAs).

Profiad Cleifion:

4J.c.10. Gweithredu ar sail y dirnadaethau a geir gan gleifion yn y gwasanaeth dermatoleg, gan wella profiad cleifion, er enghraifft, darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion pan fo hynny'n bosibl, trwy weithio integredig a datblygu llwybrau gofal ar y cyd â maes gofal sylfaenol.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Gan adeiladu ar gam cychwynnol cynllunio gwasanaethau clinigol yn 2025/26 a gweithio yn unol â'r fframwaith a bennwyd yn Strategaeth 10 Mlynedd newydd y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2026-28, cynllunnir gwasanaethau clinigol ar lefel ranbarthol yn ogystal â datrys materion mwy cymhleth yn ymwneud â threfniadau gwasanaethau.
- Sefydlu model cynaliadwy ynghylch darparu gwasanaethau ar y lefel ranbarthol.

4J.d: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Llawfeddygaeth Gosmetig

Trosolwg

Mae'r gwasanaeth Llawfeddygaeth Gosmetig yn wasanaeth gofal eilaidd sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd (JCC) ac yn cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth GIG Mersi a Gorllewin Swydd Caerhirfryn (MWL). Bydd y gwasanaeth yn cael cyfeiriadau gan arbenigeddau gofal eilaidd eraill ac yn gweithio gan gydweithredu â disgyblaethau eraill megis trin tiwmorau croen, felly mae sicrhau cyfatebiaeth a thebygrwydd â gwasanaethau a meddygon ymgynghorol eraill, gan gynnwys Dermatoleg, Clust, Trwyn a Gwddf, yr Wyneb a'r Ên ac oncoleg, yn hanfodol. Er ei fod yn wasanaeth a gomisiynir, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu manau ble gall staff sy'n ymweld weld cleifion ac mae gwasanaethau cyfyngedig yn cael eu rhedeg o bob Cymuned Iechyd Integredig.

Nodwyd bod y gwasanaeth yn destun pryder o safbwynt clinigol oherwydd anghydraddoldeb o ran mynediad, diffyg apwyntiadau prydlon, problemau capasiti lleol a seilwaith a chymorth gweithredol gwael. Dylai trefniadau comisiynu newid yn 2025 a bydd hynny'n cynnig cyfle i BIPBC adolygu a newid model presennol y gwasanaeth, os bydd hynny'n ymarferol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Ansawdd / safon / arfer / trefn

- 4J.d.1: Adolygu trefniadau comisiynu pan fyddant yn newid yn 2025 (nid yw'r union ddyddiad wedi'i gadarnhau eto) - mae'n bwysig nodi y bydd darparwyr yn parhau â'r gwasanaeth allgymorth beth bynnag fo'r trefniadau comisiynu.
- 4J.d.2: Trosglwyddo dyletswyddau rheoli rhestrau aros i MWL yn dilyn y trothwy y cytunwyd arno oherwydd mae gwybodaeth gyfyngedig am y galw a'r capasiti yn cael ei chadw ar hyn o bryd gan BIPBC (mae rhestrau aros y Canol a'r Gorllewin yn dal i gael eu cadw gan BIPBC er mai MWL sy'n darparu'r gwasanaeth).

Capasiti ychwanegol:

- 4J.d.3: Datblygu'r cynnig i agor cyfleuster Cei Connah fel cyfleuster ar y cyd â dermatoleg i sicrhau mwy o le a chapasiti ar gyfer clinigau a llawdriniaethau, gan gynnwys clinigau gorchuddion.
- 4J.d.4: Ystyried opsiynau ar gyfer rhagor o gapasiti allgymorth ledled Gogledd Cymru i gynyddu mynediad ledled y rhanbarth oherwydd bydd cyfleuster Cei Connah yn cynnig capasiti i gleifion yng Nghymunedau Iechyd Integredig y Dwyrain a'r Canol yn unig.
- 4J.d.5: Adolygu cyfleoedd i gynyddu defnydd o theatrau mewn cyfleusterau presennol yng Nghymunedau Iechyd Integredig y Dwyrain a'r Gorllewin

Technoleg:

- 4J.d.6: Creu achos busnes i gyfiawnhau ehangu 'Fy Nghofnod Meddygol' i reoli cleifion canser y croen sy'n cael apwyntiadau dilynol. Mae Fy Nghofnod Meddygol yn rhoi mynediad i gofnod iechyd ar-lein y claf ac mae'n cynnwys gwybodaeth a reolir ar y cyd rhwng y claf a'r gwasanaeth.

Profiad Cleifion:

- 4J.d.7: Gweithredu ar sail y dirnadaethau a geir gan gleifion, gan wella profiad cleifion, er enghraifft, darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion pan fo hynny'n bosibl, trwy weithio integredig a datblygu llwybrau gofal ar y cyd â maes gofal sylfaenol.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Gan adeiladu ar gam cychwynnol cynllunio gwasanaethau clinigol yn 2025/26 a gweithio yn unol â'r fframwaith a bennwyd yn Strategaeth 10 Mlynedd newydd y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2026-28, cynllunnir gwasanaethau clinigol ar lefel ranbarthol yn ogystal â datrys materion mwy cymhleth yn

ymwneud â threfniadau gwasanaethau (er enghraifft, newidiadau i'r trefniadau comisiynu presennol a chyfleoedd a ddaw yn sgil hynny yn ymwneud â seilwaith gwasanaethau a'u darparu).

4J.e: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Oncoleg

Trosolwg

Mae'r gwasanaeth Oncoleg yn darparu gofal a thriniaeth yn y 3 ysbyty aciwt ac mae'r brif ganolfan yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru (NWCTC) sydd wedi'i lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC). Mae oncoleg yn golygu dulliau nad ydynt yn llawfeddygol i drin canser gan ddefnyddio radiotherapi a Thriniaethau Gwrth-ganser Systemig (SACT) e.e. cemotherapi, therapïau wedi'u targedu, cyfryngau newydd ac imiwnotherapi. Mae'r gwasanaeth yn y Bwrdd Iechyd yn rheoli triniaethau cleifion sydd wedi cael diagnosis yn cadarnhau tiwmor solet (o blith 11 safle tiwmor), gan gyfeirio cleifion â chanserau prin a/neu gymhleth at Ganolfan Ganser Clatterbridge, Ysbyty Christie neu eraill yn ôl yr angen. Mae effaith prinder gweithlu, yn enwedig yn y gweithlu meddygol, galw a chymhlethdod cynyddol, a dibyniaeth ar gyllid anghylchol (sicrhawyd y cyllid hwn yn gylchol ar 25/02/2025) wedi effeithio'n sylweddol ar allu'r gwasanaeth i gynnig mynediad prydlon at wasanaethau oncoleg a datblygu cynlluniau'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Y Gweithlu:

- 4J.e.1: Cynyddu nifer yr oncolegwyr ymgynghorol parhaol yn dibynnu ar lefelau'r cyllid sydd ar gael; sicrhau mwy o barhad o ran gofal (yn lle meddygon locwm dros dro)
- 4J.e.2: Recriwtio i lenwi rolau aml-broffesiynol parhaol cymeradwy ledled meysydd oncoleg (nyrsio, gweithredol a fferyllfa) i ddiwallu'r galw cyfredol a gwella darpariaeth gwasanaethau a diogelwch cleifion yn dilyn cymeradwyaeth i gyllid rheolaidd.

Ansawdd / safon / arfer / trefn:

- 4J.e.3: Datblygu strategaeth gwasanaeth gwbl integredig i gynorthwyo â galw ac arloesedd yn y dyfodol
- 4J.e.4: Cwblhau achos busnes i gyfiawnhau prynu 2 gyflymydd llinol yn lle peiriannau sy'n dod i ddiwedd eu hoes waith ddiogel. Mae cyllid wedi'i sicrhau trwy Lywodraeth Cymru, a bydd ailosod yn sicrhau llai o amser segur peiriannau sy'n effeithio ar y gallu i ddarparu triniaethau i gleifion. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r adran brynu peiriannau sydd â'r datblygiadau diweddaraf a allai sicrhau mynediad gwell a/neu fwy o gapasiti.
- 4J.e.5: Sefydlu gwasanaeth SABR (Radiotherapi Abladol Stereotactig) - math o radiotherapi wedi'i dargedu'n fanwl sy'n targedu tiwmorau â phelydrau ymbelydredd o wahanol onglau - yng Ngogledd Cymru, gan ddechrau trwy drin canserau'r ysgyfaint. Yn dibynnu ar flaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael, byddai angen nifer lai o driniaethau i ddarparu dull hwn (gan sicrhau'r nifer leiaf posibl o sgil effeithiau) nag yn achos radiotherapi confensiynol.

Technoleg:

- 4J.e.6: Ymgysylltu â gweithredu'r Cofnod Iechyd Electronig (EHR); mae'n elfen hanfodol ar gyfer Oncoleg oherwydd mae cofnodion oncoleg ar hyn o bryd yn cael eu storio mewn cofnodion oncoleg pwrpasol ac nid ydynt yn weladwy i'r gwasanaethau ehangach drwy brif nodiadau'r claf, gan beryglu diogelwch cleifion pan gaiff cleifion eu derbyn/eu gweld mewn mannau eraill yn y Bwrdd ac ni fydd y clinigwr yn gallu gweld cofnodion clinigol cyfoes

4J.e.8: Cyfrannu at waith i ddatblygu un contract yng Nghymru ar gyfer meddalwedd Chemocare i safoni'r system ledled Cymru er mwyn ceisio leihau costau contractau/gwasanaethau a sicrhau bod data yn gyffelyb.

Profiad Cleifion:

4J.e.9: Gweithredu ar sail y dirnadaethau a geir, gan wella profiad cleifion, er enghraifft, darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion pan fo'n ymarferol.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Gan adeiladu ar gam cychwynnol cynllunio gwasanaethau clinigol yn 2025/26 a gweithio yn unol â'r fframwaith a bennwyd yn Strategaeth 10 Mlynedd newydd y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2026-28, cynllunnir gwasanaethau clinigol ar lefel ranbarthol yn ogystal â datrys materion mwy cymhleth yn ymwneud â threfniadau gwasanaethau.
- Cyflawni Strategaeth y Gwasanaeth Oncoleg

4J.f: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Offthalmoleg

Trosolwg

Darperir y gwasanaethau Offthalmoleg ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gofal brys yn y tair Cymuned Iechyd Integredig: dau yn y safleoedd aciwt yn y Dwyrain a'r Gorllewin a'r trydydd yn Ysbyty Cymuned Abergele (y Canol). Darperir gwasanaethau allgymorth mewn ysbytai cymunedol yng Nghymunedau Iechyd Integredig y Dwyrain a Chanol. Comisiynir gofal Trydyddol ac Arbenigol gan wasanaethau yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Ar draws y rhanbarth, mae 70 o Optegwyr Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru sy'n fusnesau preifat ac achrededig yn darparu profion llygaid, gofal llygaid priodol i drin cyflyrau aciwt a gwasanaethau i gyfeirio cleifion at wasanaethau gofal llygaid mewn ysbytai pan fo hynny'n ofynnol. Darperir llwybrau cytunedig yn lleol trwy bartneriaeth â nifer o bractisau, a hefyd, mae Optometryddion yn darparu ystod estynedig o wasanaethau a gâi eu rheoli gan wasanaethau llygaid ysbytai yn flaenorol.

Mae galw sylweddol a ragwelir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol (yn seiliedig ar boblogaeth sy'n heneiddio yng Ngogledd Cymru a'r cyflyrau llygaid hynny sy'n gysylltiedig ag oedran hŷn) am wasanaethau offthalmig a'u his-arbenigeddau (yn enwedig ar gyfer is-arbenigeddau cataractau a glawcoma sydd â nifer fawr o gleifion), ac mae gwasanaethau gofal llygaid yn cael trafferth eu bodloni. Ceir adnoddau ariannol cyfyngedig, bylchau yn y gweithlu a chyfleusterau sy'n heneiddio sy'n wynebu mwy o straen yn sgil cynnydd mewn amseroedd aros wedi'r pandemig gan achosi ôl-groniad sylweddol. Mae oedi o ran gofal a thriniaethau dilynol yn golygu bod cleifion mewn mwy o berygl o brofi niwed yn sgil y golwg yn gwaethygu a cholli golwg, a dyna pam mae hyn yn flaenoriaeth allweddol o ran yr agweddau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd eu gwella.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Y Gweithlu:

- 4J.f.1: Recriwtio i lenwi rolau arweinwyr cymorth busnes clinigol (meddygol ac optometreg) a gweithredol rhanbarthol a ariennir i ysgogi darparu gwasanaethau a gwelliannau iddynt.
- 4J.f.2: Gweithredu Cynllunio Gweithlu strategol a gweithredol i fynd ati'n systematig i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio capasiti a galw'r gweithlu. Nodi bylchau allweddol a datblygu strategaethau recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu wedi'u targedu, gan gynnwys defnyddio rolau amgen a rolau

sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cynnal gweithlu sy'n fedrus iawn, yn hyblyg, ac wedi'i staffio'n briodol. Mae'r dull hwn yn cynorthwyo i gyflawni amcanion strategol a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

Ansawdd / safon / arfer / trefn:

- 4J.f.3: Optimeiddio i lwybrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth NICE/GIRFT ar gyfer pob is-arbenigedd offthalmoleg, a ddarperir trwy rwydweithiau is-arbenigeddau ledled BIPBC.
- 4J.f.4: Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ehangu llwybrau gofal integredig rhanbarthol cytunedig yn lleol (glawcoma a retinopathi) ar y cyd ag Optometryddion cymunedol. Datblygu cyfleoedd i alluogi WGOS (Gwasanaethau Optometreg Llywodraeth Cymru) (gweithlu estynedig) i sicrhau cydraddoldeb wrth ddarparu gofal a thriniaethau a lleihau'r galw ledled y rhanbarth
- 4J.f.5: Cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn llwybr y gwasanaeth cataractau i wella mynediad prydlon drwy: Wella proses y Clinig Asesu Cyn Llawdriniaethau (POAC), rhestru uniongyrchol, cynyddu'r defnydd o theatrau (gan gynnwys Ymyriadau Niferus Llai Cymhleth (HVLC) a Mân Lawdriniaethau (MOPs), a monitro apwyntiadau a gaiff eu canslo gan Ysbytai ac apwyntiadau na fydd cleifion yn eu mynychu i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r capasiti a'r adnoddau sydd ar gael.
- 4J.f.6: Cynnal adolygiad o ystadau i nodi heriau a risgiau (adeiladau sy'n heneiddio, seilwaith bregus a phroblemau mynediad) a datblygu cynigion ar gyfer rhagor o gyfleoedd yn ymwneud ag ystadau ac unedau modiwlaid mewn lleoliadau cymunedol i atal colli'r capasiti sydd ar gael ar gyfer gofal a thriniaethau a darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion.
- 4J.f.7: Sicrhau gwelliannau o ran ansawdd data.

Capasiti ychwanegol:

- 4J.f.8: Datblygu achos busnes i gyfiawnhau canolfan ganolog i drin cataractau a chanolfan gwasanaethau cymhleth ganolog i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau rhanbarthol (un o ragbenderfynyddion darparu'n rhanbarthol 'mynd yn fyw' fyddai gweithredu EPR offthalmoleg ar y lefel genedlaethol)
- 4J.f.9: Cyflwyno Sylw yn Ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) yn ddiofyn, i sicrhau y darperir gwasanaethau cleifion allanol yn effeithiol, gan rymuso cleifion i reoli eu sefyllfa trwy gynnig y dewis a'r hyblygrwydd iddynt ynghylch pryd y byddant yn cael gofal a thriniaethau.
- 4J.f.10: Ymgymryd â modelu galw a chapasiti i bennu amseroedd aros nifer y cleifion a'r ôl-groniad apwyntiadau ar gyfer pob is-arbenigedd, gan gynnwys ble mae adnoddau'n caniatáu recriwtio Dilyswyr Gofal Llygaid.

Technoleg:

- 4J.f.11: Sicrhau defnydd cyson ledled Gogledd Cymru o atebion digidol dros dro (e-gyfeirio a Consultant Connect) i wella'r broses gyfeirio a lleihau oedi rhwng cyfeirio a thriniaeth, wrth aros am sefydlu'r system genedlaethol.

Profiad Cleifion:

- 4J.f.12: Gweithredu ar sail y dirnadaethau a geir yn y broses Adolygu Niwed bresennol, gan gyflawni gwelliannau ym mhrofiad cleifion trwy gyfeiriadau uniongyrchol ac ehangu llwybrau amgen yn y gymuned

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Gan adeiladu ar gam cychwynnol cynllunio gwasanaethau clinigol yn 2025/26 a gweithio yn unol â'r fframwaith a bennwyd yn Strategaeth 10 Mlynedd newydd y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2026-28, cynllunnir gwasanaethau clinigol ar lefel ranbarthol yn ogystal â datrys materion mwy cymhleth yn ymwneud â threfniadau gwasanaethau.

- Sefydlu model cynaliadwy ynghylch darparu gwasanaethau ar y lefel ranbarthol

4J.g: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Orthodoxteg

Trosolwg

Mae'r gwasanaeth Orthodoxteg, ynghyd â llawdriniaethau'r ên a'r wyneb a deintyddiaeth adferol, yn darparu gofal a thriniaeth o dan wasanaeth mantell y Pen a'r Gwddf. Orthodoxteg, fel rhan o wasanaeth y Pen a'r Gwddf, yw'r arbenigedd deintyddol sy'n ymwneud â thwf y wyneb, datblygiad y dannedd a diagnosis camgymheiriaid ac anffurfiadau'r wyneb. Mae'r driniaeth yn cynnwys offer a thriniaeth ar gyfer cyflyrau cymhleth a llawdriniaeth gywirol. Darperir gwasanaethau orthodoxteg gan nifer fechan o orthodontyddion sy'n gweithio yn y tair Cymuned Iechyd Integredig. Gan adlewyrchu'r sefyllfa ar y lefel genedlaethol, ceir prinder a bylchau yn y gweithlu ledled maes orthodoxteg â diffyg capasiti gan orthodontyddion ymgynghorol i ddarparu gwasanaeth effeithiol a phrydlon, a heriau o ran sicrhau capasiti ychwanegol. Mae'r galw sydd wedi cronni yn fwy na'r capasiti ym meysydd gofal eilaidd a gofal sylfaenol, ac mae hynny'n effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnig mynediad prydlon at ofal a thriniaeth.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Y Gweithlu:

- 4J.g.1: Cydgrynhoi'r gwasanaethau Orthodoxteg a Llawfeddygaeth yr Ên a'r Wyneb (OFMS) i ddod yn un gwasanaeth wedi'i rwydweithio ag un rheolwr gweithredol a chyllideb yn gweithio yn y tair cymuned iechyd integredig
- 4J.g.2: Cynorthwyo i recriwtio i lenwi swyddi gwag orthodontyddion ymgynghorol a ariennir a gweithredu adolygiad Cynllunio Gweithlu strategol a gweithredol i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio capasiti a galw'r gweithlu yn systematig. Nodi bylchau allweddol a datblygu strategaethau recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu wedi'u targedu, gan gynnwys defnyddio rolau amgen a rolau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cynnal gweithlu sy'n fedrus iawn, yn hyblyg, ac wedi'i staffio'n briodol. Mae'r dull hwn yn cynorthwyo i gyflawni amcanion strategol a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

Ansawdd / safon / arfer / trefn:

- 4J.g.3: Creu a chyflwyno cynllun gwella, gweithredu a monitro argymhellion GIRFT yn unol â'r cymorth a geir gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon (Cyfadran Deintyddiaeth) a Chymdeithas Orthodoxteg Prydain.

Capasiti ychwanegol:

- 4J.g.4: Cyflwyno Sylw yn Ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) yn ddiodyn, i sicrhau y darperir gwasanaethau cleifion allanol yn effeithiol, gan rymuso cleifion i reoli eu sefyllfa trwy gynnig y dewis a'r hyblygrwydd iddynt ynghylch pryd y byddant yn cael gofal a thriniaethau.
- 4J.g.5: Cyflawni gwelliannau o ran cyfraddau llawdriniaethau achosion dydd a gwelyau wedi'u neilltuo
- 4J.g.6: Gwella defnydd effeithiol o gapasiti theatrau, gan optimeiddio'r weithdrefn briodol yn y lle priodol i leihau defnydd diangen o theatrau
- 4J.g.7: Adolygu dulliau rheoli a dilysu rhestrau aros, i gynorthwyo i flaenoriaethu cleifion newydd, y sawl sy'n aros yn hirach na neb a'r rhai y mae arnynt angen llawdriniaeth ar y geg fel rhan o'u llwybr gofal. Monitro cyfraddau DNA/CNA.

Profiad Cleifion:

4J.g.8: Adolygu a gweithredu'n ddoeth wrth gyflwyno gwelliannau i brofiad cleifion ar sail dirnadaethau a gafwyd hyd yn hyn, er enghraifft, mynediad at ofal ac adolygiad y CICC o niwed i blant sy'n aros am apwyntiadau a thriniaethau.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Gan adeiladu ar gam cychwynol cynllunio gwasanaethau clinigol yn 2025/26 a gweithio yn unol â'r fframwaith a bennwyd yn Strategaeth 10 Mlynedd newydd y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2026-28, cynllunnir gwasanaethau clinigol ar lefel ranbarthol yn ogystal â datrys materion mwy cymhleth yn ymwneud â threfniadau gwasanaethau.
- Sefydlu model cynaliadwy ynghylch darparu gwasanaethau ar y lefel ranbarthol

4J.h: Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau: Trawma and Orthopedeg

Trosolwg

Mae'r gwasanaeth Trawma ac Orthopedig yn wasanaeth rhwydwaith yn y Bwrdd Iechyd sy'n gweithredu'n annibynnol ym mhob Cymuned Iechyd Integredig, ac mae gan bob un ystod benodol o wasanaethau dewisol a thrawma. Ers 2023, mae'r tair IHC wedi bod yn cydweithio i ddefnyddio Ysbyty Abergele fel canolfan cymalffurfiadau'r rhwydwaith. Mae hyn yn cynnwys pob IHC yn pennu gweithgarwch i drin cleifion i Abergele i ddarparu capasiti wedi'i glustnodi ar safle triniaethau dewisol i gynnal cymalffurfiadau cluniau/pen-gliniau.

Mae gan bob Cymuned Iechyd Integredig yr un ystod o is-arbenigeddau a chaiff llawdriniaethau asgwrn y cefn a rhai triniaethau arbenigol iawn eu hallanoli i ganolfannau trydyddol. Mae'r heriau cyfredol yn cynnwys cleifion yn gorfod aros yn hir, yn enwedig am cymalffurfiadau cluniau/pen-gliniau, ac effeithir ar hynny gan gyfyngiadau safle Ysbyty Abergele (sy'n heneiddio) a gofal heb ei drefnu sy'n arwain at golli gwelyau dewisol yn anrhagweladwy ym mhob un o'r Cymunedau Iechyd Integredig. Mae'n debyg mai'r boblogaeth sy'n heneiddio a ragwelir yng Ngogledd Cymru fydd yn effeithio fwyaf ar yr angen am wasanaethau iechyd ledled y Bwrdd Iechyd, yn enwedig Gwasanaethau Orthopedig. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu uned orthopedig newydd yn ysbyty Llandudno (sy'n cynnwys dwy theatr lawdriniaeth a gwelyau wedi'u neilltuo) a bydd hynny'n lliniaru'r heriau yn ymwneud â safle Abergele ac yn darparu model orthopedig cynaliadwy at y dyfodol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Y Gweithlu:

- 4J.h.1: Cydweithio ag arweinydd clinigol y gwasanaethau orthopedig i sicrhau cynllunio swyddi effeithiol safonedig a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar is-arbenigeddau yng Ngogledd Cymru, er mwyn galluogi gostyngiad o ran amrywio clinigol diangen.
- 4J.h.2: Mynd i'r afael â phrinder gweithlu drwy recriwtio cymeradwy a gwella sgiliau'r gweithlu anfeddygol presennol dan arweiniad arweinydd clinigol effeithiol ledled BIPBC ac yn y Cymunedau Iechyd Integredig.

Ansawdd / safon / arfer / trefn:

- 4J.h.3: Lleihau amrywio clinigol diangen i gynyddu cynhyrchiant a gwella canlyniadau cleifion trwy resymoli impiadau, gwella cydweithio ymhlith timau amlddisgyblaethol, cynllunio swyddi, rota gwasanaethau trawma a mapio galw/capasiti, a mwy o ddefnydd o lwybrau SOS, PIFU a PROMs.

- 4J.h.4: Datblygu a glynu wrth ganllawiau BMI ynghylch llawdriniaethau i gynyddu cyfraddau trosi >70%. Bydd hyn yn golygu y bydd rhai cleifion yn cyfranogi yn y rhaglen rheoli ffordd o fyw i leihau eu BMI er bod yn fwy addas i gael llawdriniaeth ac felly gwella eu canlyniadau ar ôl eu llawdriniaeth.
- 4J.h.5: Gwella ansawdd data ar lefel is-arbenigeddau drwy arferion codio mwy effeithiol, a thrwy hynny, caniatáu dirnadaeth well o'r anawsterau sylfaenol, ac yn sgil hynny, gwybod ble ddylid gweithredu gwelliannau.
- 4J.h.6: Gweithredu llwybrau penodol i gyflyrau ar gyfer Syndrom Twannel y Carpws a chymalffurfiadau Cluniau/Pen-gliniau trwy gydweithio â'r rhwydwaith gweithredu clinigol cenedlaethol a grwpiau is-arbenigeddau priodol. Bydd hyn yn lleihau amrywio diangen o ran arferion clinigol ac yn cynnig yr un cyfleoedd i gleifion ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Capasiti ychwanegol:

- 4J.h.7: Adolygu'r trefniadau allanol a chomisiynu allanol cyfredol, a thrwy fapio galw a chapasiti, datblygu cynnig i ystyried dichonolrwydd gweithgarwch i ddychwelyd gwasanaethau i'r Bwrdd Iechyd, gan ddarparu gofal i gleifion yn nes at eu cartrefi.
- 4J.h.8: Llunio cynnig i gynyddu gweithgarwch trin cleifion yn Ysbyty Abergele drwy ehangu meini prawf presennol Ysbyty Abergele a/neu fuddsoddi mewn adnoddau ar gyfer adferiad gwell wedi llawdriniaethau ar y safle. Profi'r cysylltiad rhwng optimeiddio defnydd o theatrau a gwella cyfraddau trin yn eu tro.
- 4J.h.9: Gweithredu defnydd cyson o lwybrau Sylw yn Ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) ledled Gogledd Cymru. Bydd hyn yn lleihau'r angen am apwyntiadau dilynol traddodiadol wyneb yn wyneb, gan greu capasiti ar gyfer gleifion y mae angen eu gweld.

Profiad Cleifion:

- 4J.h.10: Defnyddio data ynghylch profiad cleifion i wella gofal i gleifion â blaengareddau megis darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion a chael diagnosis a thriniaethau yn fwy prydlon.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Gan adeiladu ar gam cychwynnol cynllunio gwasanaethau clinigol yn 2025/26 a gweithio yn unol â'r fframwaith a bennwyd yn Strategaeth 10 Mlynedd newydd y Bwrdd Iechyd, yn ystod 2026-28, cynllunnir gwasanaethau clinigol ar lefel ranbarthol yn ogystal â datrys materion mwy cymhleth yn ymwneud â threfniadau gwasanaethau.
- Cyflwyno model cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau rhanbarthol ar lefel is-arbenigeddau, gan gynnwys ystyried dychwelyd cleifion sy'n cael triniaethau nad ydynt yn gymhleth a thriniaethau cymhleth priodol i BIPBC.

4K: Gwasanaethau Merched

Sylwer bod templedi Blaenoriaeth 5 y Gweinidog – Iechyd Merched (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn.

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Iechyd Merched:

- Sefydlu un Canolfan Iechyd Merched ym mhob un o ardaloedd y Bwrdd Iechyd erbyn Mawrth 2026 (yn unol â gofynion y Cynllun Iechyd Merched).

Trosolwg

Darperir Gwasanaethau i Ferched mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth ac mewn lleoliadau Gofal Cymunedol a Gofal Sylfaenol. Mae'r gwasanaethau'n cael eu goruchwyllo'n rhanbarthol gan y Bwrdd Iechyd a cheir cydweithredu agos ag Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dal i adeiladu ar sylfeini ei lwyddiannau ac yn darparu Gwasanaethau Mamolaeth, Bydwreigiaeth a Gynaecoleg teg ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru yn ogystal â charfan o ferched o Ogledd-ddwyrain Powys a Gororau Swydd Amwythig.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella canlyniadau iechyd i ferched a'u teuluoedd yn unol â gofynion cynlluniau canlynol Llywodraeth Cymru:

Cynllun Iechyd Menywod 10 Mlynedd Cymru (2025-2035)

Datganiad Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddanedig (2025)

Fframwaith Ymgysylltu Amenedigol Cymru Gyfan (2025)

Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol 10 Mlynedd (AaGIC, 2025)

Ceir ymrwymiad i wrando a gweithredu mewn ymateb i brofiad defnyddwyr, a ffocws parhaus ar drawsnewid Gwasanaethau Mamolaeth a Gynaecoleg ac Arbenigol i adlewyrchu gofynion Strategaethau Cenedlaethol a Chynorthwyo i sicrhau'r Dechrau Gorau trwy gydweithio.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4K.1 - Cynorthwyo i sefydlu Canolfan Iechyd Merched yn lleol erbyn mis Mawrth 2026 fel un o Flaenoriaethau'r Gweinidog; yn dibynnu ar flaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael. Bydd egwyddorion y gwaith hwn yn canolbwyntio ar flaengaredd iechyd merched sy'n seiliedig ar atal, hygyrchedd gwybodaeth a gwasanaethau sy'n cynnig gofal mor agos â phosibl i gartrefi merched.
- 4K.2 - Arwain gwaith i adfer Gwasanaethau Canser Gynaecoleg a Gofal Wedi'i Gynllunio yn unol ag argymhellion GIRFT a Thargedau'r Gweinidog.
- 4K.3 - Datblygu achosion busnes i sicrhau Orlheinwyr Llwybrau Canser a Gofal Wedi'i Gynllunio a System Un Pwynt Mynediad ar gyfer cyfeiriadau at Wasanaethau Gynaecoleg i gynorthwyo i adfer ac ailgynllunio llwybrau.
- 4K.4 - Cefnogi i weithredu'r Strategaeth Cyn Beichiogi gan gynnwys blaengareddau ym maes iechyd merched sy'n seiliedig ar waith atal.
- 4K.5 - Datblygu cynllun mesuradwy i alluogi cyflawni'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth a'r Newyddanedig, gan flaenoriaethu'r 7 cam gweithredu allweddol sy'n cyd-fynd â Rhaglen Cynnal Diogelwch MatNeo.
- 4K.6 - Bwrw ymlaen â'r achos busnes i gyfiawnhau gweithredu Datrysiad Mamolaeth Digidol ar gyfer Gwasanaethau.
- 4K.7 - Cydweithio â Gweithrediaeth y GIG i ddatblygu cynllun gweithredu i gyflawni ymrwymadau'r Fframwaith Ymgysylltu Amenedigol.
- 4K.8 - Cydweithio â AaGIC i flaenoriaethu camau gweithredu blwyddyn 1 i sicrhau y cyflawnir cynllun y gweithlu Amenedigol.
- 4K.9 - Datblygu Dangosfwrdd Goruchwylio Ansawdd Gwasanaethau Amenedigol â matrices safonol allweddol sy'n galluogi goruchwyliaeth gan rwydweithiau ac ar y lefel genedlaethol yn unol â chyfeiriad polisi.
- 4K.10 – Bwrw ymlaen â'r achos busnes i gynorthwyo i weithredu tîm gwasanaeth cymorth arbenigol ynghylch bwydo ar y fron a llaetha yn ardaloedd y tair Cymuned Iechyd Integredig er mwyn gwella deilliannau bwydo ar y fron yng Ngogledd Cymru.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

Adeiladu ar flaenoriaethau 25/26 a pharhau i gynorthwyo i gyflawni polisiau canlynol Llywodraeth Cymru ar y lefel leol:

Cynllun Iechyd Menywod 10 Mlynedd Cymru (2025-2035)

Gwasanaethau Mamolaeth a'r Newyddanedig - Datganiad Ansawdd (2025)

Fframwaith Ymgysylltu Amenedigol (2025)

Cynllun Strategol 10 Mlynedd y Gweithlu Amenedigol, AaGIC (2025)

4L: Plant a Phobl Ifanc

Trosolwg

Mae plant o bob oed yn cael gofal a thriniaeth gan lawer o'r gwasanaethau a gynigir ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau arbenigol. Drwy ei Wasanaethau Plant pwrpasol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu Gofal Peditrig a Newyddenedigol Acíwt; gwasanaethau iechyd cyhoeddus cyffredinol megis Ymwelwyr Iechyd a Nyrsio Ysgol; Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a Gwasanaethau Niwroddatblygiadol ac Anabledd Dysgu (gweler 4l.b – CAMHS a Niwroddatblygiadol). Darperir y gwasanaethau hyn mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill gan gynnwys gofal sylfaenol, mamolaeth, therapïau, iechyd y cyhoedd ac arbenigeddau llawfeddygol i oedolion, yn ogystal â phartneriaid yn yr Awdurdodau Lleol a sefydliadau Trydydd Sector. Darperir gofal iechyd arbenigol wedi'i gomisiynu gan bartneriaid gofal trydyddol, sef Ysbyty Plant Alder Hey yn bennaf. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) yn rhoi blaenoriaeth i Blant, gan ganolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau, a phlant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â phobl ag Anableddau Dysgu a chyflyrau Niwroddatblygiadol, gofawyr di-dâl a'r rhai ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl.

Mae anghenion gofal iechyd plant yn wahanol i anghenion oedolion. Mae gan blant gyflyrau gwahanol, maen nhw'n ymateb yn wahanol i afiechyd, ac mae'r cyd-destunau seicolegol a chymdeithasol yn wahanol. Mae cyfran sylweddol o boblogaeth Gogledd Cymru yn blant. Mae 17.2% o'r boblogaeth rhwng 0-17 mlwydd oed a 26.3% rhwng 0 a 24 oed. Bydd y Bwrdd Iechyd, gyda phartneriaid, yn canolbwyntio ar sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu. Bydd yn datblygu siarter plant ac yn mabwysiadu dulliau gwrando ar lais ieuentid er mwyn ymgynghori â phlant a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynllunio gwasanaethau. Bydd hyn yn arwain at ddeall a bodloni anghenion plant yn well, a'u cynorthwyo yn ystod cyfnodau pontio allweddol gan gynnwys symud at ofal sy'n canolbwyntio ar oedolion.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4L.1 - Gwaith ar godi ymwybyddiaeth am y Siarter Plant a'i gweithredu ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 4L.2 - Gweithio i sefydlu dulliau gwrando ar Lais Ieuentid yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal, yr ymgynghori â phlant, a'u bod yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.
- 4L.3 - Bwrw ymlaen â gwaith y Bwrdd Iechyd i lofnodi Siarter Rhianta Corfforaethol Cymru i sicrhau bod plant sydd â phrofiad o ofal yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill.
- 4L.4 - Gwelliannau pellach o ran nifer y plant sy'n cael eu himiwneiddio
- 4L.5 - Datblygu llwybrau pontio
- 4L.6 - Gweithio gyda phartneriaid ar ddull y Drws Cywir i gefnogi plant ag anghenion cymhleth.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Dull Llais Ieuentid sefydledig sy'n weithgar wrth gynnal hawliau plant, yn ogystal ag ymgorffori Siarter Plant PBC ac Addewid Siarter Rhianta Corfforaethol Cymru.

4M: Gwasanaethau Fferyllol

Sylwer bod y templedi Blaenoriaethau Gweinidogol 3 - Meithrin Gallu Cymunedau (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Meithrin Gallu Cymunedau:

- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol ar gyfer mân gyflyrau aciwt a gwasanaethau atal cenhedlu arferol lle mae'r claf yn adrodd y byddai fel arall, wedi ymweld â'i Feddyg Teulu

Trosolwg

Bydd Swyddfa'r Prif Fferylllydd yn arwain ar bum rhaglen drawsnewid sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd canlyniadau i gleifion, datblygu'r gweithlu, sicrhau gwerth a chynaliadwyedd, gwneud y mwyaf o alluogwyr digidol, a meithrin gwydnwch y gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod timau fferylliaeth ac arferion arloesol yn dod yn rhan o'r datrysiad wrth gefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei nodau strategol.

Comisiynwyd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) gan Lywodraeth Cymru i adolygu gwasanaethau fferylliaeth glinigol ysbytai Cymru. Cyhoeddwyd yr ymateb ddiwedd 2023. Roedd yr adolygiad yn asesu sut y mae gwasanaethau presennol fferylliaeth glinigol yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac anghenion esblygol GIG Cymru er mwyn cyflawni Cymru Iachach. Mae camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu i'w rhoi ar waith rhwng 2025 a 2028.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4M.1 - Rhoi'r camau gweithredu a flaenoriaethwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol Ysbytai ar waith ar draws holl leoliadau'r ysbytai (gan gynnwys MHL, Canser, Merched) yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael.
- 4M.2 - Sefydlu adran atal yn rhan o Werth Meddyginiaeth, sy'n manteisio ar ragnodi ar gyfer diabetes a chanlyniadau sy'n Seiliedig ar Werth, gan wneud y mwyaf o arbedion effeithlonrwydd.
- 4M.3 - Datblygu achos busnes i ganoli gwasanaethau Radiofferylliaeth, sy'n cyd-fynd â'r rhaglen meddygaeth niwclear ac sy'n cael ei gefnogi gan dîm cenedlaethol y rhaglen TrAMs.
- 4M.4 - Cwmpasu a phrofi model ar gyfer gwasanaethau fferylliaeth gymunedol a gomisiynir, sy'n canolbwyntio ar reoli cyflyrau hirdymor, gan ddechrau gyda gorbwysedd.
- 4M.5 - Lansio'r garfan MPharm gyntaf ym Mhrifysgol Bangor yn 2025, gan weithio gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) at gyflawni achrediad Cam 4 erbyn y flwyddyn academaidd 2025/26.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Gan adeiladu ar flaenoriaethau 2025/26, bydd 2026-28 yn canolbwyntio ar optimeiddio'r gweithlu fferylliaeth, safoni cyflenwi meddyginiaethau ac ehangu modelau gofal arloesol i wella mynediad a chanlyniadau i gleifion.

4N: Gofal Lliniarol, Gofal Diwedd Oes a Phrofedigaeth

Sylwer bod templedi Blaenoriaethau Gweinidogol 3 - Meithrin Gallu Cymunedau (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn

Camau Galluogi Ysgrifennydd y Cabinet:

Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes:

- Sicrhau bod llwybrau di-dor sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cynllunio gofalus a chydweithio'n agos ar waith rhwng gwasanaethau, ac ar gyfer pontio o wasanaethau pediatrig a phobl ifanc i wasanaethau oedolion.
- Dylai pawb y nodir bod ganddynt anghenion gofal lliniarol gael cyfle a chefnogaeth i drafod eu hanghenion a'u dewisiadau personol o ran gofal diwedd oes, trwy gynllunio Gofal Ymlaen Llaw a Gofal yn y Dyfodol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Dylid cydnabod a chefnogi'r rôl hanfodol sydd gan hosbisau wrth gefnogi byrddau iechyd i ddarparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes.

Profedigaeth:

- Atgyfnerthu'r gwaith o gydgyfylltu profedigaeth a gwella mynediad at bob math o gymorth profedigaeth yn unol ag elfennau gofal mewn profedigaeth NICE.

Trosolwg

Mae Byrddau Iechyd, ynghyd ag Awdurdodau Lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n wynebu salwch sy'n byrhau bywyd, yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau clinigol a'r priodoleddau ansawdd a nodir yn Natganiad Ansawdd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes (PEoLC) Cymru Llywodraeth Cymru (2022). Disgwylir canllawiau gan Raglen PEoLC Genedlaethol Cymru ar Fanyleb Gwasanaeth Cenedlaethol ym mis Ebrill 2025. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i Fyrddau Iechyd a sefydliadau partner ynglŷn â'r gweithlu arbenigol a'r modelau cyflawni. Mae disgwyl hefyd i Fyrddau Iechyd gydweithio ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid i weithredu llwybrau profedigaeth a gyhoeddwyd fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yng Ngogledd Cymru.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 4N.1 - Datblygu Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes.
- 4N.2 - Dechrau gweithredu model SWAN (Arwyddion, Geiriau, Gweithredu ac Anghenion) ar gyfer gofal mewn profedigaeth, i gefnogi ac arwain y gwaith o ofalu am gleifion a'u hanwyliaid yn ystod gofal diwedd oes ac wedi hynny.
- 4N.3 - Datblygu model a chynllun gweithlu i wella PEoLC yn unol â Datganiad Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes.
- 4N.4 - Cwblhau'r Strategaeth Gwella Ansawdd ar gyfer gwneud penderfyniadau Gofal Diwedd Oes. Datblygu arfarniad o opsiynau ac achos busnes i wella PEoLC ar gyfer gwneud penderfyniadau Gofal Diwedd Oes, yn unol â'r Strategaeth Gwella Ansawdd.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Parhau i roi model SWAN ar waith ar gyfer gofal mewn profedigaeth.
- Dechrau gweithredu'r model a chynllun y gweithlu i gyflawni Datganiad Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes (yn amodol ar adnoddau).
- Dechrau gweithredu'r Strategaeth Gwella Ansawdd i wella'r broses o wneud penderfyniadau Diwedd Oes (yn amodol ar adnoddau).

40: Gwasanaethau Deintyddol

Sylwer bod templedi Blaenoriaethau Gweinidogol 3 - Meithrin Gallu Cymunedau (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn

Disgwyliadau Cyflawni Ysgrifennydd y Cabinet

Meithrin Gallu Cymunedau:

- Cynnydd yng nghanran y boblogaeth oedolion/plant sy'n defnyddio gofal Deintyddol y GIG dros gyfnod o 24 (oedolyn) /12 (plentyn) mis.

Trosolwg

Deintyddiaeth Gofal Sylfaenol

Mae Gwasanaeth Deintyddol Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru yn gyfrifol am anghenion gofal sylfaenol iechyd y geg pob claf yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys comisiynu a rheoli contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) y stryd fawr a darparu Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol (CDS).

Mae BIPBC yn cyflogi dros ddau gant o staff yng Ngwasanaeth Deintyddol Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru. Mae ganddynt gymysgedd o rolau clinigol a rolau gweithredol. Mae Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn cynnig darpariaeth gofal sylfaenol i boblogaeth o tua 694,000 o bobl ledled Gogledd Cymru. Er bod y rhan fwyaf o wasanaethau Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli gan Gymunedau Iechyd Integredig (IHC) yn ardaloedd y Gorllewin, y Canol a'r Dwyrain, mae Gwasanaeth Deintyddol Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru yn un gwasanaeth ar draws BIPBC gyfan, gyda'i seilwaith ei hun.

Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

Mae Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) yn bractisau deintyddol stryd fawr sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau'r GIG. Ar hyn o bryd mae 68 o gontractwyr yng Ngogledd Cymru, ac ar ôl dyfarniadau caffael diweddar, disgwylir i'r nifer hwn gynyddu eto yn 2025/26.

Dros y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd yn y tanwariant cyllidebol yng ngwasanaethau'r GDS, gyda'r sefyllfa'n gwaethygu wrth i sawl contract gael eu dychwelyd. Mae materion cynaliadwyedd GDS yn broblem ledled Cymru, ac ers 2020, mae'r system a oedd eisoes yn fregus wedi'i heffeithio gan bandemig Covid-19. Yn ddiweddar, mae tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo dyfarnu contractau GDS newydd gwerth oddeutu £4miliwn i ardaloedd blaenoriaeth yng Ngogledd Cymru, lle nad oes mynediad at ddeintyddiaeth y GIG ar hyn o bryd.

Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol

Cylch gorchwyl y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol (CDS) yw darparu gofal y geg ar gyfer aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas. Mae rôl y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn cael ei mandadu gan Lywodraeth Cymru, drwy Gylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddir gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Cyhoeddwyd y canllawiau cyfredol ar y math o weithgaredd yn 2022 ac maent yn cynnwys:

- Gofal deintyddol i grwpiau agored i niwed
- Gofal a rennir a llwybrau gofal
- Gwasanaethau cartref
- Iechyd Deintyddol y Cyhoedd
- Epidemioleg ddeintyddol
- Gwasanaethau gofal brys

Gwasanaethau deintyddol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd yw'r pwynt cyswllt cyntaf i gleifion yn y system gofal iechyd. Mae'r

mwyafrif helaeth o gyswllt gan gleifion yn digwydd o fewn y gwasanaethau gofal sylfaenol hyn. Yn aml, bydd cyflymder a graddfa'r newidiadau o ran comisiynu a chynllunio gwasanaethau yn dod â heriau i'r gwasanaeth, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cael gwasanaethau deintyddol sefydlog a gwydn i wella iechyd y geg i gleifion yng Ngogledd Cymru.

Deintyddiaeth Gofal Eilaidd

Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf (GIRFT)

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu adolygiad 'Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf' (GIRFT) o lawfeddygaeth y geg a'r wyneb (OMFS) a gwasanaethau Orthodonteg yng Ngogledd Cymru. Rhaglen genedlaethol y GIG yn Lloegr yw GIRFT. Fe'i cynlluniwyd er mwyn gwella triniaeth a gofal i gleifion trwy adolygiad manwl o wasanaethau, meincnodi, a chyflwyno sylfaen dystiolaeth a yrrir gan ddata i gefnogi newid. Mae'r rhaglen yn cynnal adolygiadau clinigol o arbenigeddau, gan gyfuno dadansoddi data gyda mewnbwn a gwybodaeth broffesiynol gan uwch glinigwyr er mwyn archwilio sut mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd, a sut y gellid eu gwella.

Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaethau OMFS ac Orthodonteg restrau aros hir, ac mae niferoedd y Bwrdd Iechyd o ran arosiadau hir yn yr arbenigeddau hyn yn amlwg iawn yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Tîm GIRFT helpu'r gwasanaeth OMFS ac Orthodonteg i ddatblygu model gwasanaeth i leihau'r rhestrau aros a darparu gwasanaeth cynaliadwy at y dyfodol. Daeth yr adolygiad i ben ym mis Tachwedd 2024, a derbyniwyd adroddiad drafft ym mis Chwefror 2025. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 49 o argymhellion gyda'r Tîm yn dweud bod 'gweithredu'r argymhellion hyn yn hanfodol os yw'r Bwrdd Iechyd am ddarparu gwasanaethau OMFS ac Orthodonteg cadarn a chynaliadwy yn effeithiol ac yn ddiogel i gleifion yn y tymor byr, canolig a hir'. Mae disgwyl i'r adolygiad gael ei gymeradwyo'n ffurfiol ym mis Mehefin 2025 ac yn dilyn hynny, bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu, ei gytuno a'i gychwyn.

Deintyddiaeth Adferol

Mae diffyg gwasanaeth deintyddiaeth adferol yn parhau i beri pryderon sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Er bod y Bwrdd Iechyd yn hysbysebu'r rôl yn barhaus, mae swydd barhaol yr Ymgynghorydd Adferol wedi bod yn wag ers mis Rhagfyr 2023. Yn anffodus, mae'r rownd recriwtio ddiweddaraf wedi bod yn aflwyddiannus hefyd gan na dderbyniwyd unrhyw gais. Mae prinder Ymgynghorwyr Adferol yn fater cenedlaethol, ac mae'r risg sy'n gysylltiedig â'r swydd wag hon yn sylweddol ac wedi'i chofnodi ar gofrestr risg y Bwrdd Iechyd.

Archwiliwyd nifer o atebion i gael cymorth adferol arbenigol gan gynnwys cyfeirio at ddarparwyr GIG allanol a staff locwm. Cafwyd cefnogaeth locwm Ymgynghorydd Adferol Dros Dro yn Wrecsam i gynorthwyo â'r rhestr aros ar gyfer achosion adferol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ceisio alinio deintyddiaeth adferol ag un Gymuned Iechyd Integredig er mwyn hwyluso gweithio gweithredol gwell gyda thimau llawfeddygaeth y geg ac OFMS.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 40.1 - Gwaith i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau GDS a fydd yn gofyn am gynigion ar gyfer datrysiadau newydd ac arloesol ynghyd â'r dulliau presennol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gysylltu â phartneriaid fel Prif Swyddog Deintyddol Cymru a'r Pwyllgor Deintyddol Lleol, i gynorthwyo â hyn yn ogystal â gweithio gyda Byrddau Iechyd eraill lle mae gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol yn perfformio'n dda.

- 40.2 - Ail-werthuso angen, a chaffael unwaith eto ar gyfer mynediad GDS yn 2025, gan weithio gyda'r tîm caffael i wella fframwaith y tendr er mwyn ehangu'r gronfa o gynigwyr posibl.
- 40.3 - Datblygu strategaeth addysg ddeintyddol, gan nodi cynlluniau ar gyfer yr holl weithlu yn unol â 'Model Gofal Sylfaenol i Gymru'. Nod y strategaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer pob proffesiwn Deintyddol trwy ddarparu cyfleoedd uwchsgilio, hyfforddi a datblygu i bob aelod o'r tîm deintyddol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r cysiau Hyleneiddion Deintyddol a Therapyddion Deintyddol, gan gefnogi gwasanaethau yn y gymuned.
- 40.4 - Defnyddio dull yr 'Academi Gofal Sylfaenol' i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddatblygu uwch sgiliau gofal sylfaenol a fydd yn caniatáu newidiadau yn y cymysgedd sgiliau a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu. Y nod yw ehangu'r gwaith hwn er mwyn cynnig cyfleoedd datblygu o fewn Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a fydd yn y pen draw, o fudd i ofal cleifion.
- 40.5 - Gweithio gyda thîm Iechyd Cyhoeddus i barhau i ddarparu rhaglenni cenedlaethol fel 'Designed to Smile' a 'Gwên am Byth'.
- 40.6 - Adolygu a diwygio'r gyllideb ddeintyddol i sicrhau bod y cymorth priodol yn cael ei roi i wasanaethau. Bydd y gwaith hwn yn niwtral o ran refeniw a'i nod yw sicrhau gwell gwerth o'r adnoddau ariannol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol ar hyn o bryd.
- 40.7 - Rhestrau aros Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol i gael sylw i sicrhau nad yw cleifion yn aros am gyfnodau sylweddol o amser. Mae'r atebion yn cynnwys cynigion ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau clinigol rheng flaen, gwella'r ganolfan trefnu apwyntiadau cleifion (PABC) a chreu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) i danategu rheolaeth weithredol.
- 40.8 - Cynnal adolygiad o alw a chapasiti ar gyfer gwasanaethau CDS, er mwyn deall patrymau gweithgarwch i allu rhagweld yn effeithiol pryd y bydd angen staffio ac i ba raddau.
- 40.9 - Ffurio llywbr deintyddol gofal cartref clir gyda meini prawf cymhwysedd cadarn. Bydd cytuno ar y dull cywir yn cynnwys swyddogion deintyddol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r gweithgarwch. Gan fod y rhan fwyaf o'r gweithgarwch cartref yn digwydd o fewn cartrefi gofal, bydd dull cynhwysol yn cael ei ddefnyddio i ddynodi unrhyw lwybrau y cytunwyd arnynt.
- 40.10 - Gwella gwelededd y Bwrdd o ran data perfformiad deintyddiaeth gofal sylfaenol.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Parhau i weithredu'r 'Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol' cenedlaethol a 'Model Gofal Sylfaenol i Gymru', a chymryd rhan lawn yn y 'Rhaglen Gofal Sylfaenol' genedlaethol, sy'n fodel 5 mlynedd (2024-2029).
- Disgwyllir contract deintyddol newydd yn 2026/7 a fydd yn flaenoriaeth allweddol. Bydd y tîm deintyddol yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr cenedlaethol i gefnogi unrhyw waith paratoi a fydd yn digwydd yn 2025/26.

4P: Diabetes

Sylwer bod templedi Blaenoriaethau Gweinidogol 2 - Iechyd y Boblogaeth ac Atal (ar gael ar gais) hefyd yn ymwneud â'r is-amcan hwn

Iechyd y Boblogaeth ac Atal:

- Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes a gafodd bob un o'r wyth proses gofal a argymhellir gan NICE

Trosolwg

Cydnabyddir bod diabetes yn un o heriau iechyd mawr y degawd nesaf. Mae gan bron i 50,000 o oedolion yng Ngogledd Cymru ddiabetes gyda dros 90% â diabetes Math 2. Mae'r nifer o bobl iau (rhwng 18-40 oed) â diabetes Math 2 yn cynyddu'n gyflym ac mae unigolion yn profi cymhlethdodau cysylltiedig sy'n dechrau'n gynharach.

Mae adnoddau sylweddol yn mynd i drin diabetes. Amcangyfrifir bod 11% o gyfanswm gwariant y GIG yn cael ei wario, gyda 60% o hwn yn cael ei ddefnyddio i drin cymhlethdodau camau olaf y clefyd: dallineb, arenau'n methu a thorri aelodau'r corff. Mae clefyd cardiofasgwlaidd a nifer yr achosion o ganserau yn uwch ymysg pobl â diabetes.

Mae unigolion â diabetes yn defnyddio 25% o welyau ysbyty ar hyn o bryd ac mae'r unigolion hyn yn aros yn yr ysbyty yn hirach na'r rhai heb ddiabetes. Mae'r gofyn am wasanaethau beichiogrwydd â diabetes Math 2 bellach yn uwch na'r gofyn ar gyfer beichiogrwydd â diabetes Math 1. Mae canlyniadau anffafriol i famau a babanod newydd-anedig lle mae beichiogrwydd â diabetes Math 2 hefyd wedi cynyddu.

Mae'r nifer o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n manteisio ar addysg sy'n ymwneud â diabetes yn isel, ac mae mwy o achosion o niwed o driniaethau y gellid fod wedi'u hosgoi ymysg cleifion â diabetes.

Mae'r dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd ymyriadau atal a lleddfu diabetes Math 2 yn cael ei derbyn yn eang, ac mae gan y Bwrdd Iechyd Gyfleoedd Sylweddol i'w hymgorffori wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd roi modelau gwella gwasanaethau ar waith sy'n darparu gwelliannau teg ac ystyrlon ar gyfer blaenoriaethau gwasanaethau allweddol diabetes yn unol â chyfarwyddyd Rhwydwaith Strategol Diabetes Cymru.

Yn ystod 24/25 cychwynnodd y Bwrdd Iechyd y Rhaglen Trawsnewid Diabetes i lunio achos manwl dros newid a modelau gwasanaeth newydd arfaethedig.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

Gofal Sylfaenol

- 4P.1 - Bydd Rhaglen Diabetes y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at gynyddu % y rhai 12+ oed sy'n cael yr 8 Proses Gofal drwy'r canlynol:
 - Gwerthuso'r cyfyngiadau a'r ffynonellau data a ddefnyddir i adrodd ar y sefyllfa
 - Deall pam fod amrywiadau yn bodoli mewn gofal sylfaenol a rhagnodi
 - Nodi gwelliannau ar gyfer casglu data ac annog y clystyrau i adrodd yn well
 - Nodi adnoddau priodol sydd eu hangen ar gleifion ar gyfer rheoli diabetes
 - Darparu cynlluniau rheoli priodol ar gyfer unigolion â diabetes Math 1 mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd er mwyn mynd i'r afael â dyblygu ac amrywiadau mewn gofal
 - Gweithredu cynlluniau gwella darbodus mewn perthynas â defnyddio meddyginiaeth yn unol â chanllawiau NICE
 - Arfarnu'r gwelliannau a'r dysgu gan gymheiriaid
 - Defnyddio'r wybodaeth o'r 8 Proses Gofal i lywio model Gofal Sylfaenol ar gyfer 26/27

Gofal Eilaidd

- 4P.2 - Gweithredu Arfarniad Technoleg NICE i ddarparu technoleg 'pancreas artiffisial' o'r enw systemau Dolen Gaeedig Hybrid (HCL) sy'n cynnig cyfle i bobl sy'n datblygu'r cyflwr awto-imiwn penodol hwn i reoli glwcos. Mae angen adnoddau sylweddol yn gysylltiedig â'r datblygiad hwn, y bwriedir ei weithredu dros gyfnod o 5 mlynedd, yn amodol ar gyllid.
- 4P.3 - Bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio cryfhau'r tîm diabetes amlddisgyblaethol arbenigol i gefnogi'r pontio i wasanaethau oedolion ac i ymateb yn gyflym i'r nifer cynyddol o achosion newydd.
- 4P.4 - Mewn timau diabetes i oedolion, datblygu cynigion ar gyfer model gwasanaeth mwy cynhwysfawr i ddarparu technoleg diabetes i bobl â diabetes Math 1 yn unol â'r gyfarwyddeb genedlaethol.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- 2026-2029 Blwyddyn 2-5: Gweithredu Arfarniad Technoleg y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar gyfer HCL ar draws yr holl grwpiau priodol o gleifion.
- Caiff cydymffurfiaeth â phrotocolau cenedlaethol ar gyfer gwerth a chynaliadwyedd eu mesur a'u hadrodd, gan gydymffurfio'n llawn erbyn 2028/2029.
- Datblygu cynlluniau gweithlu, lleihau amrywiadau a gweithgarwch wedi'i dargedu.

Amcan 5: Amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau

5A	Partneriaethau Prifysgol ac Addysg Bellach
5B	Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
5C	Gyrfaoedd Academaidd
5D	Seiliedig ar Wybodaeth
5E	Sefydliad sy'n Dysgu

Trosolwg

Mae'r amcan strategol hwn yn ymwneud â sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddysgu a datblygu, gan weithio gyda phartneriaid i ddatblygu i fod yn sefydliad sy'n gwella'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd dysgu - o gwynion a digwyddiadau, i arloesedd a arweinir gan ymchwil. Ategir y maes hwn gan waith ar ddatblygu sgiliau penodol, yn ogystal â gyrfaoedd academaidd, gyda phrifysgolion a phartneriaid addysg bellach.

Cynnydd ar gyfer yr Amcan Strategol hwn yn ystod 2024/25

Sylwch fod rhai blaenoriaethau wedi'u crynhoi ar draws gwahanol Amcanion Strategol yn y cynllun hwn

- **Partneriaeth Prifysgol:** Sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru sy'n ddatblygiad hollbwysig i'r rhanbarth o ran nifer y meddygon sy'n astudio'n lleol. Mae PBC yn bartner allweddol wrth ddatblygu cyfleoedd mewn datblygiadau arfaethedig ysgolion fferylliaeth a deintyddol; Trafodaethau gyda phartneriaid prifysgol i adolygu ac adnewyddu perthnasoedd. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar y trefniadau trwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth.
- **Ymchwil, Datblygu ac Arloesi:** Mae 344 o astudiaethau ymchwil ar gael ar gyfer recriwtio neu waith dilynol, sy'n gynydd o 9% ar y flwyddyn flaenorol; Agorwyd y treial First in Human (FiH) cyntaf yng Nghyfleuster Ymchwil Clinigol Gogledd Cymru (NWCRF) yn 2024, a bellach mae ganddynt y gallu i agor mwy o dreialon FiH, ochr yn ochr â threialon camau diweddarach; Dechreuwyd recriwtio cyfranogwyr mewn treial brechlyn norofeirws Cam 3; Mae 40 o bractisau gofal sylfaenol sy'n ymwneud ag ymchwil ac yn gweithio gyda'r Academi Gofal Sylfaenol i gynyddu ymgysylltiad a gweithgarwch ymchwil ym maes gofal sylfaenol; Mae amrywiaeth o brosiectau arloesi ar y gweill, yr ydym wedi'u halinio â Llwybr Arloesi Cymru Gyfan; Mae SBRI yn parhau i helpu i drawsnewid y ddarpariaeth gofal brys drwy weithio gydag Ambiwlans Cymru. Mae'r broses gyntaf o leoli 50 ambiwlans mewn uned bocs wedi dechrau gyda deg uned yn cael eu defnyddio yng Nghartrefi Gofal BIPBC sy'n caniatáu monitro o bell gan glinigwyr hyfforddedig; Mae Canolfan Ragoriaeth SBRI hefyd yn rheoli sawl prosiect economi gylchol mewn iechyd; Mae ymchwil Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cynorthwyo Patholegwyr i wneud diagnosis o fiopsïau prostatig yn parhau; Mae Canolfan Ragoriaeth SBRI hefyd yn arwain y gwaith cyntaf o'i fath sy'n canolbwyntio ar gyflymu diagnosis, rheolaeth a chymorth i bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.
- **Gyrfaoedd Academaidd:** Yn ystod 2024/25 roedd y Bwrdd Iechyd ar y cam sylfaenol o waith. Dechreuwyd ymarfer i roi gwaelodlin i'r rolau academaidd er anrhydedd a chyd anrhydedd presennol, er mwyn sefydlu sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd; Parhaodd y sgysiau a datblygodd y perthnasoedd gyda phartneriaid academaidd gan gynnwys y Prifysgolion lleol ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- **Seiliedig ar Wybodaeth:** Llywodraethu Data: 1) Sefydlu fforwm Ansawdd a Llywodraethu Data, 2) Adolygiadau o ddata, meini prawf adrodd a methodolegau a gynhaliwyd i ddarparu gwybodaeth ystyrlon i'r sefydliad i gefnogi cynllunio galw a chapasiti; Technoleg a seilwaith: 1) Ymestyn y setiau data sydd ar gael i'w cynnwys mewn cynhyrchion gwybodaeth a dangosfyrddau IRIS, gan gynnwys

nyrsio cymunedol, profiad y claf, delweddu diagnostig a dileu rhestrau aros, 2) Mae datblygu dull hwb ar gyfer adrodd ar ofal wedi'i gynllunio wedi darparu un ffynhonnell wybodaeth; Sgîl a gallu: Rhaglen hyfforddiant ar egwyddorion Gwneud i Ddata Gyfrif a defnyddio siartiau rheoli prosesau ystadegol (SPC) wedi'i datblygu a'i chyflwyno i staff; Symud o ddata i ddeallusrwydd a mewnwleidiad: Wedi gweithio gyda chydweithwyr lechyd Cyhoeddus i ystyried iechyd y boblogaeth ac atal yn ogystal â barn ysbytai ar ddata; Codio clinigol: Penodi codwyr clinigol dan hyfforddiant yn llwyddiannus.

- **Sefydliad sy'n Dysgu:** Cwblhawyd adolygiad a chyflwynwyd y canfyddiadau i'r Tîm Gweithredol; Cymerwyd camau atodol pellach i sicrhau bod y dysgu'n cael ei rannu'n eang; Cymeradwywyd y Polisi Pryderon Integredig gan y Bwrdd ac fe'i gweithredwyd wedi hynny; Datblygwyd Fforwm Dysgu Sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen newid diwylliannol.

5A: Partneriaethau Prifysgol ac Addysg Bellach

Trosolwg

Mae'r Bwrdd lechyd yn falch o'i Ddynodiad Prifysgol ac yn cydnabod pwysigrwydd y gofynion a ddaw yn ei sgîl o ran ei rôl mewn addysg a hyfforddiant, ymchwil a datblygu yn ogystal ag arloesi. Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2024/25, mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio cryfhau ei berthynas â phrifysgolion Gogledd Cymru yn ogystal â phrifysgolion a darparwyr addysg bellach eraill. Gweledigaeth y Bwrdd lechyd yw creu perthnasoedd trawsnewidiol a fydd yn cyfrannu at iechyd a lles a pherfformiad economaidd y rhanbarth.

Mae cydweithio â darparwyr addysg yn cynnig cyfle i archwilio a gwella'r llwybrau o addysg i gyflogaeth gan arwain at welliannau o ran cadw myfyrwyr yn y rhanbarth. Mae hyn yr un mor berthnasol i staff anghlinigol â staff clinigol. Rhagwelir y bydd datblygu perthnasoedd yn cefnogi datblygu cyfleoedd dysgu bywiog, cyffrous ac ysgogol yn uniongyrchol, a fydd yn ein galluogi i ddatblygu, recriwtio a chadw cnewyllyn uchel o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a chryfhau'r gwaith strategol i gynllunio'r gweithlu.

Mae ymgyfoethogi'n academaidd yn rhan annatod o ddull y Bwrdd lechyd wrth ddarparu gofal meddygol, nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd o ansawdd uchel i drigolion Gogledd Cymru. Mae cynnal lefelau uchel o ymchwil, datblygu ac arloesi yn cynorthwyo'r Bwrdd lechyd i recriwtio gweithwyr proffesiynol o safon uchel a darparu gwasanaethau clinigol blaengar. Mae partneriaethau cydweithredol gyda sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gwella'r gwaith strategol i gynllunio'r gweithlu ac yn sicrhau bod cyrsiau'n cyd-fynd â'r strategaeth tymor hwy, gan wella'r profiad i fyfyrwyr.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 5A.1 - Bydd y Bwrdd lechyd yn ceisio meithrin y berthynas â'r holl bartneriaid addysg uwch ac addysg bellach i wella'r effaith ar ymchwil a datblygu, addysg a hyfforddiant ac arloesi, gan barhau i gyflawni ein Dynodiad Prifysgol.
- 5A.2 - Ar ôl cynnal a datblygu perthnasoedd, bydd PBC yn archwilio gwerth ymagwedd ranbarthol at bartneriaeth gyda'r holl randdeiliaid.
- 5A.3 - Gweithio gyda darparwyr addysg i ddatblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd lechyd i gynyddu eu dealltwriaeth a chynnig mwy o gyfleoedd i adlewyrchu newid trawsnewidiol ac arloesol.
- 5A.4 - Gan adeiladu ar y gwaith llwyddiannus o sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, byddwn yn parhau i weithio gyda'r holl bartneriaid a'u cefnogi i gyflawni prosiectau strategol.

- 5A.5 (4M.5) - Lansio'r garfan MPharm gyntaf ym Mhrifysgol Bangor yn 2025, gan weithio gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) at gyflawni achrediad Cam 4 erbyn y flwyddyn academaidd 2025/26.
- 5A.6 (2C.7) - Cydweithio gyda Phrifysgol Cymru Bangor i gefnogi datblygiad a thwf Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.
- 5A.7 (4O.3) - Datblygu strategaeth addysg ddeintyddol, gan nodi cynlluniau ar gyfer yr holl weithlu yn unol â 'Model Gofal Sylfaenol i Gymru'. Nod y strategaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer y proffesiwn Deintyddol. Bydd yn gwneud hynny trwy ddarparu cyfleoedd i uwchsgilio, hyfforddi a datblygu i bob aelod o'r tîm deintyddol, gan gynnwys gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r cyrsiau Hylenyddion Deintyddol a Therapyddion Deintyddol, a chefnogi gwasanaethau yn y gymuned.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Yn ystod 2026/27 byddwn yn cynnal gwerthusiad o'n gwaith partneriaeth i sefydlu beth rydym wedi'i gyflawni, ac i ddatblygu ein dyheadau pellach yn gynllun cydlynol y cytunir arno gyda phartneriaid.
- Yn ystod 2027/28 byddwn yn ceisio gweithredu ein cynllun a rhoi metrigau allweddol ar waith i fonitro gwireddu buddion. Yn y pen draw, byddwn yn ceisio sefydlu partneriaethau prifysgol yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

5B: Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Trosolwg

Mae gwerth ymchwil wrth drawsnewid iechyd a gofal yn sylweddol. Dengys tystiolaeth bod y manteision o fod yn sefydliad sy'n ymchwilio yn cynnwys:

- Mae boddhad staff, recriwtio a chadw staff yn uwch ymhlith staff sy'n ymwneud ag ymchwil.
- Mae cynnwys clinigwyr a sefydliadau gofal iechyd mewn ymchwil yn gysylltiedig â gwelliannau o ran darparu gofal iechyd.
- Mae gan ysbytai sy'n cynnal gwaith ymchwil gyfraddau marwolaeth sy'n gyffredinol is, ac nid ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil yn unig.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi hen sefydlu rhaglen ymchwil, datblygu ac arloesi (R&I) sy'n parhau i dyfu. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r staff presennol ddatblygu'n academaidd, yn cadw staff newydd sy'n canolbwyntio ar ymchwil, ac yn cynnig cyfleoedd i drigolion Gogledd Cymru gael mynediad at opsiynau ymchwil a thriniaethau arloesol o ran eu gofal.

Mae'r tîm Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn ymgysylltu â mentrau ledled y DU i gynyddu gweithgarwch ymchwil fasnachol.

Mae gan y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) wasanaeth Cymru gyfan, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gynnal gan y Bwrdd Iechyd. Mae SBRI yn gweithio gyda Chyrff Sector Cyhoeddus i nodi a datrys anghenion/heriau nad ydynt yn cael eu diwallu yn y maes iechyd, ac mae wedi ariannu nifer o brosiectau.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 5B.1 – Cwblhau'r gwaith o ddatblygu seilwaith cymorth a phanel arbenigol gydag M-SParc, Canolfan Dechnoleg OpTIC, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Wrecsam, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Bydd modd i arloeswyr gysylltu â'r panel arbenigol i gael cyngor ac arweiniad.
- 5B.2 - Parhau i gynyddu gweithgarwch ymchwil, boed yn ymchwil fasnachol neu anfasnachol.
- 5B.3 - Cynyddu nifer y penodiadau ar y cyd a phenodiadau ymchwil anrhydeddus gyda'n partneriaid academiaidd.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Bydd ymchwil ac arloesi yn dechrau cael eu hystyried yn rhan annatod o'r Bwrdd Iechyd. Bydd gweithgarwch ymchwil ac arloesi yn parhau i gynyddu a bydd refeniw'n cael ei ail-fuddsoddi i gynyddu capasiti a gallu.

5C: Gyrfaoedd Academiaidd

Trosolwg

Wrth i'r sectorau academiaidd ac ymchwil yng Ngogledd Cymru dyfu, ac yn arbennig felly ym meysydd deintyddiaeth a fferylliaeth, mae'r cyfleoedd i wella datblygiad gyrfaoedd academiaidd yn cynyddu.

Yn ogystal â chydweithio â phartneriaid prifysgol i ddefnyddio holl arbenigeddau ac adnoddau'r rhanddeiliaid, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o drafodaethau cenedlaethol a arweinir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am yrfaeoddd academiaidd. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau rhwng cydweithwyr y Bwrdd Iechyd sydd â gyrfaoedd academiaidd gan ddatblygu rhwydwaith o gydweithwyr sy'n ymarfer mewn lleoliadau gofal iechyd gydag ymchwil ac addysgu academiaidd.

Mae academyddion clinigol yn gwella ansawdd y ddarpariaeth gofal iechyd trwy gyfuno ymarfer clinigol â gwaith ymchwil ar sut i wella canlyniadau i gleifion. Mae sefydliadau gofal iechyd eraill wedi profi y gall datblygu llwybrau gyrfaoedd academiaidd helpu i ddenu a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn enwedig mewn meysydd clinigol anodd eu recriwtio. Wrth i ofal iechyd ddatblygu, gall llwybrau gyrfaoedd academiaidd ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i'r gweithlu o ran sgiliau newydd, arloesol ac amrywiol.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 5C.1 – Wrth aros am ddiffiniad cenedlaethol, cynnal gweithdy amlddisgyblaethol gyda'r rhai sy'n gweithio mewn gyrfaoedd academiaidd ar hyn o bryd, a'r rhai sy'n dymuno dilyn y llwybr gyrfaoedd hwn, er mwyn cytuno ar ddiffiniad gweithredol yn lleol.
- 5C.2 – Archwilio'r fframwaith llwybr gyrfaoedd academiaidd, gan ddefnyddio'r allbynnau o'r gweithdy i lywio papur, a fydd yn cael ei ddatblygu gyda chynigion ar gyfer fframwaith llywodraethu, a'i ategu gan ddysgu ac arfer gorau gan sefydliadau iechyd ac academiaidd eraill.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Yn ystod 2026/27, bydd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar y fframwaith llwybr gyrfaoedd academiaidd er mwyn deall y prif rwystrau sy'n atal gyrfaoedd academiaidd, a datblygu cynigion gydag amserlenni gweithredu clir ar sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn.

- Yn ystod 2027/28, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynyddu gweithgarwch gyrfa academaidd a bydd yn gallu dechrau dangos y gwelliannau a wneir.

5D: Seiliedig ar Wybodaeth

Trosolwg

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfle i fod yn gyfoethog o ran data, ac i gyfuno hyn â data defnyddiol arall ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a thu hwnt. Pan fydd data mewn fformat y gellir ei ddefnyddio, gellir cynhyrchu mewnwelediadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gwella cynllunio, gwneud gwaith atal i gefnogi gofal sy'n fwy rhagweithiol a phersonol, cyflymu diagnosis a gwella prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae gwneud penderfyniadau gwell yn arwain at wasanaethau, profiadau a chanlyniadau gwell i gleifion a'u teuluoedd, ac i staff. Mae hefyd yn cefnogi datblygu gwasanaethau ar sail tystiolaeth a fydd yn diwallu anghenion poblogaeth Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Mae'r gwaith a ddisgrifir wedi'i strwythuro mewn pum ffrwd waith: llywodraethu data, technoleg a seilwaith, sgil a gallu, symud o ddata i ddeallusrwydd a dirnadaeth, a chodio clinigol.

Bydd gwella ansawdd data a sut y gwneir defnydd ohono yn helpu'r Bwrdd Iechyd i wneud gwell penderfyniadau ar sut i ddefnyddio ei adnoddau. Er enghraifft, bydd cynnal cofnodion cywir o'r galw a'r llwybrau rhestrau aros yn osgoi dyblygu, lleihau'r baich gweinyddol a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion. Mae cysylltu nifer o setiau data yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth am daith a phrofiad cyfan y claf, ac effaith ac oblygiadau unrhyw newidiadau neu oedi yn y systemau gofal iechyd.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 5D.1 – Adeiladu ar y gwaith prawf o gysyniad i ddatblygu cynigion ar gyfer Awtomeiddio Prosesau Robotig (RPA) i leihau dibyniaeth ar brosesau â llaw.
- 5D.2 - Cyflwyno nod barcod ansawdd data i'r Bwrdd Iechyd er mwyn gwella data ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymestyn modelau data a ysgrifennwyd ar gyfer RTT.
- 5D.3 - Parhau i ddatblygu galluoedd rhagweld a chynigion ar gyfer cyflwyno dadansoddeg ragfynegol a fydd yn ei dro yn cefnogi cynllunio a gwneud penderfyniadau gwell ynghylch gofal wedi'i gynllunio, gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 5D.4 - Dogfennu'r trywydd ar gyfer datblygu warysau data gan ymgorffori datgomisiynu hen warws y Bwrdd Iechyd. Dechrau gweithredu technoleg sy'n seiliedig ar y cwmwl trwy drosglwyddo i'r Platform Dadansoddi Data Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno data, a sefydlu trefniadau ar gyfer trosglwyddo o'r safle i'r cwmwl, i gyd-fynd â'r Adnodd Data Gofal.
- 5D.5 - Rhoi'r sylfeini angenrheidiol ar waith fel rhan o gyflwyno'r dangosfwrdd Gweithredol (IRIS2). Bydd hyn yn galluogi ei ddefnyddio'n reddfal ac yn bwrpasol ar bob math o ddyfais.

- 5D.6 - Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed gyda data gofal wedi'i gynllunio, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal asesiad aeddfedrwydd data o ofal brys a gofal mewn argyfwng ac yn datblygu rhaglen waith i ddatblygu defnyddio gwybodaeth a mewnwelediad yn y maes hwn.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Ymgorffori rôl dadansoddwyr clinigol, gan gyfuno codio clinigol ac arbenigedd dadansoddol i rolau hybrid i greu swyddogaeth mewnwelediad clinigol.
- Cytuno ar fodelau galw a chapasiti aml-flwyddyn cadarn, sy'n seiliedig ar ddata a rhagolygon iechyd y boblogaeth.
- Parhau i wella llywodraethu a phensaernïaeth data i alluogi triongli setiau data ymhellach a chefnogi cynllunio a darparu gwasanaethau gyda gwybodaeth sy'n seiliedig ar wasanaethau dadansoddol modern ar draws ystod eang o wasanaethau.
- Dechrau defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar gyfer Codio Clinigol i awtomeiddio prosesau wrth chwilio ar yr un pryd, am gyfleoedd pellach i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial.
- Defnyddio'r galluoedd dadansoddol o fewn yr Adnodd Data Cenedlaethol a gwireddu manteision y Plattform Dadansoddi Data Cenedlaethol (NDAP)

5E: Sefydliad sy'n Dysgu

Trosolwg

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu ei ddull o ddod yn sefydliad sy'n dysgu, gan feithrin y nodweddion hanfodol er mwyn addasu'n fwy effeithiol i wella gwasanaethau'n barhaus.

Mae llawer o'r blaenoriaethau a amlinellwyd eisoes yn y Cynllun yn ymwneud â'r pwysigrwydd y mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn ei roi ar ddod yn sefydliad sy'n dysgu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y cyfleoedd sy'n bodoli i adeiladu ar y gwaith hwn ymhellach, a datblygu'r diwylliant sefydliadol ochr yn ochr â datblygu systemau a phrosesau i feithrin dysgu sefydliadol.

Gan fod dull cyson ac effeithiol o ddysgu fel sefydliad yn rhan o sylfeini System Rheoli Ansawdd effeithiol, mae'r sefydliad yn ymateb i'r cyfleoedd hyn i brofi a herio'r broses ddylunio QMS.

Mae digwyddiadau a chwynion o bwys yn cynnig cyfleoedd pwerus i ysgogi gwelliannau parhaus. Mae defnyddio dysg fel gwybodaeth a rennir yn ased y gall pawb fanteisio arno. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dangos ac yn gwerthuso sut mae'r Polisi Pryderon a Chwynion Integredig (a gyflwynwyd yn 2024/25) yn cynorthwyo'r sefydliad i adnabod, ymateb, dysgu a gwella ar ôl digwyddiadau, cwynion ac adolygiadau o farwolaethau.

Blaenoriaethau i'w cyflawni yn 2025/26

- 5E.1 - Bydd y Bwrdd Iechyd yn gwerthuso sut mae'r sefydliad yn dysgu o'i ymchwiliadau i ddigwyddiadau a chwynion difrifol ar ôl iddo gyflwyno'r Polisi Pryderon a Chwynion Integredig.
- 5E.2 - Bydd y Bwrdd Iechyd yn gwella ei systemau a'i brosesau i sicrhau bod trosglwyddo addysg fel Sefydliad sy'n Dysgu yn cynyddu'r cyfle i rannu dysgu a gwella gofal cleifion.
- 5E.3 – Datblygu adroddiad darganfod i lywio Cynllun Strategol Addysg ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
- 5E.4 (1C.3) – Gwella prosesau i baratoi ar gyfer unrhyw geisiadau a geir gan Ymchwiliadau cenedlaethol, ac ymateb iddynt ac ymgorffori gwersi.

Blaenoriaethau a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28

- Bydd y Bwrdd lechyd yn gwneud y mwyaf o'i allu i ddysgu drwy ddatblygu ei sgiliau. Bydd y Bwrdd lechyd yn meithrin ei werthoedd diwylliannol o ddysgu cefnogol.
- Bydd y Bwrdd lechyd yn gallu dangos ei fod wedi rhoi trefniadau yn eu lle i wneud y mwyaf o'i botensial dysgu, ei roi ar waith a'i gadw fel sefydliad sy'n dysgu.

Adran 4: Cyflawni'r Cynllun

Mae adrannau blaenorol y cynllun yn canolbwyntio ar osod y cyd-destun strategol lleol y mae'r Bwrdd lechyd yn gweithredu ynddo, yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu a sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut y bydd y sefydliad yn sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni'n effeithiol, yn monitro ac yn olrhain gwelliannau ac yn rheoli a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni. Yna mae'n amlinellu'r goblygiadau o gyflawni'r cynllun o ran y gweithlu a chyllid.


Cyflawni newidiadau'n effeithiol

Ar adegau, mae wedi bod yn anodd i'r Bwrdd lechyd gydbwyso'r dulliau a ddefnyddir i gyflawni newid yn y modd sydd fwyaf tebygol o roi llwyddiant amserol a pharhaus. Mae mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflawni 'newid' pwysig yn ffordd gydnabyddedig o wella'r tebygolrwydd o lwyddo.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd lechyd wedi parhau i ddatblygu ei brofiad o reoli prosiectau a rhaglenni strwythuredig, ac mae wedi sefydlu seilwaith sy'n seiliedig ar fethodoleg gref sydd wedi'i hategu gan sylfaen dystiolaeth ryngwladol. Mae hyn wedi arwain at greu pecyn cymorth Rhaglen Ffordd Betsi i newid prosiectau a rhaglenni o wahanol faint, graddfa a chymhlethdod. Fe'i datblygwyd ymhellach yn ystod 2024/25 ar ôl profion cychwynnol yn ystod 2023/24.

Yn unol â'r sylfaen dystiolaeth hon, sefydlodd y Bwrdd lechyd Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) i oruchwylio, cydgysylltu a chynnig cymorth ar gyfer newid sefydliadol. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi parhau i adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd wrth adrodd am Fesurau Arbennig a sicrwydd, gan gymhwyso hyn i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn ystod 2024/25. Arweiniodd hyn, ynghyd â mabwysiadu dull mwy strwythuredig o flaenoriaethu a dyrannu adnoddau, at gyflawni cyfran uwch o gerrig milltir ar amser, ac i ansawdd uwch, nag mewn blynyddoedd blaenorol.


Mae tri chategori o Newid sy'n cwmpasu'r holl brif ddarnau o waith trawsnewid a gwella ar draws y sefydliad.



1)	2)	3)
Cymorth, adrodd a goruchwyliaeth â ffocws er mwyn cyflawni, gan ddefnyddio arferion gorau safonol Rheoli Rhaglenni.	Darparu sgiliau a chymorth fel y'u cynhwysir yn y categori cyntaf, ond ar sail ad-hoc yn unol â'r gofynion penodol a'r gallu i'w bodloni.	Hyfforddiant, anogaeth, arweiniad a chymorth sy'n cwmpasu disgyblaethau megis gwella, llwybrau cyflawni prosiectau, a gwyddor newid ar gael pan ofynnir amdanynt,.

Bydd glynw'n dynn at wyddor rheoli newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn arwain at gyflawni mwy o welliannau diriaethol o'r rhaglenni priodol yn brydlon. Bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i sefydlu dulliau aeddfed systematig, wedi'u blaenoriaethu i reoli newid. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd y dulliau'n parhau i esblygu. Bydd cyflwyno mentrau newid cadarn, mwy trylwyr o bob maint yn helpu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau gwelliannau'n gynt.

Perfformiad ac atebolrwydd



Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd y Fframwaith Perfformiad Integredig yn ystod 2023/24 er mwyn ategu'r gwaith o wella monitro ac arwain perfformiad. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau pwysig yn ystod 2024/25, cydnabyddir bod angen datblygu'r gwaith o oruchwyllo perfformiad, gwella rhagamcanion perfformiad ac ymyrraeth gynnar ymhellach er mwyn cyfyngu ar yr effaith andwyol pan nad yw ar y trywydd cywir.

Mae'r Fframwaith yn annog gwella perfformiad drwy ddull partneriaeth sy'n agored ac yn arloesol, a thrwy ennyn ymrwymiad i wella ar bob lefel y sefydliad.

Mae gan y Bwrdd lechyd broblemau perfformiad sylweddol mewn sawl maes. Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd lechyd y gyfres gywir o wybodaeth sy'n cael ei hadrodd a'i defnyddio yn y sefydliad i gefnogi'r ddarpariaeth.

Bydd monitro perfformiad ac amcanion perfformiad clir sydd wedi'u seilio ar y Cynllun Tair Blynedd yn rhoi sail sy'n fwy cadarn i fodol atebolrwydd y Bwrdd lechyd. Bydd defnyddio dulliau hyder cyflawni yn bwysig i olrhain ac ymyrryd yn y meysydd sydd â'r risgiau mwyaf ac sydd felly, yn feysydd y mae angen mwy o ffocws arnynt.

Bydd y gwaith hwn yn gwella cyflawni o'i fesur yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol allweddol, disgwyliadau Mesurau Arbennig ac yn erbyn gweithgarwch a metrigau ariannol.

Bydd cyflawni'n llwyddiannus yn arwain at ofal o ansawdd gwell, canlyniadau gwell i ddinasyddion a staff, a sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn glir ynghylch eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd.

Rheoli Risg

Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni'n effeithiol, byddwn yn gweithredu dull strwythuredig o fonitro cyflawni, perfformio a rheoli risg, yn strategol ac yn weithredol.

- **Monitro Cyflawni:** Bydd y gwaith o weithredu'r cynlluniau yn cael ei olrhain yn ofalus, â'r cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i adrodd i'r Bwrdd. Bydd hyn yn rhoi darlun clir a thryloyw o gyflawniadau o'u cymharu â'r amcanion a osodwyd.
- **Rheoli Risg:** Yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risg, bydd risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun yn cael eu monitro'n barhaus drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd y risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n ffurfiol a'u hadrodd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn rheolaidd, gan sicrhau dull rhagweithiol o liniaru risg.
- **Dull Risg Integredig:** Mae'r holl risgiau corfforaethol wedi'u hasesu i sicrhau eu bod yn cydfynd â dull rheoli risg integredig, gan sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth yn ystyried risgiau yn y dyfodol ac yn blaenoriaethu strategaethau lliniaru, gan sicrhau diogelwch a chynaliadwyedd gwasanaethau.
- **Triongli Perfformiad:** Mae metrigau perfformiad wedi'u cysylltu ag amcanion sydd wedi'u cynllunio a chanlyniadau cyflawni. Mae'r triongli hwn sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch, canlyniadau a risg yn sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) yn adlewyrchu cynnydd ac yn amlygu'r meysydd lle y mae angen ymyriad.

Trwy ymgorffori'r mecanweithiau hyn a sicrhau llywodraethu da, bydd gan y Bwrdd lechyd strwythur llywodraethu rheoli risg sy'n gadarn er mwyn llywio'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn llwyddiannus, a sicrhau ansawdd y gwasanaethau, cynaliadwyedd ac adrodd tryloyw i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.

Gweithlu

Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu gweithlu medrus ac effeithiol i ddiwallu anghenion trigolion Gogledd Cymru. Mae hyn yn caniatáu mwy o gydweithio â staff a phartneriaid i greu datrysiadau

gweithlu sy'n gynaliadwy, yn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol, ac yn darparu gwasanaethau arloesol, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y claf.

▪ ***Sgiliau ac Ymgysylltu***

Gyda'r defnydd cynyddol o ddatrysiadau digidol ar draws y Bwrdd Iechyd, mae angen gweithlu amlddisgyblaethol sefydlog a medrus â'r gallu i addasu er mwyn manteisio ar dechnoleg newydd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cefnogi staff mewn ffordd sy'n galluogi defnyddio timau sydd â'r sgiliau cywir i ddarparu gofal cleifion o safon yn effeithiol. Gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo, gwelir diwylliant yn datblygu lle mae gan yr holl staff lais a'r gallu i gyfrannu at lwyddiant y sefydliad. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i drawsnewid ffyrdd traddodiadol o weithio, datblygu sgiliau newydd i gyflwyno modelau gofal arloesol trwy fentrau lleol ac ymgorffori'r rhaglenni gwella a thrawsnewid cenedlaethol ymhellach.

▪ ***Recriwtio a Chadw Staff***

Mae recriwtio a chadw staff sydd â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau sydd eu hangen i weithio ar draws y gwasanaethau yn allweddol i sicrhau canlyniadau o ansawdd i gleifion.

Trwy'r rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd, bydd timau'r gweithlu yn cefnogi'r meysydd hynny yn y Bwrdd Iechyd sy'n wynebu heriau. Yn y lle cyntaf, bydd yn sefydlogi niferoedd y gweithlu trwy sicrhau bod bylchau allweddol yn cael eu llenwi. Ynghyd â hyn, bydd yn galluogi staff i gyflwyno eu sgiliau allweddol i sicrhau gofal cleifion effeithiol sy'n seiliedig ar ansawdd. Mae'r meysydd gwasanaeth allweddol sydd dan sylw ar gyfer 25/26 yn cynnwys Orthopedeg, Oncoleg, Orthodonteg, Dermatoleg, Gwasanaethau Fasgwlaidd, Wroleg, Offthalmoleg a Phlastigau fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y cynllun.

Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â datblygu cynlluniau gweithlu manwl ar draws y meysydd gwasanaeth allweddol i sicrhau bod ymyriadau recriwtio a chadw staff wedi'u targedu yn cael eu hamlygu a'u gweithredu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gymorth wedi'i dargedu i alluogi cydweithio ar draws timau i ddarparu datrysiadau cynaliadwy sy'n galluogi canlyniadau o ansawdd i gleifion. Bydd timau'r gweithlu yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i sicrhau bod ganddynt y cymorth sydd ei angen i gyflogi staff mewn ffordd effeithlon drwy leihau rhwystrau i recriwtio didor.

Mae gwaith recriwtio penodol eisoes ar y gweill gyda nifer o fentrau ar waith ac wedi'u cynllunio ar gyfer gweithwyr meddygol a nyrsio proffesiynol. Bydd hyn yn ategu'r gwaith presennol o ran recriwtio yn y DU gyda dulliau symlach ac arloesol i ddenu staff i ddod i weithio, ac i aros yng Ngogledd Cymru.

Yn ogystal â gweithwyr cofrestredig, bydd y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes i gefnogi llwybrau mynediad lleol i bobl Gogledd Cymru lenwi rolau ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn golygu atgyfnerthu'r cysylltiadau presennol gyda'n partneriaid Addysg Bellach ac Addysg Uwch i feithrin llwybrau a chyfleoedd newydd ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae ffocws penodol ar lesiant staff yn cael ei fabwysiadu ar draws y Bwrdd Iechyd i nodi achosion sylfaenol absenoldeb salwch a sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu ar gael i alluogi staff i ddychwelyd i'r gwaith mewn modd effeithlon ac amserol lle bo modd. Mae trosiant staff hefyd yn ffocws gwaith

sy'n mynd rhagddo yn y Bwrdd Iechyd er mwyn deall pam mae staff yn gadael ac i ddarparu ymyriadau ar adegau allweddol yn ystod gyrfa staff i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad a dilyniant.

▪ **Sefyllfa Staffio'r Gweithlu**

Mae'r tablau isod yn amlinellu'r adnoddau sydd ar gael ar draws y sefydliad ar hyn o bryd yn ogystal â'r adnoddau sydd wedi'u cynllunio.

Y ffocws yn 2025-2026 fydd sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu er mwyn sicrhau mai dim ond yn y manau y mae angen twf, y byddwn yn tyfu. Mae ffyrdd mwy effeithlon o weithio yn cynnwys cynllunio swyddi'n fwy effeithiol a chyson, safoni dulliau rhestru dyletswyddau, galluogi cynllunio gweithlu effeithiol, a defnyddio rolau amgen - arallgyfeirio ac ailgynllunio cymysgedd sgiliau. Mae'r blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y cynllun hwn yn cynnwys yr egwyddorion hyn. Bydd cynlluniau gweithlu sy'n ddiogel ac y gellir eu cyflawni wrth wraidd unrhyw ailgynllunio neu ad-drefnu gwasanaethau cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Y tu hwnt i 2025-2026 bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ail-lunio ei weithlu i fodloni gofynion newidiol darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn golygu symud tuag at integreiddio rolau newydd megis Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia i fodelau lefelau gwasanaeth gweithlu.

Mae'r tablau isod hefyd yn amlinellu sefydliadau gweithlu presennol y Bwrdd Iechyd ynghyd â'r staff sydd yn y swyddi ar hyn o bryd. Mae rhagamcanion ar gyfer 2026-27 a thu hwnt wedi'u lliwio'n llwyd i adlewyrchu'r angen i newid strwythur presennol ein gweithlu. Bydd cwblhau gwaith dylunio Sylfeini'r Dyfodol ynghyd â datblygu cynlluniau Gwasanaethau Clinigol yn ganolog i'r gwaith hwn o ail-lunio proffiliau presennol y gweithlu. Yn fras, disgwylir y bydd nifer y staff gweinyddol a chleryddol yn gostwng, â symudiad tuag at wasanaethau clinigol mwy digidol yn y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal â hyn, bydd datblygu rolau uwch ymarferwyr clinigol sy'n cael eu cynnwys yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn arwain at ddarparu gwasanaethau clinigol mwy integredig sy'n seiliedig ar sgiliau ac yn newid proffiliau staffio traddodiadol.

GWEITHLU WTE	Ar 31/3/24	Rhagamcan 31/03/25	Rhagamcanion 25/26			Diwedd y Cynllun 2025/26	Diwedd y Cynllun 2026/27	Diwedd y Cynllun 2027/28
			Diwedd Ch1	Diwedd Ch2	Diwedd Ch3			
Gweinyddol, Clercyddol ac Aelodau'r Bwrdd	4,002	4,021	4,021	4,021	4,021	4,021	4,021	4,021
Meddygol a Deintyddol	1,752	1,808	1,808	1,808	1,808	1,808	1,808	1,808
Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig	6,323	6,278	6,278	6,278	6,278	6,278	6,278	6,278
Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol	861	867	867	867	867	867	867	867
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	4,265	4,207	4,207	4,207	4,207	4,207	4,207	4,207
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,280	1,316	1,316	1,316	1,316	1,316	1,316	1,316
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	346	348	348	348	348	348	348	348
Ystadau ac Ategol	1,522	1,498	1,498	1,498	1,498	1,498	1,498	1,498
Myfyrwyr	22.5	22.5	23	23	23	23	23	23

CYFANSWM	20,374	20,366	20,366	20,366	20,366	20,366	20,366	20,366
----------	--------	--------	--------	--------	--------	--------	--------	--------

WTE Parhaol	Ar 31/3/24	Rhagamcan 31/03/25	Rhagamcanion25/26			Diwedd y Cynllun 2025/26	Diwedd y Cynllun 2026/27	Diwedd y Cynllun 2027/28
			Diwedd Ch1	Diwedd Ch2	Diwedd Ch3			
Gweinyddol, Clercyddol ac Aelodau'r Bwrdd	3,647	3,616	3,627	3,638	3,649	3,657	3,689	3,721
Meddygol a Deintyddol	1,166	1,163	1,172	1,181	1,189	1,198	1,214	1,230
Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig	5,653	5,812	5,839	5,865	5,892	5,918	5,978	6,038
Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol	758	774	779	783	787	791	807	823
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	4,011	3,928	3,937	3,946	3,955	3,963	3,995	4,027
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,211	1,237	1,241	1,244	1,248	1,252	1,256	1,260
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	329	324	325	326	326	327	329	331
Ystadau ac Ategol	1,329	1,326	1,331	1,337	1,343	1,348	1,368	1,388
Myfyrwyr	23.5	18.9	22.5	22.5	22.5	22.5	22.5	22.5
Meddygol a Deintyddol (Gwasanaeth a Rennir yn Ganolog)	460	488	488	488	488	488	488	488
CYFANSWM	18,588	18,687	18,760	18,830	18,900	18,964	19,146	19,328

Cyllid

▪ Trosolwg o'r Cynllun Ariannol

Prif ddiben y Cynllun Ariannol yw adlewyrchu effaith ariannol y penderfyniadau a'r datblygiadau gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr IMTP a chefnogi nodau sylfaenol ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol i adennill costau yn erbyn y terfyn adnoddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd.

Mae heriau ariannol 2023/24 yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2023/24; ac mae cyflawni balans ariannol a'r ddyletswydd ariannol allweddol yn parhau i fod yn heriol yn yr hinsawdd bresennol er gwaethaf y cynnydd mewn cyllid. Roedd y cynlluniau cychwynnol yn gosod cynllun diffyg o £19.7m. Roedd y sefyllfa hon yn well yn dilyn dyraniad ychwanegol o £11.15m i gydnabod y pwysau cyson a brofir gan bob Bwrdd Iechyd, a gefnogwyd yn rhannol gan gyllid anghylchol yn 2023/24. Yn benodol, roedd hyn er mwyn cefnogi'r galw parhaus a phwysau chwyddiant mewn perthynas â rhagnodi, meddyginiaethau gofal eilaidd, a phecynnau gofal (GIP/Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG). Y

canlyniad yw bod gan y Bwrdd Iechyd gynllun cychwynnol gwell o ddiffyg o £8.6m ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Mae cynllun ariannol 2025/26 yn cyd-fynd ag uchelgais strategol y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol i fantoli'r gyllideb, gan osod y sylfeini a fydd yn galluogi cyflawni gweithlu cynhyrchiol, effeithlon a chyflogedig sy'n cynnig gofal cleifion o ansawdd uchel ac sy'n gynaliadwy'n ariannol. Bydd angen blaenoriaethu ymrwymadau gwariant er mwyn gallu cyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol a'r perfformiad y gofynnir amdano.

▪ **Diffyg Sylfaenol**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu diffyg sylfaenol sylweddol, sy'n groniad o faterion sy'n cynnwys pwysau costau, penderfyniadau buddsoddi hanesyddol a pheidio â chyflawni rhaglenni arbedion.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £8.6m ar gyfer 2024/25, yn dilyn cyhoeddi adnoddau ariannol cylchol ychwanegol o £11.15m gan Lywodraeth Cymru (a wellodd y diffyg arfaethedig gwreiddiol o £19.7m). Yn ogystal â'r dyraniad yn ystod y flwyddyn, roedd y Bwrdd Iechyd hefyd yn cael £82m a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r pedair blynedd ariannol ddiwethaf i gefnogi gwelliannau a thrawsnewid gwasanaethau, a £74.6m a dderbyniwyd ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf i gefnogi'r diffyg sylfaenol a'r codiadau mewn chwyddiant.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi pwysau o ddefnyddio capasiti ychwanegol i wasanaethu'r galw am ofal heb ei gynllunio, Gofal Iechyd Parhaus, Rhagnodi a Chyffuriau Gofal Eilaidd. Mae asesiad o'r pwysau cost a'r tanwariant sy'n cyfrannu at sefyllfa 2024/25 wedi'i gynnal a nodwyd gorwariant cylchol net o £23.3m a fydd yn parhau yn 2024/25.

Disgwylir i'r diffyg agoriadol hwn o £8.6m ynghyd â lefelau uchel o incwm nad yw'n gylchol a phwysau costau a brofwyd yn 2024/25 barhau i 2025/26, ac mae'n rhoi diffyg sylfaenol agoriadol o £188.5m, sef y man cychwyn ar gyfer Cynllun Ariannol 2025/26.

Diffyg Sylfaenol	£m
Rhagamcan o'r alldro diffyg ar gyfer 2024/25	8.6
Cymorth Strategol anghylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer diffyg 2021/22	40.0
Cronfa Perfformiad a Thrawsnewid anghylchol Llywodraeth Cymru	42.0
Cymorth cylchol amodol Llywodraeth Cymru – diffyg sylfaenol a chwyddiant	74.6
Gorwariant cylchol a gwrthdroi'r lliniaru ar y fantolen o 2024/25	23.3
Diffyg sylfaenol agoriadol 2025/26	188.5

Mae'n werth nodi bod y diffyg sylfaenol yn gwella'n sylweddol ar ôl i'r Bwrdd Iechyd fodloni'r amodau sy'n gysylltiedig â chadw'r cyllid cylchol amodol (£74.6m) a dyraniadau adnoddau Strategol a Thrawsnewid Llywodraeth Cymru (£82m).

▪ **Ein Hadnoddau**

Cadarnhaodd cyhoeddiad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 gynnydd arfaethedig o £435m o reffeniw a £175m o gyllid cyfalaf yn y gyllideb lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hwn wedi'i ddyrannu yn bennaf, i gefnogi'r gost a aseswyd o dwf anochel yn y galw a phwysau chwyddiant anochel, ac i sicrhau cynnydd ar ofynion cyfalaf. Mae'n hanfodol bod sefydliadau'n parhau i gymryd camau i liniaru twf gwariant, cyflawni arbedion ac effeithlonrwydd, ynghyd â chynyddu cynhyrchiant.

Mae cyllid Cymorth Strategol Llywodraeth Cymru a oedd i ddod i ben yn 2024/25 (cyfanswm o £82m y flwyddyn), wedi parhau yn amodol ar gyflawni'r targed rheoli cyfanswm o ddiffyg o £8.6m ar gyfer 2024/25 a chyflwyno IMTP cytbwys. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau bod y £74.6m o gyllid cylchol amodol a dderbyniodd y Bwrdd lechyd yn 2023/24 a 2024/25 wedi'i gynnwys yn y dyraniad ar gyfer 2025/26 a'i fod yn parhau i fod yn gylchol amodol. Mae'r dyraniad hwn wedi'i ddosbarthu'n rheolaidd mewn egwyddor; yn amodol ar gynnydd o ran cyflawni'r cyfanswm rheoli targed a roddwyd i'r sefydliad.

Mae twf dyraniad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 yn cynrychioli cynnydd o 1.77% mewn cyllid, sy'n cyfateb i £31.9m ar gyfer PBC (nid oes angen gwasanaethu codiad cyflog gan y codiad hwn ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y cynlluniau ar hyn o bryd). Felly mae'r cynnydd hwn yn y cyllid craidd yn cynorthwyo sefydliadau'r GIG mewn perthynas â'r pwysau anochel o ran chwyddiant a'r galw a ragwelir yn 2025/26. Mae cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog y GIG yn 2025/26 yn cael ei gadw'n ganolog a bydd yn cael ei ddyrannu i gyflogwyr unwaith y gwneir y dyfarniadau.

Dangosir yr adnoddau ychwanegol sydd ar gael y flwyddyn nesaf yn y tabl isod:

	Cylchol £m	Anghylchol £m	Cyfanswm £m
Incwm Dyraniad			
Cymorth Strategol anghylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer diffyg 2021/22		-40.0	-40.0
Cronfa Perfformiad a Thrawsnewid anghylchol Llywodraeth Cymru		-42.0	-42.0
Cymorth cylchol amodol Llywodraeth Cymru – diffyg sylfaenol a chwyddiant		-74.6	-74.6
Codiad dyraniad (gan gynnwys lechyd Meddwl)	-31.9		-31.9
Ariannu Rhaglen Covid	-0.7		-0.7
Dyraniadau ar gyfer blaenoriaethau penodol (Gofal wedi'i Gynllunio, VBHC, FF a Chwe Nod)	-43.1		-43.1
Dyraniadau ar gyfer cynlluniau penodol (MH SIF, Optometryddion, Genomeg, Gofal Lliniarol llai Brechlynnau Ffliw)	-6.3		-6.3
Cyfanswm y Dyraniad Ychwanegol	-82.0	-156.6	-238.6
Incwm Arall			
Cynnydd Incwm Darparwr	-0.4		-0.4
Cyfanswm Incwm Arall	-0.4		-0.4
Cyfanswm Incwm Ychwanegol	-82.4	-156.6	-239.0

Mae'n werth nodi bod elfen fawr o'r incwm ychwanegol yn ymwneud ag adnoddau cylchol amodol; cynnydd chwyddiant a chadw am flwyddyn arall o'r gronfa trawsnewid a pherfformiad.

▪ **Rhaglen Gyfalaf**

Mae'r rhaglen gyfalaf yn ceisio cydbwysu buddsoddi mewn asedau er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth, lliniaru risgiau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru o fewn y cynllun presennol. Mae'r rhaglen yn cynnwys prosiectau cyfalaf sydd wedi dilyn prosesau gwerthuso a blaenoriaethu cadarn o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'w hariannu.

Mae rhaglen gyfalaf y Bwrdd Iechyd yn cynnwys nifer o ffynonellau ariannu posibl, sef Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan, cymorth grantiau penodol i brosiectau, cyfalaf dewisol, derbyniadau gwerthu eiddo a chyllid elusennol.

Gellir crynhoi'r rhaglen gyfalaf flynyddol ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:

Dyraniad Cyfalaf 2025/26	£m	Cyfanswm £m
Cymru Gyfan		24.928
Adeilad Camddefnyddio Sylweddu, Llandudno	2.556	
Hwb Orthopedeg Rhanbarthol, Ysbyty Llandudno	14.173	
Cyllid ar gyfer ystafelloedd Radiograffeg Digidol ac Ôl-groniad Cynnal a Chadw	0.490	
IRFC - Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Conwy a Chyffordd Llandudno	0.625	
DPIF – Datrysiaid Digidol Iechyd Meddwl Pob Oed	0.575	
Cronfa Ystadau wedi'u Targedu	6.509	
Yn ôl disgrisiwn		17.000
Uwch Adrannau	3.370	
Gwrth-glymiadau	1.000	
Dyfeisiadau Meddygol	3.550	
Gwybodeg	3.040	
Gwaith Isadeiledd yr Adeilad (Ystadau)	3.450	
Cyfleusterau	0.550	
Broceriaeth gwariant cyfalaf o 2024/25	1.500	
Cronfeydd wrth gefn	0.540	
Cyfanswm Incwm Ychwanegol		41.928

Cafodd y Bwrdd Iechyd Gyllid Ystadau a Dargedir ychwanegol drwy'r rhaglen genedlaethol o gynlluniau cyfalaf yn seiliedig ar flaenoriaethau. Wrth dderbyn y cyllid, mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno i gyfrannu 30% o'u cyllid dewisol. Mae'r tabl yn amlinellu dyraniadau cyllid 2025/26.

Cronfa Ystadau wedi'u Targedu	Cyllid £m	LIC	Cyfraniad 30% y Bwrdd Iechyd £m

Isadeiledd Ystadau	2.169	0.930
Diogelwch Tân	1.663	0.713
Datgarboneiddio	0.162	0.070
Atal a Rheoli Heintiau	0.554	0.238
Dadheintio	0.543	0.233
Iechyd Meddwl	1.418	0.608
Cyfanswm	6.509	2.792

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar nifer o gynlluniau cyfalaf mawr:

Hwb Orthopedig Rhanbarthol – mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo ar y safle gydag ymgysylltu parhaus i sicrhau'r dyddiad cwblhau cynharaf.

Meddygaeth Niwclear/CT PET – datblygu'r Achos Busnes Amlinellol i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn chwarter 1, gyda disgwyliad iddo fynd i FBC. Cyflwynwyd matrices craffu ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio drwy'r ymatebion.

Datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra – cyflwynwyd FBC i Lywodraeth Cymru eisoes, mae'n cael ei adolygu gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal ar symud y prosiect yn ei flaen.

Uned Iechyd Meddwl Oedolion a Phobl Hŷn (Ablett) – mae'r FBC yn cael ei adolygu i'w gyflwyno i'w gymeradwyo yn 2025/26 o bosibl.

Ysgol Feddygaeth – gweithio ar y cyd â Phrifysgol Bangor. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo'r achos busnes a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn chwarter 1.

IRCF – mae nifer o brosiectau IRCF yn cael eu datblygu a fydd yn cynnwys Caledfryn, Canolfan Gofal Sylfaenol Integredig Conwy/Cyffordd Llandudno, Canolfan Gofal Sylfaenol Waunfawr a Chanolfan Gofal Sylfaenol Caergybi. Mae'r rhain i gyd yn amodol ar adolygiad o'r blaenoriaethu i gyflawni amcanion cronfa'r IRCF a llif arian derbynol.

Rhaglen Ddiagnostig gan gynnwys LINACs – rheolir rhaglen amnewid diagnostig yn genedlaethol gyda'r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu adnewyddu dau Gyflymydd Llinol.

Rhaglen ddigidol – Mae nifer o systemau cofnodion iechyd electronig yn cael eu datblygu sy'n cynnwys yr Ateb Digidol Iechyd Meddwl Pob Oedran, Rhagnodi Electronig a Chofnod Iechyd Electronig.

▪ **Risgiau Ariannol**

Mae risgiau sylweddol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol, y bydd angen eu monitro a'u rheoli drwy gydol y flwyddyn. Yn benodol, bydd lefel yr arbedion sydd eu hangen o fewn y cynlluniau yn dibynnu ar y Bwrdd Iechyd yn gweithredu nifer o gyfleoedd trawsnewid a gwella.

Mae risgiau sylweddol hefyd mewn perthynas â gorwario costau o ddefnyddio gwelyau ychwanegol, gyda mesurau lliniaru yn canolbwyntio ar wardiau rhyddhau ac ail-alluogi. Mae pwysau chwyddiant

yn parhau ac mae risgiau'n canolbwyntio ar geisiadau am gyllid chwyddiant sy'n fwy na'r dyfarniadau cyllid sylfaenol o 1.77% yn y modelu, yn enwedig mewn meysydd fel GIP a Rhagnodi.

Dangosir y risgiau i'r cynllun ariannol yn y tabl isod:

Risgiau	£m	Tebygolrwydd
Risgiau mesuradwy		
Methu cyflawni arbedion sydd heb eu nodi eto	20.0	Cymedrol
Gorwario ar ddefnyddio gwelyau ychwanegol	12.0	Uchel
Effeithiau chwyddiant	10.0	Uchel
Cyfanswm risgiau mesuradwy	42.0	
Risgiau eraill heb eu meintioli		
Buddsoddiadau o fewn gwasanaethau - dyraniadau ychwanegol ac ail-flaenoriaethu cyllid		

Cyfleoedd / mesurau lliniaru ar gyfer y risgiau a nodwyd
Parhau i ddatblygu arbedion trawsnewid trwy raglen ar gyfer cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd – tra bod y rhaglen hon yn datblygu, parhau â'r mesurau rheoli a ddefnyddiwyd yn 2024/25
Wardiau ffit yn feddygol i ryddhau (ailalluogi)

Mae targedu gwelliannau trwy weithredu dull Gwerth a Chynaliadwyedd er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer y boblogaeth leol, gan sicrhau enillion mewn cynhyrchiant ac effeithlonrwydd trwy adolygiadau gwasanaeth sy'n cyd-fynd â meincnodi gyda gwelliannau i'r sefyllfa ariannol, yn ffocws strategol allweddol.

Mae'r cynlluniau ariannol yn cyd-fynd ag uchelgais strategol y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol i fantoli'r gyllideb. Mae hyn yn gosod y sylfeini i alluogi cyflawni gweithlu cynhyrchiol, effeithlon a chyflogedig sy'n cynnig gofal cleifion o ansawdd uchel ac sy'n ariannol gynaliadwy.

Adran 7: Atodiadau

Darperir yr atodiadau canlynol fel dogfennau ar wahân:

- Atodiad 1: Cymru Iachach - diweddarau camau gweithredu
- Atodiad 2: Aseiad gwaelodlin Galluogi Camau Gweithredu Ysgrifennydd y Cabinet
- Atodiad 3: Trywydd Cyflawni Disgwyliadau Ysgrifennydd y Cabinet
- Atodiad 4: Meini Prawf Dad-ddwysáu Mesurau Arbennig

Adran 8: Byrfoddau a Geirfa

Achos Busnes	BC	Yr Achos Busnes sy'n cyfiawnhau ymgymryd â phrosiect, rhaglen neu bortffolio ar sail y budd disgwylidig.
Achos Busnes Amlinellol	OBC	Mae Cynllun Busnes Amlinellol (OBC) yn fframwaith prosiect rhagarweiniol sy'n nodi'r syniadau rhagarweiniol ynghylch prosiect arfaethedig. Mae'n nodi'r opsiwn gwario sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian.
Achos Busnes Llawn	FBC	Yr Achos Busnes Llawn yw'r cam olaf yn y 'Model Pum Achos'. Fe'i defnyddir yn aml mewn llywodraeth a sefydliadau mawr i gyfiawnhau buddsoddi.
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw'r corff gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru. Mae'n rhoi cymorth a chynghor strategol ac arbenigol ynglŷn â'r gweithlu ledled Cymru.
Aelod Annibynnol	IM	Mae Aelodau Annibynnol Byrddau Iechyd yng Nghymru, yn cydweithio â Chyfarwyddwyr Gweithredol fel aelodau cyfartal o'r Bwrdd unedol.
Aelod Gweithredol		Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am redeg y sefydliad yn weithredol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cydweithio ag Aelodau Annibynnol fel aelodau cyfartal o'r Bwrdd unedol mewn Byrddau Iechyd yng Nghymru.
Allanoli		Darparu capasiti ychwanegol (clinig, diagnostig neu lawfeddygol) a ddarperir gan y sector annibynnol o'u safle eu hunain.
Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig	ASD	Mae Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio ystod o gyflyrau datblygiadol sy'n perthyn yn agos at ei gilydd. Yn y gorffennol, cyfeiriwyd atynt fel 'awtistiaeth'.

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	ADHD	Cyflwr yw ADHD. Fel arfer, ceir diagnosis yn ystod plentyndod. Fe'i nodweddir gan orfywiogrwydd a byrbwylltra.
Apwyntiad Dilydol ar Gais y Claf	PIFU	Apwyntiad mewn clinigau clinigol a drefnir ar gais y claf yn unig.
Argyfyngau Sifil Posibl		Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill baratoi ar gyfer argyfyngau.
Archwilio Cymru		Archwilio Cymru yw'r sefydliad sy'n craffu'n annibynnol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn eu harchwilio.
Archwilio Mewnol		Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sy'n annibynnol ar y Bwrdd Iechyd sy'n archwilio gwasanaethau a systemau llywodraethu yn y Bwrdd Iechyd. Mae gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu cynnal gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru.
Arweinyddiaeth dosturiol		Mae arweinyddiaeth dosturiol yn ddull o arwain sy'n cynnwys gwrando ar gydweithwyr, deall eu hanghenion a'u cynorthwyo. Mae'n faes sydd wedi'i ymchwilio'n drylwyr a'i ddiben yw sicrhau staff sy'n ymgysylltu mwy ac sy'n gryfach eu cymhelliant, lefelau uwch o lesiant a'r gallu i ddarparu gofal o ansawdd gwell.
Asesiad o Anghenion Fferyllol	PNA	Mae'r Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA) yn asesiad o ofynion ac anghenion y gwasanaeth fferyllol mewn ardaloedd unigol, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r PNA i lywio cynlluniau i wella gwasanaethau fferyllol.
Asesiad o Anghenion y Boblogaeth	PNA	Asesiad yw hwn o'r anghenion gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru. Mae'n nodi'r gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny, ac unrhyw fylchau a champau gweithredu sydd eu hangen. Fe'i sefydlwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cwblhawyd y PNA diweddaraf yn 2022, ond fe'i hadolygir yn rheolaidd.
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	EqIA	Fframwaith ar gyfer dangos sylw dyledus drwy ystyried tystiolaeth a dadansoddiadau i helpu i nodi'r effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol y gallai cynigion polisi eu cael ar rai grwpiau gwarchoddedig ac i amcangyfrif a yw effeithiau o'r fath yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau o'r fath.
Asesiadau a Thriniaethau Clinigol Integredig Unigol	SICAT	Sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan yr unigolion cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir er mwyn atal oedi hir wrth ddrws yr Adran Achosion Brys. Mae'n caniatáu i gerbydau aros yn lleol er mwyn ymateb i alwadau coch, yn lleihau amser y cylchdro cyffredinol ac efallai hyd yn oed yn caniatáu i weithwyr orffen ar amser.
Iechyd y Boblogaeth ac Atal	P&PH	Mae hyn yn ymwneud ag atal afiechyd yn GIG Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw corff rheoleiddio cenedlaethol y DU ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle.
Blaenoriaethau Gweinidogol		Mae'r blaenoriaethau gweinidogol wedi'u gosod yn Fframwaith Cynllunio'r GIG 2025/28. Mae angen i flaenoriaethau gael eu

		tanategu gan ffocws ar ansawdd, diogelwch ac atal fel rhan o'r gweithgaredd arfaethedig, gyda chanlyniadau meddygol da wrth galon gwasanaethau'r GIG.
Blaenoriaethu		Y broses a ddefnyddir i wneud gwelliannau i wasanaethau gofal iechyd sy'n cynnig y gwerth gorau i unigolion a chymunedau wrth ddyrannu'r defnydd o adnoddau cyfyngedig.
Byw'n iach, Aros yn iach		Strategaeth y Bwrdd Iechyd yr ymgynghorwyd arni yn 2017 ac a gyhoeddwyd yn 2018. Dyma yw strategaeth 10 mlynedd bresennol y Bwrdd Iechyd.
Bwrdd		Y Bwrdd sy'n llywodraethu'r sefydliad. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, Aelodau Annibynnol (a benodir gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ac Aelodau Gweithredol. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio Bwrdd unedol.
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	BGC	Sefydlwyd BGC gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae 3 BGC yng Ngogledd Cymru. Rhaid i bob bwrdd gynnal asesiad llesiant a chyhoeddi cynllun llesiant lleol blynyddol.
Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd		Dull gofal iechyd cydweithredol cenedlaethol yng Nghymru i nodi a meincnodi cyfleoedd i gynyddu gwerth yn y GIG, ac i sicrhau bod gwasanaethau'n fwy cynaliadwy. Disgwylir i Fyrddau Iechyd unigol gymhwyso'r canfyddiadau i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	RPB	Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u sefydlu fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i wella llesiant y boblogaeth ac i wella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu. Mae un RPB yng Ngogledd Cymru. Mae aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys aelodau Byrddau Iechyd ac uwch swyddogion, Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Brys, o faes tai, addysg, y trydydd Sector a gofalwyr.
Canolfan Ragoriaeth Menter Ymchwil Busnesau Bach	SBRI	Mae Canolfan Ragoriaeth Menter Ymchwil Busnesau Bach yng Nghymru yn cael ei chynnal gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n cydweithio â chyrrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. Drwy gynnal cystadlaethau a gwahodd y diwydiant i gymryd rhan, nod Canolfan Ragoriaeth SBRI yw datblygu datrysiadau arloesol sy'n gwella iechyd a lles pobl sy'n byw yng Nghymru. Ariennir y Ganolfan gan Lywodraeth Cymru.
Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	COPD	Mae COPD yn gyflwr hirdymor sy'n effeithio ar anadlu. Mae'n cynnwys emffysema a bronchitis cronig. Mae'r rhan fwyaf o achosion o COPD yn gysylltiedig â hanes o ysmegu, sy'n golygu bod COPD yn gyflwr y gellir ei atal mewn llawer o bobl.
Clwstwr		Cydweithfa sy'n cwmpasu poblogaeth o tua 25,000 i 50,000. Mae clystyrau yn dod â chydweithwyr gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol, gwasanaethau gofal iechyd contractwyr annibynnol, y trydydd sector, ac eraill at ei gilydd, i nodi ffyrdd gwell o ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol trigolion lleol.
Cofnod Iechyd Electronig	EHR	Cofnod meddygol cyfrifiadurol sy'n disodli'r defnydd o gofnodion ar bapur yn llwyr.

Cofrestr Risg		Mae'r gofrestr risg yn gofnod strwythuredig o unrhyw risgiau sylweddol a reolir gan y Bwrdd Iechyd a allai effeithio ar waith y Bwrdd Iechyd. Caiff cofrestrau risg eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn cynnwys cynlluniau ymateb ynghylch lleihau neu reoli risgiau.
Colonosgopi		Archwilio'r coluddyn gan ddefnyddio tiwb tenau, hyblyg â camera ynghlwm wrtho.
Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	GMS	Dyma'r ffordd y mae Meddygon Teulu/Ymarferwyr Gofal Sylfaenol annibynnol yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i redeg eu practisau.
Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu	IRCF	Cynllun ariannu ar lefel Cymru gyfan sydd â'r nod o wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru	NWJCC	Mae Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC) yn Gydbwyllgor sy'n gweithredu ar ran y saith Bwrdd Iechyd. Cafodd yr NWJCC ei sefydlu ym mis Ebrill 2024, ac mae'n disodli'r EASC a WHSSC. Bydd yn cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaethau a gomisiynwyd yn flaenorol gan y pwyllgorau hyn a'r NCCU, ynghyd â chomisiynu gwasanaethau GIG 111 Cymru, a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Cymru.
Cyfanswm rheoli		Mae cyfanswm rheoli ariannol yn cynrychioli targedau ariannol y mae'n rhaid eu cyflawni ac yn diffinio uchafswm y gwariant a ganiateir.
Cyflwr Hirdymor	LTC	Mae cyflyrau hirdymor yn fathau o salwch na ellir eu gwella er y gellir eu rheoli â meddyginiaethau neu driniaethau eraill, er enghraifft, asthma a diabetes.
Cymuned Iechyd Integredig	IHC	IHC yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at dair ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd - y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin. Mae pob IHC yn gyfrifol am drefnu a darparu gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol yn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yr ardal berthnasol yn ogystal â gwasanaethau cymunedol yr ardal honno.
Cyllid gofal iechyd parhaus	GIP	Mae cyllid gofal iechyd parhaus, a elwir hefyd yn gyllid GIP, yn fframwaith GIG sy'n asesu unigolion sydd ag anghenion gofal iechyd parhaus sylweddol y tu allan i'r ysbyty. Os bodlonir y trothwy GIP, yna caiff anghenion gofal parhaus eu hariannu'n llawn gan y GIG.
Cymru Iachach - diweddariad		Diweddarau'r gyfres o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cymru Iachach.
Cynllun Cyflawni 2024-25		Mae cynllun cyflawni blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn cynnwys map manwl o sut a phry caiff y blaenoriaethau ar gyfer 2024-25 eu cyflawni a phwy yw'r uwch swyddog atebol sy'n goruchwyllo'r gwaith o gyflawni pob elfen.
Cynllun Cyflawni Blynyddol	ADP	Fframwaith strwythuredig sy'n amlinellu'r prif flaenoriaethau, targedau a champau gweithredu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd dros flwyddyn ariannol.
Cynllun Gwasanaethau Clinigol	CGC	Cynllun ar gyfer sut i drefnu'r ddarpariaeth o wasanaethau clinigol er mwyn cyflawni bwriad strategol y Bwrdd Iechyd.

Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio	DAP	Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyr.
Cynllun Tymor Canolig Integredig	IMTP	Cynllun yw IMTP sydd wedi'i osod o fewn cyd-destun tair blynedd ac sy'n nodi sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Rhaid i IMTP adlewyrchu tirwedd strategol a deddfwriaethol Cymru, gan gynnwys blaenoriaethau'r Gweinidogion.
Cytundeb Lefel Gwasanaeth	CLG	Cytundeb ysgrifenedig rhwng darparwr gwasanaeth a chomisiynydd y gwasanaeth hwnnw sy'n nodi'n glir beth yw lefel y gwasanaeth a ddisgwylir a'r trefniadau monitro a ddefnyddir.
Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng	6 Nod	Mae'r Rhaglen 6 Nod yn rhaglen genedlaethol o fentrau i helpu trawsnewid mynediad at ofal brys a gofal mewn argyfwng.
Datblygiad Sefydliadol	OD	Datblygiad sefydliadol yw'r dull a ddefnyddir i gynorthwyo'r bobl sy'n gweithio mewn sefydliad i wneud eu gorau a bod yn fwyaf bodlon. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo diwylliant sefydliadol cadarnhaol, datblygu sgiliau'r gweithlu a sgiliau arwain a gwella cyfathrebu.
Deddf Gofal Gwrthgyfartal	ICL	Mae'r ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn disgrifio'r ffenomen lle mae'r bobl sydd â'r angen mwyaf o ofal iechyd yn lleiaf tebygol o dderbyn hynny, gan achosi gwahaniaethau o ran mynediad at ofal. Yn aml, mae hyn yn digwydd pan fydd pobl sy'n llai cyfoethog yn profi rhwystrau.
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)	SPPP	Fframwaith statudol â'i nod at wella lles y boblogaeth trwy wella gwasanaethau cyhoeddus, gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol.
Delweddu Atseiniol Magnetig	MRI	Mae delweddu atseiniol magnetig yn fath o sgan sy'n defnyddio meysydd magnetig a thonnau radio y tu mewn i diwb mawr y mae'r claf yn gorwedd ynddo.
Digidol, Data a Thechnoleg	DDaT	Mae digidol yn ymwneud â sut mae sefydliadau'n newid eu modelau busnes i fanteisio ar dechnolegau oes y rhyngryd er mwyn galluogi canlyniadau gwell. Mae'n cynnwys y technolegau a'r offer a ddefnyddir yn y fenter a'r tu hwnt iddi, gan gwsmeriaid/cleifion/dinasyddion. DDaT gyda'i gilydd yw'r term cyffredin a ddefnyddir ar gyfer y proffesiwn a'r model gweithredu, sydd, o'i gyflwyno'n effeithiol, yn arwain at y gwerth gorau.
Dolen Gaeedig Hybrid	HCL	Mae system dolen gaeedig hybrid yn fath o dechnoleg a ddefnyddir i reoli diabetes, a diabetes math 1 yn arbennig. Mae'n cyfuno pwmp inswlin â monitor glwcos parhaus (CGM) i awtomeiddio cyflenwad inswlin.
Dull partneriaeth busnes		Mae'r dull partneriaeth busnes yn ddull sy'n alinio arbenigedd swyddogaethol mewn meysydd megis cyllid, y gweithlu, a gwyddor gwella, â thimau gweithredol ledled y sefydliad.
Dyletswydd Ansawdd		Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cynnwys y Ddyletswydd Ansawdd sydd â'r nod o wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn barhaus. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn berthnasol i bob agwedd ar waith GIG Cymru, boed yn glinigol neu'n anghlinigol.

Endosgopi		Mae endosgopi yn brawf diagnostig sy'n defnyddio tiwb hir, tenau â camera bychan y tu mewn iddo, a elwir yn endosgop.
Feirws Papiloma Dynol	HPV	Feirws papiloma dynol yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at grŵp o feirysau y gall nifer fach ohonynt achosi dafadennau gwenerol neu ganser.
Fferyllfeydd cymunedol		Weithiau, fe'i gelwir yn 'fferyllfeydd stryd fawr'. Mae darparwyr fferyllfeydd cymunedol yn dosbarthu presgripsiynau ac yn gwerthu cynhyrchion dros y cownter, ond maent hefyd yn gwneud llawer iawn mwy na hynny, gan gynnwys cynnig ymgynghoriadau am ystod o broblemau gofal iechyd a rhagnodi rhai meddyginiaethau.
Ffibriliad atrïaidd	AF	Cyflwr ar y galon yw ffibriliad atrïaidd lle mae curiad y galon yn afreolaidd. Os nad yw'n cael ei drin yn effeithiol, gall yr afreoleidd-dra effeithio ar lif y gwaed gan arwain at glotiau a strôc.
Ffit yn Feddygol i'w Ryddhau	MFD	Dyma'r sefyllfa pan fo unigolyn yr ysbyty ac yn ffit yn feddygol i'w ryddhau yn cael ei gadw yn yr ysbyty am resymau heblaw bod angen goruchwyliaeth feddygol arno fel claf mewnol.
Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol	NFfSP	Mae'r NFfSP yn disgrifio'r model presgripsiynu cymdeithasol a ffafrir yng Nghymru, yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol ac yn ceisio sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ble bynnag fo'r lleoliad.
Fframwaith Cynllunio GIG Cymru	NWPF	Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn rhoi Cyfarwyddiadau Gweinidogol statudol i'r gwasanaeth er mwyn llunio cynlluniau strategol ariannol cytbwys. Y bwriad yw helpu cyfeirio adnoddau a chapasiti Byrddau Iechyd, a pharhau i ddarparu'r ystod gyffredinol o wasanaethau mewn ffordd gymesur a llywio'r penderfyniadau y bydd angen i fyrddau eu gwneud gan gynnwys ystyriaethau gweithlu a chyllid. Yma ceir y gofyniad statudol am Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) cymeradwy.
Fframwaith Cynllunio Integredig		Dyma fframwaith y Bwrdd Iechyd sy'n dod â'r holl agweddau ar draws y sefydliad lle mae angen sgiliau cynllunio at ei gilydd.
Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	BAF	Mae'r BAF yn dod â'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r risgiau o beidio â chyflawni amcanion strategol y bwrdd ynghyd, gan gynnwys sut mae'r risgiau hynny'n cael eu rheoli a'u lliniaru.
Galw a Chapasiti	D&C	Dyma'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r methodolegau ar gyfer nodi faint o gapasiti gofal wedi'i gynllunio sydd ar gael o'i gymharu â'r galw disgwylidig a ddaw yn sgil cyfeiriadau.
Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod	SDEC	Mae gofal argyfwng yr un diwrnod (SDEC) yn wasanaeth sy'n darparu gofal brys i gleifion heb fod angen eu derbyn i'r ysbyty dros nos.
Gofal heb ei drefnu		Erbyn hyn, defnyddir y term 'gofal brys a gofal mewn argyfwng'. Mae'n ymwneud â gofynion gofal heb ei gynllunio cleifion sydd naill ai'n faterion brys neu'n argyfyngus. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir mewn Adrannau Achosion Brys ond mae hefyd yn cynnwys llawer o wasanaethau eraill, er enghraifft, y defnydd o wasanaeth 111, unedau mân anafiadau, gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau a gwasanaethau mân anhwylderau fferyllfeydd cymunedol.

Gofal yr Henoed	COTE	Mae gofal yr henoed yn golygu gofalu am gleifion hŷn; gwella gofal i bobl hŷn; heneiddio'n dda a chefnogi pobl sy'n byw ag eiddilwch; iechyd wrth heneiddio a gofalu.
Gofal Lliniarol, Gofal Diwedd Oes, a Phrofedigaeth	PEoLC	Mae'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes yn rhoi arweiniad a chymorth cenedlaethol, ac yn fforwm i ysgogi newid a goruchwyllo ymdrechion byrddau iechyd i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gofal diwedd oes yng Nghymru.
Gofal Nyrsio a Ariennir	FNC	Ceir cysylltiad agos rhwng FNC a chyllid gofal iechyd parhaus (GIP). Efallai bydd unigolion nad ydynt yn gymwys i gael cyllid GIP yn gymwys i gael FNC os ydynt yn byw mewn cartref gofal a bod angen gofal gan nyrs gofrestrdig arnynt. Os byddant yn gymwys, bydd FNC yn talu am elfen gofal nyrsio'r costau.
Gofal seiliedig ar werth		Mae gofal sy'n seiliedig ar werth yn ddull sydd wedi'i hen sefydlu o ymdrin â gofal iechyd yng Nghymru. Ei nod yw gwella canlyniadau cleifion drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n ymwneud â sicrhau'r canlyniadau ystyrllon sydd bwysicaf i gleifion.
Grŵp Cydweithredol Canolbarth Cymru		Sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth, sef Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal i ymateb i Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn y Canolbarth yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth.
Grŵp Cyngori ar y Cyd (JAG) ar Achredu Endosgopi Gastroberfeddol		Mae achrediad JAG yn system achredu a gydnabyddir yn genedlaethol, ac a ddefnyddir i sicrhau ansawdd gwasanaethau endosgopi gastroberfeddol.
Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr	GCTG	Mae Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) yn grwpiau partneriaeth strategol a sefydlwyd i gynllunio gwasanaethau ar sail anghenion a'u cydgysylltu ar gyfer y gymuned leol. Gan weithio fesul sir, mae GCTG yn comisiynu gwasanaethau i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth leol.
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc	CAMHS	Dyma'r term cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl i'r rhai sy'n iau na 18 oed. Mae hyn yn cynnwys ystod o wasanaethau mewngymorth, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau dwys, a gwasanaethau arbenigol.
Gwasanaethau Niwroddatblygiadol	ND	Y gangen o wasanaethau gofal iechyd sy'n rheoli cyflyrau niwroddatblygiadol. Y cyflyrau mwyaf cyffredin yw Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd.
Gweinyddu Meddyginiaeth gan Ofalwyr Di-dâl (CARIAD)		Mae'r pecyn CARIAD yn ymwneud â gofalwyr di-dâl sy'n gweinyddu meddyginiaeth o dan y croen yn ôl yr angen ar gyfer pum symptom cyffredin yn ystod dyddiau olaf bywyd. Bydd hyn yn galluogi'r gofalwr/gofalwyr i drin symptomau heb orfod dibynnu ar ymweliadau cartref aml gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
Gweithdrefn Weithredu Safonol	SOP	Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol yn gyfres o gyfarwyddiadau cam wrth gam sy'n rhoi arweiniad ar gyfer cyflawni tasgau penodol. Eu diben yw gwella effeithlonrwydd, ansawdd a chysondeb.

Gweithgareddau Bywyd Bob Dydd	ADL	Gweithgareddau bywyd bob dydd yw'r tasgau hanfodol y mae unigolion yn eu cyflawni fel rhan o'u harferion dyddiol, er enghraifft bwyta, yfed, ymolchi a gwisgo amdanynt. Mae'r gweithgareddau hyn yn hanfodol ar gyfer cynnal ansawdd bywyd da ac yn sail i'r asesiadau y mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn eu cynnal i bennu galluedd ac anghenion gweithredol unigolyn.
Gwella Cymru		Gwella Cymru yw'r gwasanaeth gwella ar gyfer GIG Cymru, a gynhelir gan lechyd Cyhoeddus Cymru.
Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf	GIRFT	Mae GIRFT yn rhaglen genedlaethol gan y GIG. Fe'i cynlluniwyd i wella triniaethau a gofal i gleifion trwy leihau amrywiadau na ellir eu cyfiawnhau, a defnyddio data meincnodi a chymhwyso arferion gorau darparwyr eraill sy'n perfformio'n dda.
Hwb Iechyd Menywod	WHH	Mae Hwb Iechyd Menywod Cymru yn rhan o fenter ehangach i wella gwasanaethau gofal iechyd i fenywod ledled y wlad. Bydd y canolfannau'n cael eu sefydlu ym mhob rhan o Gymru erbyn 2026 i helpu i gau'r bwch iechyd rhwng y rhywiau.
Hyd Arhosiad	LoS	Nifer y dyddiau y bydd claf mewnol yn eu treulio yn yr ysbyty.
Imiwnedd torfol		Mae'r term 'imiwnedd torfol' yn disgrifio'r angen i frechu canran benodol o'r boblogaeth er mwyn atal salwch heintus rhag lledaenu ymhlith pobl nad ydynt wedi'u brechu'n llawn. Ar ôl cyflawni imiwnedd torfol, mae clefyd yn diflannu'n raddol o'r boblogaeth.
Klebsiella		Mae Klebsiella yn facteria a all achosi heintiau difrifol, yn enwedig mewn ysbytai, ac weithiau, gall wrthsefyll gwrthfotigau cyffredin.
Llais		Llais yw'r corff cenedlaethol, annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau llais cryfach i bobl Cymru mewn perthynas â'u gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol		Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus megis y Bwrdd Iechyd gydweithio'n well ag eraill a mabwysiadu ymagwedd gydgyssylltiedig, hirdymor, gan ystyried effaith hirdymor penderfyniadau a chydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd. Hanfod y ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
Llwybr Iechyd Cymunedol		Mae Llwybr Iechyd Cymunedol, neu Llwybr Iechyd, yn borth sy'n cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol gofal iechyd er mwyn ceisio lleihau nifer y cyfeiriadau diangen am wasanaethau gofal eilaidd mewn ysbytai.
Mabwysiadu ac Addasu	A&A	Mae disgwyl i Fyrddau Iechyd ddysgu oddi wrth ei gilydd, fel bod y rhai sydd â mwy o waith i'w wneud o ran darparu gwasanaeth penodol yn mabwysiadu ac yn addasu arfer da gan y rhai sydd ag arferion gwell.
Meddyg Teulu â diddordeb arbennig	GPwSI	Gelwir y math hwn o feddyg yn Feddyg Teulu â Rolau Estynedig (GPwER) hefyd. Mae GPwSI yn feddyg teulu sy'n ymgymryd â rôl mewn maes arbenigol penodol sy'n ymestyn y tu hwnt i gwmpas arferol practis cyffredinol. Bydd meddygon teulu eraill yn aml yn cyfeirio cleifion at GPwSI yn hytrach na'u cyfeirio at arbenigwyr mewn ysbytai.

Meddygaeth Genomig	GM	Genomeg yw'r enw a roddir ar astudio genynnau cleifion unigol i sicrhau diagnosis cywirach neu gynharach. Rhagwelir y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i baru gwybodaeth enetig â'r meddyginiaethau a'r ymyriadau mwyaf effeithiol.
Meddygaeth Niwclear		Mae meddygaeth niwclear yn defnyddio deunydd ymbelydrol i wneud diagnosis o glefydau. Oherwydd bod angen defnyddio ymbelydredd, mae meddygaeth niwclear yn destun rheoleiddio ac arolygu deddfwriaethol llym.
Meithrin Gallu Cymunedau	BCC	Mae hwn yn un o'r Blaenoriaethau Gweinidogol sy'n cwmpasu nifer o feysydd.
Mesur Canlyniad a Adroddir gan Glaf	PROM	Mae PROM yn adnodd sy'n galluogi unigolion i adrodd am ganlyniadau gofal iechyd o'u safbwynt nhw. Yn aml, bydd yn cael ei ddefnyddio ar ôl triniaethau neu ymyriadau i asesu effaith y driniaeth neu'r ymyriad hwnnw.
Mesur Profiad a Adroddir gan Glaf	PREM	Mae PREM yn adnodd sy'n galluogi unigolion i adrodd am eu profiad gofal iechyd. Yn aml, bydd yn cael ei ddefnyddio ar ôl triniaethau neu ymyriadau, er mwyn asesu teimladau unigolion a gwella gwasanaethau.
Mesurau Arbennig		Mesurau arbennig, a elwir bellach yn uwchgyfeirio lefel 5, yw lefel uchaf yr uwchgyfeirio yn nhrefniadau fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru.
Mewnoli		Darparu capasiti ychwanegol gan y sector annibynnol ond gan ddefnyddio adeiladau BIPBC.
Model Gofal Sylfaenol i Gymru		Y model cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'n gwneud gwell defnydd o sgiliau pawb sy'n gweithio yn yr ardal leol, ac mae hynny'n grymuso unigolion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u dewisiadau eu hunain.
Model gweithredu		Mae cyfanswm rheoli ariannol yn cynrychioli targedau ariannol y mae'n rhaid eu cyflawni ac yn diffinio uchafswm y gwariant a ganiateir.
Model SWAN		Mae SWAN yn fodel galluogi sy'n cefnogi staff mewn meysydd clinigol i roi gofal personol ar ddiwedd oes ac yn ystod profedigaeth. Mae'r ethos yn ymwneud â grymuso staff a rhoi caniatâd iddynt fynd yr ail filltir er mwyn bodloni anghenion cleifion a theuluoedd.
Mynediad Amserol at Ofal	TAtC	Dyma bum blaenoriaeth strategol y mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd a sefydliad arall y GIG eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf.
Mwy Na Geiriau		Cynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau yw fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	MALIC	Dyma fesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, sy'n cynnwys 1,909 o ardaloedd wedi'u graddio o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig).
Nod Pedwarplyg		Mae'r Nod Pedwarplyg yn ddull a gydnabyddir yn rhyngwladol i ysgogi gwelliannau ym maes gofal iechyd. Pedair thema'r Nod Pedwarplyg, fel y'i dehonglir ar gyfer Cymru, yw gwella iechyd a lles y boblogaeth; gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o

		ansawdd gwell a mwy hygyrch; gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol uwch eu gwerth; a gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwdfrydig a chynaliadwy.
Nodau Llesiant		Y saith nod Llesiant a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Parhad Busnes		Trefniadau Parhad Busnes yw'r cynlluniau a roddir ar waith gan sefydliadau i sicrhau eu bod yn gallu ymateb a pharhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol pan fo digwyddiadau yn bygwth hyn, er enghraifft colli pŵer, methiannau TG a digwyddiadau mawr sy'n effeithio ar argaeledd staff.
Parodrwydd am Argyfwng, Gwytnwch ac Ymateb	EPRR	EPRR yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at y cynllunio a'r paratoi parhaus a wneir gan sefydliadau'r GIG er mwyn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i amrywiaeth o ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion, er enghraifft, brigiadau o achosion o glefydau heintus, tywydd eithafol, a damweiniau mawr.
Penderfynyddion Ehangach Iechyd		Mae penderfynyddion ehangach iechyd yn cyfeirio at ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n dylanwadu'n sylweddol ar les meddyliol a chorfforol pobl. Er enghraifft tlodi, tai gwael, diffyg cyflogaeth, a mynediad at fannau gwyrdd.
Prawf yn Syth	STT	Y dull o ofyn am brofion diagnostig (e.e. sganiau) cyn i glaf gael ei weld mewn adran cleifion allanol, fel y gellir gwneud penderfyniad ynghylch triniaeth pan gaiff ei weld.
Presgripsiynu Cymdeithasol	SP	Diffinnir presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru fel term ambarél sy'n disgrifio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cysylltu pobl ag asedau cymunedol lleol. Gall helpu i rymuso unigolion i adnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau eu hunain ac i gysylltu â'u cymunedau i gael cymorth gyda'u hiechyd a'u lles personol (WSSPR ac ICC, 2023).
Pwyllgor y Bwrdd		Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o Bwyllgorau Bwrdd. Mae gan bob un ohonynt feysydd cyfrifoldeb penodol, er enghraifft Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. Mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn craffu ac yn adrodd ar sicrwydd i'r Bwrdd.
Radiotherapi Abladol Stereotactig	SAbR	Mae Radiotherapi Abladol Stereotactig yn fath arbenigol iawn o driniaeth ymbelydredd â ffocws manwl gywir.
Rhaglen Archwilio Genedlaethol Sentinel Stroke	SSNAP	Mae Rhaglen Archwilio Genedaethol Sentinel Stroke (SSNAP) yn fenter i wella ansawdd. Mae SSNAP yn mesur ansawdd a threfniadaeth gofal i gleifion sydd wedi cael strôc.
Rhagnodi Annibynnol	IP	Rhagnodi meddyginiaeth sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol nad ydynt yn feddygon, ar ôl cael hyfforddiant ychwanegol.
Rhyddhau i Adfer yna Aesu	D2RA	Mae'r dull hwn yn helpu pobl i aros yn eu cartref neu gael eu rhyddhau o'r ysbyty cyn gynted â phosibl i wella yn eu cartref, cyn cael eu hasesu i ganfod a oes unrhyw anghenion parhaus.

Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth	RTT	Yn y GIG yng Nghymru, mae'r broses Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT) yn ymwneud â'r amser o'r adeg y caiff claf ei gyfeirio gan feddyg teulu hyd at yr adeg y mae'n cael triniaeth.
Sefydliad Gwella Gofal Iechyd	IHI	Mae'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd yn sefydliad dielw annibynnol a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n rhoi cyngor a chymorth ym maes gwyddor gwella gofal iechyd.
Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	IOSH	Mae'r IOSH yn sefydliad rhyngwladol sy'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym meysydd iechyd a diogelwch yn y gweithle, ac yn rhoi arweiniad iddynt.
Sefydliad sy'n Angori		Mae sefydliadau angori yn sefydliadau sector cyhoeddus y mae'n anorod bod eu cynaliadwyedd hirdymor ynghlwm â lles y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Mae gan sefydliadau sy'n angori gyfle sylweddol i gael effaith fawr ar eu cymunedau lleol drwy'r ffordd y maent yn mynd ati i gaffael, defnyddio'u hadeiladau a'u hystad, eu polisiau gweithlu, sut maent yn gweithio gyda'i gilydd, a'u heffaith amgylcheddol.
Set Ddata Sylfaenol	MDS	Offeryn adrodd chwarterol sy'n sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (neu'r Cynllun Gweithredu Blyneddol) ac sy'n cynnwys cyfres o ofnyion data gweithgarwch, gweithlu a chyllid.
Staffylococws Awrëws sy'n Gwrthsefyll Methisilin	MRSA	Mae MRSA yn fath o haint bacteriol a all achosi haint difrifol os yw'n mynd i mewn i'r corff. Gall fod yn gysylltiedig â gorddefnyddio gwrthfotigau.
Sylfeini'r Dyfodol	FFF	Mae 'Sylfeini'r Dyfodol' (<i>Adolygiad o'r Model Gweithredu gynt</i>) yn un o Bedair Rhaglen Newid Mawr BIPBC ac mae'n defnyddio model sy'n seiliedig ar 'Arwain Newid Sefydliadol ac Adnewyddu' gan Tushman ac O'Reilly. Er mwyn i'r sefydliad fod yn effeithiol, mae angen Model Gweithredu sy'n caniatáu'r gwaith o arwain a rheoli gwasanaethau o ddydd i ddydd, a gwella ddiwydd yn systematig. Mae hyn yn golygu rhoi pwysau cyfartal i strategaeth, pobl, diwylliant, prosesau a strwythurau.
Sylw yn Ôl Symptomau (SOS) ac Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf (PIFU)	SOS a PIFU	Mae Sylw yn Ôl Symptom (SOS) ac Apwyntiad Dilynol ar gais y Claf (PIFU) yn ddwy ffordd rydym yn darparu gofal i gleifion allanol. Mae'r gwasanaethau hyn yn grymuso cleifion i gymryd rheolaeth am eu hiechyd drwy roi dewis a hyblygrwydd iddynt wrth gyrchu ein gofal.
System		Cyfeirir ato weithiau fel 'system gyfan'. Defnyddir y term fel arfer i ddisgrifio dull cydweithredol sy'n cynnwys y partneriaid niferus sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal yn y ffordd orau. Ni all y Bwrdd Iechyd ddarparu'r gwasanaethau gorau os bydd yn gweithio'n unigol heb fanteisio ar gymorth gan eraill.
Systemau Rheoli Ansawdd	QMS	Mae System Rheoli Ansawdd effeithiol (QMS) yn ymwneud â llawer mwy na Gwella Ansawdd. Mae'n dod ag elfennau cydgyssylltiedig o gynllunio ansawdd, gwella ansawdd, rheoli ansawdd, a sicrhau ansawdd at ei gilydd i greu system ansawdd sy'n rhychwantu popeth a wneir yn y sefydliad.
Swyddfa Rheoli Portffolios a Rhaglenni	PMO	Strwythur cymorth o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n sicrhau bod gwyddor gwella a rheoli newid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau wrth reoli newid busnes. Weithiau, wrth gyflawni newid mawr,

		cyfeirir at hyn fel sicrhau ein bod yn “gwneud y gwaith cywir ac yn ei wneud yn y ffordd gywir”.
Templed cynllunio		Y templedi gorfodol a roddir i Fyrddau lechyd gan GIG Cymru y defnyddir i ddarparu manylion ychwanegol strwythuredig ar gyfer blaenoriaethau cynllun.
Tîm Gweithredol		Aelodau Gweithredol y Bwrdd unedol, dan arweiniad y Prif Weithredwr. Nhw yw swyddogion uchaf y sefydliad, ac maent yn gyfrifol am arwain y Bwrdd lechyd yn weithredol.
Tomograffeg Allyriadau Positron	PET	Mae sgan tomograffeg allyriadau positron (PET) yn fath modern o brawf delweddu meddygaeth niwclear sy'n darparu delweddau 3 dimensiwn manwl o du mewn y corff.
Tomograffeg Gyfrifiadurol	CT	Math o sgan yw tomograffeg gyfrifiadurol sy'n defnyddio pelydrau-x y tu mewn i diwb mawr y bydd claf yn gorwedd ynddo.
Trydydd sector		Mae'r 'trydydd sector' yn derm ambarél sy'n cwmpasu ystod o sefydliadau â strwythurau a dibenion gwahanol, nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus na'r sector preifat. Mae hyn yn cynnwys elusennau, cymdeithasau tai, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol a chwmniau cydweithredol.
Therapi gwrth ganser systemig	SACT	Mae'r term 'therapi gwrth ganser systemig' yn disgrifio ystod o driniaethau a ddefnyddir i dargedu canser, er enghraifft, cemotherapi.
Un Pwynt Mynediad	SPOA	Un Pwynt Mynediad (SPOA) yw'r pwynt mynediad ar gyfer cyfeiriadau at wasanaethau Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl arbenigol.
Uned Mân Anafiadau	MIU	Mae Unedau Mân Anafiadau'n cynnig gwasanaeth galw heibio sy'n gallu trin mân anafiadau heb fod angen ymweld ag Adran Achosion Brys. Mae gan y Bwrdd lechyd 9 MIU.
Y tu allan i oriau	OOH	Dyma wasanaeth meddyg teulu a gynigir i'r cyhoedd y tu allan i oriau arferol y feddygfa, ac y gellir ei gyrchu trwy GIG 111 Cymru. Mae'r cyfnod y Tu Allan i Oriau rhwng 6:30yh a 08:00yb yn ystod yr wythnos, a thrwy'r dydd ar benwythnosau ac ar wyliau banc.
Ymhellach, Yn Gyflymach		Mae 'Ymhellach, Yn Gyflymach' yn un o ffrydiau gwaith cynllun hirdymor Cymru iachach i gynyddu'r momentwm ym maes gofal yn y gymuned er mwyn lleihau'r pwysau ar ysbytai.
Ymyriadau Niferus, Llai Cymhleth	HVLC	Mae Ymyriadau Niferus, Llai Cymhleth yn ymyriadau llawfeddygol cyffredin, e.e. tynnu cataract, a thriniaethau syml i ailosod cymalau artiffisial, y gellir eu darparu'n fwy effeithlon trwy gytuno ar lwybrau safonol, rhannu capasiti ac adnoddau, a gwella'r defnydd o theatrau a chyfraddau achosion dydd.
Ysbyty Cyffredinol Dosbarth	YCD	Mae ysbyty cyffredinol dosbarth yn derm traddodiadol sy'n cyfeirio at ysbyty sy'n darparu gwasanaethau gofal eilaidd mewn ardal neu ddosbarth penodol. Yng Ngogledd Cymru, mae gennym dri ysbyty y gellir eu hystyried yn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam.

